



Law Commission

Reforming the law

Comisiwn y Gyfraith

Diwygio'r gyfraith

Dulliau Angladdol Newydd Adroddiad Terfynol a Biliau Drafft



Comisiwn y Gyfraith Rhif 428

Dulliau Angladdol Newydd

Adroddiad Terfynol a Biliau Drafft

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 3(2) Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965; a gyflwynwyd i Senedd Cymru

Gorchymynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin iddo gael ei argraffu ar 3 Mehefin 2026



© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i <https://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/>.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint berthnasol i'w defnyddio.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn <https://lawcom.gov.uk/project/new-funeraary-methods/>.

ISBN 978-1-5286-6498-1

E03607884 06/26

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

Comisiwn y Gyfraith

Sefydlwyd Comisiwn y Gyfraith gan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 er mwyn hyrwyddo diwygio'r gyfraith.

Comisiynwyr y Gyfraith yw:

Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Fraser, Cadeirydd

Yr Athro Penney Lewis

Yr Athro Solène Rowan

Yr Athro Lisa Webley

Yr Athro Alison Young

Prif Weithredwyr ar y Cyd Comisiwn y Gyfraith yw Joanna Otterburn a Stephanie Hack.

Cyfeiriad Comisiwn y Gyfraith yw 1st Floor, Tower, 52 Queen Anne's Gate, London, SW1H 9AG.

Cytunwyd ar delerau'r adroddiad hwn ar 5 Mawrth 2026.

Mae testun yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Comisiwn y Gyfraith yn <https://lawcom.gov.uk/adnoddau-cymraeg-2/>.

Cynnwys

GEIRFA	VIII
PENNOD 1: CYFLWYNIAD	1
TROSOLWG	1
Pwrpas yr Adroddiad hwn	1
Fframwaith ar gyfer rheoleiddio dulliau angladdol newydd	1
Deunydd ychwanegol a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Adroddiad hwn	2
EIN PROSIECT	2
Cwmpas a nodau	2
Ymgynghoriad	3
DATGANOLI I GYMRU	4
EIN HARGYMHELLION	5
EIN BILIAU DRAFFT	6
Y term "dull angladdol modern"	6
EFFAITH EIN DIWYGIADAU	7
TERMINOLEG	7
DOLENNI GWE A CHYFEIRIADAU	7
CYDNABYDDIAETH	7
PENNOD 2: TROSOLWG O'R FFRAMWAITH RHEOLEIDDIO	9
CYFLWYNIAD	9
DIFFINIO A RHEOLEIDDIO DULLIAU ANGLADDOL NEWYDD AR WAHÂN I DDULLIAU ANGLADDOL SYDD WEDI ENNILL EU PLWYF	9
Cynnig dros dro yn y Papur Ymgynghori	9
Ymatebion i'r ymgynghoriad	10
Trafodaeth ac argymhelliad	11
DIFFINIAD O DDULL ANGLADDOL NEWYDD ("MODERN")	12
Cynnig dros dro ar gyfer ystyr "dull angladdol newydd"	12
Ymatebion i'r ymgynghoriad	14
Trafodaeth ac argymhelliad	14
PŴER I WNEUD RHEOLIADAU	18
Cynnig dros dro ar bŵer i wneud rheoliadau	18
Ymatebion i'r ymgynghoriad	18
Trafodaeth ac argymhelliad	20
TRWYDDEDU A GORUCHWYLIO	21
Ymgynghori ar drwyddedu	21
Ymatebion i'r ymgynghoriad	22
Trafodaeth	24

PENNOD 3: EGWYDDORION SY’N SAIL I REOLEIDDIO DULLIAU ANGLADDOL NEWYDD	29
CYFLWYNIAD	29
YMGYNGHORIAD AR YR EGWYDDORION SY’N SAIL I REOLEIDDIO DULLIAU ANGLADDOL NEWYDD	29
YMATEBION I’R YMGYNGHORIAD	30
Cefnogaeth i nodi egwyddorion mewn deddfwriaeth sylfaenol	30
Sylwadau cyffredinol ar egwyddorion	30
Gwarchod yr amgylchedd	31
Diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd	31
Diogelu urddas dynol	31
Awgrymiadau eraill	33
TRAFODAETH	33
Gwarchod yr amgylchedd a diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd	33
Urddas	34
Casgliad ar y tair egwyddor	36
Awgrymiadau eraill gan ymgynghoreion	37
PENNOD 4: Y PŴER RHEOLEIDDIO	40
CYFLWYNIAD	40
COFRESTRU DEFNYDD O DDULLIAU ANGLADDOL NEWYDD	41
Cefndir	41
Cynnig dros dro wrth gofrestru	42
Ymatebion i’r ymgynghoriad	42
Trafodaeth ac argymhellion	43
CWMPAS Y PŴER RHEOLEIDDIO	48
Cynnig dros dro ac ymgynghoriad ar ehangder y pŵer i gyflwyno rheoliadau	48
Ymatebion i’r ymgynghoriad	50
Trafodaeth ac argymhellion	50
Casgliad ar ehangder y pŵer	53
CRAFFU SENEDDOL	56
Gweithdrefnau posibl ar gyfer offerynnau statudol	56
Rheoliadau am ddulliau angladdol newydd unigol	57
PENNOD 5: STATWS DULLIAU ANGLADDOL NEWYDD SYDD HEB EU RHEOLEIDDIO	61
CYFLWYNIAD	61
GWAHARDD DEFNYDDIO DULLIAU ANGLADDOL NAD YDYNT YN CAEL EU RHEOLEIDDIO	61
Cynnig dros dro ar wahardd defnyddio dulliau angladdol newydd nad ydynt yn cael eu rheoleiddio	61
Ymatebion i’r ymgynghoriad	62
Trafodaeth ac argymhelliad	62

TREIALON DULLIAU ANGLADDOL NEWYDD	63
Ymgynghoriad ar bŵer i ddarparu ar gyfer treialon	63
Ymatebion i'r ymgynghoriad	64
Trafodaeth ac argymhelliad	65
PENNOD 6: TROSEDDAU	72
CYFLWYNIAD	72
Elfennau trosedd	72
Cefndir: troseddau perthnasol	72
Dulliau angladdol newydd wedi'u rheoleiddio	73
Dulliau angladdol newydd sydd heb eu rheoleiddio	74
TROSEDD YN SGIL GWNEUD SYLWADAU ANWIR ER MWYN CAEL DEFNYDDIO DULL ANGLADDOL NEWYDD SY'N CAEL EI REOLEIDDIO	74
Cynnig dros dro yn y Papur Ymgynghori	74
Ymatebion i'r ymgynghoriad	75
Trafodaeth ac argymhelliad	76
TROSEDD YN SGIL TORRI RHEOLIADAU AM DDULLIAU ANGLADDOL NEWYDD UNIGOL	77
Ymgynghoriad	77
Ymatebion i'r ymgynghoriad	78
Trafodaeth ac argymhelliad	79
TROSEDD YN SGIL DEFNYDDIO DULL ANGLADDOL NEWYDD NAD YW'N CAEL EI REOLEIDDIO	85
Ymgynghoriad ar drosedd newydd o ddefnyddio dulliau angladdol newydd sydd heb eu rheoleiddio	85
Ymatebion i'r ymgynghoriad	86
Trafodaeth ac argymhellion	89
PENNOD 7: DIWYGIADAU I DDEDDFWRIAETHAU PRESENNOL	93
CYFLWYNIAD	93
COFRESTRU MARWOLAETH	93
Cynnig dros dro o ran cofrestru marwolaethau	93
Ymatebion i'r ymgynghoriad	94
Trafodaeth ac argymhelliad	94
IECHYD Y CYHOEDD	96
Adran 45C	96
Adran 45H	97
Adran 46	97
Adran 47	98
PLANT SY'N DERBYN GOFAL GAN AWDURDOD LLEOL	102
Deddf Plant 1989	102
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	103
DARPARU A HWYLUSO SEILWAITH	104
Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980	104

Deddf Trefi Newydd 1981	104
Deddf Tai ac Adfywio 2008	105
Deddf Lleoliaeth 2011	105
PŴER I DDIWYGIO DEDDFWRIAETH SYLFAENOL	106
TREULIAU ANGLADD	107
PENNOD 8: ARGYMHELLION	109
ATODIAD 1: CYLCH GORCHWYL	117
ATODIAD 2: BIL DRAFFT AR GYFER LLOEGR	121
ATODIAD 3: BIL DRAFFT AR GYFER CYMRU	138

Geirfa

Anglicanaidd: cangen o Gristnogaeth a ddatblygodd yn dilyn y torri oddi wrth Eglwys Gatholig Rufeinig **Eglwys Loegr** yn ystod y Diwygiad yn yr 16eg ganrif. Mae'n cynnwys **Yr Eglwys yng Nghymru**.

Amlogfa: adeilad sydd ag offer i losgi gweddillion dynol.

Amlogiad: llosgi gweddillion dynol.

Awdurdod amlogiadau: unrhyw berson sydd wedi agor **amlogfa**. Gall **awdurdod claddedigaethau** fod yn awdurdod amlogiadau.

Awdurdod claddedigaethau: **awdurdod lleol** sydd wedi'i rymuso gan adran 214 Deddf Llywodraeth Leol 1972 i weithredu mynwent.

Awdurdod lleol: y corff llywodraeth leol ar gyfer ardal weinyddol benodol.

Claddfa: tir sy'n cael, neu a oedd yn cael, ei ddefnyddio'n bennaf i gladdu gweddillion dynol. Mae hyn yn cynnwys mynwentydd **Eglwys Loegr**, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

Claddu yn y môr: **dull angladdol** lle mae gweddillion dynol yn cael eu cyflwyno i'r môr fel man gorffwys terfynol.

Cofrestrydd: unigolyn a benodir gan **awdurdod lleol** i gofnodi gwybodaeth am enedigaethau, marwolaethau, marw-enedigaethau, priodasau a phartneriaethau sifil ar y cofrestrau perthnasol. Maent yn atebol i'r Cofrestrydd Cyffredinol am agweddau technegol eu gwaith.

Compostio dynol: **dull angladdol newydd** sy'n defnyddio rheolaeth dros yr amgylchedd mewn cynhwysydd wedi'i selio i gyflymu'r broses o ddatdelfennu'r corff dynol yn bridd.

Crwner: barnwr arbenigol, a benodir gan awdurdodau lleol, sy'n ymchwilio ac yn egluro marwolaethau sy'n dreisgar neu'n annaturiol, lle nad yw achos y farwolaeth yn hysbys, neu lle bu farw'r person ymadawedig tra'r oedd yn cael ei gadw gan y wladwriaeth.

Datgladdu: symud gweddillion dynol o fan claddu. Gellir cyfeirio ato hefyd fel datgladdiad.

Dull angladdol modern: y term rydym wedi'i ddefnyddio am **ddull angladdol newydd** yn ein deddfwriaeth ddrafft.

Dull angladdol newydd: proses, ar wahân i gladdu, **amlogi** neu **gladdu yn y môr**, sy'n dadelfennu corff person ymadawedig. Ei bwrpas yw cael gwared ar gorff person ymadawedig (ac nid, er enghraifft, at ddibenion cadw cyrff neu ymchwilio iddynt).

Dull angladdol: dull o waredu corff person ymadawedig. Gall hyn fod yn gladdedigaeth, **amlogiad**, **claddu yn y môr** neu **ddull angladdol newydd**.

Eglwys Loegr: yr eglwys **Anglicanaidd** sefydledig yn Lloegr a Thiriogaethau Dibynnol ar y Goron.

Hydrolysis alcalïaidd: **dull angladdol newydd** sy'n defnyddio dŵr, cemegion alcalïaidd, gwres a gwasgedd i ddadelfennu corff person ymadawedig yn hylif a darnau o asgwrn.

Is-ddeddfwriaeth: cyfraith sy'n cael ei chreu gan weinidogion (neu gyrff eraill) o dan bwerau a roddir iddynt gan Ddeddf Senedd y Deyrnas Unedig neu Ddeddf y **Senedd**. Yn yr Adroddiad hwn mae'r term yn cynnwys offeryn statudol Cymreig o fewn ystyr adran 37A o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

Mynwent breifat: **claddfa** yng Nghymru neu Loegr nad yw'n eiddo i **awdurdod lleol**, yr **Eglwys yng Nghymru** nac **Eglwys Loegr**. Mae hyn yn cynnwys claddfeydd sy'n eiddo i grwpiau crefyddol eraill, cwmnïau ac elusennau.

Mynwent: y term a ddefnyddir am **gladdfa** a weithredir gan **awdurdod lleol** yn Neddf Llywodraeth Leol 1972, ac a ddefnyddir hefyd yn Neddfau Senedd y Deyrnas Unedig ar gyfer sefydlu nifer o gladdfeydd preifat.

Offeryn statudol: ffurf ar is-ddeddfwriaeth.

Y Senedd: Senedd Cymru, a elwir yn Saesneg yn Welsh Parliament, deddfwrfa ddatganoledig Cymru.

Pennod 1: Cyflwyniad

TROSOLWG

Pwrpas yr Adroddiad hwn

- 1.1 Mae'r Adroddiad hwn yn nodi casgliad prosiect Comisiwn y Gyfraith ar Ddulliau Angladdol Newydd yng Nghymru a Lloegr, sy'n rhan o brosiect ehangach ar feysydd cysylltiedig Claddu, Amlosgi a Dulliau Angladdol Newydd. Mae'r Adroddiad yn cynnwys argymhellion i Lywodraeth y DU (yng nghyswllt Lloegr) a Llywodraeth Cymru (yng nghyswllt Cymru).
- 1.2 Ochr yn ochr â'r Adroddiad hwn, rydym yn cyhoeddi dau Fil drafft, un ar gyfer Lloegr ac un ar gyfer Cymru. Os caiff ein hargymhellion eu bwrw ymlaen, byddant yn arwain at fframwaith newydd, a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol, er mwyn gallu rheoleiddio dulliau angladdol newydd. Nid ydym yn ystyried a ddylid cymeradwyo unrhyw ddulliau angladdol newydd penodol. Bydd hwnnw'n gwestiwn i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, os byddant yn derbyn ein hargymhellion a bod y Llywodraeth a'r Senedd yn penderfynu deddfu.

Fframwaith ar gyfer rheoleiddio dulliau angladdol newydd

- 1.3 Mae claddu ac amlosgi yn ddulliau angladdol sydd wedi hen ennill eu plwyf. Mae hanes hir i gladdu yn y môr hefyd, er nad yw'n cael ei ddefnyddio'n gyffredin yn yr awdurdodaeth hon erbyn hyn.
- 1.4 Mae claddedigaeth yn berthnasol i glytwaith o ddeddfwriaeth, gan gynnwys nifer o Ddeddfau Claddu sy'n dyddio'n ôl i'r 19eg ganrif,¹ sy'n darparu ar gyfer gwahanol agweddau ar y broses gladdu. Mae amlosgi'n cael ei reoleiddio'n bennaf gan Ddeddf Amlosgi 1902, Deddf Amlosgi 1952 a Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008.² Nid yw claddu yn y môr, sydd y tu allan i gwmpas ein prosiect, wedi'i ddiffinio'n benodol mewn deddfwriaeth ond mae'n cael ei deall fel proses lle mae gweddillion dynol yn cael eu "claddu yn y môr fel man gorffwys terfynol".³ Mae claddedigaethau yn y môr wedi'u trwyddedu o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.
- 1.5 Mae dulliau angladdol newydd yn ffyrdd o ddelio â chyrrff pobl sydd wedi marw sy'n ddewisiadau amgen posibl i'r dulliau sefydledig o gladdu, amlosgi a chladdu yn y môr. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw reoleiddio penodol ar ddulliau angladdol newydd yng Nghymru na Lloegr. Nid yw defnyddio dulliau angladdol newydd wedi'i wahardd yn

¹ Gan gynnwys Deddf Claddu 1852, Deddf Claddu 1853 a Deddf Claddu 1857.

² OS 2008 Rhif 2841.

³ Gweler y Sefydliad Rheoli Morol, *Guidance: How to arrange a burial at sea in the UK marine area* (15 Tachwedd 2017) <https://www.gov.uk/guidance/how-to-get-a-licence-for-a-burial-at-sea-in-england>.

benodol o ran y gyfraith, er y gall deddfwriaeth ynghylch cofrestru marwolaethau gael yr effaith o'i wahardd.⁴

- 1.6 Mae dau ddull angladdol newydd, y cyfeiriwyd atynt yn ein Papur Ymgynghori fel hydrolysis alcalïaidd a chompostio dynol, wedi cael eu datblygu ac maent yn cael eu defnyddio mewn awdurdodaethau eraill. Gall dulliau angladdol newydd eraill ddod i'r amlwg fel dewisiadau amgen ymarferol yn y dyfodol. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oes unrhyw ddulliau angladdol newydd yn cael eu defnyddio yng Nghymru na Lloegr. Defnyddiwyd hydrolysis alcalïaidd fel dull angladdol ar gyfer cyrff pum person ymadawedig yn 2019, fel rhan o astudiaeth a hwyluswyd gan Brifysgolion Middlesex a Sheffield.⁵ Er ein bod yn deall bod ymchwil yn mynd rhagddi i gompostio dynol, nid yw'r broses wedi cael ei defnyddio ar gyfer cyrff dynol yng Nghymru na Lloegr.
- 1.7 Ein bwriad yw sicrhau y bydd y fframwaith deddfwriaethol i alluogi rheoleiddio dulliau angladdol newydd unigol yn y dyfodol yn cynnwys mesurau diogelu a hefyd yn caniatáu rhoi rhagor o fesurau diogelu ar waith yn y dyfodol, gyda'r nod o sicrhau bod y dulliau hyn yn cael eu cyflawni'n briodol. Bydd yn galluogi darparwyr unigol dulliau angladdol newydd i weithredu'n ddiogel ac yn gydwybodol a chynnig mwy o ddewis o ddulliau angladdol i aelodau'r cyhoedd.

Deunydd ychwanegol a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Adroddiad hwn

- 1.8 Yn ogystal â'r Adroddiad hwn a'r Biliau drafft cysylltiedig,⁶ rydym yn cyhoeddi'r dogfennau canlynol.
- (1) Crynodeb o'r Adroddiad.
 - (2) Fersiwn hawdd ei darllen o'r crynodeb.
 - (3) Asesiad effaith.
- 1.9 Rydym yn bwriadu cyhoeddi dogfen sy'n cynnwys yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad maes o law (gan sicrhau parch at gyfrinachedd pan ofynnir am hynny).

EIN PROSIECT

Cwmpas a nodau

- 1.10 Mae'r Adroddiad hwn yn rhan o'n prosiect ar Gladdu, Amlosgi a Dulliau Angladdol Newydd. Mae'r prosiect yn rhan o'n 13eg Rhaglen Diwygio'r Gyfraith, a gyhoeddwyd yn 2017. Mae'r prosiect cyffredinol yn cynnwys tri is-brosiect cysylltiedig:

⁴ I gael rhagor o fanylion am ddeddfwriaeth bresennol yng Nghymru a Lloegr a sut mae'n berthnasol i ddulliau angladdol newydd, gweler: Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 Pennod 3.

⁵ G Robinson, "Alkaline Hydrolysis in the United Kingdom" yn R McManus (gol.) *The Sustainable Dead* (2023) t 89. Gweler hefyd Resomation, *Successful Study of Water Cremation completed for Yorkshire Water* (24 Mawrth 2020) <https://resomation.com/news/successful-study-of-water-cremation-completed-for-yorkshire-water/>.

⁶ Gweler Atodiadau 2 a 3.

- (1) *Claddu ac Amlosgi*, y gwnaethom gyhoeddi ein Hadroddiad arno ym mis Mawrth 2026;⁷
- (2) *Dulliau Angladdol Newydd*, y mae'r Adroddiad hwn yn eu crynhoi;
- (3) *Hawliau a Rhwymedigaethau sy'n Ymwneud â Dulliau Angladdol, Angladdau a Gweddillion*, a ddechreuodd ym mis Mawrth 2026, ac a fydd yn parhau tan ddiwedd 2027. Bydd yn mynd i'r afael, ymhlith pethau eraill, â'r cwestiwn a ddylai rhywun allu gwneud penderfyniadau rhwymol ynghylch yr hyn sy'n digwydd i'w gorff ar ôl iddo farw; sut y dylid datrys anghydfodau ynghylch materion o'r fath; statws cyfreithiol gweddillion dynol; a diwygiadau i'r gyfraith ar angladdau iechyd y cyhoedd, sef y rhai a gynhelir gan gyngor lleol lle mae'n ymddangos na fydd neb arall yn gwneud trefniadau.⁸

1.11 Ar ôl cwblhau ein gwaith ar y trydydd is-brosiect, byddwn yn cyhoeddi deddfwriaeth ddrafft a fydd yn gweithredu ein hargymhellion ar Gladdu ac Amlosgi, yn ogystal â'r rheini ar Hawliau a Rhwymedigaethau sy'n ymwneud â Dulliau Angladdol, Angladdau a Gweddillion.

1.12 Mae cylch gorchwyl llawn y tri is-brosiect wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 yr Adroddiad hwn.

1.13 Mae rhai materion y tu allan i gwmpas ein prosiect yn benodol. Mae'r rhain yn cynnwys ardystio a chofrestru marwolaethau (ac eithrio lle bo hynny'n uniongyrchol berthnasol i dulliau angladdol newydd), rheoleiddio trefnwyr angladdau, a chyfraith cynllunio ac amgylcheddol. Ceir rhestr lawn o'r eithriadau yn y cylch gorchwyl.

Ymgynghoriad

1.14 Gwnaethom gyhoeddi ein Papur Ymgynghori ar gyfer yr is-brosiect Dulliau Angladdol Newydd ar 4 Mehefin 2025.⁹ Fe wnaeth ein cyfnod ymgynghori bara tan 4 Medi 2025. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori yn Leeds a Llundain, a dau ddigwyddiad ar-lein.

1.15 Derbyniasom 124 o ymatebion i'n hymgyngoriad. Roedd y rhain yn cynnwys ymatebion gan gymunedau crefyddol, awdurdodau lleol, cyrff diwydiant, darpar weithredwyr dulliau angladdol newydd, trefnwyr angladdau, gweinyddion, cyfreithwyr ac academyddion, yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd a oedd yn ymateb yn bersonol.

1.16 Rydym wedi elwa o drafodaethau â rhanddeiliaid drwy gydol y prosiect hwn ac rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu, gan gynnwys y rheini a ddaeth i ddigwyddiadau ymgynghori ac a gyflwynodd ymatebion i'r ymgynghoriad.

1.17 Yn yr Adroddiad hwn, rydym yn canolbwyntio ar y pwyntiau hynny a wnaethpwyd gan ymgynghoreion sydd, yn ein barn ni, yn angenrheidiol i egluro sut rydym wedi cyrraedd ein hargymhellion polisi terfynol. Ochr yn ochr â'r Adroddiad hwn, rydym yn cyhoeddi

⁷ Claddu ac Amlosgi (2026) Comisiwn y Gyfraith Rhif 425.

⁸ Mae'r ddyletswydd i drefnu angladdau iechyd y cyhoedd wedi'i chynnwys yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, adran 46.

⁹ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272.

dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Maes o law, byddwn hefyd yn cyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gawsom, gan sicrhau parch at gyfrinachedd pan fydd ymgynghoreion yn gofyn am hynny.

DATGANOLI I GYMRU

- 1.18 Roedd y gyfraith ar gladdu ac amlosgi wedi'i chynnwys yn benodol yn y meysydd yr oedd gan Gynulliad Cymru gymhwysedd deddfwriaethol drostynt yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y cafodd ei phasio'n wreiddiol.¹⁰ Ar ôl symud i fodel cadw pwerau,¹¹ ni chafodd claddu ac amlosgi, na materion y gellid eu defnyddio i gyfeirio at ddulliau angladdol newydd, eu cadw'n ôl i Senedd y DU. Mae hynny'n golygu bod gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu yng nghyswllt y meysydd cyfreithiol hyn.¹² Felly, byddai diwygio deddfwriaeth sylfaenol i reoleiddio dulliau angladdol newydd yng Nghymru yn gofyn am naill ai Ddeddf gan y Senedd, neu gynnig cydsyniad deddfwriaethol¹³ gan y Senedd pe bai Senedd San Steffan yn deddfu ar gyfer Cymru.
- 1.19 Mae dau Fil drafft yn cyd-fynd â'r Adroddiad hwn: un yn cyflwyno darpariaeth ar gyfer Lloegr (y Bil ar gyfer Lloegr, yn Atodiad 2) a fyddai'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth y DU a'i gyflwyno yn Senedd y DU, ac un yn cyflwyno darpariaeth ar gyfer Cymru (y Bil ar gyfer Cymru, yn Atodiad 3) a fyddai'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru a'i gyflwyno yn y Senedd.
- 1.20 Mae rhai materion sy'n gyd-destun perthnasol i'r adolygiad hwn wedi'u cadw'n ôl i Senedd y DU, gan gynnwys cofrestru marwolaethau. Ym Mhennod 7, rydym yn gwneud argymhelliad ynghylch diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol ar gofrestru marwolaethau, er mwyn gallu cofrestru marwolaethau lle mae dull angladdol newydd i'w ddefnyddio. Mae'r gwelliannau o ran y gyfraith yng Nghymru wedi'u nodi yn y Bil drafft ar gyfer Cymru.
- 1.21 Mae paragraff 1(1) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi na all Deddf gan Senedd Cymru addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl (sy'n cynnwys cofrestru marwolaethau). Fodd bynnag, mae paragraff 2(1) o Atodlen 7B yn datgan nad yw paragraff 1 yn gymwys i ddarpariaeth:
- (a) yn ategol i ddarpariaeth a wneir (boed hynny gan y Ddeddf dan sylw neu gan ddeddfiad arall) nad yw'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl, a

¹⁰ Deddf Llywodraeth Cymru 2006, Atodlen 7, pwynt 1, para 6, fel y cafodd ei phasio'n wreiddiol.

¹¹ Lle mae gan y Senedd y pŵer i ddeddfu ar unrhyw fater nad yw wedi'i gadw'n benodol mewn statud i Senedd y DU.

¹² Ychydig iawn o gyfle y mae'r llysoedd wedi'i gael i graffu ar fodel datganoli Cymru ar ôl 2017. Fodd bynnag, o ran y model tebyg yn yr Alban, canfu'r Goruchaf Lys "bod yn rhaid ystyried bod unrhyw beth nad yw'n berthnasol i'r materion a restrir yno [yn yr Atodlen sy'n nodi materion a gedwir yn ôl] o fewn cymhwysedd": *Imperial Tobacco v The Lord Advocate (Yr Alban)* [2012] UKSC 61 yn [29]. Mae'n ymddangos hefyd bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod claddu ac amlosgi wedi'u datganoli, gweler: Llywodraeth Cymru, Cyfraith Cymru, *Y Gyfraith Eglwysig a'r Eglwys yng Nghymru* (16 Mawrth 2021) <https://cyfraith.llyw.cymru/y-gyfraith-eglwysig-ar-eglwys-yng-nghymru>.

¹³ Cynnig a basiwyd gan ddeddfwrfa ddatganoledig i ddangos ei bod yn fodlon i Senedd y DU basio cyfraith ar fater datganoledig.

- (b) heb effaith ar faterion a gedwir na'r hyn sy'n angenrheidiol i gyflawni pwrpas y ddarpariaeth honno.

1.22 Er mai mater i'r ddwy Lywodraeth yw hyn, mae'n ymddangos i ni fod y diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth cofrestru marwolaethau yr ydym yn eu hargymell ym Mhennod 7 o'r Adroddiad hwn yn berthnasol i'r eithriad hwn. Felly, mae'r gwelliannau'n rhan o'r Bil drafft i Gymru. Fodd bynnag, mater i Lywodraeth Cymru yw penderfynu a ellir cynnwys yr addasiadau hyn mewn unrhyw Fil yn y dyfodol.

EIN HARGYMHELLION

1.23 Yn yr Adroddiad hwn, rydym yn gwneud argymhellion ynghylch cynnwys deddfwriaeth sylfaenol newydd a fydd yn galluogi dulliau angladdol newydd unigol i gael eu rheoleiddio.

1.24 Ym Mhennod 2, rydym yn ystyried sail y fframwaith. Rydym yn argymell y dylai dulliau angladdol newydd gael eu diffinio a'u rheoleiddio ar wahân i'r dulliau angladdol presennol. Rydym hefyd yn argymell y dylai deddfwriaeth sylfaenol gynnwys pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth, ar ffurf rheoliadau, gan gymeradwyo defnyddio dulliau angladdol newydd unigol a nodi sut y dylid eu cyflawni. Yn ein Papur Ymgynghori, gofynnwyd a ddylai trwyddedu fod yn rhan o reoleiddio dulliau angladdol newydd. Mae sawl dadl yn erbyn trwyddedu, ac rydym yn dod i'r casgliad y gellir sicrhau goruchwyliaeth briodol hebdo. Felly, nid ydym yn argymell y dylid creu system drwyddedu.

1.25 Yn ein Papur Ymgynghori, fe wnaethom gynnig dros dro bod yn rhaid i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ystyried tair egwyddor wrth wneud rheoliadau ynghylch dulliau angladdol newydd. Y rhain oedd: gwarchod yr amgylchedd; diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd; a chadw urddas dynol. Roeddem hefyd wedi gofyn am farn ar unrhyw egwyddorion eraill y dylai fod yn ofynnol i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru eu hystyried. Ym Mhennod 3, rydym yn argymell y dylid cynnwys y tair egwyddor arfaethedig yn y Biliau drafft ac yn ystyried ymhellach sut y dylid mynegi'r egwyddor sy'n ymwneud ag urddas.

1.26 Ym Mhennod 4, rydym yn edrych yn fanylach ar y pŵer i wneud rheoliadau. Rydym yn gwneud argymhellion ynghylch materion y mae'n rhaid eu cynnwys, neu y gellir eu cynnwys, yn y rheoliadau. Mae'r rhain yn cynnwys argymhelliad bod yn rhaid i reoliadau gynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol cofrestru pob defnydd o ddull angladdol newydd ac sy'n nodi sut a chan bwy y mae'n rhaid i'r cofrestrriad hwn gael ei gyflawni. Rydym hefyd yn gwneud argymhelliad am y gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno'r rheoliadau, er mwyn sicrhau'r lefel briodol o reolaeth seneddol.

1.27 Ym Mhennod 5, rydym yn ystyried statws cyfreithiol dulliau angladdol newydd sydd heb eu rheoleiddio. Rydym yn argymell y dylid gwahardd defnyddio dulliau o'r fath. Rydym hefyd yn argymell y gellir gwneud rheoliadau, gan alluogi treialu dulliau angladdol newydd.

1.28 Rydym yn ystyried troseddau ym Mhennod 6. Rydym yn argymell y dylai fod yn drosedd anonest gwneud sylwadau anwir i gaffael defnyddio dull angladdol newydd; mae hyn yn adlewyrchu trosedd gyfatebol, bresennol sy'n ymwneud ag amlosgi. Rydym hefyd yn argymell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael

y pŵer i greu troseddau newydd mewn is-ddeddfwriaeth yn sgil torri rheoliadau am dulliau angladdol newydd unigol. Rydym yn argymhell bod cosb uchaf am droseddau o'r fath yn cael ei nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol. Yn olaf, rydym yn argymhell y dylai fod yn drosedd defnyddio dull angladdol newydd nad yw wedi cael ei reoleiddio.

- 1.29 Mae Pennod 7 yn cynnwys ein hargymhellion am ddiwygiadau i ddeddfwriaeth bresennol. Rydym yn argymhell diwygiadau penodol i ddeddfwriaeth, lle bo'r rhain yn berthnasol i bob dull angladdol newydd. Mae hyn yn cynnwys argymhellion ynghylch cofrestru marwolaethau a deddfwriaeth iechyd y cyhoedd. Rydym hefyd yn argymhell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael y pŵer i wneud diwygiadau pellach, mewn rheoliadau, i ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chladdu ac amlosgi, er mwyn cyflwyno darpariaeth ar gyfer dulliau angladdol newydd unigol.

EIN BILIAU DRAFFT

- 1.30 Fel y soniwyd ym mharagraff 1.19 uchod, rydym wedi llunio dau Fil drafft (un ar gyfer Lloegr ac un ar gyfer Cymru), a fydd yn rhoi ein hargymhellion ar waith. Drwy gydol yr Adroddiad hwn, rydym yn egluro'n fanwl sut mae'r Biliau drafft yn gweithredu pob un o'n hargymhellion. Mae nodiadau esboniadol ar gael yn <https://lawcom.gov.uk/project/new-funerary-methods/>.
- 1.31 Mae gan Filiau Senedd y DU gymalau, ac mae gan Filiau'r Senedd adrannau drafft. Rydym felly'n cyfeirio at gymalau yn y Bil drafft ar gyfer Lloegr ac adrannau yn y Bil drafft ar gyfer Cymru.
- 1.32 Yn neddfwriaeth y DU, ceir rhagdybiaeth nad yw Deddf yn rhwymo'r Goron,¹⁴ er y gwneir darpariaeth yn aml i ddisodli'r rhagdybiaeth. Ar gyfer Deddfau'r Senedd, mae'r rhagdybiaeth i'r gwrthwyneb, felly mae'r Deddfau hyn yn rhwymo'r Goron oni wneir darpariaeth i'r gwrthwyneb.¹⁵ Nid ydym wedi gwneud unrhyw ddarpariaeth yng nghyswllt cymhwyso'r Goron yn y naill Fil drafft na'r llall. O ganlyniad, nid yw'r Bil drafft ar gyfer Lloegr yn rhwymo'r Goron tra bo'r Bil drafft ar gyfer Cymru yn rhwymo'r Goron. Nid canlyniad penderfyniad polisi bwriadol yw hyn; mae'n adlewyrchu'r ffaith mai mater i Lywodraeth y DU a Gweinidogion Cymru fydd penderfynu a ddylid cyflwyno darpariaeth sy'n disodli'r rhagdybiaethau ai peidio.

Y term “dull angladdol modern”

- 1.33 Enw'r Biliau drafft yw'r Bil Dulliau Angladdol Modern (Lloegr) a'r Bil Dulliau Angladdol Modern (Cymru). Fel rydym yn egluro ym Mhennod 2, mae'r Biliau drafft yn cynnwys diffiniadau o “dull angladdol modern”.
- 1.34 Rydym wedi defnyddio'r gair “modern” yn y Biliau drafft, yn hytrach na “newydd”, oherwydd ni fydd dulliau angladdol sy'n newydd adeg ysgrifennu'r Adroddiad hwn bob amser yn newydd; pan fydd dull wedi cael ei ddefnyddio ers peth amser, gall ymddangos yn rhyfedd cyfeirio ato fel dull “newydd”. Fodd bynnag, bydd yn parhau'n “fodern” o'i gymharu â chladdu ac amlosgi, sydd wedi bod yn destun deddfwriaeth ers tro byd. Oni bai ein bod yn cyfeirio at y defnydd penodol o'r term “dull angladdol

¹⁴ Gweler D Greenberg (gol), *Craies on Legislation*, (13eg argraffiad 2025) 11-064 ac R (*Black*) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder [2017] UKSC 81.

¹⁵ Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, adran 28(1).

modern” yn y Biliau drafft, rydym yn parhau i ddefnyddio'r term dull angladdol newydd yn yr Adroddiad hwn, gan mai dyna'r derminoleg rydym wedi'i defnyddio drwy gydol yr adolygiad hwn, ac mae rhanddeiliaid yn gyfarwydd â hi.

EFFAITH EIN DIWYGIADAU

- 1.35 Fe wnaethom ofyn tri chwestiwn ymgynghori i gasglu gwybodaeth a thystiolaeth am effaith ein cynigion dros dro. Roedd y cyntaf yn gwahodd ymgynghoreion i ddarparu data a safbwyntiau ar sail tystiolaeth ar y cynnig dros dro. Roedd yr ail yn gwahodd ymgynghoreion i ddweud wrthym am unrhyw anfanteision neu fanteision posibl i rai grwpiau, p'un ai a yw'r grwpiau hyn yn cael eu gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ai peidio. Roedd y trydydd yn gofyn am farn ar unrhyw effeithiau tebygol sy'n benodol i Gymru.
- 1.36 Mae'r ymatebion i'r cwestiynau hyn wedi cyfrannu at ein hasesiad effaith, sy'n cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Adroddiad hwn.

TERMINOLEG

- 1.37 Lle bo'n bosibl, rydym wedi ceisio osgoi defnyddio'r term “gwaredu” yn yr Adroddiad hwn, gan fod nifer o randdeiliaid gwahanol wedi dweud wrthym nad oeddent, yn ddealladwy, yn hoffi'r term yn y cyd-destun hwn. Fodd bynnag, rydym yn defnyddio'r term “gwaredu” pan fydd angen dyfynnu o ffynhonnell sy'n ei ddefnyddio (gan gynnwys deddfwriaeth), neu pan fydd hynny'n hanfodol er mwyn i'n hystyr fod yn glir. Rydym hefyd yn defnyddio'r term yn y Biliau drafft, lle mae angen eglurder.
- 1.38 Rydym wedi ceisio osgoi rhai mathau eraill o iaith yn yr Adroddiad hwn lle rydym yn ymwybodol y gallant beri tramgwydd neu gael eu hystyried yn broblemus. Er enghraifft, yn hytrach na “yr ymadawedig”, rydym wedi defnyddio “pobl ymadawedig”, “person ymadawedig” neu ffurfiau eraill. Yn yr un modd, nid ydym yn defnyddio'r ymadrodd “anwylyd”, sy'n rhagdybio sut mae pobl yn teimlo am yr unigolyn sydd wedi marw. Er y byddai llawer yn gweld y term “anwylyd” yn briodol mewn amgylchiadau unigol, i rai efallai y bydd y berthynas â'r person ymadawedig yn defnyddio'r term yn amhriodol.

DOLENNI GWE A CHYFEIRIADAU

- 1.39 Mae'r holl ddolenni gwe a chyfeiriadau at ddogfennau wedi cael eu gwirio ac maent yn gywir ar 15 Mai 2026.

CYDNABYDDIAETH

- 1.40 Rydym yn ddiolchgar i bawb a anfonodd ymatebion atom i'n Papur Ymgynghori ac i'r unigolion a'r grwpiau wnaeth gyfarfod â ni yn ystod y prosiect.
- 1.41 Hoffem ddiolch hefyd i'r unigolion a'r sefydliadau a'n helpodd i drefnu, neu ein gwahodd i gymryd rhan mewn digwyddiadau yn ystod ein cyfnodau ymgynghori a thrwy gydol y prosiect, gan gynnwys Dr Imogen Jones ym Mhrifysgol Leeds.
- 1.42 Mae'r Athro Heather Conway o Brifysgol y Frenhines, Belfast, wedi bod yn ymgynghorydd academiaidd i'r prosiect ers mis Rhagfyr 2023 ac rydym yn ddiolchgar

am ei mewnbwn. Mae ei chyfraniadau wedi bod yn annibynnol, ac nid ydynt yn cynrychioli barn unrhyw un o'r sefydliadau y mae'n aelod ohonynt neu y mae'n gysylltiedig â hwy.

- 1.43 Rydym hefyd yn ddiolchgar i swyddogion o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr ydym wedi bod mewn cysylltiad â nhw drwy gydol ein gwaith ar y prosiect hwn, a hefyd i swyddogion o Lywodraeth Cymru, adrannau Llywodraeth y DU a chyrrff cyhoeddus sydd wedi cwrdd â ni.
- 1.44 Hoffai'r Comisiynwyr gofnodi eu diolch i'r aelodau a ganlyn o staff a fu'n gweithio ar yr Adroddiad hwn: Rebecca Mandal ac Andrew Bazeley (cyfreithwyr tîm), Tasha Waller (cynorthwydd ymchwil), a Connor Johnston (uwch gyfreithiwr).

Pennod 2: Trosolwg o'r fframwaith rheoleiddio

CYFLWYNIAD

- 2.1 Ym Mhennod 5 ein Papur Ymgynghori, roeddem wedi ystyried sail fframwaith ar gyfer rheoleiddio dulliau angladdol newydd, gan ddefnyddio enghreifftiau o awdurdodaethau eraill. Buom yn trafod yr opsiynau canlynol, y gellid defnyddio mwy nag un ohonynt gyda'i gilydd:
- (1) cynnwys dulliau angladdol newydd yn y diffiniad o amlosgi;
 - (2) cyflwyno pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth am ddulliau angladdol newydd; a
 - (3) galluogi system drwyddedu.
- 2.2 Yn y bennod hon, rydym yn cyflwyno ein dadansoddiad a'n casgliadau am yr opsiynau hyn. Rydym yn argymhell y dylai dulliau angladdol newydd gael eu diffinio a'u rheoleiddio ar wahân i ddulliau angladdol sydd wedi ennill eu plwyf ac y dylai bod gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, ar ffurf rheoliadau, ynghylch dulliau angladdol newydd.¹ Nid ydym yn argymhell y dylid cael system drwyddedu ar gyfer dulliau angladdol newydd.
- 2.3 Rydym hefyd yn ailedrych ar ystyr "dull angladdol newydd" a gyflwynwyd gennym ym Mhennod 2 ein Papur Ymgynghori ac yn ystyried sut y dylid diffinio dulliau angladdol newydd yn y Biliau drafft. Rydym yn dod i'r casgliad y dylid diffinio "dulliau angladdol" yn y Biliau drafft fel dulliau o gael gwared ar weddillion dynol a "dulliau angladdol modern" fel dulliau angladdol ar wahân i gladdu, amlosgi neu gladdu yn y môr.²

DIFFINIO A RHEOLEIDDIO DULLIAU ANGLADDOL NEWYDD AR WAHÂN I DDULLIAU ANGLADDOL SYDD WEDI ENNILL EU PLWYF

Cynnig dros dro yn y Papur Ymgynghori

- 2.4 Mewn sawl talaith a thiriogaeth yn Unol Daleithiau America, Canada ac Awstralia, mae dulliau angladdol newydd wedi cael eu rheoleiddio drwy ehangu'r diffiniad o amlosgi i gynnwys naill ai ddulliau penodol neu ddulliau angladdol newydd yn fwy cyffredinol.
- 2.5 Daethom i'r casgliad na fyddai ehangu'r diffiniad o amlosgi i gynnwys dulliau angladdol newydd yn briodol yng Nghymru na Lloegr. Ymysg rhesymau eraill, mae gan amlosgi - a ddiffinnir yn Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 fel "amlosgi

¹ Fel yn ein Papur Ymgynghori (Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272), pan fyddwn yn cyfeirio at "reoliadau", rydym yn golygu is-ddeddfwriaeth ar ffurf rheoliadau. Pan fyddwn yn cyfeirio at "reoleiddio manwl" neu "reoleiddio", rydym yn golygu cyfeirio'n fwy cyffredinol at naill ai is-ddeddfwriaeth neu, pe bai pŵer i gyflwyno darpariaeth ar gyfer trwyddedu (yr ydym yn ei thrafod yn y bennod hon), trwyddedau.

² Am esboniad o'r defnydd o'r gair "modern" yn y ddeddfwriaeth ddrafft, gweler para 1.34 yr Adroddiad hwn.

gweddillion dynol”³ - ystyr hirsefydlog ac un a dderbynnir, a byddai ei newid yn gwneud y gyfraith yn llai clir.⁴ Yn lle hynny, gwnaethom gynnig dros dro y dylid diffinio a rheoleiddio dulliau angladdol newydd ar wahân i’r dulliau angladdol presennol.

Ymatebion i’r ymgynghoriad

2.6 Roedd mwyafrif helaeth yr ymgynghoreion yn cytuno â’n cynnig dros dro.

Eglurder

2.7 O’r ymgynghoreion a roddodd ateb testun hirach, nododd nifer sylweddol ohonynt eu bod yn cytuno â’n barn y byddai diffinio dulliau angladdol newydd ar wahân i ddulliau presennol fel amlosgi yn helpu i ddarparu eglurder, boed hynny ar gyfer pobl mewn profedigaeth, y rheini sy’n cynnig dulliau angladdol newydd, neu’r cyhoedd yn fwy cyffredinol. Nododd rhai ymgynghoreion fod ystyron clir i gladdu ac amlosgi, nad yw dulliau angladdol newydd yn cyd-fynd â nhw. Tynnodd Ffederasiwn yr Awdurdodau Claddu ac Amlosgi sylw at y ffaith bod dealltwriaeth dda o gladdu ac amlosgi ac y gallai “ychwanegu dulliau eraill o dan y teitl hwn arwain at ddibrisio’r teitlau a hyder yn y prosesau a ddefnyddir”.

Gofynion rheoleiddio gwahanol

2.8 Dywedodd llawer o ymgynghoreion y byddai diffinio dulliau angladdol newydd ar wahân i’r dulliau angladdol presennol yn briodol gan fod y gofynion rheoleiddio yn debygol o fod yn wahanol. Nododd rhai ymgynghoreion, er y cyfeirir at hydrolysis alcalïaidd weithiau fel “amlosgiad dŵr”, mae’n broses wahanol i amlosgi gyda deunyddiau gwahanol yn deillio ohoni. Nododd rhai ymgynghoreion hefyd y byddai’n debygol y byddai angen rheoleiddio pwrpasol ar gompostio dynol, gan gyfeirio at y rheoliadau sy’n bodoli mewn awdurdodaethau eraill ynghylch beth y gellir ei wneud gyda’r pridd sy’n deillio o’r broses.⁵

Dewisiadau personol a chrefyddol

2.9 Roedd rhai ymgynghoreion yn cytuno’n benodol â’n hawgrym y gallai rheoleiddio dulliau angladdol newydd ar wahân helpu i ystyried dewisiadau personol neu grefyddol pobl. Byddai diffinio dulliau angladdol newydd ar wahân yn caniatáu i bobl nodi’n gywir y dull o’u dewis. Roedd rhai ymgynghoreion yn rhannu ein pryder, pe bai dulliau angladdol newydd yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o amlosgi, y gallai hyn arwain at risg o ddefnyddio dulliau eraill mewn camgymeriad lle dewiswyd amlosgi. Credai Cymdeithas y Gyfraith Eglwysig hefyd y byddai’n bwysig i eglwysi sydd “efallai eisoes yn cyfeirio at gladdu a/neu amlosgi... yn eu cyfreithiau a’u rheoliadau” fod yn sicr ynghylch y dulliau y mae’r termau hyn yn cyfeirio atynt.

Amseru

2.10 Mynegodd rhai ymgynghoreion bryderon ynghylch amseru. Ar ôl hynny, roedd Funeral Services Ltd yn anghytuno â’n cynnig dros dro, gan honni, “er ein bod yn cael cyfle

³ OS 2008 Rhif 2841 rheoliad 2.

⁴ Gweler Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraffau 5.40 i 5.55 am drafodaeth fanwl ar y rhesymau pam ein bod o’r farn bod yr opsiwn hwn yn amhriodol.

⁵ Gweler Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraffau 4.30 i 4.35.

unigryw i ddiffinio a rheoleiddio yn unol â chymdeithas, gwybodaeth ac iaith sy'n addas i'r diben heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol", y byddai hyn yn cymryd amser, a fyddai'n niweidiol i sbardunau "ecolegol a chymdeithasol" ar gyfer dulliau angladdol newydd. Er ei fod yn cytuno â'r cynnig dros dro, mynegodd un ymgynghorai bryder y byddai'n "creu cymaint o gyfraith newydd fel ei bod mewn perygl o gael ei ollwng gan y Llywodraeth".

Trafodaeth ac argymhelliad

- 2.11 Rydym yn ystyried y dylai dulliau angladdol newydd gael eu diffinio a'u rheoleiddio ar wahân i'r dulliau presennol.
- 2.12 Roedd nifer sylweddol o ymgynghoreion yn cytuno â'n barn y byddai hyn yn gwneud y gyfraith yn gliriach. Mae diffiniadau cyfarwydd eisoes o gladdu ac amlosgi nad ydynt yn cynnwys dulliau angladdol newydd. Byddai gorfodi dulliau newydd yn rhan o'r diffiniadau a'r cynlluniau rheoleiddio hyn yn gwneud y gyfraith yn fwy anodd ei deall a gallai arwain at lai o ymddiriedaeth a hyder yn y diwydiant angladdau yn ei gyfarwydd.
- 2.13 Efallai y bydd gan ddulliau angladdol newydd ofynion rheoleiddio penodol hefyd. Nododd ymgynghoreion, er enghraifft, y gallai fod angen rheoleiddio'r pridd sy'n weddill ar ôl compostio dynol mewn ffordd wahanol i amlosgi llwch neu ddeunydd tebyg arall. Efallai y bydd ystyriaethau amgylcheddol gwahanol hefyd. Bydd rheoliadau sy'n berthnasol i amlosgi ac amlosgfeydd na ddylent fod yn berthnasol i ddulliau angladdol newydd, ac mae'r gwrthwyneb hefyd yn wir. Bydd diffinio a rheoleiddio dulliau angladdol newydd mewn ffordd wahanol i ddulliau sydd wedi ennill eu plwyf yn caniatáu ar gyfer goruchwyliaeth benodol ac ar wahân, a bydd yn helpu i osgoi'r posibilrwydd o fylchau mewn rheoleiddio.
- 2.14 Bydd hyn hefyd yn caniatáu i ofynion a dewisiadau personol a chrefyddol pobl gael eu hystyried. Pe bai dulliau angladdol newydd yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o ddulliau presennol, gallai fod risg na fyddai dymuniadau pobl yn cael eu diwallu. Er enghraifft, pe bai rhywun wedi mynegi dymuniad i gael ei amlosgi pan fydd yn marw, a bod hydrolysis alcalïaidd wedi'i gynnwys yn y diffiniad o amlosgi, mae'n bosibl y gellid defnyddio hydrolysis alcalïaidd ar ei gorff pan nad dyma'r hyn a fwriadwyd, oherwydd diffyg dealltwriaeth gan y rhai sy'n dewis y dull angladdol. Byddai diffiniad a fframwaith rheoleiddio ar wahân ar gyfer dulliau angladdol newydd yn helpu i osgoi hyn.
- 2.15 Efallai y bydd gan rai dulliau angladdol newydd agweddau y gellir eu rheoleiddio mewn ffordd debyg i ddulliau presennol. Bydd diffinio dulliau angladdol newydd ar wahân i'r dulliau presennol yn rhoi'r hyblygrwydd i'r rheini sy'n llunio rheoliadau benderfynu a yw rheoleiddio tebyg i reoleiddio ar gyfer claddu neu amlosgi yn briodol. Felly, ni fydd rheoleiddio dulliau angladdol newydd ar wahân yn atal rheoliadau yn y dyfodol sy'n adlewyrchu'r rheolau presennol ar gyfer claddu ac amlosgi. Er enghraifft, yn yr Alban mae'r dull o reoleiddio hydrolysis alcalïaidd a nodir yn y rheoliadau a ddaeth i rym ym mis Mawrth 2026 yn debyg i'r dull o amlosgi.⁶ Roedd y nodyn polisi a oedd yn cyd-fynd â ffurf ddrafft y rheoliadau yn nodi "gan fod hydrolysis yn ffordd

⁶ Ar 2 Mawrth 2026, daeth Rheoliadau Hydrolysis (Yr Alban) (Rhif 1) 2026 (OS 2026 Rhif 50) a Rheoliadau Hydrolysis (Yr Alban) (Rhif 2) 2026 (OS 2026 Rhif 50) i rym, a wnaethpwyd o dan bwerau yn Neddf Claddu ac Amlosgi (Yr Alban) 2016.

derfynol o gael gwared ar weddillion dynol, fel amlosgi, bydd yn ddarostyngedig i'r un oruchwyliaeth, gofynion ac amodau ag amlosgi".⁷

- 2.16 Roedd rhai ymgynghoreion o'r farn y gallai fod yn gyflymach cynnwys hydrolysis alcaliaidd, er enghraifft, yn y diffiniad o amlosgi, a'i reoleiddio felly. Am y rhesymau a nodir uchod, rydym o'r farn y byddai'n well diffinio a rheoleiddio dulliau angladdol newydd ar wahân i ddulliau sydd wedi ennill eu plwyf. Ni fyddai cyflymder ar ei ben ei hun yn cyfiawnhau mabwysiadu polisi llai effeithiol.
- 2.17 Ar ben hynny, efallai na fydd yn gynt rheoleiddio dulliau angladdol newydd fel dulliau sydd wedi ennill eu plwyf. Er enghraifft, pe bai dulliau angladdol newydd yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o amlosgi, byddai angen diwygio'r rheoliadau amlosgi i sicrhau mai dim ond rhannau penodol sy'n berthnasol i ddulliau angladdol newydd penodol, a byddai angen pasio rheoliadau penodol eraill beth bynnag a oedd yn berthnasol i'r dulliau hynny'n unig. Felly, ni fyddai o reidrydd yn arwain at reoleiddio dulliau angladdol newydd yn gynt. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol a rheoliadau penodol ar gyfer y dull newydd hyd yn oed pe bai'r diffiniad o "amlosgi" yn cael ei addasu i gynnwys dulliau angladdol newydd.
- 2.18 Am y rhesymau hyn, rydym yn argymhell y dylid diffinio a rheoleiddio dulliau angladdol newydd ar wahân i'r dulliau angladdol presennol

Argymhelliad 1.

- 2.19 Rydym yn argymhell y dylai dulliau angladdol newydd gael eu diffinio a'u rheoleiddio ar wahân i'r dulliau angladdol presennol.

- 2.20 Mae'r Biliau drafft yn darparu ar gyfer rheoleiddio dulliau angladdol modern ar wahân i'r dulliau presennol. Rydym yn egluro sut mae dulliau angladdol modern wedi cael eu diffinio yn y Biliau drafft ym mharagraffau 2.40 i 2.49 isod. Rydym yn trafod y pŵer i wneud rheoliadau ym mharagraffau 2.61 i 2.69 isod.

DIFFINIAD O DDULL ANGLADDOL NEWYDD ("MODERN")

Cynnig dros dro ar gyfer ystyr "dull angladdol newydd"

- 2.21 Ym Mhennod 1 yr Adroddiad hwn, rydym yn egluro bod dulliau angladdol newydd yn ddewisiadau amgen posibl i'r dulliau angladdol o gladdu, amlosgi a chladdu yn y môr sydd wedi ennill eu plwyf. Byddwn nawr yn ystyried yn fanylach beth yw dull angladdol newydd, a sut dylid ei ddiffinio yn y Biliau drafft.
- 2.22 Yn ein Papur Ymgynghori, roedd ein cynnig dros dro yn diffinio dull angladdol newydd fel:

- (1) proses;

⁷ Llywodraeth yr Alban, *Nodyn Polisi sy'n cyd-fynd â drafft Rheoliadau Hydrolysis (Yr Alban) (Rhif 1) 2026* https://www.legislation.gov.uk/sdsi/2026/9780111064443/pdfs/sdsipn_9780111064443_en_001.pdf.

- (2) ac eithrio claddu, amlosgi neu gladdu yn y môr;
- (3) sy'n dadelfennu corff person ymadawedig; a'i
- (4) bwrpas yw cael gwared ar gorff person ymadawedig (ac nid, er enghraifft, at ddibenion cadw cyrff neu ymchwilio iddynt).

Fe wnaethom holi a oedd ymgynghoreion yn cytuno â hyn.⁸

- 2.23 Fe wnaethom egluro mai amrywiadau o fewn claddu ac amlosgi yn unig yw rhai prosesau a allai ymddangos yn ddulliau angladdol newydd, er enghraifft, claddu naturiol ac amlosgi ar ffurf coelcerth agored. Fe ddywedom fod yn rhaid i ddull angladdol newydd fod yn wahanol i'r dulliau angladdol o gladdu, amlosgi a chladdu yn y môr sydd wedi ennill eu plwyf.
- 2.24 Fe ddywedom hefyd y dylai'r broses o ddefnyddio dull angladdol newydd ddadelfennu corff y person ymadawedig. Fodd bynnag, roeddem am sicrhau na fyddai prosesau a allai ddadelfennu'r corff, ond y bwriedir iddynt ddiogelu'r corff, neu gynnal ymchwil arno, yn cael eu cynnwys. Er enghraifft, ystyr cryoneg, neu rewi cryogenig, yw'r broses o gadw cyrff dynol ar dymheredd isel iawn gyda'r bwriad o'i adfywio os bydd technoleg yn galluogi hyn yn y dyfodol. Nid oeddem o'r farn y dylai prosesau fel hyn gael eu categoreiddio, na'u rheoleiddio, fel dulliau angladdol. Nid oeddem chwaith o'r farn y dylai'r gwaith a wneir mewn cyfleusterau ymchwil sy'n astudio sut mae cyrff yn dadelfennu mewn amrywiaeth o leoliadau (a elwir yn gyfleusterau taffonomi dynol, cyfleusterau ymchwil anthropoleg fforensig neu, yn fwy dadleuol, ffermydd cyrff) fod yn gyfystyr â chynnal dull angladdol.
- 2.25 Roeddem o'r farn bod angen defnyddio'r term "gwaredu corff person ymadawedig", gan ein bod yn teimlo bod ei angen yma er eglurder. Mae'r term "gwaredu" eisoes yn cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun tebyg mewn deddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953,⁹ Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009¹⁰ a Deddf y Coronafeirws 2020.¹¹ Felly, mae dealltwriaeth eisoes o ystyr y term hwnnw. Yn ein Papur Ymgynghori, fe wnaethom ddiffinio dull angladdol fel "dull o waredu corff person ymadawedig" a all fod yn "gladdu, amlosgi, claddu yn y môr neu'n ddull angladdol newydd".
- 2.26 Gwnaethom gynnig dros dro y dylai elfen olaf ystyr dull angladdol newydd fod fel a ganlyn - "gyda'r diben o waredu corff person ymadawedig (ac nid, er enghraifft, at ddibenion diogelu neu ymchwilio i gyrff)".¹²
- 2.27 Yn y Papur Ymgynghori, cyfeiriwyd at ein "syniad" o ddull angladdol newydd oherwydd ei fod, bryd hynny, yn syniad yn hytrach na diffiniad. Ar ôl ymgynghori ar hynny a dod i gasgliad am elfennau craidd dull angladdol newydd, yr ydym bellach

⁸ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 2.29.

⁹ Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953, adrannau 11, 16, 17, 24 a 41.

¹⁰ Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009, adran 43.

¹¹ Deddf y Coronafeirws 2020, atodlen 13.

¹² Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 2.29.

mewn sefyllfa i lunio diffiniad, a nodir yn y Biliau drafft, gan ddefnyddio'r iaith statudol sy'n ofynnol i ymgorffori hyn mewn deddfwriaeth.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

- 2.28 Roedd mwyafrif helaeth yr ymgynghoreion yn cytuno â'n cynnig ynghylch ystyr dull angladdol newydd.
- 2.29 O'r rhai a oedd yn anghytuno, roedd tri wedi gwneud hynny am nad oeddent yn cymeradwyo naill ai dulliau angladdol newydd yn gyffredinol, neu dulliau penodol. Mynegodd Cymdeithas Fwslimaidd Kettering a Bwrdd Ysgolheigion ac Imamiaid Prydain nad oeddent yn cytuno â dulliau angladdol newydd, a nododd un ymgynghorai arall nad oedd yn cytuno â hydrolysis alcalïaidd. Rydym yn cydnabod y safbwyntiau hyn, gan nodi na fydd rheoleiddio dulliau angladdol newydd unigol yn y dyfodol yn effeithio ar y broses o ddarparu'r dulliau presennol. Bydd pobl sy'n gwrthwynebu dull angladdol penodol, am ba bynnag reswm, yn dal i allu defnyddio dull arall, fel y maent ar hyn o bryd.
- 2.30 Dywedodd un ymgynghorai nad yw hydrolysis alcalïaidd na chompostio dynol yn cael gwared ar gorff person ymadawedig, yn hytrach, "proses leihau ydynt, sy'n golygu bod gan y rhai sydd mewn profedigaeth lawer iawn o ddeunydd organig". Roeddent hefyd yn awgrymu y dylid ychwanegu pwynt arall, sef bod "y broses yn amlwg yn dangos manteision posibl dros gladdu hanesyddol, amlosgi a chladdu yn y môr". Awgrymodd ymgynghorai arall "er mwyn gwneud hyn yn fwy addas ar gyfer y dyfodol, gallai'r diffiniad gynnwys bod dull angladdol newydd yn ddull gwyddonol, cymdeithasol a moesol dderbyniol o waredu cyrff dynol nad yw'n cael ei reoleiddio ar hyn o bryd".
- 2.31 Nododd un ymgynghorai, er ei fod yn cytuno â'r cynnig dros dro, mai'r "unig gymhlethdod a allai ddeillio o'r diffiniad hwn fyddai 'compostio yn y ddaear'... sydd, yn ôl pob golwg, yn dod o dan gwmpas claddedigaethau safonol ond a allai, yn ymarferol, wyro'n sylweddol oddi wrth yr arfer o gladdedigaethau safonol / naturiol".
- 2.32 Gwnaeth rhai ymgynghoreion a oedd yn cytuno â'r cynnig dros dro sylwadau pellach am y geiriad. Nododd Cymdeithas y Gyfraith Eglwysig fod "(3) a (4) yn gorgyffwrdd i ryw raddau".

Trafodaeth ac argymhelliad

Dulliau angladdol newydd yn hytrach na dulliau angladdol sydd wedi ennill eu plwyf

- 2.33 Nodwn y sylw am "gompostio yn y ddaear" fel proses sy'n cael ei datblygu yn Unol Daleithiau America a allai fod yn "wyriad sylweddol" oddi wrth yr arferion claddu presennol. Mae'r enghraifft hon yn tanlinellu'r angen i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru, wrth ystyried a ddylid rheoleiddio dulliau unigol a sut i wneud hynny, allu gwneud penderfyniadau clir ynghylch a yw dull yn ddull angladdol newydd neu'n amrywiad o fewn dull presennol. Mae hefyd yn dangos yr angen i ddiffinio claddu yn ein Biliau drafft. Rydym yn trafod hyn ymhellach ym mharagraffau 2.44 i 2.45 isod.

Proses sy'n dadelfennu'r corff, sydd â'r diben a'r effaith o gael gwared ar gorff person ymadawedig

- 2.34 Rydym yn cytuno â'r sylw bod eitemau (3) a (4) yn y cynnig dros dro yn gorgyffwrdd i ryw raddau. Roedd yn ddefnyddiol cael y cyfeiriad at ddadelfennu corff person ymadawedig er mwyn hwyluso'r ymgynghoriad ar ein hargymhellion arfaethedig. Roedd hyn yn caniatáu i ymgynghoreion ddeall yr hyn roeddem yn ei ragweld ac yn ein galluogi i egluro rhai o'r gwahaniaethau rhwng dulliau angladdol newydd a dulliau eraill a allai hefyd ddadelfennu'r corff, fel ymchwil mewn cyfleusterau taffonomi dynol. Fodd bynnag, rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'n angenrheidiol mewn diffiniad cyfreithiol o ddulliau angladdol newydd, felly nid yw'n ymddangos yn y Biliau drafft.
- 2.35 Rydym yn trafod ymhellach y ffordd rydym wedi adlewyrchu ein dealltwriaeth o ddull angladdol newydd yn y Biliau drafft ym mharagraffau 2.40 i 2.49 isod.

Cael gwared ar gorff person ymadawedig

- 2.36 Awgrymodd un ymgynghorai nad yw hydrolysis alcalïaidd a chompostio dynol yn cael gwared ar gorff person ymadawedig. Fodd bynnag, nid yw'r gair "gwaredu", pan gaiff ei ddefnyddio yng nghyd-destun dulliau angladdol, yn eithrio deunydd canlyniadol sy'n cael ei adael ar ddiwedd y broses. Er enghraifft, defnyddir y gair "gwaredu" yn Neddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953¹³ i gyfeirio at amlosgi er bod y broses honno'n arwain at lwch. Fel y nodwyd yn ein Papur Ymgynghori, yn ein barn ni fyddai hydrolysis alcalïaidd a chompostio dynol (fel y disgrifir yn y Papur Ymgynghori) yn bodloni ein diffiniad arfaethedig o ddull angladdol newydd, gan gynnwys yr elfen o waredu.¹⁴ Mater i'r Llywodraethau perthnasol fydd asesu a yw dulliau unigol yn bodloni'r gofyniad gwaredu rydym yn ei argymhell ac felly a oes modd eu rheoleiddio fel dull angladdol newydd.

Awgrymiadau ynghylch meini prawf cymeradwyo

- 2.37 Gwnaethpwyd rhai sylwadau am feini prawf ar gyfer cymeradwyo dulliau angladdol newydd penodol, yn hytrach nag ystyr "dull angladdol newydd". Ym Mhennod 3 rydym yn ystyried a ddylai fod yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru roi sylw i egwyddorion penodol wrth wneud rheoliadau am ddulliau angladdol newydd. Rydym hefyd yn egluro, yn y bennod honno, nad ydym yn credu ei bod yn briodol bod gofyniad i ddulliau angladdol newydd fod yn fwy cynaliadwy na dulliau angladdol sydd wedi ennill eu plwyf.

Casgliad

- 2.38 Rydym o'r farn bod y cynnig dros dro a gyflwynwyd gennym yn y Papur Ymgynghori yn crynhoi elfennau craidd dull angladdol newydd y dylid ei adlewyrchu yn y diffiniad cyfreithiol a fabwysiadwyd o dan y fframwaith cyfreithiol newydd. Rydym yn egluro sut rydym wedi mynegi hyn yn y Biliau drafft ym mharagraffau 2.40 i 2.49 isod.

¹³ Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953, adran 41 (1).

¹⁴ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraffau 2.55 i 2.58 a 2.72 i 2.79.

Argymhelliad 2.

2.39 Rydym yn argymhell y dylai'r diffiniad cyfreithiol o ddull angladdol newydd gynnwys:

- (1) proses;
- (2) ac eithrio claddu, amlosgi neu gladdu yn y môr;
- (3) sy'n dadelfennu corff person ymadawedig; a'i
- (4) bwrpas yw cael gwared ar gorff person ymadawedig (ac nid, er enghraifft, at ddibenion cadw cyrff neu ymchwilio iddynt).

Diffiniad o "dull angladdol modern"

2.40 Mae'r Biliau drafft yn gweithredu'r argymhelliad hwn yn y diffiniadau o "dull angladdol" a "dull angladdol modern" yng nghymalau 1(2) a 9(2) o'r Bil ar gyfer Lloegr ac adrannau 1(2) a 9(2) o'r Bil ar gyfer Cymru.¹⁵ Mae dulliau angladdol modern, fel y nodir yng nghymal 1(2) ac adran 1(2), yn ddulliau angladdol heblaw claddu, amlosgi neu ddull angladdol sy'n weithgaredd morol trwyddedadwy o dan Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (claddu yn y môr). Diffinnir dulliau angladdol yng nghymal 1(2) ac adran 1(2) fel "dulliau ar gyfer gwaredu gweddillion dynol perthnasol". O dan gymal 9(1) ac adran 9(1), mae "gweddillion dynol perthnasol" yn weddillion dynol ar wahân i lwch sy'n aros ar ôl amlosgi, neu ddeunydd y mae gweddillion dynol wedi cael eu lleihau iddo ar ôl defnyddio dull angladdol modern.

Dulliau ar gyfer gwaredu

2.41 Ein bwriad yw na fydd prosesau cadwraeth fel cryoneg, neu rewi cryogenig, yn ogystal ag ymchwil mewn cyfleusterau taffonomi dynol, yn gallu cael eu rheoleiddio fel dulliau angladdol newydd. Mae dulliau angladdol modern, y gellir eu rheoleiddio o dan y Biliau drafft, yn "dulliau ar gyfer gwaredu" gweddillion dynol. Mae'r geiriau "ar gyfer gwaredu" yn nodi bod yn rhaid i'r dull gael y diben a'r effaith o waredu gweddillion dynol. Ni fydd dulliau at ddiben cadwraeth neu ymchwilio yn cael eu cynnwys yn y diffiniad.

2.42 Fel y nodir ym mharagraff 2.25, mae'r term "gwaredu" eisoes yn cael ei ddefnyddio mewn sawl darn o ddeddfwriaeth yng nghyswllt dulliau angladdol.

2.43 Nid oes angen cyfeirio at ddadelfennu corff person ymadawedig yn y ddeddfwriaeth ddrafft. Mae dadl gref iawn bod "gwaredu", yng nghyd-destun dulliau angladdol newydd, yn awgrymu bod corff yn cael ei ddadelfennu. Fodd bynnag, bydd y graddau y mae'r corff yn cael ei ddadelfennu, a'r deunyddiau sy'n deillio ohono, yn amrywio rhwng dulliau. Mae dulliau cadw, fel yr esbonnir uchod, wedi'u heithrio o'r diffiniad o ddull angladdol, ac felly maent y tu allan i gwmpas rheoleiddio. Felly, nid oes angen cyflwyno'r cysyniad o ddadelfennu, yn groes i gadwraeth, yn y Biliau drafft.

¹⁵ Am esboniad o'r defnydd o'r gair "modern" yn y Biliau drafft, gweler paragraff 1.34 yr Adroddiad hwn.

Ddim yn gladdedigaeth

- 2.44 Ein bwriad yw na ddylai ein Biliau drafft ar ddulliau angladdol newydd alluogi rheoleiddio unrhyw beth sydd eisoes yn gallu cael ei reoleiddio fel claddedigaeth. Yn ein Papur Ymgynghori, nodwyd nad yw'r term "claddedigaeth" wedi'i ddiffinio'n gynhwysfawr mewn deddfwriaeth bresennol.¹⁶ Er eglurder, rydym wedi cynnwys diffiniad o gladdedigaeth yn ein Biliau drafft, yn hytrach na dibynnu ar y ddealltwriaeth gyffredin o'r term. Rydym wedi diffinio claddedigaeth, yng nghymal 9(1) ac adran 9(1), fel "claddu gweddillion dynol mewn unrhyw le (gan gynnwys unrhyw siambr), boed hynny uwchben neu o dan y ddaear". Mae'r diffiniad yn adlewyrchu geiriad adran 214(8) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n nodi'r hyn y gellir ei reoleiddio fel mynwent, ac Erthygl 2 o Orchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977 (LACO 1977). Mae'r geiriau "gan gynnwys unrhyw siambr" yn sicrhau ei bod yn glir bod claddu mewn claddgell yn cael ei gynnwys yn y diffiniad o gladdu.
- 2.45 Dylid nodi bod defnyddio'r diffiniad o'r geiriau "claddu" a "chladdedigaeth" wedi cael eu trafod ymhellach yn ein Hadroddiad ar Gladdu ac Amlosgi. Yn yr Adroddiad hwnnw, roeddem yn argymhell, yn y gyfraith sy'n ymwneud â chladdu, y dylai "claddedigaeth" gynnwys y materion a nodir yn Erthygl 2 o LACO 1977. Rydym hefyd yn argymhell y dylai "claddedigaeth" gynnwys claddu unrhyw ran o gorff person ymadawedig ond na ddylai gynnwys rhoi gweddillion dynol wedi'u hamlosgi mewn sinerariwm uwchben y ddaear.¹⁷ Bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i'r iaith yn y diffiniad yng nghymal 9(1) ac adran 9(1) y Biliau drafft wrth baratoi'r Bil drafft ar gyfer yr is-brosiect Claddu ac Amlosgi, er mwyn sicrhau cysondeb.

Ddim amlosgi

- 2.46 Yng nghymal 9(1) ac adran 9(1) o'r Biliau drafft, diffinnir amlosgi fel llosgi gweddillion dynol. Mae hyn yn adlewyrchu'r diffiniad yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008,¹⁸ sy'n adlewyrchu'r iaith a ddefnyddir yn adran 7 o Ddeddf Amlosgi 1902.

Ddim claddu yn y môr

- 2.47 Mae angen trwydded ar gyfer claddu yn y môr o dan adrannau 65 a 66 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.¹⁹
- 2.48 Ystyrir bod claddu yn y môr (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd) yn digwydd y tu allan i Gymru a Lloegr. Rhaid rhoi gwybod i'r crwner pan fydd corff yn cael ei symud o Gymru a Lloegr cyn y gellir cael trwydded ar gyfer claddu yn y môr.²⁰ Ni fyddai'r claddedigaethau hyn yn y môr yn cael eu cynnwys fel ystyr "dull angladdol modern" yn

¹⁶ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraffau 2.8 i 2.12.

¹⁷ Claddu ac Amlosgi (2026) Comisiwn y Gyfraith Rhif 425, Argymhelliad 3.

¹⁸ OS 2008 Rhif 2841.

¹⁹ Mae'r Sefydliad Rheoli Morol yn gweinyddu trwyddedau morol ar gyfer dyfroedd Lloegr ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweinyddu trwyddedau morol ar gyfer dyfroedd Cymru.

²⁰ Dan Ddeddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1926, a 4 a Rheoliadau Symud Cyrff 1954 (OS 1954 Rhif 448), rheoliad 4, ni cheir symud corff o Gymru a Lloegr nes y rhoddir hysbysiad i grwner a bod pedwar diwrnod wedi mynd heibio. Nodir y ffurf hysbysu yn Rheoliadau Symud Cyrff 1954 (OS 1954 Rhif 448), fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Symud Cyrff (Diwygiad) 1971 (OS 1971 Rhif 1354).

y Biliau drafft, oherwydd o dan gymal 1(2) ac adran 1(2) mae dull angladdol (ac felly dull angladdol modern) yn digwydd “yng Nghymru” neu “yn Lloegr”.

- 2.49 Fodd bynnag, mae'r rhwymedigaeth i gael trwydded forol yn ymestyn i ddyfroedd a all fod yng Nghymru neu Loegr.²¹ Er mwyn osgoi unrhyw orgyffwrdd posibl rhwng rheoleiddio claddu yn y môr o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 a rheoleiddio dulliau angladdol newydd o dan y Biliau drafft, rydym wedi eithrio “dull angladdol sy'n weithgaredd morol trwyddedadwy at ddibenion Rhan 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009” o ystyr “dull angladdol modern”.

PŴER I WNEUD RHEOLIADAU

Cynnig dros dro ar bŵer i wneud rheoliadau

- 2.50 Gall Deddfau Seneddol a Deddfau Senedd Cymru (y mae'r naill a'r llall yn ddeddfwriaeth sylfaenol) roi pwerau i Weinidogion, neu weithiau i eraill, wneud is-ddeddfwriaeth. Offerynnau statudol (gan gynnwys offerynnau statudol Cymru) yw'r ffurf fwyaf cyffredin ar is-ddeddfwriaeth ac mae rheoliadau yn fath o offeryn statudol.
- 2.51 Yn y Papur Ymgynghori, fe wnaethom gynnig dros dro y dylai deddfwriaeth sylfaenol newydd am ddulliau angladdol newydd gynnwys pŵer i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wneud is-ddeddfwriaeth, ar ffurf rheoliadau, gan gymeradwyo defnyddio dulliau angladdol unigol a nodi sut y dylid eu cyflawni.²²
- 2.52 Gwnaethom nodi ein bod yn anelu at greu fframwaith cyfreithiol ar gyfer dulliau angladdol newydd sydd, cyn belled ag y bo modd, yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn gallu ymateb i ddyfodiad dulliau newydd. Fe wnaethom egluro ein bod yn credu mai'r ffordd orau o wneud hyn fyddai cael pŵer i wneud rheoliadau am ddulliau angladdol newydd nad ydynt wedi'u cyfyngu i ymestyn y defnydd o ddeddfwriaeth bresennol. Fe wnaethom nodi y byddai angen i unrhyw reoliadau a wneir o dan y pŵer hwn ddiffinio'n glir y dulliau angladdol newydd sy'n cael eu rheoleiddio.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cefnogaeth i'r cynnig dros dro

- 2.53 Roedd mwyafrif helaeth yr ymgynghoreion yn cytuno â'n cynnig dros dro.
- 2.54 Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros gefnogi'r cynnig dros dro oedd hyblygrwydd, a oedd yn cynnwys y gallu i reoleiddio dulliau effeithiol sy'n dod i'r amlwg yn y dyfodol. Dywedodd Sefydliad Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd (ICCM):

²¹ Mae'r rhwymedigaeth i gael trwydded forol yn berthnasol i wrthrychau a gaiff eu dyddodi yn y môr o fewn ardal drwyddedu forol y DU (Deddf Mynediad Morol ac Arfordirol 2009, adran 65(1)). Mae ardal drwyddedu forol y DU yn cynnwys “yr ardal o fôr sydd o fewn terfynau atfor y môr tiriogaethol cyfagos at y Deyrnas Unedig”. (Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, adrannau 66(4), 322(1) a 42(1)(a)). Mae'r diffiniad o'r môr (ac felly hyd a lled ardal drwyddedu forol y DU) yn cynnwys “(a) unrhyw ardal sydd o dan y dŵr pan fydd penllanw cymedrig y gorllanw; a dyfroedd pob aber, afon neu sianel, i'r graddau y mae'r llanw'n llifo ar benllanw cymedrig y gorllanw (Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, adrannau 322(1) a 42(3)).

²² Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 5.70.

fel sydd wedi bod yn ddefnyddiol mewn lleoliadau amlogfeydd, byddai rheoliadau y gellir eu datblygu dros amser i ragweld neu ddelio â newid gan wrth i'r dirwedd newid o ran gofal marwolaeth yn fanteisiol.

- 2.55 Dywedodd Cyngor Sir Durham fod “pŵer rheoleiddio hyblyg yn caniatáu i'r Llywodraeth ymateb i ddulliau sy'n dod i'r amlwg a gosod safonau priodol ar gyfer pob un”. Dywedodd Cymdeithas Amlosgi Prydain Fawr y byddai pŵer i wneud rheoliadau yn sicrhau hyblygrwydd i'r Llywodraeth ystyried a rheoleiddio dulliau angladdol newydd wrth iddynt ddod i'r amlwg - sydd yn ei dro yn darparu dewis gwybodus ac wedi'i reoleiddio i aelodau'r cyhoedd”.
- 2.56 Roedd rhai o'r rheini a oedd yn cytuno y dylid cael pŵer i reoleiddio dulliau angladdol newydd unigol yn teimlo y byddai hyn yn bwysig ar gyfer creu mesurau diogelu, a nododd rhai ymgynghoreion y byddai'n bwysig er mwyn ennyn hyder y cyhoedd. Dywedodd rhai ymgynghoreion fod pŵer i wneud rheoliadau'n bwysig i sicrhau bod yr hyn sy'n gyfystyr ag arfer da yn glir i unrhyw newydd-ddyfodiaid i'r farchnad a bod goruchwyliaeth briodol, er mwyn atal camau gweithredu a allai niweidio urddas pobl sydd wedi marw. Dywedodd rhai ymgynghoreion y byddai pŵer i wneud rheoliadau yn rhoi sicrwydd i unigolion sy'n awyddus i ddefnyddio dulliau angladdol newydd.

Dyletswydd i wneud rheoliadau?

- 2.57 Roedd ein cynnig dros dro yn awgrymu pŵer, yn hytrach na dyletswydd, i reoleiddio dulliau angladdol newydd. Dywedodd Fiona Cunningham (academydd) “ac ystyried proses araf y dulliau rheoleiddio sy'n ymwneud â marwolaeth a marw”, dylem “ystyried o ddifrif a ddylai dyletswydd fod yn berthnasol i [dulliau angladdol newydd] lle mae dichonoldeb a galw cyhoeddus wedi'u profi'n ddigonol”. Dywedodd fod rhai dulliau, yn enwedig hydrolysis alcaliaidd, yn barod i'w defnyddio “oni bai am statws cyfreithiol aneglur [dulliau angladdol newydd] yng Nghymru a Lloegr”.
- 2.58 Ar yr un mater, dywedodd yr FBCA, er ei fod wedi bod o'r farn o'r blaen y dylai fod dyletswydd i wneud rheoliadau, yn ystod y cyfnod ymgynghori, penderfynodd y byddai pŵer yn dderbyniol, gan adael “y llywodraeth ar y pryd i benderfynu a ddylid rheoleiddio dull newydd yn hytrach na mandadu bod yn rhaid iddynt wneud hynny oherwydd efallai na fyddai hyn er budd ehangach y cyhoedd”.

Rhesymau dros anghytuno â'r cynnig dros dro

- 2.59 Roedd rhai ymgynghoreion yn anghytuno â'r cynnig dros dro. Teimlai rhai ymgynghoreion y byddai'n well i ddarpariaethau am ddulliau angladdol newydd unigol gael eu nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol, yn hytrach nag eilaidd, oherwydd lefel y craffu gan y Senedd. Dywedodd yr Athro Thomas Glyn Watkin CB (academydd) pe bai is-ddeddfwriaeth yn cael ei defnyddio, y “byddai'n disgwyl i'r offeryn sy'n cynnwys yr is-ddeddfwriaeth fod yn ddarostyngedig o leiaf i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn nau Dŷ Senedd y DU”. Dywedodd y byddai'n well ganddo gael “gweithdrefn gadarnhaol uwch”, gyda:

dyletswydd i gyhoeddi'r offeryn ar ffurf drafft cyn iddo gael ei osod yn ffurfiol, gyda chyfle i aelodau gyflwyno gwelliannau i'r drafft a dyletswydd ar y llywodraeth i ymateb yn ysgrifenedig i bob diwygiad arfaethedig wrth osod yr offeryn terfynol i gael ei gymeradwyo ym mhob tŷ.

- 2.60 Cytunodd Stephen White (academydd) y dylid rhoi pŵer i wneud rheoliadau am ddulliau angladdol newydd unigol ond, gan nad oedd yn cytuno y dylid gwahardd dulliau angladdol newydd heb eu rheoleiddio (fel y cynigiwyd dros dro yng Nghwestiwn 13 yr Ymgynghoriad), dywedodd “na ddylai rheoliadau a wneir o dan y pŵer ymestyn i’w “cymeradwyo””.

Trafodaeth ac argymhelliad

- 2.61 Rydym o’r farn y dylai deddfwriaeth sylfaenol gynnwys pŵer i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wneud rheoliadau sy’n cymeradwyo defnyddio dulliau angladdol newydd ac yn nodi sut y dylid eu cyflawni.
- 2.62 Gyda phŵer i wneud is-ddeddfwriaeth i reoleiddio dulliau angladdol newydd unigol, bydd y llywodraethau perthnasol yn gallu ymateb wrth i ddulliau newydd ddod i’r amlwg, heb fod angen pasio deddfwriaeth sylfaenol bob tro y bydd dull newydd yn cael ei reoleiddio. Fodd bynnag, bydd y drefn reoleiddio ar gyfer pob dull yn dal i gael ei nodi mewn deddfwriaeth, gan sicrhau ei bod yn glir. Felly, bydd y dull o reoleiddio dulliau angladdol newydd yn debyg i ddulliau amlosgi, gyda rhai darpariaethau wedi’u nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol ond y rhan fwyaf o’r manylion mewn is-ddeddfwriaeth.
- 2.63 Mae’n briodol mai’r Ysgrifennydd Gwladol ddylai gael y pŵer i wneud rheoliadau ar gyfer Lloegr, a Gweinidogion Cymru i gael y pŵer i wneud rheoliadau ar gyfer Cymru. Mae hyn yn unol â’r ffordd y mae pwerau gwneud rheoliadau ar gyfer Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cael eu mynegi fel arfer.
- 2.64 Rydym yn nodi’r pwyntiau a gyflwynwyd gan ddau ymgynghorai ynghylch craffu seneddol ac yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau’r math priodol o graffu ar gyfer unrhyw reoliadau a wneir o dan y pŵer hwn. Rydym yn ystyried rheolaeth seneddol dros y rheoliadau ym mharagraffau 4.83 i 4.106 yr Adroddiad hwn. Fel y nodwyd gennym yno, rydym yn argymhell y dylai gweithdrefn well, gyda mwy o reolaeth seneddol, fod yn berthnasol y tro cyntaf i’r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru reoleiddio dull angladdol newydd unigol. Y rheswm am hyn yw, yn dilyn ein hargymhelliad ym Mhennod 5 y dylid gwahardd defnyddio dulliau angladdol newydd heb eu rheoleiddio, y tro cyntaf y bydd dull unigol yn cael ei reoleiddio fydd y ffordd y bydd dull angladdol a fyddai fel arall yn anghyfreithlon yn cael ei gymeradwyo.
- 2.65 Rydym wedi ystyried yr awgrym y dylai fod dyletswydd i wneud rheoliadau lle profwyd dichonoldeb a galw cyhoeddus. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y byddai hyn yn briodol. Dylai’r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael disgrisiwn ynghylch pa ddulliau y dylid eu rheoleiddio. Bydd y rheoliadau’n cael eu gosod gerbron y Senedd i’w cymeradwyo. Bydd aelodau o’r cyhoedd a rhanddeiliaid yn gallu rhoi barn i’r Llywodraethau perthnasol a’r Senedd, neu Senedd y DU, yn y ffyrdd arferol. Roedd y mwyafrif llethol o’r ymgynghoreion yn cytuno y byddai pŵer i wneud rheoliadau yn darparu’r hyblygrwydd a’r mesurau diogelu angenrheidiol er mwyn i’r system reoleiddio fod yn effeithiol. Ar ben hynny, byddai’n anodd iawn llunio safon glir y mae’n rhaid i ddulliau angladdol newydd ei bodloni er mwyn rhoi’r ddyletswydd ar waith.

Argymhelliad 3.

- 2.66 Rydym yn argymhell y dylai deddfwriaeth sylfaenol gael pŵer, y gellir ei arfer gan Weinidogion Cymru (ar gyfer Cymru) neu'r Ysgrifennydd Gwladol (ar gyfer Lloegr), i wneud rheoliadau sy'n cymeradwyo defnyddio dulliau angladdol newydd unigol ac yn nodi sut y dylid eu cyflawni.
- 2.67 Mae cymal 2(1) o'n Bil drafft ar gyfer Lloegr ac adran 2(1) o'r Bil drafft ar gyfer Cymru yn rhoi'r argymhelliad hwn ar waith. Maent yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau am ddulliau angladdol modern unigol. Rydym yn trafod y diffiniad o "dull angladdol modern" ym mharagraffau 2.40 i 2.49.
- 2.68 Wrth wneud rheoliadau o dan gymal 2(1) neu adran 2(1), rhaid i Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol bennu'r dull angladdol sy'n cael ei reoleiddio. Bydd hyn yn sicrhau bod pob dull sy'n cael ei reoleiddio yn cael ei ddiffinio'n glir.
- 2.69 Rydym yn trafod cwmpas y pŵer rheoleiddio ymhellach ym Mhennod 4 yr Adroddiad hwn.

TRWYDDEDU A GORUCHWYLIO

Ymgynghori ar drwyddedu

- 2.70 Mae gan lawer o daleithiau neu daleithiau yn UDA a Chanada systemau trwyddedu ar gyfer amlosgi a gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig ag angladdau yn aml. Pan gaiff dulliau angladdol newydd eu rheoleiddio, cânt eu cynnwys yn y systemau trwyddedu hyn. O dan systemau, trwyddedau neu ganiatâd o'r fath, maent yn cael eu rhoi i ddarparwyr dulliau angladdol newydd unigol. Yn gyffredinol, ni chaiff darparwyr weithredu heb drwydded.
- 2.71 Byddai modd sefydlu system drwyddedu ar gyfer dulliau angladdol newydd yng Nghymru a Lloegr, ochr yn ochr â'r pŵer i'r Llywodraethau perthnasol wneud rheoliadau. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes system drwyddedu ar gyfer claddu neu amlosgi yng Nghymru na Lloegr. Nid oes system drwyddedu ychwaith ar gyfer gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig ag angladdau. Mae'r Ymchwiliad Annibynnol i'r materion a godwyd gan achos David Fuller (Ymchwiliad David Fuller) wedi argymhell bod Llywodraeth y DU yn sefydlu trefn reoleiddio statudol annibynnol ar gyfer trefnwyr angladdau yn Lloegr, gyda chynllun trwyddedu.²³ Adeg ysgrifennu hwn, nid yw'r argymhelliad hwn wedi cael ei fabwysiadu.
- 2.72 Yn y Papur Ymgynghori, gofynnwyd cwestiwn agored ynghylch a ddylai trwyddedu fod yn rhan o'r gwaith manwl o reoleiddio dulliau angladdol newydd unigol yng Nghymru a

²³ Ymchwiliad Annibynnol i'r materion a godwyd yn sgil achos David Fuller, *Adroddiad Cam 2* (15 Gorffennaf 2025) HC 1092 t 207 <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/688258b96a7ea0e1ce1d3653/fuller-inquiry-phase-2-report-hc-1092-web-accessible.pdf>.

Lloegr. Nodwyd gennym fod dadleuon o blaid ac yn erbyn cyflwyno system drwyddedu.²⁴

- 2.73 Mae dadleuon dros system drwyddedu yn cynnwys y potensial iddi ddarparu mesurau diogelu priodol yn erbyn defnyddio dulliau angladdol newydd mewn ffordd amhriodol neu anniogel. Fodd bynnag, byddai effeithiolrwydd unrhyw fesurau diogelu yn dibynnu ar fanylion y trwyddedau, arolygu cyfleusterau, a chosbau addas lle nad yw amodau'r drwydded yn cael eu bodloni. Gallai mesurau diogelu tebyg hefyd gael eu darparu drwy reoliadau yn unig, heb fod angen trwyddedu.
- 2.74 Mantais bosibl arall trwyddedu fyddai hyblygrwydd, gan y gellid teilwra trwyddedau i ddulliau unigol, a fyddai'n cymryd llai o amser ac yn llai beichus na gwneud rheoliadau ar gyfer pob dull. Gallai trwyddedu hefyd ddarparu ar gyfer amrywiadau o fewn pob dull, gyda gwahanol drwyddedau ar gyfer gwahanol amrywiadau.
- 2.75 Un ddadl allweddol yn erbyn system drwyddedu ar gyfer dulliau angladdol newydd yw y byddai gwahaniaeth yn cael ei greu rhwng rheoleiddio dulliau claddu ac amlosgi ar y naill law a dulliau angladdol newydd ar y llall. Roeddem am ddeall effaith bosibl hyn, gan gynnwys a fyddai'n atal darpar ddarparwyr dulliau angladdol newydd, neu a fyddai'n rhoi mwy o hyder i'r cyhoedd mewn dulliau angladdol newydd.
- 2.76 Er mwyn ein helpu i werthuso'r dadleuon anghyson, roeddem wedi gofyn am farn ymgynghoreion mewn cwestiwn agored ynghylch a ddylai trwyddedu fod yn rhan o reoleiddio dulliau angladdol newydd penodol.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

- 2.77 Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, nododd ymgynghoreion nifer o resymau dros ac yn erbyn trwyddedu. Nodir y themâu allweddol isod.
- (1) *Hyder y cyhoedd.* Y rheswm a nodwyd amlaf dros gefnogi proses drwyddedu oedd y byddai'n gwella hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd mewn darparu dulliau angladdol newydd. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Dinas Preston y byddai trwyddedu "yn cryfhau'r gwaith o reoleiddio'r diwydiant ac felly'n meithrin hyder y cyhoedd mewn trefn newydd fel arall". Fodd bynnag, nododd Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau (NAFD) y gallai mwy o hyder mewn dulliau angladdol newydd arwain at lai o ymddiriedaeth yn y dulliau presennol sydd heb eu trwyddedu ar hyn o bryd.
 - (2) *Mesurau Diogelu.* Roedd rhai ymgynghoreion yn cytuno y gallai trwyddedu ddarparu mesurau diogelu rhag defnydd annerbyniol neu amhriodol o ddulliau angladdol newydd. Er enghraifft, teimlai un ymgynghorai y byddai trwyddedu "yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod dulliau angladdol newydd yn cael eu cynnal yn iawn, gyda'r offer priodol".
 - (3) *Hyblygrwydd.* Nododd rhai ymgynghoreion ein hawgrym y gallai hyblygrwydd y broses drwyddedu ddarparu ar gyfer amrywiadau o fewn dulliau angladdol newydd unigol. Dywedodd Kindly Earth Limited/Resomation Limited y gallai trwyddedu ganiatáu ar gyfer "amrywiad o fewn dulliau angladdol newydd unigol

²⁴ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraffau 5.71 i 5.84.

wrth i dechnoleg gael ei datblygu” yn ogystal ag “amrywiad mewn modelau gweithredu/gweithredwyr dull newydd”.

- (4) *Cysondeb â dulliau angladdol eraill.* Roedd rhai o'r ymgynghoreion a oedd yn gwrthwynebu trwyddedu, neu a gyflwynodd ddadleuon yn ei erbyn, yn teimlo y dylid sicrhau bod cysondeb rhwng rheoleiddio dulliau angladdol newydd a rheoleiddio dulliau sydd wedi ennill eu plwyf. Er enghraifft, nododd Cymdeithas Amlosgi Prydain Fawr y byddai “trwyddedu dulliau angladdol newydd heb gynllun trwyddedu tebyg ar gyfer claddu ac amlosgi yn arwain at sail anghyfartal o ran llywodraethu dulliau angladdol”.
- (5) *Dylai rheoliadau fod yn ddigonol.* Nododd ychydig o ymgynghoreion yn benodol y dylai deddfwriaeth eilaidd fod yn ddigonol i ddarparu system reoleiddio effeithiol, heb yr angen am drwyddedu. Er enghraifft, dywedodd Dr Imogen Jones (academydd) y dylai “cynllun rheoleiddio effeithiol olygu nad oes angen cynllun trwyddedu”.
- (6) *Cost a baich gweinyddol.* Nododd rhai o'r ymgynghoreion a oedd o blaid rhyw fath o drwyddedu, neu a gynigiodd ddadleuon o blaid ac yn erbyn, na ddylai fod yn rhy gostus nac yn feichus.
- (7) *Trwyddedu fel rhwystr posibl.* Awgrymodd rhai ymgynghoreion y gallai trwyddedu fod yn rhwystr i'r rhai sy'n ceisio darparu dulliau angladdol newydd, gan osod mwy o feichiau ar ddulliau newydd o'i gymharu â'r rhai presennol.
- (8) *Corff goruchwyllo.* Dywedodd Cyngor Tref Stotfold y “dylai fod corff sy'n goruchwyllo'r broses drwyddedu fel ei bod yn cael ei rheoleiddio'n gadarn”. Dywedodd ymgynghorai arall y “dylai trwyddedau gael eu cyhoeddi a'u gweinyddu gan adran o'r llywodraeth neu gorff rheoleiddio.” Ni ddylai awdurdodau lleol wynebu'r baich hwn.”
- (9) *Trwyddedu trefnwyr angladdau.* Soniodd rhai o'r ymgynghoreion am argymhellion Ymchwiliad David Fuller ynghylch dulliau rheoleiddio statudol trefnwyr angladdau, i gynnwys system drwyddedu,²⁵ a chynlluniau Llywodraeth yr Alban i lunio cynllun trwyddedu ar gyfer trefnwyr angladdau. Nododd Fiona Cunningham (academydd) “duedd tuag at drwyddedu yn y sector angladdau yn y DU”. Nododd y Co-op eu bod yn ffafrio “dull symlach, gan gysoni unrhyw broses drwyddedu ar gyfer dulliau angladdol newydd â diwygio prosesau trwyddedu ehangach ar gyfer y sector angladdau”. Roedd yr NAFD yn “gefnogol ac ystyried rhinweddau cysoni safonau ledled y DU”.
- (10) *Cynnig trwyddedu fel opsiwn i'r Llywodraethau priodol.* Awgrymodd un ymgynghorai, Stephen White (academydd), er nad oedd o reidrwydd o blaid trwyddedu, y “dylai'r deddfwriaeth ganiatáu, ond nid ei gwneud yn ofynnol, i reoliadau gael eu gwneud ar gyfer trwyddedu safleoedd ac offer ar gyfer dulliau angladdol newydd a'u gweithredwyr”.

²⁵ Ymchwiliad Annibynnol i'r materion a godwyd yn sgil achos David Fuller, *Adroddiad Cam 2* (15 Gorffennaf 2025) HC 1092 t 207 <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/688258b96a7ea0e1ce1d3653/fuller-inquiry-phase-2-report-hc-1092-web-accessible.pdf>.

Trafodaeth

- 2.78 Mae'n bwysig sicrhau y bydd prosesau rheoleiddio manwl yng nghyswllt dulliau angladdol newydd, cyn belled ag y bo modd, yn lleihau'r risgiau a allai ddeillio o weithredu dulliau angladdol newydd. Mae risg bosibl y gallai gweithredwyr ddefnyddio dulliau angladdol newydd mewn ffordd sy'n anniogel neu'n annerbyniol fel arall. Er enghraifft, gellir cynnal dull angladdol newydd ar dymheredd amhriodol. Gallai hyn gael effaith andwyol ar yr amgylchedd, neu ar iechyd y cyhoedd. Fel arall, gallai gweithredwr gyflawni dull angladdol newydd mewn ffordd sy'n methu trin gweddillion dynol mewn modd urddasol. Os nad yw'r system reoleiddio yn darparu amddiffyniad digonol yn erbyn y risgiau hyn, yn ogystal â'r problemau uniongyrchol a allai godi, efallai y bydd aelodau'r cyhoedd yn ei chael hi'n anodd meithrin hyder mewn dulliau angladdol newydd a'r ffordd y cânt eu rheoleiddio.
- 2.79 Rydym yn argymhell (ym mharagraff 2.66) y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael pŵer i lunio is-ddeddfwriaeth er mwyn rheoleiddio dulliau angladdol newydd unigol. Rydym wedi ystyried amrywiol ffyrdd y gall ein deddfwriaeth ddrafft ddarparu mesurau diogelwch, neu alluogi rhoi mesurau diogelwch ar waith, yn erbyn gweithrediad anniogel neu amhriodol dulliau angladdol newydd. Rydym yn gwneud argymhellion ynghylch troseddau ym Mhennod 6. Ym Mhennod 3, rydym yn argymhell bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru ystyried rhai egwyddorion wrth wneud rheoliadau ynghylch dulliau angladdol newydd.
- 2.80 Mae proses drwyddedu yn un ffordd bosibl o reoleiddio dulliau angladdol newydd, sy'n cael ei defnyddio mewn awdurdodaethau eraill. Gallai trwyddedu ddarparu rhyw fath o oruchwyliaeth o weithrediad dulliau angladdol newydd. Fodd bynnag, nid trwyddedu yw'r unig ffordd y gellid darparu goruchwyliaeth. Fel y nodwyd gennym yn y Papur Ymgynghori, mae manteision ac anfanteision posibl i drwyddedu, ac nid yw'r rhain yn glir iawn.²⁶ Dangosodd ymatebion yr ymgynghoreion hyn.

Manteision posibl trwyddedu

- 2.81 Cytunodd rhai o'r ymgynghoreion â'n hawgrym y gallai trwyddedu ddarparu mesurau diogelwch, gan sicrhau safonau cyson a bod dulliau angladdol newydd yn cael eu gweithredu'n briodol. Fodd bynnag, nodwyd yn y Papur Ymgynghori y byddai effeithiolrwydd y mesurau diogelwch yn dibynnu ar delerau'r trwyddedau a'r graddau y cynhaliwyd archwiliadau.²⁷
- 2.82 Yn ein hymgynghoriad, roedden ni eisiau clywed a allai system drwyddedu gynyddu ymddiriedaeth y cyhoedd yn y defnydd o ddull angladdol newydd. Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd gan ymgynghoreion a oedd yn cefnogi proses drwyddedu oedd y byddai'n cynyddu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd bod dulliau angladdol newydd yn cael eu gweithredu'n briodol. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd galluogi'r cyhoedd i fod yn dawel eu meddwl bod dulliau angladdol newydd yn cael eu rheoleiddio'n briodol ac felly y gellir eu defnyddio'n hyderus. Heb hyn, gellid colli llawer o fanteision system reoleiddio ar gyfer dulliau angladdol newydd, gan gynnwys mwy o ddewis.

²⁶ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraffau 5.71 i 5.81.

²⁷ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 5.74.

2.83 Nodwyd yn y Papur Ymgynghori y gallai trwyddedu ddarparu hyblygrwydd wrth reoleiddio dulliau angladdol newydd, gan y gellid teilwra trwyddedau i ddulliau unigol. Gallai trwyddedu hefyd ddarparu ar gyfer amrywiadau o fewn pob dull, gyda gwahanol drwyddedau ar gyfer gwahanol amrywiadau.²⁸ Cyfeiriodd ychydig o ymgynghoreion at hyn fel mantais trwyddedu. Rydym yn ei ystyried yn fantais allweddol. Fodd bynnag, byddai'n bosibl i amrywiadau o fewn dull gael eu cynnwys mewn rheoliadau. Er enghraifft, gellid gwneud un set o reoliadau ar gyfer dull unigol, gydag amserlen yn nodi'r manylebau technegol derbyniol ar gyfer gwahanol ffurfiau o'r dull.

Anfanteision posibl trwyddedu

2.84 Roedden ni'n meddwl y gallai'r gwahaniaeth rhwng system drwyddedu ar gyfer dulliau angladdol newydd a diffyg system o'r fath ar gyfer claddu neu amlosgi atal darparwyr posibl ac roedden ni eisiau clywed barn am hyn. Roedd rhai ymgynghoreion yn gwrthwynebu proses drwyddedu oherwydd y diffyg cysondeb rhwng rheoleiddio dulliau angladdol newydd a dulliau wedi ennill eu plwyf. Gallai hyn wneud y system o reoleiddio dulliau angladdol yn anodd i weithredwyr. Gall y gwahaniaeth hwn fod yn anodd ei ddeall hefyd i'r rhai sy'n gwneud dewisiadau ynghylch dulliau angladdol.

2.85 Ar ben hynny, gallwn weld y gallai trwyddedu fod yn rhwystr i rai ymgeiswyr, oherwydd efallai y byddant yn cael eu digalonni gan y drefn wahanol (ac o bosibl un fwy costus a beichus) o ran dulliau angladdol newydd. Nodwn, hyd yn oed os caiff argymhelliad Ymchwiliad David Fuller y dylai trefnwyr angladdau gael eu trwyddedu ei symud ymlaen,²⁹ nid oes unrhyw obaith o system drwyddedu ar gyfer claddu nac amlosgi, ac ni wnaethom ymgynghori ar hyn yn ein Papur Ymgynghori ar Gladdu ac Amlosgi.³⁰

2.86 Ar ben hynny, gallai'r diffyg cysondeb a fyddai'n cael ei greu rhwng rheoleiddio dulliau angladdol newydd a rheoleiddio dulliau claddu ac amlosgi leihau ymddiriedaeth y cyhoedd mewn dulliau angladdol newydd (a hyd yn oed o bosibl mewn dulliau angladdol sydd wedi ennill eu plwyf). Gallai'r gwahaniaeth hwn roi'r argraff bod dulliau angladdol newydd yn wahanol iawn o ran natur i ddulliau presennol ac o bosibl yn llai cyfreithlon. Byddai'r gwahaniaeth hefyd yn ymddangos hyd yn oed yn fwy rhyfedd wrth i ddulliau angladdol newydd ddod yn fwy sefydledig. Rydym o'r farn y dylai hyder y cyhoedd yn rheoleiddio dulliau angladdol ddibynnu ar sylwedd y system o reolau, nid y ffurf.

2.87 Yn y Papur Ymgynghori, fe wnaethom nodi rhai materion y byddai angen eu hystyried wrth sefydlu system drwyddedu. Un mater oedd p'un ai a fyddai cais am drwydded yn arwain at ffi.³¹ Cododd rhai ymgynghoreion bryderon ynghylch y costau posibl o drosglwyddo trwyddedau i bobl sydd wedi colli rhywun. Pe na bai ffi am drwydded, byddai'r gost yn cael ei hamsugno gan y sector cyhoeddus i bob pwrpas. Pe bai ffi, mae'n bosibl y byddai'r gost hon yn cael ei throsglwyddo. Yn dibynnu ar y swm, gallai hyn atal pobl rhag defnyddio dulliau angladdol newydd. Gallai hefyd fod yn rhwystr i

²⁸ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 5.73.

²⁹ Ymchwiliad Annibynnol i'r materion a godwyd yn sgil achos David Fuller, *Adroddiad Cam 2* (15 Gorffennaf 2025) HC 1092 t 207 <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/688258b96a7ea0e1ce1d3653/fuller-inquiry-phase-2-report-hc-1092-web-accessible.pdf>.

³⁰ Claddu ac Amlosgi (2026) Comisiwn y Gyfraith Rhif 425.

³¹ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 5.82.

ddarparwyr gael mynediad, a fyddai'n lleihau'r ddarpariaeth ac a allai arwain at lai o arloesedd yn y sector.

- 2.88 Mae yna rai problemau posibl eraill gyda sefydlu system drwyddedu. Byddai'n bosibl rhoi pŵer i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i wneud rheoliadau ynghylch trwyddedu. Yna gallai'r Llywodraethau priodol benderfynu a fyddai trwyddedu'n ddefnyddiol ar gyfer dull penodol ai peidio, a dylunio system briodol. Fodd bynnag, byddai hynny'n golygu y byddai pob penderfyniad ynghylch trwyddedu yn cael ei adael yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth eilaidd, heb yr un lefel o graffu democrataidd ag a roddir i ddeddfwriaeth sylfaenol.
- 2.89 Ar ben hynny, yn absenoldeb corff, neu sefydliad sy'n bodoli eisoes, a fyddai'n amlwg yn addas ar gyfer gweinyddu trwyddedau, efallai y bydd angen y pŵer ar y rhai sy'n gwneud rheoliadau i greu un. Byddai hyn yn ddadleuol. Yn ei 16eg Adroddiad o 2017-19, nododd Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar y Cyfansoddiad fod sefydlu cyrff mewn deddfwriaeth eilaidd yn "annerbyniol yn gyfansoddiadol".³² Yn ei hymateb, cytunodd Llywodraeth y DU fod "yr achosion lle mae modd cyfiawnhau defnyddio pwerau... i sefydlu cyrff cyhoeddus yn debygol o fod yn brin". Dywedodd hefyd fod yn "rhaid bod yn ofalus wrth ymdrin â'r mathau hyn o bwerau a bod yn rhaid egluro'r rhesymeg dros eu cymryd yn arbennig o ofalus i'r Senedd".³³ Pe bai corff trwyddedu yn cael ei awdurdodi i greu rheolau, byddai hyn hefyd yn ddadleuol.³⁴ Byddai hyd yn oed yn fwy o broblem pe bai'r corff wedi'i greu gan is-ddeddfwriaeth.

Gallai rheoliadau ddarparu dulliau eraill o oruchwyllo

- 2.90 Fe wnaethom nodi yn y Papur Ymgynghori y byddai'r cwestiwn a fyddai trwyddedu'n darparu ar gyfer dulliau rheoleiddio mwy llym, gyda mesurau diogelu mwy effeithiol, na rheoliadau ar eu pen eu hunain, yn dibynnu ar gynnwys rheoliadau.³⁵ Cafodd hyn ei adlewyrchu ym marn yr ymgynghoreion. Byddwn nawr yn ystyried hyn yn fanylach.
- 2.91 Teimlai rhai ymgynghoreion y byddai trwyddedu yn darparu mesurau diogelu ychwanegol, tra awgrymodd eraill y dylai rheoliadau cadarn fod yn ddigonol i sicrhau bod dulliau angladdol newydd yn cael eu cyflawni'n briodol. Pe bai gofyniad i weithredwyr gael trwydded, a phe bai'r drwydded yn cynnwys telerau manwl ac y gellid ei dirymu pe bai gweithredwr yn torri'r telerau hynny, gallai hyn roi trosolwg effeithiol o'r rheini sy'n defnyddio dulliau angladdol newydd. Fodd bynnag, byddai'n

³² Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar y Cyfansoddiad, *The Legislative Process: The Delegation of Powers* (16eg Adroddiad 2017-19, 20 Tachwedd 2018) HL 225 para 50
<https://publications.parliament.uk/pa/ld201719/ldselect/ldconst/225/225.pdf>.

³³ Ymateb y Llywodraeth i Adroddiad Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi, *The Legislative Process: The Delegation of Powers* (20 Ionawr 2019) paragraff 50
<https://www.parliament.uk/globalassets/documents/lords-committees/constitution/Correswithministers/2501-Government-response-to-Leg-Process-Report.pdf>.

³⁴ Gweler hefyd Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi, *Democracy Denied? The urgent need to rebalance power between Parliament and the Executive* (12^{ed} Adroddiad Sesiwn 2021-22, 24 Tachwedd 2021) HL 106 para 107
<https://committees.parliament.uk/publications/7960/documents/211660/default/>.

³⁵ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 5.75.

bosibl rhoi lefel debyg o oruchwyliaeth drwy reoliadau, er enghraifft drwy ddarpariaethau arolygu a gorfodi manwl.

- 2.92 Mewn system drwyddedu, byddai'n rhaid i unigolyn fel arfer wneud cais am drwydded i weithredu cyfleuster dulliau angladdol newydd. Gallai lefel yr wybodaeth y byddai angen iddynt ei darparu amrywio, yn dibynnu ar y system. Fodd bynnag, heb drwyddedu, byddai'n dal yn bosibl mynnu bod cais yn cael ei gyflwyno cyn agor cyfleuster. Er mwyn agor amlogfa, rhaid i'r sawl sy'n bwriadu ei hagogor roi mis o rybudd i'r Ysgrifennydd Gwladol.³⁶ Ar ben hynny, mae Deddf Amloggi 1952 yn nodi, lle mae amlogfa wedi'i sefydlu ers dechrau'r Ddeddf honno, na ellir amloggi nes bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi ardystio'r amlogfa fel un gyflawn sy'n meddu ar y cyfarpar priodol.³⁷ Byddai modd cael system ymgeisio fwy cynhwysfawr ar gyfer dulliau angladdol newydd.
- 2.93 Gallai trwyddedu gynnwys rhyw fath o archwiliadau rheolaidd ar ddarparwyr. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i warantu. Ar ben hynny, gellid sefydlu system o arolygiadau ni waeth a oes angen trwyddedau ai peidio. Fe wnaethom awgrymu system o'r fath yn union yn ein Papur Ymgynghori, lle gwnaethom nodi ein bod yn credu y byddai angen i reoleiddio dulliau angladdol newydd yn fanwl nodi darpariaeth ynghylch arolygiadau. Fe wnaethom nodi hefyd y gallai fod angen darpariaeth fwy cynhwysfawr na'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer claddu ac amloggi, gan y gallai defnyddio technoleg newydd a phrosesau newydd olygu bod angen craffu'n agosach, tra bo dulliau newydd yn dod i'r amlwg ac yn datblygu o leiaf.³⁸
- 2.94 Byddai angen i system effeithiol o oruchwyllo dulliau angladdol newydd ddelio â'r hyn sy'n digwydd os aiff pethau o chwith. Ym Mhennod 6 o'r Adroddiad hwn, rydym yn cyflwyno argymhellion ynghylch creu troseddau yng nghyswllt dulliau angladdol newydd sy'n cael eu rheoleiddio a heb eu rheoleiddio. Mewn ymateb i Gwestiwn 8 yr Ymgynghoriad, awgrymodd rhai ymgynghoreion y dylid gwahardd gweithredwyr sy'n cael eu dyfarnu'n euog o drosedd benodol rhag gweithredu dulliau angladdol newydd yn y dyfodol, neu bob dull angladdol. Pe bai system drwyddedu ar waith, gellid delio â hyn drwy ddiddymu trwyddedau a'u gwrthod. Fodd bynnag, byddai hefyd yn bosibl cyflwyno darpariaeth ar gyfer hyn mewn rheoliadau, heb drwyddedu. Fe wnaethom nodi yn ein Papur Ymgynghori ein bod yn credu y byddai angen i brosesau rheoleiddio manwl ymdrin â'r broses o agor cyfleuster a phwy allai wneud hyn.³⁹ Fe wnaethom hefyd ddweud y gellid cyflwyno darpariaeth ar gyfer gweithredu cyfleusterau.⁴⁰ Mae'n bosibl y gellid defnyddio rheoliadau sy'n ymwneud ag agor neu weithredu cyfleusterau i nodi o dan ba amgylchiadau y dylid caniatáu i unigolyn ddefnyddio dull angladdol newydd. Gallai hyn gynnwys darpariaethau sy'n atal rhywun a gafwyd yn euog o drosedd berthnasol rhag gweithredu, os oedd yr Ysgrifennydd

³⁶ Rheoliadau Amloggi (Cymru a Lloegr) 2008 (OS 2008 Rhif 2841), rheoliad 3.

³⁷ Deddf Amloggi 1952, adran 1(1).

³⁸ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 6.98. I gael manylion yr archwiliad o gladdfeydd ac amlogfeydd, gweler paragraffau 6.95 i 6.97 o'r Papur Ymgynghori.

³⁹ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 6.85.

⁴⁰ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 6.91.

Gwladol neu Weinidogion Cymru o'r farn bod hyn yn briodol. Rydym yn trafod hyn ymhellach ym Mhennod 4.

Casgliad

- 2.95 Mae sawl dadl yn erbyn system drwyddedu, gan gynnwys y pwynt pwysig y byddai gwahaniaeth yn cael ei greu rhwng rheoleiddio dulliau newydd a rhai sydd wedi ennill eu plwyf. Byddai'n bosibl cyflwyno darpariaeth ar gyfer lefel debyg o oruchwyliaeth, er mwyn sicrhau digon o fesurau diogelwch a hyder y cyhoedd, heb y dryswch a allai godi o gael system drwyddedu ar gyfer dulliau angladdol newydd yn unig. Felly, nid ydym o'r farn bod sail resymegol glir dros nodi system drwyddedu ar gyfer dulliau angladdol newydd mewn deddfwriaeth sylfaenol.
- 2.96 Mae rhoi pŵer i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU greu system drwyddedu, heb gasgliad clir mai trwyddedu yw'r ffordd orau o reoleiddio dulliau angladdol newydd, yn ymddangos yn ddamcaniaethol, a byddai'n anodd ei gyfiawnhau ac ystyried y dadleuon posibl rydym wedi'u hegluro uchod. Felly, nid ydym yn gwneud unrhyw argymhellion ynghylch system drwyddedu.
- 2.97 Os bydd datblygiadau yn y dyfodol yn dangos bod angen system drwyddedu ar gyfer dulliau angladdol newydd, bydd yn agored, wrth gwrs, i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol sy'n sefydlu system o'r fath, a Senedd y DU neu Senedd Cymru i'w rhoi ar waith, gan gynnwys creu corff newydd i weinyddu trwyddedau.
- 2.98 Fe wnaethom nodi (ym mharagraffau 2.90 i 2.94 uchod) gwahanol elfennau goruchwyllo y gellid eu cynnwys mewn rheoliadau, heb fod angen trwyddedu. Er enghraifft, gellir cyflwyno darpariaethau ynghylch y broses ymgeisio ar gyfer agor cyfleuster mewn rheoliadau. Un o brif elfennau goruchwyllo yw arolygiadau. Rydym o'r farn bod hyn mor bwysig fel ein bod yn gwneud argymhellion penodol am drefn arolygu. Ymdrinnir â hyn ym mharagraffau 4.63 i 4.67. Rydym hefyd am sicrhau y bydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru y pŵer i wneud rheoliadau sy'n nodi o dan ba amgylchiadau y gellir gwahardd unigolyn rhag cyflawni dull angladdol newydd penodol, neu bob dull angladdol newydd, yn ogystal ag ynghylch dirymu unrhyw awdurdodiadau. Rydym yn rhoi sylw i hyn ym mharagraffau 4.68 a 4.77.

Pennod 3: Egwyddorion sy'n sail i reoleiddio dulliau angladdol newydd

CYFLWYNIAD

- 3.1 Yn ein Papur Ymgynghori, roeddem wedi nodi tair egwyddor a oedd, yn ein barn ni, eisoes yn sail i reoleiddio dulliau angladdol sydd wedi ennill eu plwyf. Sef: gwarchod yr amgylchedd; diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd; a chadw urddas dynol.
- 3.2 Gofynnwyd cwestiwn agored ynghylch a ddylai fod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU roi sylw i'r egwyddorion hyn wrth wneud unrhyw reoliadau am ddulliau angladdol newydd unigol. Roeddem hefyd wedi gofyn am farn ymgynghoreion am unrhyw egwyddorion pellach y dylai fod yn ofynnol i'r Llywodraethau perthnasol eu hystyried.¹
- 3.3 Yn y bennod hon, rydym yn ystyried yr ymatebion i'r cwestiynau hyn ac yn archwilio'r egwyddorion ymhellach. Rydym yn argymhell bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru ystyried pwysigrwydd y canlynol wrth reoleiddio dulliau angladdol newydd unigol: (1) gwarchod yr amgylchedd; (2) diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd; a (3) trin gweddillion dynol ag urddas.

YMGYNGHORIAD AR YR EGWYDDORION SY'N SAIL I REOLEIDDIO DULLIAU ANGLADDOL NEWYDD

- 3.4 Mae darpariaeth ddeddfwriaethol glir ar gyfer gwarchod yr amgylchedd a diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd o ran dulliau angladdol sydd wedi ennill eu plwyf. Er enghraifft, roedd Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016² yn nodi trefn drwyddedu sy'n berthnasol mewn gwahanol ffyrdd i gladdu ac amlosgi. Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974, a chanllawiau cysylltiedig a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn berthnasol i weithleoedd lle mae claddu neu amlosgi'n digwydd. Yn y Papur Ymgynghori, fe wnaethom awgrymu y gellid ymestyn y ddeddfwriaeth bresennol i ddulliau angladdol newydd sy'n cael eu rheoleiddio yn y dyfodol, lle bo hynny'n briodol.³
- 3.5 Mae urddas dynol hefyd yn gysyniad pwysig iawn yng nghyswllt dulliau angladdol sydd wedi ennill eu plwyf. Er nad yw deddfwriaeth am gladdu ac amlosgi yn sôn yn benodol am gadw urddas dynol, un o nodau pwysig y system reoleiddio a chladdu ac amlosgi yw cynnal yr egwyddor hon. Er enghraifft, mae darpariaethau claddu sy'n nodi dyfnder claddu a chyfyngiadau ar ddatgladdu yn helpu i sicrhau bod gweddillion dynol yn cael eu trin ag urddas.

¹ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraffau 6.51 i 6.52.

² OS 2016 Rhif 1154.

³ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 6.38.

- 3.6 Fe wnaethom egluro nad oeddem yn gweld unrhyw reswm dros gredu na fyddai'r tair egwyddor roeddem wedi'u cyflwyno (gwarchod yr amgylchedd, diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd, a chadw urddas dynol) yn cael eu hystyried wrth reoleiddio dulliau angladdol newydd yn y dyfodol. Fodd bynnag, bydd dulliau angladdol newydd yn ddieithr, ac efallai na fydd gan y cyhoedd lawer o wybodaeth amdanynt. Fe wnaethom awgrymu y gallai fod budd sicrhau gofyniad mewn deddfwriaeth sylfaenol i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ystyried yr egwyddorion hyn wrth reoleiddio dulliau angladdol newydd. Gall roi mwy o hyder i'r cyhoedd bod rheoliadau'n cael eu gwneud mewn ffordd briodol. Gallai hefyd ddarparu llwybr posibl ar gyfer gwneud iawn pe na bai'r egwyddorion yn amlwg yn cael eu hystyried.
- 3.7 Gofynnwyd felly a ddylai fod yn ofynnol i'r gwahanol Lywodraethau roi sylw i'r egwyddorion hyn wrth wneud rheoliadau am ddulliau angladdol newydd unigol. Roeddem hefyd wedi gofyn am farn ymgynghoreion am unrhyw egwyddorion pellach y dylai'r Llywodraethau perthnasol eu hystyried.⁴

YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

Cefnogaeth i nodi egwyddorion mewn deddfwriaeth sylfaenol

- 3.8 Dywedodd mwyafrif sylweddol o'r ymgynghoreion y dylai deddfwriaeth sylfaenol ei gwneud yn ofynnol i'r ddwy Lywodraeth ystyried y tair egwyddor wrth lunio is-ddeddfwriaeth am ddulliau angladdol newydd. Roedd rhai ymgynghoreion o'r farn mai dim ond un neu ddwy o'r tair egwyddor y dylid eu cynnwys.
- 3.9 Dim ond un ymgynghorai a ddywedodd yn benodol na ddylai deddfwriaeth sylfaenol ei gwneud yn ofynnol i'r gwahanol Lywodraethau roi sylw i unrhyw un o'r egwyddorion. Roedd hyn ar y sail ei fod "ymhlyg gydag unrhyw gladdedigaeth yn barod".

Sylwadau cyffredinol ar egwyddorion

- 3.10 Dywedodd Fiona Cunningham (academydd), wrth nodi y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i urddas dynol, fod y Papur Ymgynghori:
- yn cyflwyno dadl gref dros arwyddocâd y tair egwyddor hyn mewn deddfwriaeth angladdol bresennol a hyder y cyhoedd y gellid ei feithrin drwy fynnu eu bod yn cael eu hystyried yn benodol.
- 3.11 Nododd Kindly Earth Limited/Resomation Limited y gellir cael achosion lle mae'r egwyddorion yn gwrthdaro. Rhoddon nhw enghraifft o bandemig COVID-19, lle bu'n rhaid newid safonau gofal arferol pobl ymadawedig er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Dylid darparu canllawiau ar gyfer sefyllfaoedd fel hyn.
- 3.12 Holodd Cymdeithas y Gyfraith Eglwysig a yw "ystyried" yn "ofyniad digon cryf". Dywedodd: "efallai y byddai 'rhaid dilyn' neu eiriau i'r perwyl hwnnw'n well."

⁴ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraffau 6.51 i 6.52.

Gwarchod yr amgylchedd

- 3.13 Roedd mwyafrif sylweddol o'r ymgylchoreion o'r farn y dylai deddfwriaeth sylfaenol ei gwneud yn ofynnol i'r ddwy Lywodraeth roi sylw i warchod yr amgylchedd wrth reoleiddio dulliau angladdol newydd unigol. Dywedodd rhai ymgylchoreion mai dyma'r unig egwyddor y dylid ei chynnwys.
- 3.14 Dywedodd Cyngor Blackpool na fyddai "gofyn am linell sylfaen o berfformiad amgylcheddol gwell yn cyfyngu ar arloesi nac yn cyfyngu ar ddewis". Dywedodd Cymdeithas Amlogi Prydain Fawr ei bod yn bwysig bod gwarchod yr amgylchedd:
- yn cael ei brofi gan ymchwil annibynnol a bod yr ôl troed amgylcheddol yn cael ei fesur ar unrhyw broses benodol/dull angladdol newydd yn ei chyfanrwydd, ac nid dim ond yr allyriadau sy'n cynrychioli un elfen o'r broses.
- 3.15 Roedd Thames Water Utilities Limited yn gweld bod angen "rhwymedigaeth statudol ar y llywodraeth mewn deddfwriaeth sylfaenol i ystyried agweddau amgylcheddol y newid polisi posibl hwn mewn unrhyw is-ddeddfwriaeth". Gwnaeth rai sylwadau hefyd am "dderbyn hylifau gwastraff amlogiad dŵr (resomation)". Fel y nodwyd gennym yn y Papur Ymgynghori, pe bai'r hylif sy'n deillio o ddull angladdol newydd fel hydrolysis alcalïaidd yn cael ei ollwng i garthffos gyhoeddus, byddai angen i feddiannydd yr adeilad masnach gael caniatâd⁵ gan y cwmni dŵr ar gyfer yr ardal honno, neu ymrwymo i gytundeb ag ef.⁶ Mater i'r Llywodraeth berthnasol fyddai ystyried a yw'n dewis rheoleiddio dulliau o'r fath yn y dyfodol. Os oes angen cael caniatâd gan gwmnïau cyfleustodau, fel yn yr enghraifft uchod, byddai angen i'r cwmnïau cyfleustodau hefyd gynnal archwiliadau a gwneud penderfyniadau.

Diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd

- 3.16 Roedd mwyafrif sylweddol o'r ymgylchoreion o'r farn y dylid cynnwys diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd mewn deddfwriaeth fel un o'r egwyddorion.
- 3.17 Soniodd un ymgynghorai am "wirio pa mor ddiogel yw dŵr ar ôl hydrolysis alcalïaidd" fel enghraifft o'r ffyrdd y gallai iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd fod yn berthnasol i ddulliau angladdol newydd.

Diogelu urddas dynol

- 3.18 Roedd mwyafrif sylweddol o'r ymgylchoreion o'r farn y dylid cynnwys diogelu urddas dynol fel un o'r egwyddorion y mae'n rhaid i'r gwahanol Lywodraethau eu hystyried wrth wneud rheoliadau. Pwysleisiodd rhai bwysigrwydd urddas dynol i'r rhai sy'n gweithio yn y sector, er enghraifft, trefnwyr angladdau neu'r rhai sy'n cynnig cymorth bugeiliol i bobl mewn profedigaeth.
- 3.19 Fodd bynnag, dywedodd rhai ymgylchoreion na ddylai diogelu urddas dynol fod yn un o'r egwyddorion. Roedd rhai o'r ymgylchoreion a oedd o'r farn y dylai hyn fod yn un o'r egwyddorion hefyd yn mynegi amheuon ynghylch cyfeirio at urddas dynol mewn deddfwriaeth.

⁵ Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, adran 118(1).

⁶ Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, adran 129.

Urddas fel rhywbeth goddrychol ac yn benodol i gyd-destun

- 3.20 Nododd rhai ymgynghoreion y gall yr egwyddor o gadw urddas dynol fod yn wahanol ar draws cyd-destunau, gan nodi y gallai olygu gwahanol bethau mewn gwahanol ddiwylliannau ac y gallai'r ystyr newid dros amser. Dywedodd Dr Imogen Jones (academydd) fod "peryl gwirioneddol wrth wneud rhagdybiaethau ynghylch beth yw urddas neu sut mae'n cael ei roi ar waith".

Angen eglurhad

- 3.21 Dywedodd rhai ymgynghoreion y dylid cael mwy o eglurder ynghylch ystyr yr egwyddor hon.
- 3.22 Dywedodd Fiona Cunningham (academydd) bod yn "rhaid cael mwy o eglurder ynghylch union ystyr 'urddas dynol'" a bod:

gadael yr egwyddor hon mor annelwig a phenagored i lunwyr cyfreithiau a gwrthwynebwyr posibl yn arwain at berygl difrifol o osod normau perthynol, crefyddol neu ddiwylliannol benodol ar bobl sy'n marw a phobl sy'n cynllunio angladdau.

- 3.23 Gan roi enghreifftiau o God Cyfarwyddwr Angladdau NAFD a Chod Amlosgi FBCA, dywedodd fod yr ymddygiadau dangosol amrywiol yn y codau hyn yn adlewyrchu "diffiniad cyfyngedig ac ymarferol o urddas".⁷ Awgrymodd fod urddas yn "egwyddor hanfodol mewn unrhyw fframwaith a roddir i lunwyr cyfreithiau, ond mae'n rhaid iddo fod yn gyfyngedig i faterion diogelwch, preifatrwydd a glendid er mwyn atal camddefnydd".
- 3.24 Awgrymodd Cymdeithas y Gyfraith Eglwysig y gallai'r "egwyddor y dylid trin gweddillion dynol ag urddas a pharch bob amser" fod yn gliriach nag "urddas dynol", gan nodi bod hyn yn cael ei fynegi yn y Panel Cyngori ar Archeoleg Claddedigaeu yn Lloegr - Canllawiau ar yr Arferion Gorau ar gyfer trin Gweddillion Dynol sy'n cael eu Cloddio o Fannau Claddu Cristnogol yn Lloegr.⁸

Potensial ar gyfer ymglyfreitha

- 3.25 Mynegodd rhai ymgynghoreion bryderon y gallai goddrychedd yr egwyddor hon arwain at heriau cyfreithiol ar y sail nad yw dulliau penodol yn bodloni gofynion urddas o safbwynt grwpiau neu grefyddau penodol, neu nad ydynt yn cael eu hoffi fel arall. Credai rhai y gallai hyn arwain at oedi wrth gyflwyno dulliau angladdol newydd.

⁷ Cyfeirir yn benodol at urddas mewn codau ymarfer a gyhoeddir gan y sefydliadau hyn. Gweler NAFD, *Cod Cyfarwyddwr Angladdau'r DU - F3. 10/25* (2025) <https://www.nafd.org.uk/funeral-director-code>; ac FBCA, *Code of cremation practice* (2019) <https://www.fbca.org.uk/code-of-cremation-practice/>.

⁸ Panel Cyngori ar Archeoleg Claddedigaeu yn Lloegr, *Guidance for Best Practice for the treatment of Human Remains Excavated from Christian Burial Grounds in England* (2^{il} argraffiad, 2017) https://apabe.org.uk/sites/apabe.org.uk/files/2024-08/APABE_Excavated_Remains_Best_Practice.pdf.

Awgrymiadau eraill

3.26 Awgrymodd Kindly Earth Limited/Resomation Limited y gallai fod angen “diogelwch” fel egwyddor ychwanegol, gan nodi cynnwys Adroddiad Cam 2 Ymchwiliad David Fuller⁹ a ddywedodd:

ei fod yn cyfeirio'n gyson at ddiogelwch (ac urddas) yr ymadawedig ym mhob lleoliad ar ôl marwolaeth a chyn yr angladd, yn ogystal â'r angen am bolisiau a gweithdrefnau diogelu i gefnogi hyn.

3.27 Roedd Amlogsgfa Wealden (sy'n eiddo i Gyngor Dosbarth Wealden) hefyd yn awgrymu atebolrwydd gweithredwyr dulliau angladdol newydd, boed hynny drwy gofrestru, trwyddedu neu aelodaeth o awdurdod/sefydliad arweiniol sy'n nodi egwyddorion arweiniol tebyg i'r ICCM a FBCA”.

3.28 Soniodd un ymgynghorai am “barch at arferion crefyddol neu ddiwylliannol” ac awgrymodd Central Co-op y dylai “sensitifrwydd diwylliannol a chrefyddol” fod yn egwyddor arweiniol. Awgrymodd y Fforwm Gwelliant Parhaus ar gyfer Gwasanaethau Profedigaeth yn Ne Ddwyrain Cymru “ymgyngchori â grwpiau ffydd”. Awgrymodd Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol “barch at athrawiaethau a chredoau Eglwysi a chyrrff seciwlar sefydledig”. Cyfeiriodd ymgynghorai arall at egwyddorion yn ymwneud â “thriniaeth yr ymadawedig” yn Islam.

3.29 Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys tryloywder, fforddiadwyedd a lleihau straen i bobl mewn profedigaeth.

TRAFODAETH

3.30 Roedd cefnogaeth gref i gynnwys y tair egwyddor a awgrymwyd mewn deddfwriaeth sylfaenol. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos y bydd darpariaeth sy'n mynnu bod y gwahanol Lywodraethau'n ystyried yr egwyddorion hyn yn caniatáu i bobl deimlo'n fwy hyderus bod dulliau angladdol newydd yn cael eu rheoleiddio'n briodol. Fodd bynnag, mynegodd rhai ymgynghoreion bryderon am yr egwyddor o gadw urddas dynol.

Gwarchod yr amgylchedd a diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd

3.31 Fe wnaethom egluro yn y Papur Ymgynghori y gellir rheoleiddio materion amgylcheddol, iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â dulliau angladdol newydd fel ar gyfer claddu ac amlosgi.¹⁰ Byddai'r Llywodraethau priodol bob amser yn gallu ystyried y rhain wrth reoleiddio dulliau angladdol newydd unigol, yn union fel yr ymddengys eu bod wedi'i wneud wrth reoleiddio prosesau claddu ac amlosgi. Gallent hefyd ddiweddarau is-ddeddfwriaeth neu ganllawiau sy'n ymwneud yn benodol â'r amgylchedd, iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch y cyhoedd, yn ôl yr angen. Fodd bynnag, roedd mwyafrif sylweddol o'r ymgynghoreion o blaid deddfwriaeth sylfaenol a oedd yn nodi bod yn rhaid i'r rheini sy'n gwneud rheoliadau ystyried gwarchod yr

⁹ Ymchwiliad Annibynnol i'r materion a godwyd yn sgil achos David Fuller, *Adroddiad Cam 2* (15 Gorffennaf 2025) HC 1092 t 207 <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/688258b96a7ea0e1ce1d3653/fuller-inquiry-phase-2-report-hc-1092-web-accessible.pdf>.

¹⁰ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 6.38.

amgylchedd, a diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd, wrth reoleiddio dulliau angladdol newydd unigol.

- 3.32 Yn ein Papur Ymgynghori, fe wnaethom nodi ein bod yn rhagweld y gallai pobl seilio dewisiadau am ddulliau angladdol newydd ar resymau amgylcheddol, gan gynnwys cynaliadwyedd cymharol gwahanol ddulliau.¹¹ Roedd rhai ymatebion i'r cwestiwn hwn, a chwestiynau eraill yn y Papur Ymgynghori, yn awgrymu y bydd hyn yn digwydd. Awgrymodd rhai ymgynghoreion y dylid dangos bod dulliau angladdol newydd yn fwy cynaliadwy na dulliau sydd wedi ennill eu plwyf cyn y gellir eu rheoleiddio. Fel y nodwyd yn y Papur Ymgynghori, pe bai angen i ddulliau angladdol newydd fod yn fwy cynaliadwy na dulliau angladdol sydd wedi ennill eu plwyf, fe wnaethom nodi y gallai hyn gyfyngu ar y broses o gyflwyno dulliau angladdol newydd, yn enwedig ac ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â chael tystiolaeth glir. Fodd bynnag, byddai ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru ystyried gwarchod yr amgylchedd yn sicrhau eu bod yn ystyried materion amgylcheddol wrth reoleiddio dulliau angladdol newydd unigol (i'r graddau na fyddai hyn eisoes yn ofynnol gan ddeddfwriaeth arall).
- 3.33 Ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol ynghylch cynnwys diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd fel un o'r egwyddorion.

Urddas

- 3.34 Er bod mwyafrif sylweddol o'r ymgynghoreion o'r farn y dylid nodi cadw urddas dynol fel egwyddor yn y ddeddfwriaeth ddrafft, mynegodd rhai ymgynghoreion bryderon am hyn. Roedd y rhan fwyaf o'r pryderon hyn yn deillio o natur cyd-destunol benodol y cysyniad o urddas dynol. Awgrymodd rhai ymgynghoreion y dylid egluro ystyr urddas dynol yn y ddeddfwriaeth ddrafft. Roedd eraill o'r farn na ddylid ei gynnwys.
- 3.35 Mae urddas dynol yn gysyniad pwysig iawn yng nghyswllt dulliau angladdol newydd. Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd gan rai ymgynghoreion ynghylch natur amwys neu benodol i gyd-destun y cysyniad hwn. Cytunwn fod urddas dynol yn agored i ddehongliadau gwahanol, mewn cyd-destunau gwahanol.
- 3.36 Nodwn na fydd y ddeddfwriaeth yn gorfodi pobl i ddefnyddio unrhyw ddull angladdol penodol; bydd ganddynt ddewis. Wrth reoleiddio dull penodol, felly, ni fyddai angen i'r Llywodraeth berthnasol sicrhau ei bod yn bodloni pob cysyniad posibl o urddas dynol. Er enghraifft, pe bai'n amlwg bod un grŵp ffydd neu grefydd benodol yn gwrthwynebu'r dull hwnnw ar y sail nad oedd yn ystyried urddas yn ôl eu credoau nhw, ni fyddai hyn yn gwahardd y gwaith o reoleiddio'r dull hwnnw. Pe bai'r dull yn cael ei reoleiddio, byddai'n agored i aelodau o'r ffydd neu'r grefydd honno ddewis defnyddio dull angladdol gwahanol. Gallent wneud y penderfyniad hwn am unrhyw reswm, gan gynnwys nad yw'r dull yn cyd-fynd â'u cysyniad nhw o urddas dynol. Byddai'r dull yn dal ar gael i'r rheini a fyddai'n awyddus i'w ddefnyddio. Nid yw hyn yn wahanol i'r sefyllfa bresennol, lle gall pobl sy'n ystyried bod claddu neu amlosgi yn dangos diffyg urddas, am resymau crefyddol neu resymau eraill, ddewis osgoi'r dull hwnnw.

¹¹ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 6.28.

- 3.37 Fodd bynnag, yn ein barn ni, byddai'n ddefnyddiol bod yn gliriach am ystyr yr egwyddor hon yng nghyd-destun dulliau angladdol newydd.
- 3.38 Yn y Papur Ymgynghori, nodwyd mai un o nodau pwysig y system o reoleiddio prosesau claddu ac amlosgi yw sicrhau bod gweddillion dynol yn cael eu trin mewn modd urddasol. Rhoesom enghreifftiau o ddarpariaethau claddu o ran dyfnder claddu, cyfyngiadau ar ddatgladdu ac aildefnyddio beddi.¹² Fel y nodwyd ym mharagraff 3.23 uchod, mae urddas hefyd yn berthnasol i godau a nodir gan gyrff y diwydiant fel NAFD ac FBCA.¹³
- 3.39 Rydym hefyd wedi ystyried sut mae'r canllawiau gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (HTA) yn delio ag urddas. Mae'r Awdurdod Meinweoedd Dynol yn rheoleiddio'r hyn y gellir ei wneud gyda meinweoedd ac organau dynol, yng nghyswllt pobl sy'n fyw a phobl sydd wedi marw. Mae'n cyhoeddi codau ymarfer statudol sy'n rhoi canllawiau i'r rhai sy'n cyflawni'r gweithgareddau y mae'n eu rheoleiddio, ac yn gosod safonau ar eu cyfer.¹⁴ O dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004, mae angen caniatâd i storio neu ddefnyddio corff person ymadawedig at ddibenion a gweithgareddau o dan y Ddeddf.¹⁵ Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau ynghylch y caniatâd priodol mewn amgylchiadau penodol. Er enghraifft, mae angen caniatâd ysgrifenedig ar gyfer arddangos corff yn gyhoeddus ar ôl marwolaeth.¹⁶ Mae cylch gwaith y Ddeddf Meinweoedd Dynol yn cwmpasu gweithgareddau fel ymchwil ar gyrff pobl ymadawedig, a'u harddangos yn gyhoeddus, lle gall cwestiynau ynghylch urddas fod braidd yn debyg i'r rhai sy'n berthnasol i dulliau angladdol. Mae Cod A o God Ymarfer y Ddeddf Meinweoedd Dynol yn nodi bod "sicrhau arferion addas lle mae gweithgareddau trwyddedadwy yn berthnasol yn cynnwys ... sicrhau bod urddas pobl ymadawedig yn cael ei gynnal bob amser".¹⁷ Mae Cod A hefyd yn cynnwys cyfeiriad at y bwriad yn Neddf Meinweoedd Dynol 2004 bod "urddas y person, boed hynny'n fyw neu'n farw, yn cael ei gynnal".¹⁸
- 3.40 Mae'r ffocws ar gynnal urddas pobl ymadawedig penodol y mae eu cyrff yn cael eu storio neu eu defnyddio o dan ddarpariaethau'r Ddeddf Meinweoedd Dynol, a lle mae angen caniatâd, ychydig yn wahanol i'r ystyriaethau y byddai angen i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru eu hystyried wrth reoleiddio dulliau angladdol newydd.

¹² Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 6.45.

¹³ Mae NAFD yn gymdeithas fasnach sy'n cynrychioli darparwyr dulliau angladdol. Mae ei gyfansoddiad bellach yn nodi bod hyn yn cynnwys darparwyr prosesau claddu, amlosgi a dulliau angladdol newydd. Mae'r FBCA yn gorff cynrychioliadol ar gyfer trefnwyr angladdau yn y DU. Er nad oes yn rhaid bod yn aelod o'r sefydliadau hyn, mae cynnwys codau sefydliadau o'r fath yn adlewyrchu safonau ac arferion y diwydiant.

¹⁴ Deddf Meinweoedd Dynol 2004, adran 26(1).

¹⁵ Gweler y Ddeddf Meinweoedd Dynol, adrannau 1(1), 1(2) ac 1(3) ac Atodlen 1.

¹⁶ Deddf Meinweoedd Dynol, adrannau 2(4) a 3(3).

¹⁷ Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol, *Code of Practice A: Guiding Principles and the Fundamental Principle of Consent* (30 Mehefin 2023) para 75 <https://www.hta.gov.uk/sites/default/files/2023-06/Code%20A%20-%20Guiding%20principles%20and%20the%20fundamental%20principle%20of%20consent.pdf>.

¹⁸ Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol, *Code of Practice A: Guiding Principles and the Fundamental Principle of Consent* (30 Mehefin 2023) para 144 <https://www.hta.gov.uk/sites/default/files/2023-06/Code%20A%20-%20Guiding%20principles%20and%20the%20fundamental%20principle%20of%20consent.pdf>.

- 3.41 Fodd bynnag, ar y cyfan, mae'r enghreifftiau hyn o safonau diwydiant a chodau'r Ddeddf Meinweoedd Dynol, yn ogystal â'r darpariaethau claddu ynghylch dyfnder claddu a chyfyngiadau ar ddatgladdu a grybwyllir uchod, yn adlewyrchu awydd i sicrhau y dylid trin gweddillion dynol ag urddas. Dyma graidd y cysyniad o urddas dynol yng nghyd-destun penodol rheoleiddio dulliau angladdol. Mae hefyd yn dangos bod hyn yn rhywbeth sydd eisoes wedi cael ei drafod ac wedi'i gynnwys mewn codau presennol (statudol ac anstatudol).
- 3.42 Rydym o'r farn y dylid nodi pwysigrwydd trin gweddillion dynol ag urddas yn y Biliau drafft, fel un o'r egwyddorion y mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru eu hystyried wrth reoleiddio dulliau angladdol newydd.
- 3.43 Bydd canolbwyntio ar yr elfen graidd hon yn rhoi mwy o eglurder na chyfeirio at ddiogelu urddas dynol yn y ddeddfwriaeth ddrafft. Dylai hefyd leddfau rhai o bryderon yr ymgylchoreion. Er mai'r unig beth y bydd y ddarpariaeth yn ei wneud yn ofynnol fydd mynnu bod yn rhaid ystyried yr egwyddorion wrth gyflwyno rheoliadau (ac nid bod rhaid i'r rheoliadau, yn eu hanfod, fod yn gyson â'r egwyddorion) serch hynny, cododd ymgylchoreion bryderon ynghylch sut y gellir cyflawni hyn pan all fod gwahanol syniadau am urddas dynol. Yng ngeiriad y ddeddfwriaeth sylfaenol, bydd yn canolbwyntio ar drin gweddillion dynol ag urddas yn gliriach na chyfeiriad at ddiogelu urddas dynol.
- 3.44 Fel y nodwn ym mharagraffau 3.50 i 3.52 isod, gall darpariaeth sy'n gosod gofyniad ar y Llywodraethau priodol wrth wneud is-ddeddfwriaeth ddod yn destun ymgylchreitha helaeth. Fodd bynnag, gallai mynegiant mwy manwl o'r egwyddor, gan egluro bod trin gweddillion dynol yn allweddol, gyfyngu ar y dadleuon y gellid eu gwneud ynghylch diffyg urddas canfyddedig sy'n gynhenid mewn dull penodol. Bydd hefyd yn helpu'r Llywodraethau priodol i ganolbwyntio ar y cwestiynau y bydd angen iddynt eu gofyn er mwyn ystyried sut y gellir trin gweddillion mewn modd urddasol yng nghyd-destun dull penodol.

Casgliad ar y tair egwyddor

- 3.45 Rydym yn argymhell bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru ystyried pwysigrwydd y canlynol wrth reoleiddio dulliau angladdol newydd unigol: (1) gwarchod yr amgylchedd; (2) diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd; a (3) trin gweddillion dynol ag urddas. Bydd hyn yn gorfodi'r gwneuthurwr rheoliadau i ganolbwyntio ar yr egwyddorion pwysig hyn ac yn darparu llwybr posibl i wneud iawn os na chânt eu hystyried. Ar ben hynny, bydd yn helpu'r cyhoedd, a gweithredwyr posibl, i fod yn hyderus bod dulliau angladdol newydd yn cael eu hystyried yn briodol.
- 3.46 Bydd y gofyniad yn berthnasol pan fydd dull angladdol newydd unigol yn cael ei reoleiddio am y tro cyntaf a phan fydd rheoliadau pellach yn cael eu gwneud ynghylch dull angladdol newydd sydd eisoes wedi'i reoleiddio.
- 3.47 Bydd y ddarpariaeth hefyd yn egluro pwysigrwydd yr egwyddorion hyn, sy'n sail i'r prosesau rheoleiddio presennol o ddulliau sydd wedi ennill eu plwyf. Nid ydym yn gwybod pa ddulliau a allai gael eu rheoleiddio yn y dyfodol. Bydd nodi'r egwyddorion allweddol hyn mewn deddfwriaeth sylfaenol yn sicrhau bod dealltwriaeth glir o'r gwerth a roddir arnynt gan gymdeithas a llunwyr deddfau, a fydd yn llywio'r broses o lunio

rheoliadau. Bydd yn moderneiddio'r gyfraith i adlewyrchu gwerthoedd ac egwyddorion cyfredol a fydd yn chwarae rhan wrth reoleiddio dulliau angladdol.

- 3.48 Er y bydd dyletswydd ar y Llywodraethau priodol i ystyried y tair egwyddor benodedig, fel y nodwyd gennym yn y Papur Ymgynghori, ni fydd hyn, wrth gwrs, yn atal ystyried ffactorau eraill.¹⁹ Bydd yn ofynnol i'r Llywodraethau priodol, fel mater o gyfraith gyhoeddus, ystyried yr holl ffactorau perthnasol wrth wneud penderfyniadau ynghylch cynnwys y ddeddfwriaeth eilaidd. Bydd hyn yn golygu pwysu a mesur y gwahanol ffactorau yn y rownd, gan gynnwys y tair egwyddor.

Gofyniad i "ystyried"

- 3.49 Awgrymodd Cymdeithas y Gyfraith Eglwysig y gallai "rhaid dilyn", neu eiriad tebyg, fod yn well nag "ystyried". Rydym wedi dod i'r casgliad bod "ystyried" yn briodol. Fel y nodwyd gan Kindly Earth Limited/Resomation Limited, gall ystyried pob egwyddor arwain i gyfeiriadau gwahanol. Mae'r pwysigrwydd cymharol y dylid ei roi i bob egwyddor yn gwestiwn gwleidyddol y dylai'r Llywodraethau priodol fod yn rhydd i'w benderfynu. Bydd yr ymadrodd "ystyried" yn galluogi'r Llywodraethau priodol i ystyried gwahanol ystyron yr egwyddorion a sut y gallant ryngweithio ac yna gwneud penderfyniad ynghylch i ba raddau i'w cymhwysu i gynnwys y rheoliadau.
- 3.50 Fel y nodwyd ym mharagraff 3.25, awgrymodd ychydig o ymgynghoreion y gallai cyfeirio at urddas yn y ddeddfwriaeth ddrafft arwain at gynnydd mewn ymgyfreitha, oherwydd gallai ddarparu llwybr i her gyfreithiol gan y rhai sy'n gwrthwynebu dull angladdol newydd penodol (ar y sail nad yw'r dull yn bodloni eu gofynion personol, neu grefyddol).
- 3.51 Mae gan ddarpariaeth sy'n gosod gofyniad ar y Llywodraethau priodol wrth wneud is-ddeddfwriaeth y potensial i ddod yn destun ymgyfreitha, yn yr achos hwn ar y sail nad yw'r Llywodraeth berthnasol wedi ystyried y tair egwyddor. Rydym yn argymhell y gofyniad yn yr achos hwn oherwydd ein bod yn credu ei fod yn bwysig. Os byddai'r Llywodraeth berthnasol wedi methu cyflawni'r gofyniad, dylai fod llwybr ar gael i herio.
- 3.52 Er mwyn dangos ei fod wedi cyflawni'r gofyniad i "ystyried" yr egwyddorion, byddai angen i'r Llywodraeth berthnasol ddangos bod yr egwyddorion wedi cael eu hystyried. Rydym yn rhagweld y gallai'r dystiolaeth hon fod ar ffurf cyflwyniadau gweinidogol, nodiadau cyfarfodydd, neu ohebiaeth. Ni fyddai angen i'r Llywodraeth berthnasol ddangos ei bod wedi cyrraedd canlyniad sylweddol sy'n unol â'r egwyddorion.

Awgrymiadau eraill gan ymgynghoreion

- 3.53 Mewn ymateb i'n cwestiwn am unrhyw egwyddorion pellach y dylai'r Llywodraethau priodol eu hystyried, gwnaeth yr ymgynghoreion amrywiol awgrymiadau. Fel y nodir ym mharagraffau 3.26 i 3.29 uchod, roedd y rhain yn cynnwys diogelwch, atebolrwydd, tryloywder, fforddiadwyedd, lleihau straen i'r rhai sydd wedi colli rhywun, arferion crefyddol a diwylliannol.
- 3.54 Fel y gwnaethom ei esbonio'n gynharach, mae'r tair egwyddor rydym yn eu trafod uchod eisoes yn sail i brosesau rheoleiddio claddu ac amlosgi, ac rydym yn credu y dylent fod yn sail i reoleiddio dulliau angladdol newydd. Gall y materion eraill a

¹⁹ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 6.50.

awgrymwyd gan ymgynghoreion fod yn berthnasol hefyd i reoleiddio dulliau angladdol newydd. Fodd bynnag, nid ydym yn ystyried bod ganddynt yr un pwysigrwydd canolog yng nghyswllt dulliau angladdol. Felly, ni fyddai'n briodol eu cynnwys ochr yn ochr â'r tair egwyddor yn y Biliau drafft.

- 3.55 Er enghraifft, mae'n bwysig sicrhau tryloywder ymysg gweithredwyr dulliau angladdol ynghylch prosesau a chanlyniadau – gan gynnwys effaith amgylcheddol. Byddai'n agored i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau ynghylch gwybodaeth y mae'n rhaid ei darparu i'r cyhoedd am ddulliau angladdol newydd. Byddai hefyd yn agored i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru ystyried cost dull angladdol newydd wrth reoleiddio'r dull hwnnw. Yn yr un modd, mae'n ddigon posibl y byddant yn ystyried effaith rheoliadau ar bobl mewn profedigaeth. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn gyfystyr ag egwyddorion cyffredinol y dylai fod yn ofynnol i'r sawl sy'n gwneud y rheoliad eu hystyried ym mhob achos, fel gyda'r tair egwyddor a nodwyd gennym.
- 3.56 Mae'n ymddangos bod cysylltiad agos (yn rhannol o leiaf) rhwng diogelwch, a gyflwynwyd hefyd fel ystyriaeth ychwanegol, â'r egwyddor o drin gweddillion dynol ag urddas. Soniodd yr ymgynghorai a gododd hyn hefyd am Adroddiad Cam 2 Ymchwiliad David Fuller. Gwnaeth yr adroddiad hwn argymhellion amrywiol gyda'r nod o ddiogelu diogelwch ac urddas yr ymadawedig, gan gynnwys sefydlu cyfundrefn statudol ar gyfer rheoleiddio trefnwyr angladdau, trefn reoleiddio statudol annibynnol ar gyfer "y rhai sy'n storio ac yn gofalu am bobl ymadawedig" a safonau gorfodol ar gyfer busnesau amlosgi uniongyrchol.²⁰ Mater i Lywodraeth y DU fydd ymateb i'r rhain. Fel y nodir uchod, rydym yn argymhell y dylid cynnwys y broses o drin gweddillion dynol ag urddas fel un o'r egwyddorion y mae'n rhaid i'r gwahanol Lywodraethau eu hystyried wrth wneud rheoliadau am ddulliau angladdol newydd. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn cael eu hystyried pan fydd materion diogelwch yn berthnasol i'r cysyniad o drin gweddillion dynol yn urddasol ac yn berthnasol i reoleiddio dulliau unigol. Yng nghyswllt hyn, mae'n bwysig bod y pŵer i wneud rheoliadau yn ddigon eang i gwmpasu darpariaethau ynghylch cynnal a chadw a diogelwch. Ym Mhennod 6 o'r Adroddiad hwn, rydym yn gwneud argymhellion am droseddau a fyddai'n berthnasol i weithredwyr dulliau angladdol newydd sy'n cael eu rheoleiddio ac nad ydynt yn cael eu rheoleiddio. Rydym hefyd yn gwneud argymhellion ynghylch monitro a gorfodi cydymffurfiaeth ym mharagraffau 4.63 i 4.68.
- 3.57 Soniodd rhai ymgynghoreion am arferion crefyddol a diwylliannol. Mae crefydd neu gred yn nodwedd warchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Un o brif amcanion cyflwyno fframwaith ar gyfer dulliau angladdol newydd yw galluogi pobl i gael mwy o ddewis. Ni fydd dim un o'n hargymhellion yn golygu ei bod yn ofynnol i unrhyw un ddefnyddio dull penodol. Mae gan wahanol grefyddau eisoes safbwyntiau gwahanol ar gladdu ac amlosgi. Os bydd dulliau angladdol eraill ar gael yn y dyfodol, ni fydd hyn yn effeithio ar arferion crefyddol.²¹ Felly, nid ydym yn credu bod angen i'n

²⁰ Ymchwiliad Annibynnol i'r materion a godwyd yn sgil achos David Fuller, *Adroddiad Cam 2* (15 Gorffennaf 2025) HC 1092 <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/688258b96a7ea0e1ce1d3653/fuller-inquiry-phase-2-report-hc-1092-web-accessible.pdf>. Mae amlosgiad uniongyrchol yn amlosgiad sy'n digwydd heb wasanaeth angladdol cydamserol.

²¹ Rydym wedi ceisio sicrhau na fydd unrhyw effaith anfwriadol ar arferion crefyddol. Ym Mhennod 2, gwnaethom wrthod yr opsiwn o gynnwys dulliau angladdol newydd yn y diffiniad o amlosgi, gan nodi y gallai

deddfwriaeth ddrafft ei gwneud yn ofynnol i'r ddwy Lywodraeth ystyried arferion diwylliannol neu grefyddol wrth reoleiddio dulliau angladdol newydd. Rydym yn sôn mwy am effeithiau ein gwaith sy'n ymwneud â chydaddoldeb yn ein hasesiad effaith.

Casgliad ar awgrymiadau eraill

3.58 Rydym yn rhagweld y bydd llawer o'r materion ychwanegol sydd wedi cael eu hawgrymu yn berthnasol pan fydd rheoliadau'n cael eu cyflwyno. Mae rhai ohonynt yn berthnasol i'r tair egwyddor a nodir yn y ddeddfwriaeth. Y tu hwnt i hyn, fel y nodwyd uchod, bydd angen i'r Llywodraethau perthnasol ystyried yr holl ffactorau perthnasol. Fodd bynnag, nid ydym yn credu ei bod yn angenrheidiol nac yn briodol cynnwys cyfeiriad at yr awgrymiadau eraill mewn deddfwriaeth ddrafft.

Argymhelliad 4.

3.59 Rydym yn argymhell, wrth reoleiddio dulliau angladdol newydd unigol, bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru roi sylw i bwysigrwydd yr egwyddorion canlynol.

- (1) Gwarchod yr amgylchedd.
- (2) Diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd.
- (3) Trin gweddillion dynol ag urddas.

3.60 Caiff yr argymhelliad hwn ei roi ar waith gan gymal 1 ac adran 1 o'r Biliau drafft. Mae'r rhain yn nodi bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru, wrth arfer unrhyw swyddogaethau o dan y Biliau drafft, a fydd yn cynnwys gwneud rheoliadau, roi sylw i bwysigrwydd y tair egwyddor a nodir yn yr argymhelliad.

arwain at y posibilrwydd y gellid defnyddio dulliau eraill ar wahân i amlosgi pan na ddewiswyd hynny o bosibl ac y gallent fod yn groes i ofynion crefyddol.

Pennod 4: Y pŵer rheoleiddio

CYFLWYNIAD

- 4.1 Ym Mhennod 2, rydym yn argymhell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael pŵer i wneud rheoliadau sy'n cymeradwyo defnyddio dulliau angladdol newydd penodol ac yn nodi sut y dylid eu cyflawni. Rydym yn trafod y pŵer hwn yn fanylach yn y bennod hon.
- 4.2 Mae cofrestru claddedigaethau ac amlosgiadau yn rhan bwysig o'r system ar gyfer cadw cofnodion am farwolaethau. Mae sail resymegol gref dros sicrhau bod yn rhaid i bob defnydd o ddull angladdol newydd gael ei gofrestru yn yr un ffordd yn fras ag y caiff claddu neu amlosgi eu cofrestru ar hyn o bryd. Yn ein Papur Ymgynghori, gwnaethom gynnig dros dro y dylai deddfwriaeth sylfaenol ei gwneud yn ofynnol i bob defnydd o ddull angladdol newydd ar gorff person ymadawedig gael ei gofrestru. Roeddem hefyd wedi cynnig dros dro y dylai deddfwriaeth sylfaenol nodi bod yn rhaid i reoliadau a wneir ynghylch dulliau angladdol newydd unigol nodi sut a chan bwy y mae'n rhaid cyflawni'r cofrestriad hwn.¹
- 4.3 Yn y bennod hon rydym yn awr yn argymhell bod yn rhaid i'r gofyniad i gofrestru, yn ogystal â manylion sut a chan bwy y mae'n rhaid gwneud hyn, gael eu nodi mewn unrhyw reoliadau ynghylch dulliau angladdol newydd unigol. Bydd hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa o ran amlosgi.
- 4.4 Yn ein Papur Ymgynghori, gwnaethom hefyd gynnig dros dro am ehangder y pŵer i reoleiddio dulliau angladdol newydd, er mwyn helpu i lywio ein gwaith o ddrafftio'r pŵer i sicrhau y bydd yn galluogi llunio rheoliadau am yr holl faterion perthnasol. Buom yn trafod materion amrywiol y gallai fod angen eu rheoleiddio a gofynnwyd a oedd ymgynghoreion yn cytuno. Gofynnwyd hefyd a oedd ymgynghoreion yn ymwybodol o unrhyw faterion eraill y gallai fod angen eu rheoleiddio.² Yn y bennod hon, rydym yn ystyried yr ymatebion i'r cwestiynau hyn am ehangder y pŵer ac yn egluro a ydym yn nodi darpariaeth yn y Biliau drafft ar gyfer y materion a godwyd, a sut rydym yn gwneud hynny.
- 4.5 Rydym hefyd o'r farn bod y Senedd neu Senedd y Deyrnas Unedig yn cymeradwyo'r weithdrefn briodol ar gyfer rheoliadau a wneir am ddulliau angladdol newydd unigol. Rydym yn dod i'r casgliad y dylai gweithdrefn well, gyda lefel uchel o graffu seneddol, fod yn berthnasol y tro cyntaf y caiff dull angladdol newydd ei reoleiddio.
- 4.6 Rydym yn ymdrin â rhai elfennau o'r pŵer i gyflwyno rheoliadau mewn penodau eraill. Er enghraifft, rydym yn trafod pŵer i gyflwyno darpariaeth ar gyfer treialon ym Mhennod 5 a phŵer i greu troseddau sy'n ymwneud â dulliau angladdol newydd wedi'u rheoleiddio ym Mhennod 6.

¹ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 6.81.

² Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraffau 6.82 i 6.120.

COFRESTRU DEFNYDD O DDULLIAU ANGLADDOL NEWYDD

Cefndir

- 4.7 Rhaid cofrestru pob claddedigaeth ac amlosgiad. Mae hyn ar wahân i gofrestru marwolaethau, er bod y ddwy system yn rhyngweithio.³ Rydym yn trafod diwygiadau i ddeddfwriaeth ynghylch cofrestru marwolaethau, sy'n ymwneud â dulliau angladdol newydd, ym Mhennod 7.
- 4.8 Mae'r gofynion i gofrestru claddedigaeth wedi'u nodi mewn gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth ac maent yn amrywio yn dibynnu ar ble mae'n digwydd, boed hynny mewn mynwent awdurdod lleol, mynwent Eglwys Loegr, mynwent breifat, neu gladdfa arall. Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug neu gofnod anwir mewn cofrestr gladdu⁴ gan wybod hynny, yn ogystal â dinistrio, anafu, neu ffugio cofrestr gladdu yn fwriadol.⁵ Yn ein Hadroddiad ar Gladdu ac Amlosgi, fe wnaethom argymhell y dylid cyflwyno system gyson o gofrestru claddedigaethau.⁶
- 4.9 Fel y nodir yn Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008⁷, rhaid i amlosgiadau gael eu cofrestru gan gofrestrydd a benodir gan yr awdurdod amlosgi.⁸ Mae'r cofrestrydd yn cadw cofrestr barhaol o'r holl amlosgiadau sy'n digwydd mewn amlogfa, gan gynnwys gwybodaeth benodol fel manylion yr ymadawedig.⁹ Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol gyda'r bwriad o drefnu amlosgiad.¹⁰ Mae torri Rheoliadau 2008 hefyd yn drosedd.¹¹
- 4.10 Mae system gynhwysfawr o gofrestru claddedigaethau ac amlosgiadau yn bwysig iawn. Mae'n sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw a allai fod o werth o ran ymchwilio i droseddau. Gall hefyd fod o arwyddocâd ymarferol ac emosiynol i'r rheini sy'n olrhain hanes eu teulu.
- 4.11 Pe na bai hyn yn cael ei ymestyn i ddulliau angladdol newydd, byddai'n tanseilio natur gynhwysfawr y system gofrestru bresennol ac yn creu gwahaniaeth diangen a di-fudd yn y gyfraith. Felly, mae sail resymegol gref dros sicrhau bod yn rhaid i bob defnydd o ddull angladdol newydd gael ei gofrestru yn yr un ffordd yn fras ag achosion o gladdu neu amlosgi.

³ O dan Ddeddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953, adran 15, rhaid i bob marwolaeth yng Nghymru a Lloegr gael ei chofrestru gan gofrestrydd genedigaethau a marwolaethau'r is-ranbarth lle digwyddodd y farwolaeth.

⁴ Deddf Ffugiadau 1861, adran 37; a Deddf Anudon 1911, adran 5(b).

⁵ Deddf Ffugiadau 1861, adran 36.

⁶ Claddu ac Amlosgi (2026) Comisiwn y Gyfraith Rhif 425 paragraff 6.87.

⁷ OS 2008 Rhif 2841.

⁸ Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 (OS 2008 Rhif 2841), rheoliad 32(1). O dan reoliad 2(1), awdurdod amlosgi yw unrhyw awdurdod claddu neu unrhyw unigolyn sydd wedi agor amlogfa.

⁹ Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 (OS 2008 Rhif 2841), rheoliad 33(1).

¹⁰ Deddf Amlosgi 1902, adran 8(2).

¹¹ Deddf Amlosgi 1902, adran 8(1).

Cynnig dros dro wrth gofrestru

- 4.12 Yn ein Papur Ymgynghori, roeddem yn cynnig dros dro y dylai'r gofyniad i gofrestru gael ei nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol, er mwyn sicrhau ei fod yn glir ac yn hygyrch.¹²
- 4.13 Fodd bynnag, roeddem o'r farn y dylai'r manylion ynghylch sut a chan bwy y mae'n rhaid i achosion o gofrestru gael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth yn ddiweddarach. Gallai fod yn anodd gwybod pwy sy'n gorfod cofrestru cyn pennu rheoliadau manwl ar gyfer dulliau unigol, oherwydd ni fydd y bobl sy'n ymwneud â defnyddio'r dull wedi cael eu henwi. Er enghraifft, fel y nodir ym mharagraff 4.9 uchod, y cofrestrydd a benodir gan yr awdurdod amlosgi sy'n gyfrifol am y ddyletswydd i gofrestru achosion o amlosgi¹³. Mae'r awdurdod amlosgi yn awdurdod claddu neu'n unigolyn arall sydd wedi agor amlosgfa.¹⁴ Yn yr un modd, caiff rheoliadau ynghylch dulliau angladdol newydd unigol nhoi bod rhaid i unigolyn sydd wedi agor cyfleuster ar gyfer y dull hwnnw benodi cofrestrydd. Fodd bynnag, byddai'n agored i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru gyflwyno darpariaethau gwahanol ar gyfer awdurdodi a threfnu cyfleusterau o ran dulliau angladdol newydd unigol. Gall y gofynion ar gyfer cofrestru hefyd amrywio rhwng dulliau. Er enghraifft, mae rheoliad 33(2) o Reoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008¹⁵ yn nodi'r manylion y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cofnodion ar gofrestr amlosgi. Bydd llawer o'r rhain yn berthnasol i gofrestru dulliau angladdol newydd. Fodd bynnag, un o'r eitemau yw dyddiad yr amlosgiad.¹⁶ Os bydd dull angladdol newydd yn cymryd mwy nag un diwrnod, efallai y bydd angen cofrestru dyddiad dechrau'r broses, yn ogystal â dyddiadau eraill, er enghraifft, y dyddiad y daw'r broses i ben.
- 4.14 Byddai mynnu bod y manylion hyn yn cael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth hefyd yn sicrhau cydraddoldeb ag amlosgi. Pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru am newid y gofynion cofrestru manwl ar gyfer amlosgi ac ar gyfer dulliau angladdol newydd, gallent wneud y newidiadau hyn drwy is-ddeddfwriaeth ddiwygiol. Felly, fe wnaethom gynnig dros dro y dylai deddfwriaeth sylfaenol fynnu, pan fydd rheoliadau'n cael eu gwneud ynghylch defnyddio dull angladdol newydd, bod yn rhaid i'r rhain gynnwys darpariaeth ynghylch sut y dylid cofrestru pob defnydd, a chan bwy.¹⁷

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Rhesymau dros gytuno â'n cynnig dros dro

- 4.15 Roedd mwyafrif helaeth yr ymgynghoreion yn cytuno â'n cynnig dros dro. Roedd rhai o'r ymgynghoreion a roddodd ymateb testun hirach yn cytuno'n benodol â'n barn y dylid sicrhau cysondeb â'r deddfwriaeth claddu ac amlosgi.

¹² Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 6.81.

¹³ Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 (OS 2008 Rhif 2841), rheoliad 32(1).

¹⁴ Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 (OS 2008 Rhif 2841), rheoliad 2(1).

¹⁵ OS 2008 Rhif 2841.

¹⁶ Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 (OS 2008 Rhif 2841), rheoliad 33(2)(b).

¹⁷ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 6.81.

- 4.16 Roedd rhai ymgynghoreion o'r farn y byddai ein cynnig dros dro yn helpu i sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw, gan ddiogelu yn erbyn arferion gwael. Credai'r Central Co-op fod y gofyniad i gofrestru pob defnydd o ddull angladdol newydd yn "sicrhau prosesau olrhain, darparu tryloywder a chadw cofnodion yn briodol, sy'n hanfodol o ran hyder y cyhoedd a chydymffurfiaeth gyfreithiol". Roedd yr FBCA yn teimlo y byddai ein cynnig dros dro yn "caniatáu cofnodion cywir a'r opsiwn ar gyfer craffu yn y dyfodol".
- 4.17 Nododd rhai ymgynghoreion hefyd y byddai gofynion cofrestru clir yn gwella hyder y cyhoedd.

Lleoliad y gweddillion

- 4.18 Roedd rhai ymgynghoreion o'r farn y dylai rheoliadau hefyd nodi y dylid cofnodi lleoliad gweddillion. Rhoddodd Fiona Cunningham (academydd) enghraifft o "p'un ai a gafodd pridd o gompostio dynol ei ddychwelyd i'r teulu neu ei daenu mewn lleoliad penodol". Nododd ymgynghorai arall fod cadw cofnod o leoliad y llwch amlosgi yn bwysig "gyda'r cynnydd mewn achyddiaeth, a lle gallai rhywun fod wedi methu mynd i angladd ond yn dymuno rhoi teyrnged rywbryd eto".

Claddu gweddillion

- 4.19 Awgrymodd Cymdeithas y Gyfraith Eglwysig y dylid adlewyrchu'r drefn amlosgi gyfatebol fel, os bydd gweinidog yn claddu gweddillion gan ddilyn dull angladdol newydd, bod angen i'r gweinidog hwnnw wybod (i) pa weddillion y mae'n eu claddu a (ii) pa broses a ddefnyddiwyd.

Ystyriaethau eraill

- 4.20 Gan gytuno â'n cynnig dros dro, roedd Stephen White (academydd) yn credu y dylai rheoliadau gynnwys gofyniad i gofrestru "pryd a ble" y cynhaliwyd y dull angladdol newydd. Credai ymgynghorai arall y dylai'r broses gofrestru hefyd gynnwys "sut, pryd, ble a phwy oedd yn gyfrifol am gyflawni'r dull".
- 4.21 Trafododd un ymgynghorai y "costau sylweddol cysylltiedig" o ran cadw cofrestr o bob defnydd o ddull angladdol newydd. Nododd y gallai gweithredwyr dulliau angladdol newydd yn y dyfodol gael eu diddymu, a fyddai'n golygu y "byddai angen cartref newydd ar y systemau cyfrifiadurol, sydd fel arfer yn anghydnaws â'i gilydd". Awgrymodd y canlynol:

dylai'r Cofrestrydd Marwolaethau gadw'r unig gofnod o'r hyn a ddigwyddodd i'r corff. Byddai pawb yn gwybod am broses ganolog o'r fath. Os oes angen, byddai'r prosesau angladdol newydd yn anfon cofnod misol o'r holl achosion o 'waredu'. Mae hynny'n dileu'r angen am broses gofrestru soffistigedig ym mhob lleoliad.

Trafodaeth ac argymhellion

Cofrestru i ddefnyddio dull angladdol newydd

- 4.22 Roedd cefnogaeth gref ymysg ymgynghoreion i fynnu bod pob defnydd o ddulliau angladdol newydd yn cael ei gofrestru. Roedd ymgynghoreion yn cydnabod bod system o gofrestru a chadw cofnodion ar gyfer dulliau angladdol yn darparu mesurau diogelu pwysig.

- 4.23 Bydd creu cofnod o bob defnydd o ddull angladdol newydd yn helpu gyda'r gallu i olrhain a chraffu yn y dyfodol. Gallai hwyluso'r gwaith o ymchwilio i droseddau. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol i'r rheini sy'n ymchwilio i hanes eu teulu a gallai fod yn fuddiol wrth olrhain y nifer sy'n defnyddio dulliau angladdol newydd, neu pa mor boblogaidd ydynt. Nododd ymgynghorion y gallai system o gadw cofnodion cywir gynyddu hyder y cyhoedd mewn dulliau angladdol newydd.
- 4.24 Mae achos cryf y dylai deddfwriaeth ei gwneud yn ofynnol i'r dull angladdol newydd a ddefnyddir ar gorff person ymadawedig gael ei gofrestru. Yn y Papur Ymgynghori, roeddem yn cynnig dros dro y dylid nodi'r gofynion mewn deddfwriaeth sylfaenol. Fodd bynnag, rydym yn argymhell, yn hytrach na llunio deddfwriaeth sylfaenol, ei bod yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru, wrth gyflwyno rheoliadau am ddulliau angladdol newydd, gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol cofrestru dull angladdol newydd a ddefnyddir. Mae'r ddyletswydd i gofrestru proses amlosgi wedi'i nodi mewn is-ddeddfwriaeth.¹⁸ Felly, bydd y sefyllfa ar gyfer dulliau angladdol newydd yn adlewyrchu'r sefyllfa ar gyfer amlosgi.
- 4.25 Rydym hefyd yn argymhell, fel y cynigiwyd gennym dros dro, bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru nodi manylion ynghylch pwy fydd yn cyflawni'r cofrestriad, a sut, pryd a ble mae'n rhaid iddynt wneud hyn mewn is-ddeddfwriaeth. Bydd hyn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer gofynion cofrestru priodol o ran dulliau angladdol newydd pan fyddant yn cael eu rheoleiddio, gan sicrhau bod modd teilwra hyn i bob dull. Bydd yn gliriach os yw'r ddyletswydd i gofrestru yn ymddangos yn yr is-ddeddfwriaeth, ynghyd â manylion sut mae'n rhaid gwneud hyn.
- 4.26 Nodwn yr awgrym y dylid cael system gofrestru ganolog, a gynhelir gan y Cofrestrydd Cyffredinol (sy'n gyfrifol am gofrestru marwolaethau), ar gyfer cofrestru claddu, amlosgi, a dulliau angladdol newydd. Y rhesymau a roddwyd dros hyn oedd costau cadw cofrestr a'r posibilrwydd y byddai gweithredwyr dulliau angladdol newydd yn cael eu diddymu.
- 4.27 Byddai gwneud argymhellion ynghylch systemau cofrestru claddedigaethau neu amlosgiadau y tu hwnt i gwmpas yr is-brosiect hwn. Yn ein Hadroddiad ar Gladdu ac Amlosgi, fe wnaethom argymhell y dylid cyflwyno system gyson o gofrestru claddedigaethau.¹⁹ Fodd bynnag, nid ydym wedi cael gwybod am unrhyw broblemau gyda'r system cofrestru amlosgiadau ac ni wnaethom unrhyw argymhellion ynghylch creu un system ar gyfer claddu ac amlosgi. Byddai'n agored i'r Llywodraethau perthnasol ddiwygio'r system gofrestru yn y dyfodol, petai hynny'n cael ei ystyried yn angenrheidiol.
- 4.28 Yn gyffredinol, mae rhoi dyletswydd ar y naill Lywodraeth a'r llall i gyflwyno darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol cofrestru'r defnydd o ddull angladdol newydd wrth reoleiddio'r dull hwnnw, ac i nodi sut a chan bwy y mae'n rhaid gwneud y cofrestriad, yn arwain at fanteision clir i weithredwyr, y cyhoedd a phobl mewn profedigaeth.

¹⁸ Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 (OS 2008 Rhif 2841), rheoliad 32(1).

¹⁹ Claddu ac Amlosgi (2026) Comisiwn y Gyfraith Rhif 425 paragraff 6.87.

Claddu gweddillion

- 4.29 Wrth reoleiddio dull angladdol newydd, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru yn gallu darparu ar gyfer yr hyn a ddylai ddigwydd i'r gweddillion sy'n cael eu gadael ar ôl wedi i'r dull gael ei roi ar waith. Fe wnaethom drafod hyn ym mharagraff 6.110 y Papur Ymgynghori²⁰ ac mae'n rhan o Argymhelliad 8 yn yr Adroddiad hwn. Yn yr un modd ag amlosgi, efallai y bydd dulliau angladdol newydd lle mae'n bosibl claddu'r gweddillion. Er enghraifft, gallai'r powdwr sy'n weddill ar ôl dull hydrolysis alcaliaidd gael ei gladdu. Os caiff dulliau o'r fath eu rheoleiddio, dylai'r Llywodraeth berthnasol hefyd gael y pŵer i gyflwyno darpariaeth ar gyfer cofrestru claddu'r gweddillion hyn.
- 4.30 Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chofrestru claddu gweddillion amlosgi yn amrywio yn dibynnu ar y math o gladdfa. Mae rhywfaint o'r ddeddfwriaeth berthnasol yn cyfeirio'n benodol at weddillion amlosgi. Er enghraifft, mae Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977 (LACO 1977) yn nodi darpariaeth ar gyfer cofrestru claddedigaethau mewn mynwentydd awdurdodau lleol.²¹ Mae erthygl 2(2) yn datgan bod claddu'n cynnwys "claddu gweddillion dynol wedi'u hamlosgi". Yn yr un modd, mae Mesur Cofrestrau a Chofnodion Plwyf 1978 yn cynnwys gofyniad i gofrestru claddedigaethau mewn mynwentydd Eglwys Loegr,²² lle mae "claddu" yn cynnwys "gwaredu gweddillion wedi'u hamlosgi".²³
- 4.31 Mae adran 32 o Ddeddf Cymalau Mynwentydd 1847 yn datgan ei bod yn ofynnol i fynwentydd preifat a sefydlwyd gan ddefnyddio'r Ddeddf honno gadw cofrestr o gladdedigaethau yn y rhan gysegredig "yn unol â'r cyfreithiau sydd mewn grym y mae'n ofynnol i gofrestrau gael eu cadw gan y rheithoriaid, y ficer, neu'r curaduron plwyfi neu ardaloedd eglwysig yn Lloegr". Mae Adran 1 o Ddeddf Cofrestru Claddedigaethau 1864 yn nodi bod "rhaid i bob claddedigaeth mewn unrhyw gladdfa yn Lloegr nad yw bellach yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddynt gael eu cofrestru fod wedi'u cofrestru". Yn y Ddeddf hon, nid yw claddu yn cynnwys claddu gweddillion amlosgi'n benodol. Fodd bynnag, nid yw "claddu", neu "gladdfa" wedi'u diffinio'n gynhwysfawr. Gan nad oes diffiniad o gladdu, mae'r ystyr cyffredin yn berthnasol, a'n dealltwriaeth o ymarfer yn y sector yw yr ystyrir bod hyn yn cynnwys gweddillion amlosgi.
- 4.32 Is-ddeddfwriaeth yw LACO 1977 ac felly gellir ei ddiwygio drwy is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, ni ellir diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol a nodir uchod ac eithrio drwy is-ddeddfwriaeth lle mae deddfwriaeth sylfaenol wedi rhoi pŵer i wneud hyn. Rydym yn argymhell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael y pŵer i fynnu bod gweddillion yn cael eu claddu gan ddilyn dull angladdol newydd unigol.
- 4.33 Bydd hyn yn sicrhau y gellid cyflwyno darpariaethau ar gofrestru claddedigaeth i fod yn berthnasol i gladdu gweddillion gan ddilyn dulliau angladdol newydd, fel y bo'n briodol. Eglwys Loegr fydd yn penderfynu a ydynt am gyflwyno darpariaeth ar gyfer claddu gweddillion ar ôl defnyddio dull angladdol newydd yng nghladdfeydd Eglwys

²⁰ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272.

²¹ Gorchymyn Mynwentydd Awdurdodau Lleol 1977, erthygl 11.

²² Mesur Cofrestrau a Chofnodion Plwyf 1978 (Mesurau Eglwysig 1978 Rhif 2), adran 3.

²³ Mesur Cofrestrau a Chofnodion Plwyf 1978 (Mesurau Eglwysig 1978 Rhif 2), adran 25(1).

Loegr. Os felly, gallai ddiwygio'r diffiniad o gladdu yn adran 25(1) o Fesur Cofrestrau a Chofnodion Plwyf 1978.

- 4.34 Yn ein Hadroddiad ar Gladdu ac Amlosgi, roeddem yn argymhell y dylid cael system unffurf o gofrestru claddedigaethau a fydd yn berthnasol i bob claddfa (ac eithrio claddfeydd Eglwys Loegr).²⁴ Os caiff yr argymhelliad hwn ei weithredu, gallai hyn hefyd wneud y sefyllfa o ran claddu gweddillion wrth ddilyn dull angladdol newydd yn haws ei deall.
- 4.35 Roeddem hefyd yn argymhell, yn ein Hadroddiad ar Gladdu ac Amlosgi, y dylai'r diffiniad (nad yw'n gynhwysfawr) o "gladdu" a ddefnyddir yn LACO 1977 gael ei ddefnyddio ar gyfer claddfeydd preifat.²⁵ Rydym i fod i gyhoeddi deddfwriaeth ddrafft ar Gladdu ac Amlosgi (a'n trydydd is-brosiect ar Hawliau a Rhwymedigaethau sy'n ymwneud â Dulliau Angladdol, Angladdau a Gweddillion) yn 2028. Os yw'r ddarpariaeth hon i gael ei nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol ddrafft, bydd angen i ni ystyried darpariaeth ar gyfer dulliau angladdol newydd bryd hynny.

Lleoliad y gweddillion

- 4.36 Roedd rhai ymgynghoreion o'r farn y dylid cael system i gofrestru lleoliad gweddillion gan ddilyn dull angladdol newydd, p'un ai a ydynt wedi'u claddu ai peidio. Efallai y bydd angen y pwerau hyn i alluogi cynnal archwiliadau neu ymchwilio i bryderon fel arall.
- 4.37 Rhaid i rywun sy'n gwneud cais am amlosgi nodi ar y ffurflen ragnodedig beth ddylai ddigwydd i'r llwch.²⁶ Os nad yw'r ymgeisydd wedi rhoi unrhyw gyfarwyddiadau, neu os na chesglir y llwch yn unol â'r cyfarwyddiadau hynny, gall yr awdurdod amlosgi eu claddu neu eu gwasgaru.²⁷ Rhaid cofrestru pob amlosgiad a rhaid i'r cofrestriad gynnwys nodyn o'r ffordd y cafodd y llwch ei waredu.²⁸ Fel y nodir uchod, ym mharagraffau 4.30 i 4.31, os yw llwch wedi'i gladdu mewn claddfa, rhaid cofrestru hyn hefyd, er bod y gofynion yn amrywio yn dibynnu ar y math o gladdfa. Fodd bynnag, os yw'r llwch wedi cael ei dynnu o'r amlogsgfa gan deulu neu ffrindiau, mae'n debygol na fydd cofnod o'r lleoliad.
- 4.38 Gall y sawl sy'n llunio'r rheoliad benderfynu a ddylai'r safle fod yr un fath ar gyfer gweddillion yn dilyn dulliau angladdol newydd ai peidio. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd o'r farn bod yn rhaid cofnodi lleoliad y gweddillion (y tu hwnt i gladdu'r gweddillion, a drafodwn uchod) yn sgil dull angladdol newydd penodol ym mhob achos. Dylai fod ganddo'r pŵer i gyflwyno darpariaeth ar gyfer hyn yn y rheoliadau.
- 4.39 Er enghraifft, gall y sawl sy'n llunio'r rheoliad benderfynu na ddylid trin pridd yn sgil compostio dynol fel gweddillion, ond yn hytrach fel deunydd arall sy'n deillio o ddefnyddio dull angladdol newydd. Fe wnaethom nodi yn ein Papur Ymgynghori y dylai'r Llywodraethau perthnasol gael y pŵer i gyflwyno rheoliadau am yr hyn sy'n

²⁴ Claddu ac Amlosgi (2026) Comisiwn y Gyfraith Rhif 425 paragraff 6.87.

²⁵ Claddu ac Amlosgi (2026) Comisiwn y Gyfraith Rhif 425 paragraff 2.81.

²⁶ Claddu ac Amlosgi (2024) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 263 paragraff 11.44.

²⁷ Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 (OS 2008 Rhif 2841), rheoliad 30(3).

²⁸ Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 (OS 2008 Rhif 2841), rheoliadau 32(1) a 33(1)(m).

digwydd i ddeunyddiau eraill, y tu hwnt i weddillion, sy'n cael eu gadael ar ôl yn dilyn defnyddio dull angladdol newydd unigol.²⁹ Dylent hefyd fod â'r pŵer i fynnu bod lleoliad deunydd o'r fath yn cael ei gofnodi, os ystyrir bod hyn yn briodol.

Troseddau

- 4.40 Fel y nodir uchod, mae'n drosedd gwneud datganiad ffug neu gofnod ffug mewn cofrestr gladdu³⁰ yn bwrpasol ac yn fwriadol, er mwyn dinistrio, anafu, neu ffugio cofrestr gladdu,³¹ neu wneud datganiad ffug yn fwriadol gyda'r bwriad o sicrhau amlosgiad.³² Ym mharagraff 6.30 o'r Adroddiad hwn, rydym yn argymhell y dylid creu trosedd debyg, sef gwneud datganiad ffug yn anonest i gaffael defnyddio dull angladdol newydd.
- 4.41 Hefyd o ran amlosgi, mae torri Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 yn drosedd.³³ Ym mharagraff 6.70 o'r Adroddiad hwn rydym yn argymhell y dylai'r Llywodraethau perthnasol gael y pŵer i greu trosedd newydd ar gyfer torri rheoliadau penodol am ddulliau angladdol newydd unigol. Felly, byddai'n agored i'r Llywodraethau perthnasol wneud torri unrhyw ofynion cofrestru yn drosedd. Byddai hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa ar gyfer amlosgi.

Argymhelliad 5.

- 4.42 Rydym yn argymhell, wrth wneud rheoliadau am ddulliau angladdol newydd unigol, bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru wneud y canlynol:
- (1) ei gwneud yn ofynnol cofrestru dull angladdol newydd sy'n cael ei ddefnyddio ar gorff person ymadawedig; a
 - (2) nodi sut a phwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r cofrestriad hwn.
- 4.43 Mae'r Biliau drafft yn gweithredu'r argymhelliad hwn yng nghymal 2(3) o'r Bil drafft ar gyfer Lloegr ac adran 2(3) o'r Bil drafft ar gyfer Cymru. Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru yn arfer y pŵer i wneud rheoliadau yng nghymal 2 neu adran 2, rhaid i'r rheoliadau hynny ei gwneud yn ofynnol i ddull angladdol modern sy'n cael ei roeoleiddio gael ei gofrestru, cyflwyno darpariaeth ynghylch sut a chan bwy y mae'n rhaid cyflawni'r cofrestriad hwnnw, a chyflwyno darpariaeth ynghylch sut a chan bwy y mae'r gofrestr i gael ei chadw.

²⁹ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 Pennod 6.

³⁰ Deddf Ffugiadau 1861, adran 37; a Deddf Anudon 1911, adran 5(b).

³¹ Deddf Ffugiadau 1861, adran 36.

³² OS 2008 Rhif 2841. Nodir hyn yn Neddf Amlosgi 1902, adran 8(2).

³³ Deddf Llwgwrwobrwyo 1902, adran 8(1).

Argymhelliad 6.

4.44 Rydym yn argymhell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael y pŵer i fynnu bod gweddillion sydd wedi'u claddu gan ddilyn dull angladdol newydd unigol yn cael eu cofrestru.

4.45 Caiff yr argymhelliad hwn ei weithredu gan gymal 10(4) o'r Bil drafft ar gyfer Lloegr ac adran 10(4) o'r Bil drafft ar gyfer Cymru. Bydd y pŵer yn y cymal a'r adran hon yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol i gynnwys claddu gweddillion ar ôl defnyddio dull angladdol modern penodol o ran ystyr claddu. Os byddant yn gwneud hyn, bydd angen cofrestru i gladdu'r gweddillion hyn. Caiff y pŵer hwn ei egluro'n fanylach ym mharagraffau 7.81 i 7.86.

Argymhelliad 7.

4.46 Rydym yn argymhell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael y pŵer i wneud rheoliadau sy'n mynnu, ar ôl defnyddio dull angladdol newydd penodol, bod lleoliad gweddillion neu ddeunydd sy'n deillio o ddefnyddio dull angladdol newydd yn cael ei gofnodi, p'un ai a yw'r gweddillion neu'r deunydd wedi cael eu claddu ai peidio.

4.47 Caiff yr argymhelliad hwn ei weithredu gan gymal 2(3)(f) a (g) o'r Bil drafft ar gyfer Lloegr ac adran 2(3)(f) a (g) o'r Bil drafft ar gyfer Cymru. Mae'r darpariaethau hyn yn sicrhau y caiff rheoliadau a wneir o dan y pŵer yng nghymal 2(1) neu adran 2(1) nodi'r hyn y caniateir ei wneud gyda gweddillion, neu ddeunydd canlyniadol, a gofynion cofrestru yng nghyswllt hyn.

CWMPAS Y PŴER RHEOLEIDDIO

Cynnig dros dro ac ymgynghoriad ar ehangder y pŵer i gyflwyno rheoliadau

4.48 Yn ein Papur Ymgynghori, fe wnaethom egluro na fyddwn yn gwneud unrhyw argymhellion ynghylch pa ddulliau angladdol newydd penodol y dylid eu cymeradwyo a'u rheoleiddio. Fodd bynnag, mae angen i ni sicrhau y bydd unrhyw bŵer i'r ddwy Lywodraeth wneud rheoliadau am ddulliau unigol yn ddigonol i gwmpasu'r holl faterion y gallai fod angen ymdrin â hwy. Gan ein bod yn bwriadu creu fframwaith sy'n addas ar gyfer y dyfodol, cyn belled ag y bo modd, dylai hyn gynnwys unrhyw beth y credwn y gallai fod ei angen i alluogi rheoleiddio dulliau angladdol nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd.

4.49 Rydym yn nodi rhai meysydd allweddol a allai fod yn destun rheoliadau yn ein barn ni:

- (1) cyfleusterau agor a chau, gan gynnwys pwy gaiff wneud hynny, y broses ymgeisio ac unrhyw gyfnod rhybudd;

- (2) lleoliad cyfleusterau, gan gynnwys darpariaethau ynghylch ble y caniateir, neu na chaniateir, lleoli cyfleusterau (er enghraifft, i sicrhau difrifoldeb a heddwch priodol, neu i osgoi llygredd sŵn);
- (3) gweithredu a chynnal cyfleusterau, gan gynnwys safonau cynnal a chadw, hyfforddiant i weithredwyr, iechyd a diogelwch, a chadw cofnodion;
- (4) elfennau o'r broses, gan gynnwys manylion ynghylch sut mae'n rhaid cyflawni dull angladdol newydd penodol (er enghraifft, ar dymheredd neu wasgedd penodol);
- (5) arolygu cyfleusterau, i ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru awdurdodi arolygiadau o gyfleusterau lle mae dulliau angladdol newydd yn cael eu cyflawni;
- (6) penodiadau, megis penodi canolwyr neu gofrestryddion meddygol (gan efelychu'r system ar gyfer amlosgi);
- (7) tynnu dyfeisiau meddygol cyn defnyddio'r dull angladdol newydd;
- (8) gweithdrefnau ymgeisio ar ran person ymadawedig, gan gynnwys darpariaeth ynghylch pwy all wneud cais i ddefnyddio dull angladdol newydd, ffurflenni rhagnodedig, a phrosesau ymgeisio;
- (9) amgylchiadau lle na chaniateir defnyddio dull angladdol newydd penodol, er enghraifft, os gallai beri risg i iechyd y cyhoedd neu iechyd yr amgylchedd;
- (10) yr hyn y caniateir ei wneud neu y mae'n rhaid ei wneud gyda gweddillion dynol ar ôl y broses;
- (11) delio â gweddillion ffetysau (dylai fod yn bosibl darparu ar gyfer colledion beichiogrwydd cyn 24 wythnos yng nghyswllt rheoleiddio dulliau angladdol newydd);
- (12) p'un ai a ellir defnyddio dulliau angladdol newydd ar gyrff neu rannau o gyrff heb eu hadnabod; ac
- (13) hawliau a rhwymedigaethau, gan gynnwys y materion i'w hystyried yn ein trydydd is-brosiect ar Hawliau a Rhwymedigaethau sy'n Ymwneud â Dulliau Angladdol, Angladdau a Gweddillion.³⁴

4.50 Gwnaethom gynnig dros dro y dylai'r pŵer i gyflwyno rheoliadau manwl am ddulliau angladdol newydd fod yn ddigon eang i gwmpasu'r materion a nodir uchod.³⁵

4.51 Gofynnwyd hefyd a oedd ymgynghoreion yn gwybod am unrhyw faterion eraill y gallai fod angen eu cynnwys wrth reoleiddio dulliau angladdol newydd unigol, y tu hwnt i'r

³⁴ Comisiwn y Gyfraith, Hawliau a Rhwymedigaethau sy'n Ymwneud â Dulliau Angladdol, Angladdau a Gweddillion (2023) <https://lawcom.gov.uk/project/rights-and-obligations-relating-to-funeral-methods-funerals-and-remains/>.

³⁵ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 6.120.

materion a nodir uchod. Fe wnaethom nodi y gallai ymatebion i'r cwestiwn hwn gynnwys safbwyntiau ar gynnwys posibl rheoleiddio dulliau angladdol newydd penodol, er y bydd a ddylid rheoleiddio dulliau angladdol newydd penodol a sut dylid gwneud hynny yn gwestiwn i'r ddwy Lywodraeth fynd i'r afael ag ef yn y dyfodol.³⁶

Ymatebion i'r ymgynghoriad

- 4.52 Roedd mwyafrif sylweddol iawn o'r ymgynghoreion yn cytuno â'r cynnig dros dro y dylai'r pŵer i reoleiddio dulliau angladdol newydd unigol fod yn ddigon eang i gwmpasu'r materion a nodir ym mharagraff 4.49 uchod. Roedd rhai ymgynghoreion yn cymeradwyo'n benodol y syniad y dylem greu fframwaith sy'n addas ar gyfer y dyfodol cyn belled ag y bo modd. Pwysleisiodd eraill yr angen i'r pŵer fod yn ddigon eang i reoleiddio dulliau angladdol newydd yn yr un ffordd â chladdu ac amlosgi cyn belled ag y bo modd. Er enghraifft, nododd yr FBCA ei bod yn bwysig bod "y dulliau presennol fel claddu neu amlosgi yn cael eu trin yn gyfartal ag unrhyw ddull angladdol newydd".
- 4.53 Cyfeiriodd rhai ymgynghoreion at bosibilrwydd rheoliadau ynghylch arsylwi, neu wyllo, dulliau angladdol newydd unigol. Nododd un ymgynghorai fod rhai pobl mewn profedigaeth yn cael cymorth drwy arsylwi achosion amlosgi, er bod "un o brosesau compostio yn yr Unol Daleithiau America eisoes yn gwahardd pob achos o wyllo'r broses". Credai fod "yr angen am dryloywder yn hollbwysig i roi hyder yn y broses i'r rhai sydd mewn profedigaeth".

Trafodaeth ac argymhellion

- 4.54 Roedd mwyafrif sylweddol iawn o'r ymgynghoreion yn cytuno y dylai'r pŵer i gyflwyno rheoliadau fod yn ddigon eang i gwmpasu'r materion roeddem wedi'u trafod yn y Papur Ymgynghori. Y brif ddadl yn erbyn ein dull gweithredu arfaethedig oedd bod y pŵer roeddem yn ei gynnig, fel mater o egwyddor, yn rhy eang. Mae hyn, i bob pwrpas, yn wrthwynebiad sylfaenol i reoleiddio dulliau angladdol newydd drwy is-ddeddfwriaeth. Er nad ydym yn cytuno â'r gwrthwynebiad hwn - yn bennaf am nad yw'n bosibl llunio fframwaith cyfreithiol mewn deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer dulliau angladdol sydd eto i'w datblygu - rydym yn derbyn y pwynt sylfaenol bod goruchwyliaeth seneddol dros reoleiddio dulliau angladdol newydd yn eithriadol o bwysig. Rydym yn trafod rheolaeth seneddol ym mharagraffau 4.83 i 4.106 isod, gan ddod i'r casgliad y dylai gweithdrefn well, gyda lefel uchel o graffu seneddol, fod yn berthnasol y tro cyntaf y gwneir rheoliadau ynghylch dull angladdol newydd penodol.
- 4.55 Yng ngoleuni hyn, ein barn o hyd yw bod ehangder y pŵer a gynigiwyd gennym yn briodol ar y cyfan. Fodd bynnag, mae rhai o'r materion a nodir ym mharagraff 4.49 uchod, yr oeddem yn cynnig eu gynnwys yng nghwmpas y pŵer hwn, angen eu hegluro neu eu mireinio ymhellach yng ngoleuni materion a godwyd gan ymgynghoreion, argymhellion a wnaethpwyd yn ein Hadroddiad ar Gladdu ac Amlosgi,³⁷ neu gasgliadau eraill y daethpwyd iddynt yn yr Adroddiad hwn. Rydym yn delio â'r rhain isod.

³⁶ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 6.121.

³⁷ Claddu ac Amlosgi (2026) Comisiwn y Gyfraith Rhif 425.

4.56 Bydd y pŵer rydym yn ei eiriol yn sicrhau cywerthedd sylweddol, ond anghyflawn, â phwerau cyflwyno rheoliadau sydd ar gael yng nghyswllt claddu ac amlosgi. Roedd cywerthedd yn thema a oedd yn codi dro ar ôl tro ymysg ymgynghoreion, ac rydym yn cytuno y dylai fod yn agored i'r Llywodraethau perthnasol reoleiddio elfennau o ddulliau angladdol newydd yn yr un ffordd ag amlosgi, os ydynt yn dymuno. Byddai hyn yn galluogi'r Llywodraethau perthnasol i benderfynu cyflwyno darpariaethau tebyg ar gyfer amlosgi a dulliau angladdol newydd ac yn caniatáu ar gyfer mesurau diogelu cyfatebol. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol i ymarferwyr sy'n gweithio yn y sector angladdau ar hyn o bryd y gallai eu hymarfer ehangu i gynnwys dulliau angladdol newydd gan y byddant eisoes yn deall rhai o'r rheoliadau a'r prosesau perthnasol. Gallai hefyd gynyddu hyder y cyhoedd yn y system o reoleiddio dulliau angladdol newydd. Am y rheswm hwnnw, rydym wedi ceisio sicrhau y dylai'r pŵer i reoleiddio dulliau angladdol newydd unigol fod yn ddigon eang i gwmpasu pob mater y gellid ei gwmpasu gan y ddyletswydd i wneud rheoliadau am amlosgi yn adran 7 o Ddeddf Amlosgi 1902.

Elfennau o'r broses - arsylwi

4.57 Un mater a awgrymwyd gan ymgynghoreion na soniwyd amdano'n benodol yn ein Papur Ymgynghori yw'r pŵer i wneud rheoliadau ynghylch arsylwi ar ddulliau angladdol newydd, er enghraifft gan ffrindiau neu aelodau o'r teulu. Ar hyn o bryd nid oes rheoliadau ynghylch edrych ar y broses amlosgi, er y gellid gwneud rheoliadau o'r fath o dan y pŵer yn adran 7 o Ddeddf Amlosgi 1902, sy'n darparu bod rheoliadau i'w cyflwyno gan "nodi ym mha achosion ac o dan ba amodau y gellir llosgi unrhyw weddillion dynol".³⁸

4.58 Rydym yn cytuno y gall arsylwi ar ddulliau angladdol newydd fod yn ffordd bwysig o hybu hyder y cyhoedd, drwy ganiatáu bod yn agored ac yn dryloyw wrth eu defnyddio. Nid oes angen rheoleiddio hyn o reidrwydd. Byddai ffyrdd eraill hefyd o fagu hyder mewn dulliau angladdol newydd yn gyffredinol, er enghraifft defnyddio deunyddiau addysgol. Ar gyfer dulliau angladdol newydd unigol, gall y Llywodraethau perthnasol benderfynu peidio â gwneud rheoliadau ynghylch a allai pobl mewn profedigaeth arsylwi'r broses, ond yn hytrach gadael hynny i weithredwyr, yn yr un modd ag amlosgi. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen rhoi cyfyngiadau ar waith, er enghraifft i ddweud y gellid arsylwi ar un rhan o broses ond na ellir arsylwi ar ran arall (oherwydd pryderon iechyd a diogelwch). Am y rheswm hwnnw, rydym yn cytuno y dylai arsylwi gael ei gynnwys yng nghwmpas y pŵer rydym yn ei argymhell. Fodd bynnag, nid oes angen cyfeiriad penodol yn y cynllun statudol: mae'r pŵer roeddem wedi'i gynnig dros dro (ac rydym nawr yn ei argymhell) i reoleiddio "elfennau o'r broses" yn ddigon eang i gwmpasu arsylwi.

Cyrff heb eu hadnabod

4.59 Yn ein Hadroddiad ar Gladdu ac Amlosgi, fe wnaethom nodi bod gan ymddiriedolaethau ysbytai sydd â chorff person ymadawedig ddyletswydd o dan y gyfraith gyffredin i gladdu neu amlosgi'r gweddillion pan nad oes neb arall yn gallu gwneud hynny. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i drefnu i gladdu neu amlosgi

³⁸ Nodwyd yn *Ghai v Cyngor Dinas Newcastle (Ramgharia Gurdwara, Hitchin ac un arall yn ymyrryd)* [2009] EWHC 978 (Gweinyddol) bod galarwyr yn amlogfa Heol Orllewinol Cyngor Dinas Newcastle yn cael gweld y broses amlosgi gyfan.

corff person nad yw wedi'i adnabod ac sydd wedi marw neu y canfuwyd ei fod wedi marw yn ei ardal, os nad yw'n ymddangos bod unrhyw un arall yn gwneud y trefniadau.³⁹ Fodd bynnag, ni ddylid dewis amlosgi lle mae gan yr awdurdod reswm dros gredu y byddai'n groes i ddymuniadau'r person.⁴⁰

- 4.60 Yn yr Adroddiad hwnnw, roeddem yn argymhell na ddylid caniatáu amlosgi nac unrhyw ddull angladdol di-droi'n-ôl arall yng nghyswllt cyrff neu rannau o'r corff nad ydynt wedi cael eu hadnabod.⁴¹ Pan fyddwn yn cyfeirio at ddull angladdol newydd "na ellir ei wrthdroi", rydym yn golygu dull angladdol newydd na fyddai'n rhoi cyfle i ddull amgen, angladdol arall gael ei ddefnyddio os canfyddir hunaniaeth y person yn ddiweddarach. Mae claddu'n briodol ar gyfer cyrff nad ydynt wedi cael eu hadnabod, oherwydd os canfyddir pwy yw person ar ôl i'w gorff gael ei gladdu, mae'n debygol (oni bai fod amser hir iawn wedi mynd heibio) y gallai ei weddillion gael eu datgladdu a'u hamlosgi.
- 4.61 Yn yr Adroddiad Claddu ac Amlosgi, fe wnaethom nodi y gallai pa mor derfynol yw amlosgi atal y rhai yr effeithir arnynt gan aelodau o'r teulu a ffrindiau ar goll rhag gwybod a ganfuwyd eu perthynas, neu rhag cael man gorffwys terfynol y mae modd ei adnabod ar eu cyfer. Fe wnaethom nodi bod ein hargymhelliad hefyd yn debygol o fod yn unol â pharchu hawliau crefyddol i'r graddau ei fod yn cadw dewis crefyddol posibl yr ymadawedig o beidio â chael ei amlosgi, gan gynnal yr opsiwn ar gyfer amlosgi yn ddiweddarach os caiff y gweddillion eu canfod.⁴²
- 4.62 Er mwyn gweithredu'r polisi rydym wedi'i argymhell yn yr Adroddiad Claddu ac Amlosgi (ac fel yr awgrymwyd gennym yn ein Papur Ymgynghori ar Dulliau Angladdol Newydd) bydd angen i'r rheoliadau ar gyfer pob dull angladdol newydd na ellir ei wrthdroi nodi na chaniateir defnyddio'r dull ar gyfer cyrff neu rannau o gyrff nad ydynt wedi cael eu hadnabod. Bydd angen i'r pŵer gwneud rheoliadau fod yn ddigon eang i ganiatáu ar gyfer hyn.⁴³

Archwiliadau

Dyletswydd i arolygu

- 4.63 Yn ein Papur Ymgynghori, fe wnaethom ddweud y byddai angen i broses reoleiddio dulliau angladdol newydd gynnwys darpariaeth am arolygiadau.⁴⁴ Gwnaethom nodi hefyd, o leiaf tra bod dulliau newydd yn dod i'r amlwg ac yn datblygu, y gallai fod angen darpariaeth fwy cynhwysfawr o ran arolygiadau na'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer claddu ac amlosgi.⁴⁵ Fodd bynnag, nid oeddem yn benodol bryd hynny

³⁹ Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, adran 46(1).

⁴⁰ Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, adran 46(3).

⁴¹ Claddu ac Amlosgi (2026) Comisiwn y Gyfraith Rhif 425 paragraff 12.135.

⁴² Claddu ac Amlosgi (2026) Comisiwn y Gyfraith Rhif 425 paragraff 12.134.

⁴³ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 6.119.

⁴⁴ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 6.98.

⁴⁵ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 6.98. I gael manylion yr archwiliad o gladdfeydd ac amlosgfeydd, gweler paragraffau 6.95 i 6.97 o'r Papur Ymgynghori.

ynghylch a ddylai fod gan y gwahanol Lywodraethau bŵer neu ddyletswydd i gyflwyno darpariaeth ynghylch arolygiadau.

- 4.64 O ran cyd-destun, ym Mhennod 2, daethom i'r casgliad na fyddai'n briodol argymell creu (neu gael pŵer i greu) system drwyddedu ar gyfer dulliau angladdol newydd. Un o'r priif ddadleuon yn erbyn trwyddedu yw y dylai fod yn bosibl cyflwyno darpariaeth ar gyfer lefel debyg o oruchwyliaeth - y fantais allweddol y mae'r rheini sy'n cefnogi cyflwyno trwyddedau yn dibynnu arni - heb drwyddedu. Mae arolygiadau, yn ein barn ni, yn ffordd hanfodol o gyflawni'r oruchwyliaeth hon.
- 4.65 Yng ngoleuni hyn, rydym o'r farn y bydd arolygiadau'n allweddol i system effeithiol o oruchwyllo dulliau angladdol newydd, ac felly rydym yn argymell bod yn rhaid i'r ddwy Lywodraeth gyflwyno darpariaeth ynghylch arolygiadau, gan gynnwys penodi arolygydd, wrth reoleiddio dulliau angladdol newydd unigol.
- 4.66 Nid yw'r gofyniad hwn yn berthnasol ar hyn o bryd pan wneir rheoliadau ynghylch amlosgi: gall yr Ysgrifennydd Gwladol benodi rhywun i arolygu amlosgfeydd ond nid yw'n ofynnol iddo wneud hynny. Fodd bynnag, caiff y gwahaniaeth ei gyfiawnhau oherwydd bod dulliau angladdol newydd yn ddieithr ac yn debygol o gynnwys prosesau mwy cymhleth. Mater i'r Llywodraethau perthnasol fydd sut i weithredu arolygiadau a gwneud penderfyniadau ynghylch, er enghraifft, pa mor rheolaidd y dylent gael eu cynnal. Byddai modd i hyn newid dros amser. Er enghraifft, pan fydd dull angladdol newydd yn cael ei reoleiddio am y tro cyntaf, gall arolygiadau gael eu cynnal yn aml. Fodd bynnag, wrth i'r dull hwnnw ddod yn fwy sefydledig, efallai y penderfynir y gellid cynnal arolygiadau'n llai aml.
- 4.67 Mae'r argymhelliad hwn, a'r drafodaeth ynghylch sut mae'n cael ei roi ar waith yn y Biliau drafft, wedi'u nodi ym mharagraffau 4.81 i 4.82 isod.

Elfennau eraill monitro a gorfodi cydymffurfiaeth

- 4.68 Er mwyn sicrhau bod y ddyletswydd rydym yn ei hargymell i gyflwyno rheoliadau ynghylch arolygiadau yn effeithiol, bydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael pwerau i gyflwyno rheoliadau ynghylch sut y gellir monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r rheoliadau. Er enghraifft, efallai y bydd angen ei gwneud yn ofynnol i weithredwr ddarparu gwybodaeth. Efallai hefyd y bydd angen i arolygydd allu mynd i mewn i leoliad fel rhan o arolygiad, er enghraifft, os yw gweithredwr wedi mynd â'i ben iddo neu'n gwrthod mynediad. Efallai hefyd y bydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru ddirymu unrhyw awdurdodiad a roddwyd cyn hynny, gan ganiatáu i rywun weithredu dull angladdol newydd. Dylai'r pŵer rydym yn ei argymell fod yn ddigon eang i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i gyflwyno rheoliadau sy'n ymwneud â'r materion hyn.

Casgliad ar ehangder y pŵer

- 4.69 Rydym yn argymell y dylai'r pŵer i gyflwyno rheoliadau fod yn ddigon eang i gynnwys y materion a nodir ym mharagraffau 6.85 i 6.119 ein Papur Ymgynghori, ym mharagraff 4.70 uchod. Rydym hefyd yn argymell y dylai'r pŵer i gyflwyno rheoliadau gynnwys y pŵer i gyflwyno rheoliadau ynghylch monitro a gorfodi cydymffurfiaeth, a dirymu unrhyw awdurdodiadau i weithredu dull angladdol newydd. Fel y nodir ym mharagraff 4.81, rydym yn argymell y dylai fod rhwymedigaeth i gyflwyno darpariaeth

ar gyfer arolygiadau, felly nid ydym yn sôn yn benodol amdani yn yr argymhelliad hwn, er ei bod wedi'i chynnwys wrth fonitro a gorfodi cydymffurfiaeth.

Argymhelliad 8.

- 4.70 Rydym yn argymhell y dylai'r pŵer i gyflwyno rheoliadau am ddulliau angladdol newydd unigol fod yn ddigon eang i gwmpasu'r materion canlynol:
- (1) cyfleusterau sy'n agor a chau;
 - (2) lleoliad cyfleusterau;
 - (3) gweithredu a chynnal cyfleusterau;
 - (4) elfennau'r broses;
 - (5) apwyntiadau;
 - (6) dyfeisiau meddygol;
 - (7) gweithdrefnau gwneud cais ar ran person ymadawedig;
 - (8) amgylchiadau pan na chaniateir defnyddio dull angladdol newydd penodol;
 - (9) gweddillion;
 - (10) gweddillion ffetysau;
 - (11) cyrff heb eu hadnabod;
 - (12) hawliau a rhwymedigaethau;
 - (13) monitro a gorfodi cydymffurfiaeth; ac
 - (14) amgylchiadau pan ganiateir i unrhyw awdurdodiadau gael eu dirymu.

4.71 Mae cymal 2(1) o'r Bil drafft ar gyfer Lloegr ac adran 2(1) o'r Bil drafft ar gyfer Cymru yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru i gyflwyno is-ddeddfwriaeth i reoleiddio dulliau angladdol modern unigol. Trafodir y cymal a'r adran hon ym mharagraffau 2.67 i 2.68 yr Adroddiad hwn.

4.72 Bydd rhai o'r materion a nodir yn Argymhelliad 8 yn berthnasol i gwmpas y pŵer hwn heb fod angen sôn amdanynt yn y ddeddfwriaeth. Er enghraifft, nid yw cymal 2 nac adran 2 yn nodi'n benodol bŵer i gyflwyno rheoliadau ynghylch a oes rhaid tynnu dyfeisiau meddygol cyn defnyddio dull angladdol modern. Fodd bynnag, rydym wedi cyflwyno darpariaeth benodol ar gyfer rhai materion, er eglurder (gan gynnwys lle gallai fod yn aneglur fel arall a ydynt wedi'u cynnwys yn y pŵer ai peidio). Er enghraifft, mae cymal 2(2) ac adran 2(2) o'r Biliau drafft yn nodi rhai o'r materion y caniateir cyflwyno rheoliadau yn eu cylch o dan y pwerau yng nghymal 2(1) ac adran 2(1), gan gynnwys y modd, y lleoedd neu'r amgylchiadau y caniateir cyflawni dull

angladdol modern ynddynt. Mae'r geiriau "ymhlith pethau eraill" yng nghymal 2(2) ac adran 2(2) yn ei gwneud yn glir na fwriedir i hyn fod yn rhestr gynhwysfawr o'r holl faterion a allai ddod o dan y pwerau yng nghymal 2(1) ac adran 2(1).

- 4.73 Mae'r pŵer i gyflwyno darpariaeth yng nghyswllt gweddillion ffetysau wedi'i gynnwys yng nghymal 5 ac adran 5 o'r Biliau drafft. Pan fydd dull angladdol modern unigol yn cael ei reoleiddio, gellid cyflwyno darpariaeth debyg yng nghyswllt gweddillion ffetysau. Yn y cymal hwn, mae gweddillion ffetysau yn cynnwys gweddillion embryo. Mae hyn er mwyn sicrhau y gellid gwneud darpariaeth ynghylch gweddillion pob beichiogrwydd cyn 24 wythnos. Ni fydd yn bosibl caniatáu unrhyw dreialon (o dan gymal 4 neu adran 4) yng nghyswllt gweddillion ffetysau.
- 4.74 Defnyddir y sillafiad "foetus" weithiau, gan gynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol sy'n bodoli eisoes yn y DU.⁴⁶ Fodd bynnag, roedd hyn yn seiliedig yn wreiddiol ar sillafiad anetymolegol o'r gair mewn Lladin ac yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin tan ddechrau'r ugeinfed ganrif.⁴⁷ Mae "ffetws" bellach yn fwy cyffredin, gan gynnwys mewn meddygaeth,⁴⁸ ac mae'n cael ei ddefnyddio yn Neddf Claddu ac Amlosgi (Yr Alban) 2016.⁴⁹ Ar y sail hon rydym wedi defnyddio'r sillafiad "gweddillion y ffetws" yn y Biliau drafft.
- 4.75 Mae monitro a gorfodi cydymffurfiaeth yn berthnasol i gymal 3 o'r Bil drafft ar gyfer Lloegr ac adran 3 o'r Bil drafft ar gyfer Cymru. Maent yn nodi pwerau y gellir eu cyflwyno drwy reoliadau. Mae'r rhain yn cynnwys pwerau i'w gwneud yn ofynnol i rywun fynd i leoliad i ateb cwestiynau, pwerau mynediad, chwilio, atafaelu neu gadw, a phŵer i ddatgymalu cyfleusterau neu gymryd samplau o sylweddau.
- 4.76 O dan gymal 3(3) ac adran 3(3), bydd modd cyflwyno darpariaeth sy'n rhoi pwerau i ddefnyddio grym rhesymol neu fynd i mewn i annedd breifat, ond dim ond gyda gwarant. Mae hyn yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref ar bwerau mynediad.⁵⁰
- 4.77 Mae Cymal 2(2)(e) ac adran 2(2)(e) yn sicrhau ei bod yn glir y gall rheoliadau ddarparu ar gyfer awdurdodiadau gofynnol, gan gynnwys dogfennau neu brosesau ymgeisio. Credwn ei bod yn amlwg y gellid gwneud rheoliadau ynghylch dirymu unrhyw awdurdodiadau hefyd ac nid oes angen pennu hyn. Gallai rheoliadau nodi amgylchiadau a fyddai'n arwain yn awtomatig at ddirymu awdurdodiad, er enghraifft, os ceir gweithredwr yn euog o drosedd benodol. Byddai ffyrdd eraill o ddarparu ar

⁴⁶ Mae naw Deddf Seneddol yn defnyddio'r sillafiad hwn, gan gynnwys Deddf Erthyly 1967, Deddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg 1990 a Deddf Partneriaethau Sifil, Priodasau a Marwolaethau (Cofrestru) 2019.

⁴⁷ Gweler Etymonline, *Etymology of oe* (2026) <https://www.etymonline.com/word/oe>; gweler hefyd JD Boyd ac WJ Hamilton, *Foetus—or Fetus?* (1967) 1 *British Medical Journal* 425 <https://pmc.ncbi.nlm.nih.gov/articles/PMC1841520/>.

⁴⁸ Gweler Chapterhouse, *Fetus vs Foetus – Spellings for Proofreaders and Editors* (2021) <https://www.chapterhousepublishing.co.uk/fetus-vs-foetus-spellings-for-proofreaders-and-editors/>.

⁴⁹ Er enghraifft, Deddf Claddu ac Amlosgi (Yr Alban) 2016, adran 107.

⁵⁰ Y Swyddfa Gartref, *Canllawiau ar bwerau mynediad i adrannau* (2018) t 8 <https://www.gov.uk/guidance/powers-of-entry>. Mae'n nodi "Pryd bynnag y bo modd, dylai deddfwriaeth ar gyfer pwerau mynediad o unrhyw fath gynnwys darpariaeth ar gyfer gwarant Ynad i weithredu fel y pŵer olaf un".

gyfer dirymu hefyd. Er enghraifft, gallai rheoliadau a wneir ynghylch arolygiadau o dan gymal 3 neu adran 3 nodi y gallai arolygydd benderfynu dirymu awdurdodiad yn dilyn arolygiad.

- 4.78 Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru yn rheoleiddio dull angladdol modern, mae cymal 3(4)(b) neu adran 3(4)(b) yn eu gorfodi hefyd i wneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer monitro a gorfodi cydymffurfiaeth sy'n briodol yn eu barn hwy.
- 4.79 Gyda'i gilydd, bydd y darpariaethau hyn yn galluogi rheoliadau i gael eu gwneud er mwyn sicrhau y gellir monitro cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, ac ynghylch sut y gellir gorfodi achosion o dorri rheolau.
- 4.80 Rydym yn trafod cymal 3(2)(b) ac adran 3(2)(b), y pŵer i greu troseddau, a chymal 3(2)(c) ac adran 3(2)(c), y pŵer i roi pwerau i osod sancsiynau sifil, ym Mhennod 6.

Argymhelliad 9.

- 4.81 Rydym yn argymhell, wrth wneud rheoliadau am ddulliau angladdol newydd unigol, bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gyflwyno darpariaeth ynghylch arolygu cyfleusterau.
- 4.82 Rhoddir effaith i'r argymhelliad hwn gan gymal 3(4)(a) ac adran 3(4)(a), sy'n datgan bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru sicrhau pan fydd dull angladdol modern yn cael ei reoleiddio, bod darpariaeth yn cael ei chyflwyno ynghylch arolygu cyfleusterau, gan berson a benodir gan y rheoliadau, neu yn unol â nhw. Gellid penodi'r person hwn yn arolygydd sefydlog neu i gynnal arolygiadau penodol.

CRAFFU SENEDDOL

Gweithdrefnau posibl ar gyfer offerynnau statudol

- 4.83 Rydym yn argymhell ym Mhennod 2 y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael y pŵer i gyflwyno rheoliadau sy'n cymeradwyo defnyddio dulliau angladdol newydd unigol ac yn nodi sut y dylid eu cyflawni. Yn y bennod hon, rydym wedi gwneud argymhellion ynghylch cwmpas a natur y pŵer hwnnw.
- 4.84 Bydd y rheoliadau'n cael eu nodi mewn offeryn statudol (OS).⁵¹ Pan fydd deddfwriaeth sylfaenol yn cynnwys pŵer i wneud OS, dylai nodi lefel y rheolaeth seneddol sydd ei hangen er mwyn i'r offeryn statudol ddod yn gyfraith, neu aros yn gyfraith.
- 4.85 Gall offerynnau statudol a wneir gan Lywodraeth y DU ddilyn gweithdrefn negyddol neu gadarnhaol. Mae'r weithdrefn gadarnhaol yn golygu mwy o graffu seneddol. Caiff offerynnau statudol Cymru a wneir gan Weinidogion Cymru ddilyn dirymiad y Senedd, cadarnhad y Senedd neu weithdrefn gymeradwyo'r Senedd. Mae gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd yn cynnwys y lefel uchaf o graffu seneddol. Os oes angen hyd

⁵¹ O ran y term hwn rydym yn cynnwys offerynnau statudol Cymru o fewn ystyr adran 37A o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

yn oed mwy o graffu na'r hyn a wneir gyda gweithdrefn gadarnhaol neu gymeradwyaeth y Senedd, gall gweithdrefn uwch, gyda gofynion ychwanegol, fod yn berthnasol.

Gweithdrefn negyddol/gweithdrefn annilysu'r Senedd

- 4.86 Yn gyntaf, mae'r rhan fwyaf o offerynnau statudol sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn cael eu "gwneud" (eu llofnodi dan y gyfraith gyda dyddiad penodol ar gyfer dod i rym) ac yna'n cael eu cyflwyno i'r Senedd (eu gosod gerbron y Senedd). Byddant wedyn yn parhau'n gyfraith, neu'n dod yn gyfraith, os bydd 40 diwrnod yn mynd heibio heb benderfyniad gan y Senedd i annilysu'r OS. Mae gweithdrefn debyg yn bodoli yn y Senedd, y cyfeirir ati fel gweithdrefn dirymu'r Senedd (gweler adran 37E o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019).

Gweithdrefn gadarnhaol/Cymeradwyaeth gan y Senedd/gweithdrefn gadarnhau'r Senedd

- 4.87 O dan y gweithdrefnau hyn, rhaid i'r OS gael ei gymeradwyo gan y Senedd.
- 4.88 Rhaid i rai o'r offerynnau statudol hyn gael eu gosod gerbron y Senedd ar ffurf drafft a dim ond ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo y gallant ddod yn gyfraith (y cadarnhad drafft, neu weithdrefn gymeradwyo'r Senedd). Gosodir eraill ar ôl iddynt gael eu gwneud a dim ond ar ôl cael cymeradwyaeth y Senedd y gallant ddod yn gyfraith (neu barhau'n gyfraith) (y weithdrefn gadarnhaol gwnaed, neu weithdrefn gadarnhau'r Senedd).

Gweithdrefnau uwch

- 4.89 Mewn rhai achosion, mae Senedd y DU neu Senedd Cymru wedi rhagnodi gofynion ychwanegol y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir gwneud rheoliadau o dan y "cadarnhad drafft" neu "weithdrefn gymeradwyo'r Senedd". Yn Senedd y DU, weithiau gelwir hyn yn "gadarnhad uwch" neu'n weithdrefn uwchgadarnhaol".
- 4.90 Mewn achosion o'r fath, caniateir cyflwyno drafft o'r rheoliadau a datganiad esboniadol i'r Senedd. Bydd pwyllgorau'r Senedd neu Senedd y DU wedyn yn ystyried y drafft a gallant argymhell gwelliannau, y mae'n rhaid i'r Llywodraethau perthnasol eu hystyried. Yn dilyn hyn, gall y Llywodraeth berthnasol osod OS drafft yn unol â gweithdrefn gymeradwyo gadarnhaol ddrafft/gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd, fel y disgrifir uchod.

Rheoliadau am ddulliau angladdol newydd unigol

- 4.91 Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru yn penderfynu eu bod am reoleiddio dull angladdol newydd nad yw wedi cael ei reoleiddio o'r blaen, bydd angen iddynt wneud is-ddeddfwriaeth, ar ffurf rheoliadau, yn diffinio'r dull angladdol newydd hwnnw ac yn nodi sut y gellir ei gyflawni. Caiff y rheoliadau hyn gynnwys darpariaeth ynghylch unrhyw faterion y bernir eu bod yn berthnasol i'r pŵer i gyflwyno rheoliadau a roddwyd yn y ddeddfwriaeth sylfaenol.
- 4.92 Ar ôl i'r rheoliadau a ddisgrifir uchod gael eu gwneud, efallai y bydd angen eu diwygio. Gallai hyn olygu newid rheoliadau presennol neu ychwanegu darpariaethau newydd.
- 4.93 Rydym wedi ystyried pa weithdrefn fyddai'n briodol ar gyfer y gwahanol fathau o ddarpariaethau y gellir eu cyflwyno yn y rheoliadau.

Craffu ychwanegol

- 4.94 Pan fydd dull angladdol newydd yn cael ei reoleiddio am y tro cyntaf, bydd hyn yn arwyddocaol. Efallai y bydd angen i'r Llywodraethau perthnasol wneud penderfyniadau anodd, a allai fod yn ddadleuol, ynghylch a ddylid rheoleiddio'r dull ai peidio. Bydd angen iddynt hefyd benderfynu sut y dylid ei ddiffinio, ac felly pa ffurfiau posibl o'r dull fydd yn gyfreithlon.
- 4.95 Mae'n ymddangos yn briodol y dylai dull craffu uwch na'r hyn a gynigir gan y gweithdrefnau a ddisgrifir ym mharagraffau 4.83 i 4.88 uchod fod yn berthnasol yn yr achos hwn. O dan y gweithdrefnau a nodir yn y Biliau drafft, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru (fel y bo'n berthnasol) ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy cyn gosod y rheoliadau gerbron y Senedd neu Senedd y DU. Bydd cyfle i bwyllgorau Seneddol neu'r Senedd roi sylwadau ar y ddeddfwriaeth arfaethedig cyn iddi gael ei gosod ar ffurf ddrafft o dan weithdrefn gadarnhaol/gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd. Gallai hyn fod yn fuddiol o ran sicrhau bod pob agwedd wedi cael sylw ac i helpu i sicrhau tryloywder i aelodau o'r cyhoedd.

Gweithdrefn gadarnhaol ddrafft/gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd

- 4.96 Mae rhai o'r materion y gall rheoliadau eu cwmpasu (ar ôl y tro cyntaf i ddull penodol gael ei reoleiddio) yn ddigon sylweddol i gyfiawnhau defnyddio gweithdrefn gadarnhaol ddrafft/gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd. Rhan o'n hargymhelliad yw bod yn rhaid defnyddio'r gweithdrefnau hyn ar gyfer darpariaethau sy'n:
- (1) diwygio'r diffiniad o ddull angladdol newydd penodol sydd wedi cael ei reoleiddio o'r blaen;
 - (2) creu troseddau am dorri darpariaeth yn y rheoliadau (trafodir hyn yn fanylach ym mharagraffau 6.52 i 6.76 isod);
 - (3) rhoi pŵer i osod sancsiwn sifil am dorri darpariaeth yn y rheoliadau;
 - (4) cyflwyno darpariaeth ynghylch treialon; neu
 - (5) diwygio deddfwriaeth sylfaenol.
- 4.97 Rydym hefyd yn argymhell y dylai gweithdrefn gadarnhaol ddrafft/gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd fod yn berthnasol i ddarpariaethau sy'n rhoi pwerau penodol nad ydynt eisoes yn bodoli wrth reoleiddio dulliau angladdol newydd.
- 4.98 Bydd hyn yn berthnasol i ddarpariaethau sy'n:
- (1) rhoi pwerau archwilio, mynediad, chwilio, atafaelu neu gadw a phwerau cysylltiedig; neu
 - (2) rhoi pŵer i ddefnyddio grym rhesymol neu fynd i mewn i annedd breifat, gydag awdurdod gwarant, ar gyfer monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r rheoliadau.
- 4.99 Effaith hyn fydd, os bydd rheoliadau ar gyfer dull angladdol newydd unigol yn cynnwys pwerau mynediad sydd yr un fath â'r rheini sydd eisoes yn bodoli yng nghyswllt dull angladdol newydd arall sydd wedi cael ei reoleiddio, ni fydd angen gweithdrefn gadarnhaol ddrafft/gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd. Fodd bynnag, os bydd y

rheoliadau newydd yn rhoi pwerau mynediad nad ydynt eisoes yn bodoli o ran dull arall, bydd gweithdrefn gadarnhaol ddrafft/gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd yn berthnasol.

- 4.100 Mae pwerau mynediad (a phwerau cysylltiedig) yn ymwthiol o ran natur. Bwriad y rhan hon o'r argymhelliad yw sicrhau bod y Senedd yn craffu'n ddigonol ar bwerau o'r fath. Fodd bynnag, pan fydd Senedd y DU neu Senedd Cymru eisoes wedi cymeradwyo pwerau cyfatebol yng nghyswllt dulliau eraill, nid ydym yn credu bod angen gofyn am amser seneddol ar gyfer dadleuon pellach.

Gweithdrefn gadarnhaol gwnaed / gweithdrefn gadarnhau'r Senedd

- 4.101 Mae adran 47(1)(a) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn nodi y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno rheoliadau sy'n gosod unrhyw amodau a chyfyngiadau o ran dulliau cael gwared ar gyrf marw ac eithrio drwy gladdu neu amlosgi. Gallai Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer Cymru o dan y ddarpariaeth hon.⁵² Ym Mhennod 7, rydym yn argymhell y dylid diddymu adran 47(1)(a).
- 4.102 Fel rydym yn egluro ym mharagraffau 7.46 i 7.51, mae'n bosibl y bydd angen i Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru alluogi defnyddio dull angladdol newydd nad yw'n cael ei reoleiddio fel ymateb i argyfwng iechyd y cyhoedd. Am resymau rydym yn eu hegluro yn y paragraffau hynny, ar ôl diddymu adran 47(1)(a), rydym o'r farn y byddai'n briodol i'r Llywodraeth berthnasol allu defnyddio gweithdrefn sy'n cymryd llai o amser os ydynt o'r farn bod angen gwneud hynny am resymau brys ac er budd iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch y cyhoedd.
- 4.103 Felly, rydym yn argymhell, pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru yn gwneud datganiad ei bod, am resymau brys, yn angenrheidiol er budd iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch y cyhoedd, y gellir gwneud unrhyw reoliadau fel arfer gan ddefnyddio gweithdrefn gadarnhaol ddrafft neu weithdrefn gymeradwyo'r Senedd yn lle hynny gan ddefnyddio gweithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' neu weithdrefn gadarnhau'r Senedd. Bydd hyn yn cynnwys y rheini lle byddai angen mesurau ychwanegol y tro cyntaf y caiff rheoliadau eu gwneud ar gyfer dull penodol. Gweler paragraffau 4.94 i 4.95 am esboniad llawn o'r rhan hon o'r argymhelliad.

Gweithdrefn negyddol/annilysu'r Senedd

- 4.104 Dylid defnyddio'r weithdrefn negyddol/annilysu'r Senedd ar gyfer pob rheoliad arall. Bydd hyn yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng sicrhau cymeradwyaeth seneddol a galluogi diwygio'r rheoliadau'n gyflym lle bo angen, heb gymryd amser seneddol.

⁵² Mae swyddogaethau o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, Atodlen 1.

Argymhelliad 10.

4.105 Rydym yn argymhell y dylai'r gweithdrefnau canlynol fod yn berthnasol i reoliadau a wneir am ddulliau angladdol newydd unigol.

- (1) Fersiwn uwch o weithdrefn gymeradwyo ddrafft / gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd y tro cyntaf y caiff rheoliadau eu gwneud am ddull angladdol newydd penodol.
- (2) Gweithdrefn gadarnhaol ddrafft / gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd ar gyfer darpariaethau sy'n:
 - (a) diwygio'r diffiniad o ddull angladdol newydd penodol sydd wedi cael ei reoleiddio o'r blaen;
 - (b) creu troseddau am dorri darpariaeth yn y rheoliadau;
 - (c) gosod sancsiwn sifil am dorri darpariaeth yn y rheoliadau;
 - (d) cyflwyno darpariaeth ynghylch treialon; neu
 - (e) diwygio deddfwriaeth sylfaenol.
- (3) Gweithdrefn gadarnhaol ddrafft / gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd ar gyfer darpariaethau sy'n:
 - (a) rhoi pwerau archwilio, mynediad, chwilio, atafaelu neu gadw, a phwerau cysylltiedig; neu
 - (b) rhoi pŵer i ddefnyddio grym rhesymol neu fynd i mewn i annedd breifat, gydag awdurdod gwarant, ar gyfer monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r rheoliadau;

Ile nad oes pwerau o'r fath eisoes yn bodoli wrth reoleiddio dulliau angladdol newydd.
- (4) Gweithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' / gweithdrefn gadarnhau'r Senedd lle mae'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru yn gwneud datganiad bod hyn, am resymau brys, yn angenrheidiol er budd iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch y cyhoedd.
- (5) Gweithdrefn negyddol / annilysu'r Senedd ar gyfer pob darpariaeth arall.

4.106 Caiff yr argymhelliad hwn ei weithredu gan gymal 11 o'r Bil drafft ar gyfer Lloegr ac adran 11 o'r Bil drafft ar gyfer Cymru, sy'n nodi'r gweithdrefnau a fydd yn berthnasol i reoliadau gwahanol, a chan Atodlen 2 i bob un o'r Biliau drafft, sy'n nodi'r gofynion craffu ychwanegol ar gyfer rheoliadau tro cyntaf.

Pennod 5: Statws dulliau angladdol newydd sydd heb eu rheoleiddio

CYFLWYNIAD

- 5.1 Ar hyn o bryd nid oes gwaharddiad deddfwriaethol penodol ar ddefnyddio dulliau angladdol newydd. Gall deddfwriaeth ynghylch cofrestru marwolaethau arwain at droseddoli'r defnydd o ddulliau angladdol newydd, ond nid yw hyn yn glir ac nid oes cyfraith achos ar y mater.¹
- 5.2 Ym Mhennod 2 o'r Adroddiad hwn, rydym yn argymhell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael pŵer i wneud rheoliadau sy'n galluogi defnyddio dulliau angladdol newydd unigol. Yn y bennod hon, rydym yn ystyried statws dulliau angladdol newydd nad ydynt yn cael eu rheoleiddio o dan y pŵer hwn. Rydym yn argymhell y dylid gwahardd defnyddio dulliau o'r fath, fel mai dim ond dulliau sydd wedi cael eu rheoleiddio y gellir eu defnyddio'n gyfreithlon. Ym Mhennod 6 o'r Adroddiad hwn, rydym yn ystyried y sanctsiwn a'r cosbau priodol am dorri'r gwaharddiad.
- 5.3 Efallai y bydd angen profi dulliau newydd sy'n cael eu datblygu cyn eu bod yn barod i gael eu rheoleiddio fel dull angladdol newydd. Rydym yn ystyried y mater hwn yn y bennod hon ac yn argymhell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael y pŵer i wneud rheoliadau sy'n nodi sut y gellir cymeradwyo a chynnal treialon o ddulliau angladdol newydd.

GWAHARDD DEFNYDDIO DULLIAU ANGLADDOL NAD YDYNT YN CAEL EU RHEOLEIDDIO

Cynnig dros dro ar wahardd defnyddio dulliau angladdol newydd nad ydynt yn cael eu rheoleiddio

- 5.4 Yn ein Papur Ymgynghori, roeddem yn cynnig dros dro y dylai deddfwriaeth sylfaenol wahardd yn benodol defnyddio dull angladdol newydd nad yw wedi cael ei rheoleiddio.² Bydd fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoleiddio dulliau angladdol newydd yn rhoi sicrwydd i ddarparwyr ynghylch sut y gallant ac y dylent weithredu, ac yn helpu'r cyhoedd i fod yn hyderus bod dulliau angladdol newydd yn cael eu rheoleiddio'n briodol. Nid oeddem o'r farn bod mantais mewn caniatáu i ddulliau eraill gael eu defnyddio heb unrhyw brosesau rheoleiddio ar waith.

¹ I gael rhagor o fanylion, edrychwch ar baragraffau 3.41 i 3.64 ein Papur Ymgynghori (Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272).

² Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 7.14.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cefnogaeth i'r cynnig dros dro

- 5.5 Roedd mwyafrif helaeth yr ymgynghoreion yn cefnogi'r cynnig dros dro. Roedd rhai ymgynghoreion yn cytuno'n benodol â'n hasesiad o hyder a sicrwydd y cyhoedd i ddarparwyr.
- 5.6 Nododd ymgynghoreion, pe bai dull angladdol newydd yn aneffeithiol, y gallai hyn achosi trallod sylweddol ac y gallai gael effaith niweidiol ar yr amgylchedd neu ar urddas pobl.

Arloesedd

- 5.7 O'r ymgynghoreion a oedd yn anghytuno â'r cynnig dros dro ac a ychwanegodd ymateb ffurf hirach, roedd y rhan fwyaf yn poeni y gallai gwahardd defnyddio dulliau angladdol heb eu rheoleiddio lesteirio arloesedd drwy atal treialon i ddatblygu dulliau. Dywedodd rhai ymgynghoreion y byddent yn cefnogi'r cynnig dros dro pe bai treialon yn bosibl.

Trafodaeth ac argymhelliad

- 5.8 Rydym o'r farn y dylid gwahardd defnyddio dulliau angladdol nad ydynt yn cael eu rheoleiddio. Ym Mhennod 2 o'r Adroddiad hwn, rydym yn argymhell y dylai fod gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru bŵer i gyflwyno is-ddeddfwriaeth am ddulliau angladdol newydd unigol. Mae'n bwysig cael system gydlynol ar gyfer rheoleiddio dulliau angladdol newydd. Pe na bai gwaharddiad ar ddefnyddio dulliau angladdol heb eu rheoleiddio, byddai'n bosibl i rai dulliau gael eu rheoleiddio'n llym tra gellid defnyddio unrhyw rai sydd heb eu rheoleiddio heb bron dim cyfyngiadau. Gallai hyn greu annhegwch a diffyg gwarchodaeth i bobl sy'n defnyddio dulliau heb eu rheoleiddio.
- 5.9 Bydd gwahardd defnyddio dulliau angladdol sydd heb eu rheoleiddio yn amddiffyniad pwysig rhag gweithrediad a allai fod yn anghyfrifol neu'n beryglus o ran dulliau angladdol newydd sydd heb eu rheoleiddio. Bydd yn dod ag eglurder i'r gyfraith ac yn helpu i ennyn hyder y cyhoedd yn y gwaith o reoleiddio dulliau angladdol newydd.
- 5.10 Roedd rhai ymgynghoreion yn poeni y gallai'r gwaharddiad lesteirio arloesedd. Ym mharagraff 5.60 isod, rydym yn argymhell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru allu gwneud rheoliadau sy'n galluogi treialu dulliau angladdol newydd i gael eu hawdurdodi. Ni fydd y rhai sy'n cynnal treialon wedi'u hawdurdodi yn torri'r gwaharddiad ar ddefnyddio dulliau angladdol nad ydynt yn cael eu rheoleiddio. Dylai hyn sicrhau bod modd arloesi wrth gydbwysu'r angen am ddulliau rheoli, ar ffurf goruchwyllo treialon a gynhelir ar gyrrff pobl sydd wedi marw.

Argymhelliad 11.

- 5.11 Rydym yn argymhell y dylid gwahardd defnyddio dull angladdol newydd nad yw wedi cael ei reoleiddio.

- 5.12 Caiff yr argymhelliad hwn ei weithredu gan gymal 6 o'r Bil drafft ar gyfer Lloegr ac adran 6 o'r Bil drafft ar gyfer Cymru. Mae'r cymal a'r adran hon yn nodi ei bod yn drosedd cynnal dull angladdol modern nad yw wedi'i reoleiddio o dan gymal 2 neu adran 2 (y prif bŵer i wneud rheoliadau) neu gymal 4 neu adran 4. Mae Cymal 4 ac adran 4 yn galluogi rheoliadau i gael eu cyflwyno am dreialon a chânt eu trafod ym mharagraffau 5.62 i 5.67 isod.
- 5.13 Rydym yn trafod creu trosedd newydd yn sgil torri'r gwaharddiad hwn, a'r gosb uchaf am y tramgwydd hwnnw, ym Mhennod 6.

TREIALON DULLIAU ANGLADDOL NEWYDD

Ymgynghoriad ar bŵer i ddarparu ar gyfer treialon

- 5.14 Mae hydrolysis alcalïaidd a chompostio dynol ar gam uwch yn eu datblygiad ac maent eisoes yn cael eu defnyddio mewn gwledydd eraill. Cynhaliwyd astudiaeth o hydrolysis alcalïaidd yn Lloegr.³ Mae'n bosibl y bydd angen treialon pellach ar gyfer y dulliau hyn. Efallai y bydd dulliau newydd hefyd yn dod i'r amlwg yn y dyfodol y byddai angen eu profi cyn y gellid eu cyflwyno i'r pwynt o fod yn barod i gael eu rheoleiddio fel dull angladdol newydd.
- 5.15 Gall treialon helpu i dynnu sylw at faterion allweddol ac felly penderfynu ar gynnwys rheoleiddio manwl am y dull yn y dyfodol. Byddai angen ystyried rhyw fath o awdurdodiad i geisio sicrhau, er enghraifft, nad oedd treialon a oedd yn cynnwys technoleg arbrofol a oedd yn aflwyddiannus yn achosi trallod i bobl mewn profedigaeth nac yn peryglu'r broses o gadw urddas dynol.
- 5.16 Os gwaherddir defnyddio dulliau angladdol newydd sydd heb eu rheoleiddio, fel yr ydym yn ei argymhell uchod, yna oni wneir darpariaeth i alluogi treialon, neu brofi, dulliau angladdol newydd sy'n cael eu datblygu ond nad ydynt yn cael eu rheoleiddio eto, bydd hyn hefyd yn cael ei wahardd.
- 5.17 Fe wnaethom nodi y gellid rhoi pŵer i'r gwahanol Lywodraethau wneud rheoliadau i alluogi defnyddio treialon, ochr yn ochr â'r pŵer cyffredinol i reoleiddio dulliau angladdol newydd. Yn ein Papur Ymgynghori, roeddem wedi gofyn am farn ymgynghoreion ynghylch a ddylai ei bod yn bosibl darparu ar gyfer treialon. Fe wnaethom awgrymu ei bod yn debygol y byddai angen cymeradwyo pob treial cyn iddo ddigwydd ac y gallai fod yn briodol i'r Llywodraethau perthnasol wneud hyn.⁴ O dan y model hwn, pe bai treialon cymeradwy ar ddull angladdol nad yw'n cael ei reoleiddio yn cael eu cynnal, ni ddylai unrhyw waharddiad ar ddefnyddio'r dulliau hynny (ac felly unrhyw sanctsiwn am dorri'r gwaharddiad) fod yn berthnasol.

³ G Robinson, "Alkaline Hydrolysis in the United Kingdom" yn R McManus (gol) *The Sustainable Dead* (2023) t 89. Gweler hefyd Resomation, *Successful Study of Water Cremation completed for Yorkshire Water* (24 Mawrth 2020) <https://resomation.com/news/successful-study-of-water-cremation-completed-for-yorkshire-water/>.

⁴ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraffau 6.122 i 6.126.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Arloesedd

- 5.18 Roedd rhai ymgynghoreion yn cytuno'n benodol y byddai galluogi darpariaeth ar gyfer treialu dulliau angladdol newydd yn caniatáu ar gyfer arloesi yn y sector.
- 5.19 Nododd y Co-op:
- prin yw'r dystiolaeth wyddonol sy'n ymwneud â dulliau angladdol newydd ar hyn o bryd - mater sydd wedi arafu'r broses o'u rhoi ar waith yn y DU a thramor. Dim ond drwy dreialu dulliau newydd y gall darparwyr sefydlu eu heffaith amgylcheddol, profi a oes modd eu darparu'n ddiogel ac yn ymarferol, a sicrhau eu bod yn cynnal urddas yr ymadawedig.
- 5.20 Awgrymodd un ymgynghorai, ar y llaw arall, y gallai defnyddio treialon lesteirio arloesedd. Credai Fiona Cunningham (academydd) fod "statws cyfreithiol amwys [dulliau angladdol newydd] yn y DU wedi llesteirio ymchwil a fyddai'n werthfawr i lunwyr cyfreithiau, busnesau a'r cyhoedd" a dywedodd na ddylid rheoleiddio treialon mewn ffordd sy'n cyfyngu arloesedd neu'n gohirio materion yn ormodol.

Hyder

- 5.21 Nododd rhai ymgynghoreion y byddai darpariaeth sy'n caniatáu i dreialon gael eu hawdurdodi yn helpu i werthuso dulliau angladdol newydd, neu wella hyder y cyhoedd ynddynt.
- 5.22 Credai Cyngor Blackpool y gallai galluogi treialon "feithrin gwell dealltwriaeth ymysg y cyhoedd a'u cael i dderbyn dulliau newydd, gan feithrin hyder yn eu diogelwch a'u priodoldeb pe baent yn cael eu rheoleiddio". Credai Central Co-op fod treialon wedi'u cymeradwyo yn hanfodol ar gyfer gwerthuso diogelwch, ymateb y cyhoedd, a dichonoldeb gweithredol cyn eu rhoi ar waith ar raddfa lawn".

Trefniadau diogelu ac awdurdodi

- 5.23 Roedd rhai ymgynghoreion yn poeni y dylid cael mesurau diogelu digonol ar gyfer treialon.
- 5.24 Dywedodd Quaker Social Action y dylai treialon wneud y canlynol:
- sicrhau bod dulliau mor ddiogel a pharchus â phosibl cyn cymeradwyo. Ac ystyried natur fregus y treialon hyn a'r effaith bosibl ar iechyd y cyhoedd, yr amgylchedd, urddas yr unigolyn sydd wedi marw a'i deulu a'i ffrindiau, mae hefyd yn bwysig bod rheoliadau ar waith i fynnu mesurau diogelu.
- 5.25 Cytunodd y Gymdeithas Llywodraeth Leol, gan ddweud y dylai'r tair egwyddor a nodwyd gennym yn y Papur Ymgynghori (ac a drafodir ymhellach ym Mhennod 3 yr Adroddiad hwn) fod yn berthnasol i dreialon.
- 5.26 Mynegodd Cyngor Tref Stotfold bryderon ynghylch cywirdeb posibl canlyniadau treialon. Dywedodd ymgynghorai arall y dylid "cyfyngu ar dreialon, fel nad ydynt yn ffordd drwy'r drws cefn o gyflawni dulliau angladdol newydd heb eu rheoleiddio".

5.27 Roedd rhai ymgynghoreion o'r farn y dylid cael system o ganiatáu, neu drwyddedu, ar gyfer treialon.

Cwmpas

5.28 Credai Kindly Earth Limited/Resomation Limited y dylai'r pŵer i ddarparu ar gyfer treialon fod "yn ddigon eang i ganiatáu ar gyfer amrywiaeth o amcanion posibl". Gallai'r rhain gynnwys profi effeithiolrwydd proses, asesu agweddau at ddull angladdol newydd ac asesu effeithiau amgylcheddol.

5.29 Nododd NAFD fod yn "rhaid cael llwybr masnachol clir i ganiatáu ymchwil a datblygu ar gyfer dulliau angladdol newydd yn y dyfodol, cyn treialon cymeradwy".

5.30 Soniodd rhai ymgynghoreion y dylid ystyried cydsyniad.

Gweithdrefn

5.31 Awgrymodd yr Athro Thomas Glyn Watkin CB (academydd) y dylai deddfwriaeth sylfaenol nodi pa reoliadau ar gyfer treialon y byddai'n ofynnol eu cynnwys, ac y dylai'r rheoliadau hyn "fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn y ddau Dŷ".

Trafodaeth ac argymhelliad

5.32 Rydym o'r farn y dylai fod gan y gwahanol Lywodraethau y pŵer i gyflwyno rheoliadau sy'n galluogi defnyddio treialon o ddulliau angladdol newydd sydd heb eu rheoleiddio eto.

Y rhesymau pam y gallai fod angen treialon

5.33 Yn Argymhelliad 11 uchod, rydym yn argymhell y dylid gwahardd defnyddio dulliau angladdol newydd nad ydynt yn cael eu rheoleiddio. Ym Mhennod 6, rydym yn argymhell y dylai torri'r gwaharddiad hwn fod yn drosedd. Os na wneir darpariaeth ar gyfer treialon, bydd dull angladdol newydd naill ai'n cael ei reoleiddio neu ei wahardd (a bydd yn drosedd defnyddio dull gwaharddedig). Er y gellir datblygu a phrofi dulliau i ryw raddau, ni fyddai'n gyfreithlon profi dulliau angladdol newydd nad ydynt yn cael eu rheoleiddio ar gyrrff pobl sydd wedi marw. Gallai hyn olygu bod datblygiad yn cael ei atal neu ei arafu. Fel arall, gallai olygu bod dulliau angladdol newydd yn cael eu rheoleiddio cyn iddynt gael eu deall yn iawn, neu cyn y dangoswyd eu bod yn gweithio.

5.34 Roedd nifer o ymgynghoreion yn cefnogi'r posibilrwydd o dreialon oherwydd y byddai'n galluogi arloesi yn y sector. Roedd ymatebion rhai ymgynghoreion yn awgrymu eu bod yn meddwl y byddai treialon yn orfodol, fel mai dim ond ar ôl treial y gellid rheoleiddio dulliau angladdol newydd. Mater i'r gwahanol Lywodraethau fydd penderfynu a oes angen treialon wrth benderfynu a ddylid rheoleiddio dull angladdol newydd penodol. Gallent benderfynu ei bod yn briodol rheoleiddio dull angladdol newydd penodol heb fod angen treialon, er enghraifft oherwydd bod gan awdurdodaethau eraill ddata a thystiolaeth helaeth. Bwriad galluogi'r gwahanol Lywodraethau i ddarparu ar gyfer treialon yw caniatáu arloesi a fyddai fel arall yn cael ei wahardd, ond mater i bob Llywodraeth fydd penderfynu a oes angen treialon mewn amgylchiadau penodol ai peidio.

- 5.35 Gall proses dreialu hefyd helpu i sicrhau bod rheoliadau ar gyfer dull angladdol newydd unigol yn effeithiol ac yn briodol fanwl, gan ystyried yr wybodaeth o'r treialon.
- 5.36 Ar ben hynny, rydym yn cytuno â'r ymgylgoreion hynny a nododd y gallai treialon hefyd helpu hyder y cyhoedd. Efallai y bydd pobl yn fwy agored i ddefnyddio dull angladdol newydd sydd wedi bod drwy dreial ac sydd wedi dangos bod y dull yn ddiogel ac yn effeithiol.

Natur a chwmpas y pŵer

Proses awdurdodi

- 5.37 Rydym yn argymhell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael y pŵer i bennu proses ar gyfer awdurdodi treialon, naill ai ganddynt hwy neu gan rywun arall.
- 5.38 Awgrymodd rhai ymgylgoreion y dylid rhoi trwyddedau ar gyfer treialon. Ym Mhennod 2, rydym yn nodi anfanteision darparu ar gyfer system drwyddedu i reoleiddio dulliau angladdol newydd yn ehangach ac nid ydym yn argymhell y dylid bwrw ymlaen â system drwyddedu. Un anfantais sylweddol i system drwyddedu fyddai'r anghysondeb o ran rheoleiddio dulliau claddu ac amlosgi. Gan mai dim ond i ddulliau angladdol newydd y byddai treialon yn berthnasol, ac nid claddu nac amlosgi, ni fyddai problem o ran anghysondeb pe gellid cyhoeddi trwyddedau ar gyfer treialu dulliau angladdol newydd.
- 5.39 Ar ben hynny, byddai unrhyw system drwyddedu ar gyfer treialon ar raddfa lai o lawer na system drwyddedu ar gyfer rheoleiddio pob dull angladdol newydd. Ym Mhennod 2, rydym yn nodi y byddai creu corff ar wahân mewn is-ddeddfwriaeth i redeg system drwyddedu yn ddadleuol, ond mae'n llawer llai tebygol y byddai angen corff ar wahân i drwyddedu treialon. Rydym o'r farn ei bod yn briodol i'r broses awdurdodi ar gyfer pob treial fod ar ffurf trwydded, a fydd yn nodi'r dull, y person a fydd yn cynnal y treial a'r cyfnod pan fydd y treial yn cael ei gynnal.
- 5.40 Nid ydym yn credu y dylai deddfwriaeth sylfaenol fod yn rhy ragnodol ynghylch y materion y dylid eu cynnwys yn y rheoliadau, gan y gall gofynion amrywio. Gellir cynnal treialon ar gyfer dulliau angladdol newydd sy'n cael eu defnyddio mewn manau eraill neu sy'n agos iawn at y pwynt rheoleiddio, ond gellir eu cynnal hefyd ar gyfer dulliau angladdol cwbl newydd; gall natur a graddau'r oruchwyliaeth sydd ei hangen yn y ddwy sefyllfa yma fod yn wahanol iawn. Fodd bynnag, credwn ei bod yn briodol i'r ddwy Lywodraeth gael y pŵer i osod terfynau a ddylai fod yn berthnasol i dreialon y gellir eu hawdurdodi mewn rheoliadau. Er enghraifft, efallai y byddant eisiau nodi uchafswm o ran faint o gyrff pobl sydd wedi marw y gellir eu defnyddio mewn unrhyw dreial wedi'i awdurdodi. Gallai'r drwydded ar gyfer treial unigol wedyn nodi nifer o gyrff hyd at yr uchafswm hwnnw.
- 5.41 Dywedodd NAFD y dylid cael llwybr ar gyfer ymchwil a datblygu, cyn treialon cymeradwy. Yn ein trafodaethau â rhanddeiliaid, a thrwy ein hymgyngoriad, nid ydym wedi nodi unrhyw broblemau penodol gydag ymchwil i ddulliau angladdol newydd a fyddai'n digwydd cyn i dreialon gael eu cynnal. Felly, nid ydym yn credu bod angen pŵer i gyflwyno rheoliadau ynghylch treialu dulliau angladdol newydd i ymdrin ag ymchwil neu ddatblygiad cynharach.

Cydsyniad

- 5.42 Dywedodd rhai ymgynghoreion y dylid cael caniatâd i gorff person gael ei ddefnyddio mewn treial o ddull angladdol newydd.
- 5.43 O dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004, mae angen caniatâd i storio neu ddefnyddio corff person ymadawedig at ddibenion a gweithgareddau o dan y Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys archwiliad anatomegol, arddangos yn gyhoeddus, trawsblaniadau, ac ymchwil (yng nghyswllt anhwylderau, neu weithrediad, y corff dynol).⁵ Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau ynghylch cydsyniad priodol. Er enghraifft, mae angen caniatâd ysgrifenedig ar gyfer arddangos corff yn gyhoeddus ar ôl marwolaeth.⁶
- 5.44 Yn yr un modd, byddai treialu dull angladdol newydd yn anarferol. Rydym o'r farn y byddai'n briodol cael cydsyniad cyn defnyddio corff mewn treial o ddull angladdol newydd, cyn marwolaeth, gan y person y mae ei gorff i gael ei ddefnyddio.
- 5.45 Yn ein trydydd is-brosiect, ar Hawliau a Rhwymedigaethau sy'n Ymwneud ag Angladdau, Dulliau Angladdol a Gweddillion, byddwn yn ystyried a ddylai'r penderfyniadau am dulliau angladdol a wnaeth person cyn ei farwolaeth fod yn rhwymol.⁷ Mae hyn ychydig yn wahanol i'r cwestiwn a ddylai fod angen caniatâd i ddefnyddio corff person mewn treial o ddull angladdol newydd. Os yw person yn cydsynio i'w gorff gael ei ddefnyddio mewn treial o ddull angladdol newydd, ni fydd hyn yn rhwymol. Ni fydd y cydsyniad yn golygu bod yn rhaid i'r treial fynd rhagddo. Yn hytrach, ni allai'r treial fynd rhagddo heb ganiatâd.
- 5.46 Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru yn cyflwyno rheoliadau ynghylch treialon o dan y pŵer hwn, rydym yn argymhell bod yn rhaid i'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i gorff person gael ei ddefnyddio mewn treial o ddull angladdol newydd dim ond os yw'r person hwnnw wedi cydsynio i hyn cyn ei farwolaeth. Rhaid i'r rheoliadau nodi dull, ffurf a natur y cydsyniad hwn.

Y broses ymgeisio a monitro cydymffurfiaeth

- 5.47 Rydym yn argymhell y dylai'r pŵer hefyd alluogi'r Llywodraethau perthnasol i ddarparu ar gyfer proses ymgeisio a phroses o fonitro cydymffurfiaeth â thelerau'r awdurdodiad. Bydd angen proses ymgeisio er mwyn i'r Llywodraeth berthnasol allu penderfynu pa dreialon y dylid eu cymeradwyo. Efallai y bydd angen monitro cydymffurfiaeth â thelerau'r awdurdodiad am resymau iechyd a diogelwch, neu er mwyn gallu cadarnhau pa mor effeithiol oedd y treial.

Gorfodi

- 5.48 Ym mharagraffau 4.68 a 4.74 i 4.75 rydym yn trafod pwerau gorfodi y gellir eu cynnwys pan wneir is-ddeddfwriaeth i reoleiddio dulliau angladdol newydd unigol. Caiff rheoliadau ynghylch y weithdrefn ar gyfer treialon gynnwys y pwerau gorfodi hyn hefyd. Efallai y bydd angen y pwerau hyn, er enghraifft i fynnu bod gwybodaeth yn

⁵ Deddf Meinweoedd Dynol 2004, adrannau 1(1), 1(2) ac 1(3)(a) ac Atodlen 1.

⁶ Deddf Meinweoedd Dynol 2004, adrannau 2(4) a 3(3).

⁷ Comisiwn y Gyfraith, Hawliau a Rhwymedigaethau sy'n Ymwneud â Dulliau Angladdol, Angladdau a Gweddillion (2023) <https://lawcom.gov.uk/project/rights-and-obligations-relating-to-funerary-methods-funerals-and-remains/>.

cael ei darparu neu i fynd i mewn i eiddo, er mwyn monitro cydymffurfiaeth â'r awdurdodiad ar gyfer y treial. Rydym felly'n argymhell y gellir cynnwys y pwerau gorfodi mewn rheoliadau a wneir am dreialon.

Cofrestriad

5.49 Ym Mhennod 4, rydym yn argymhell bod yn rhaid i reoliadau a wneir ynghylch dull angladdol newydd ei gwneud yn ofynnol i bob defnydd o'r dull angladdol newydd hwnnw gael ei gofrestru ac i nodi sut a chan bwy y bydd y cofrestriad yn cael ei wneud. Os gwneir rheoliadau sy'n galluogi cynnal treialon o ddulliau angladdol newydd, rhaid i'r rheoliadau hynny ddarparu ar gyfer cofrestru pob defnydd o'r dull angladdol newydd (fel rhan o'r treial). Bydd hyn yn sicrhau na fydd defnyddio treialon yn cael effaith andwyol ar y broses cadw cofnodion.

Claddu gweddillion

5.50 Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, awgrymwyd y dylid darparu ar gyfer caniatáu treialu proses claddu gweddillion gan ddilyn dull angladdol newydd, os yw hynny'n briodol.

5.51 Rydym yn trafod claddu gweddillion ar ôl defnyddio dull angladdol newydd ym Mhennod 4. Yn Argymhelliad 6, rydym yn argymhell y dylai'r Llywodraethau perthnasol gael y pŵer i fynnu bod gweddillion yn cael eu cofrestru ar ôl defnyddio dull angladdol newydd. Mae pŵer, yng nghymal 10(4) ac adran 10(4) o'r Biliau drafft, i wneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol (sy'n ymwneud â chladdu ac amlosgi neu'n cyfeirio at gladdu ac amlosgi). Bydd hyn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol i gynnwys claddu gweddillion yn dilyn defnyddio dull angladdol modern penodol yn ystyr claddu fel y bydd angen cofrestru claddu'r gweddillion hyn.

5.52 Mae'n bosibl y bydd angen i dreialon dulliau angladdol newydd gynnwys treialon o gladdu gweddillion. Mae hefyd yn bosibl y bydd angen claddu gweddillion, hyd yn oed os nad oes angen treialu hynny. Os yw gweddillion yn cael eu claddu ar ôl defnyddio dull angladdol newydd yn ystod treial, mae'n briodol cofrestru'r rhain yn unol â'r gyfraith ar gladdu.

5.53 Felly, byddwn yn sicrhau bod y pŵer i'r Llywodraethau perthnasol gyflwyno rheoliadau am dreialon yn cynnwys pŵer i nodi, pan fydd mathau penodol o weddillion yn cael eu claddu yn dilyn treialu dull angladdol newydd, y bydd y gyfraith ar gladdu gweddillion yn berthnasol. Gall y rheoliadau nodi'r broses ar gyfer pennu gweddillion (fel y bydd y gyfraith ar gladdu gweddillion yn berthnasol i'r gweddillion hynny).

Egwyddorion

5.54 Yn ein Papur Ymgynghori, gofynnwyd a ddylai fod yn ofynnol i'r ddwy Lywodraeth ystyried egwyddorion penodol cyn cyflwyno is-ddeddfwriaeth am ddulliau angladdol newydd unigol.⁸ Awgrymodd rhai ymgynghoreion y dylai'r egwyddorion a nodir yn y Papur Ymgynghori (gwarchod yr amgylchedd, diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch y

⁸ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 6.51.

cyhoedd, a chadw urddas dynol) hefyd fod yn sail i ddarpariaethau yng nghyswllt treialon.

- 5.55 Ym Mhennod 3 o'r Adroddiad hwn, rydym yn argymhell bod yn rhaid i'r ddwy Lywodraeth ystyried pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd, diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd, a thrin gweddillion dynol ag urddas wrth gyflwyno rheoliadau am ddulliau angladdol newydd. Mae'n briodol bod y gofyniad hwn yn berthnasol i unrhyw reoliadau a wneir am dreialon. Os bydd dull yn cael ei dreialu, efallai y bydd yn cael ei reoleiddio yn y dyfodol, a gallai'r treialon helpu i lywio cynnwys rheoleiddio manwl. Felly, mae'n briodol bod y system awdurdodi ar gyfer treialon, a fydd yn cael ei nodi mewn is-ddeddfwriaeth, yn cael ei dylunio gyda'r egwyddorion mewn golwg.

Gweithdrefn ar gyfer rheoliadau

- 5.56 Awgrymodd yr Athro Thomas Glyn Watkin CB (academydd) y dylai deddfwriaeth sylfaenol nodi'r materion y byddai'n ofynnol i reoliadau ar gyfer treialon ymdrin â nhw, a dylai unrhyw reoliadau fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Rydym yn trafod y gweithdrefnau priodol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan bwerau yn ein deddfwriaeth ddrafft ym Mhennod 4. Ym mharagraff 4.105 rydym yn argymhell y dylai rheoliadau ynghylch treialon fod yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo gadarnhaol ddrafft/gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Casgliad

- 5.57 Yn gyffredinol, rydym o'r farn y gallai galluogi gwneud rheoliadau am dreialon dulliau angladdol newydd helpu i benderfynu a yw dull yn barod ac yn briodol i'w ddefnyddio'n ehangach, yn ogystal â chynnwys prosesau rheoleiddio manwl ar y dull. Gall hefyd helpu i annog arloesi yn y sector.
- 5.58 Gallai rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn gyflwyno darpariaeth ar gyfer proses ymgeisio a phroses y gellir ei defnyddio i awdurdodi treialon unigol (boed hynny gan y Llywodraeth berthnasol neu gan berson penodedig arall) a'u monitro. Bydd treial am gyfnod cyfyngedig a gall y rheoliadau bennu cyfyngiadau eraill ar y treialon y gellir eu hawdurdodi, er enghraifft, uchafswm nifer y cyrff y gellir eu defnyddio ym mhob treial.
- 5.59 Rhaid i'r rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i gydsyniad person gael ei roi er mwyn i'w gorff gael ei ddefnyddio mewn treial.

Argymhelliad 12.

- 5.60 Rydym yn argymell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael y pŵer i wneud rheoliadau sy'n galluogi i dreialon dulliau angladdol newydd gael eu hawdurdodi.
- 5.61 Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru yn cyflwyno rheoliadau o dan y pŵer hwn, rydym yn argymell bod yn rhaid i'r rheoliadau:
- (1) ei gwneud yn ofynnol i gorff person gael ei ddefnyddio mewn treial o ddull angladdol newydd dim ond os yw'r person hwnnw wedi cydsynio i hyn cyn ei farwolaeth; a
 - (2) nodi dull a ffurf y cydsyniad hwn.
- 5.62 Caiff yr argymhelliad hwn ei weithredu gan gymal 4 o'r Bil drafft ar gyfer Lloegr ac adran 4 o'r Bil drafft ar gyfer Cymru. Mae cymal 4(1) ac adran 4(1) yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru, gyda'r bwriad i benderfynu a ddylid rheoleiddio dull angladdol modern o dan y Ddeddf, wneud rheoliadau sy'n caniatáu i berson gyflawni'r dull am gyfnod cyfyngedig o amser, yn unol â'r rheoliadau a thelerau trwydded ysgrifenedig. Yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru fydd yn rhoi trwydded ysgrifenedig, er y gallant, o dan gymal 10(2) ac adran 10(2) o'r Biliau drafft, roi swyddogaeth i berson arall a bennir yn y rheoliadau, neu a benodir yn unol â nhw.
- 5.63 Rhaid i reoliadau nodi mai dim ond yn unol â thrwydded ysgrifenedig a hefyd â'r rheoliadau (cymal 4(2) ac adran 4(2)) y caniateir i'r dull gael ei gyflawni. O dan gymal 4(3) ac adran 4(3), rhaid i reoliadau a gyflwynir o dan gymal 4(1) neu adran 4(1) ei gwneud yn ofynnol i drwydded bennu'r dull, y person y caiff ei rhoi iddo a'r cyfnod y caiff ei rhoi ar ei gyfer.
- 5.64 Mae Cymal 4(3)(b) ac adran 4(3)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau nodi mai dim ond pan fydd y person y mae ei gorff i'w ddefnyddio yn y treial wedi rhoi ei gydsyniad y caniateir i dreialon ei ddefnyddio. Mae Cymal 4(3)(c) ac adran 4(3)(c) yn ei gwneud yn ofynnol i ddarpariaeth gael ei chyflwyno ynghylch dull a ffurf y cydsyniad.
- 5.65 Yn yr un modd â dulliau a gaiff eu rheoleiddio'n llawn, mae cymal 4(3)(d) i (f) ac adran 4(3)(d) i (f) yn datgan bod rhaid i reoliadau ei gwneud yn ofynnol cofrestru pob defnydd o ddull angladdol modern yn ystod unrhyw dreial a darparu ar gyfer sut a chan bwy y mae'n rhaid cyflawni'r cofrestriad a chadw'r gofrestr.
- 5.66 Mae cymal 4(4) ac adran 4(4) yn nodi y caiff unrhyw reoliadau a wneir ynghylch treialon o dan gymal 4(1) neu adran 4(1) gyflwyno (neu awdurdodi trwydded i gyflwyno) unrhyw ddarpariaeth y caniateir ei chyflwyno o dan gymalau neu adrannau 2 neu 3. Fodd bynnag, o dan gymal 4(5) ac adran 4(5), ni chaniateir awdurdodi trwydded i greu troseddau na gosod cosbau ariannol penodedig. Bydd hyn yn sicrhau y bydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru y pŵer i gyflwyno darpariaeth ar gyfer yr holl faterion perthnasol. Gall hyn gynnwys monitro

cydymffurfiaeth â thelerau trwydded a gorfodi. Gallant hefyd gyflwyno darpariaeth ynghylch yr hyn y dylid ei wneud gyda gweddillion neu ddeunydd arall sy'n weddill, a gofynion cofrestru ar gyfer y rhain. Mae hyn yn golygu y gall rheoliadau ddarparu, os yw gweddillion a bennir, er enghraifft, yn y drwydded ar gyfer y treial, yn cael eu claddu, yna rhaid cofrestru'r achos o gladdu hwn.

- 5.67 Mae cymal 1 ac adran 1 o'r Biliau drafft yn nodi bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru roi sylw i bwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd, diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd, a thrin gweddillion dynol ag urddas wrth arfer swyddogaethau o dan y Biliau drafft. Felly, rhaid ystyried yr egwyddorion hyn wrth lunio rheoliadau ynghylch treialon.

Pennod 6: Troseddau

CYFLWYNIAD

6.1 Yn y bennod hon, rydym yn ystyried creu troseddau newydd, neu bwerau i greu troseddau, i sicrhau y bydd modd gorfodi'r system o reoleiddio dulliau angladdol newydd.

Elfennau trosedd

6.2 “Elfennau allanol” trosedd yw'r elfennau ar wahân i'r rheini sy'n ymwneud â chyflwr meddwl diffynnydd. Gellir rhannu'r rhain yn:

- (1) “elfennau ymddygiad”: yr hyn y mae'n rhaid ei brofi bod y diffynnydd wedi'i wneud neu wedi methu ei wneud;
- (2) “elfennau canlyniad”: canlyniad ymddygiad y diffynnydd; ac
- (3) “elfennau sefyllfa”: ffactorau neu faterion eraill y mae'n rhaid dangos eu bod yn bodoli (er enghraifft, ffugio datganiad).¹

6.3 “Elfen sy'n ymwneud â bai” (neu “elfen feddyliol”) trosedd yw'r cyflwr meddyliol y mae'n rhaid i'r diffynnydd fod wedi'i wynebu ar yr adeg berthnasol i fod ar ddigon o fai. Lle nad oes gan o leiaf un o'r elfennau allanol elfen gyfatebol sy'n ymwneud â bai, gelwir hyn yn atebolrwydd caeth. Pan gaiff y diffynnydd ei gyhuddo o drosedd atebolrwydd caeth, nid oes rhaid i'r erlyniad brofi bwriad, byrbwylltra na hyd yn oed esgeulustod o ran yr elfennau atebolrwydd caeth.

Cefndir: troseddau perthnasol

6.4 Mae rhai troseddau sy'n ymwneud â chladdu ac amlosgi yn berthnasol i'n trafodaeth yn y bennod hon.

6.5 O dan adran 25 o Ddeddf Claddu 1857, mae'n drosedd symud gweddillion dynol (sy'n cynnwys gweddillion wedi'u hamlosgi) o unrhyw fan claddu oni bai y cydymffurfir ag un o'r tri amod isod:

- (1) bod y gweddillion yn cael eu dileu yn unol â chynneddf (o'r llys consistori);²
- (2) eu bod yn cael eu symud yn unol â chynnig o dan Fesur Gofal Eglwysi Cadeiriol 2011 (Rhif 1); neu

¹ Nodir y dull hwn yn Diwygio Deddf Troseddau Corfforol yn erbyn y Person (2015), Comisiwn y Gyfraith Rhif 361 paragraff 2.3.

² Math o ganiatâd cyfreithiol yw cynneddf, yn y cyd-destun hwn. Nid cynneddf sy'n llywodraethu gweddillion sydd wedi'u claddu mewn eglwysi cadeiriol, a gellir eu symud yn unol ag awdurdod Comisiwn Defnyddiau Cadeirlannau Lloegr neu bwyllgor cyngori ar adeiladwaith o dan Ddeddf Claddu 1857, adran 25(2)(b).

- (3) os nad yw'r gweddillion wedi eu claddu mewn tir cysegredig, cânt eu symud ymaith yn unol â thrwydded gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac yn unol ag unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded honno.
- 6.6 Mae'r troseddau canlynol yn Neddf Amlosgi 1902 yn ymwneud yn benodol ag amlosgi.
- (1) Mae'n drosedd mynd yn groes i reoliadau a wnaethpwyd o dan y Ddeddf honno (Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 ar hyn o bryd) neu wneud, caffael neu gymryd rhan mewn amlosgiad gan wybod hynny, ac eithrio yn unol â darpariaethau Deddf Amlosgi 1902 a Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008.³ Ar ôl cael euogfarn ddiannod, mae person sy'n cyflawni'r drosedd hon yn agored i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol (£1,000 ar hyn o bryd).⁴
- (2) Mae'n drosedd gwneud sylwadau anwir yn fwriadol er mwyn llosgi unrhyw weddillion dynol. Mae unrhyw un sy'n gwneud hyn yn agored i gyfnod yn y carchar nad yw'n hwy na dwy flynedd, yn ogystal ag unrhyw gosb sifil a geir fel arall.⁵
- 6.7 Mae troseddau statudol eraill sy'n berthnasol i'r ffordd y mae cyrff pobl sydd wedi marw yn cael eu trin. Er enghraifft, o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004, mae person sy'n symud, storio neu'n defnyddio corff person ymadawedig heb ganiatâd i'w ddefnyddio at yr hyn a elwir yn "bwrpas wedi'i drefnu" yn agored i ddirwy neu garchar am hyd at dair blynedd, neu'r ddau.⁶ Rhestrir y dibenion yn Atodlen 1 ac maent yn cynnwys arddangos yn gyhoeddus, ymchwil a thrawsblannu.⁷

Dulliau angladdol newydd wedi'u rheoleiddio

- 6.8 Yn y Papur Ymgynghori, fe wnaethom gynnig dros dro i ffurfio dwy drosedd newydd er mwyn adlewyrchu'r gyfraith amlosgi. Y cyntaf oedd trosedd o wneud sylwadau ffug yn anonest i gaffael defnyddio dull angladdol newydd. Yn y bennod hon, rydym yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn argymhell y dylid creu'r drosedd hon, gyda'r gosb uchaf (fel y cynigir dros dro) o ddirwy ddiderfyn a/neu gyfnod o hyd at ddwy flynedd yn y carchar.⁸
- 6.9 Yr ail drosedd a gynigiwyd gennym dros dro oedd caffael neu geisio caffael defnyddio dull angladdol newydd gyda'r bwriad o guddio trosedd neu rwystro erlyniad. Bwriad hyn oedd adlewyrchu'r drosedd o gaffael neu geisio caffael amlosgi gyda'r bwriad o guddio trosedd neu rwystro erlyniad. Nodwn fod y drosedd sy'n gysylltiedig ag amlosgi

³ OS 2008 Rhif 2841.

⁴ Deddf Amlosgi 1902, adran 8(1).

⁵ Deddf Amlosgi 1902, adran 8(2).

⁶ Deddf Meinweoedd Dynol 2004, adrannau 25(1) a (2).

⁷ Deddf Meinweoedd Dynol 2004, adran 16(2) ac Atodlen 1.

⁸ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 6.72.

wedi cael ei diddymu.⁹ Felly, nid ydym yn bwrw ymlaen ag argymhelliad yng nghyswllt y drosedd hon.

- 6.10 Roeddem hefyd wedi gofyn am farn ymgynghoreion ynghylch a ddylai trydedd trosedd o dorri rheoliadau am dulliau angladdol newydd unigol gael ei nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol neu, fel arall, y dylai'r Llywodraethau perthnasol gael y pŵer i greu troseddau mewn rheoliadau.¹⁰ Yn y bennod hon, rydym yn dod i'r casgliad, er y gall pwerau o'r fath fod yn ddadleuol, ei bod yn briodol rhoi pŵer yn yr achos hwn.

Dulliau angladdol newydd sydd heb eu rheoleiddio

- 6.11 Ym Mhennod 5 o'r Adroddiad hwn, rydym yn argymhell y dylid gwahardd defnyddio dulliau angladdol newydd sydd heb eu rheoleiddio o dan y fframwaith newydd. Yn y Papur Ymgynghori, gwnaethom gynnig dros dro y dylai fod yn drosedd torri gwaharddiad o'r fath.¹¹ Yn y bennod hon, rydym yn trafod y drosedd bosibl o ddefnyddio dull angladdol newydd nad yw'n cael ei reoleiddio ac elfen sy'n ymwneud â bai briodol y drosedd. Roeddem wedi cynnig dros dro, er mwyn bod yn euog o'r drosedd hon, bod yn rhaid i'r diffynnydd wybod ei fod yn defnyddio dull angladdol newydd a bod yn rhaid iddo wybod, neu fod yn ddi-hid, ynghylch a yw'r dull yn cael ei reoleiddio ai peidio.
- 6.12 Gwnaethom gynnig dros dro y dylai'r gosb uchaf am y drosedd hon fod yn fwy llym nag ar gyfer y drosedd bresennol o gyflawni, caffael neu gymryd rhan mewn proses amlosgi ac eithrio yn unol â deddfwriaeth amlosgi (dirwy ar lefel 3 ar y raddfa safonol, sy'n £1,000 ar hyn o bryd). Roeddem hefyd wedi gofyn am farn ymgynghoreion ynghylch a ddylai'r gosb uchaf ar gyfer y drosedd newydd fod yn gyfnod o garchar.¹²
- 6.13 Yn y bennod hon, am y rhesymau a nodir gennym isod, rydym yn argymhell y dylai fod yn drosedd i ddefnyddio dull angladdol newydd nad yw'n cael ei reoleiddio, lle mae'r diffynnydd yn gwybod nad yw'r dull yn cael ei reoleiddio ac yn gwybod, neu'n ddi-hid, p'un ai a yw'r dull yn cael ei reoleiddio ai peidio. Rydym yn argymhell y dylai'r gosb uchaf fod: o ran euogfarn ddiannod, dirwy ddiderfyn neu garchar am gyfnod nad yw'n fwy na'r terfyn cyffredinol mewn llys ynadon (neu'r ddau); a, drwy ddiad, dirwy neu dair blynedd o garchar (neu'r ddau).

TROSEDD YN SGIL GWNEUD SYLWADAU ANWIR ER MWYN CAEL DEFNYDDIO DULL ANGLADDOL NEWYDD SY'N CAEL EI REOLEIDDIO

Cynnig dros dro yn y Papur Ymgynghori

- 6.14 Mae Adran 8(2) o Ddeddf Amlosgi 1902 yn nodi ei bod yn drosedd gwneud unrhyw sylwadau anwir yn fwriadol, neu lofnodi neu ddatgan unrhyw dystysgrif ffug, gyda'r

⁹ Roedd y drosedd wedi'i nodi'n flaenorol yn Neddf Amlosgi 1902, adran 8(3) ac fe'i diddymwyd gan Ddeddf Cyfraith Trosedd 1967, Atodlen 3, rhan III. Mae'r drosedd wedi'i nodi, mewn camgymeriad, ym mharagraffau 6.55 a 7.19 y Papur Ymgynghori (Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272).

¹⁰ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 6.73.

¹¹ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 7.14.

¹² Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraffau 7.48 i 7.49.

bwriad o gaffael llosgi gweddillion dynol. Y gosb uchaf am y drosedd hon yw cyfnod o garchar heb fod yn fwy na dwy flynedd.

- 6.15 Yn ein Papur Ymgynghori, roeddem yn cynnig dros dro y dylid cael trosedd debyg sy'n ymwneud â defnyddio dulliau angladdol newydd: sef gwneud sylwadau ffug i gaffael defnyddio dull angladdol newydd. Roeddem yn cynnig dros dro y dylai anonestrwydd, yn hytrach na gweithred fwriadol, fod yn rhan o'r drosedd i adlewyrchu'r ddealltwriaeth fodern o sylwadau anwir, fel y dangosir yn Neddf Twyll 2006.¹³
- 6.16 Roeddem wedi cynnig dros dro uchafswm cosb o ddirwy ddiderfyn neu ddwy flynedd o garchar (gyda therfynau amrywiol o fewn hyn, yn dibynnu a yw'r euogfarn yn un diannod neu ar ddiad).

Ymatebion i'r ymgynghoriad

- 6.17 Roedd mwyafrif helaeth yr ymgynghoreion yn cytuno â'n cynnig dros dro.

Cysondeb a sicrwydd

- 6.18 Nododd rhai ymgynghoreion eu bod yn cytuno y byddai'n briodol adlewyrchu'r troseddau yn Neddf Amlosgi 1902 er cysondeb. Dywedodd Cyngor Blackpool y byddai hyn yn atal "dryswch a gorgymlethodau". Dywedodd Wealden Crematorium (sy'n eiddo i Gyngor Dosbarth Wealden) "nad oes rheswm da i'r ddeddfwriaeth sylfaenol fod yn wahanol i'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn Neddf Amlosgi 1902".
- 6.19 Credai un ymgynghorai y byddai'r cynnig dros dro yn "rhoi sicrwydd i gwsmeriaid posibl a pherthnasau pobl sydd wedi marw bod popeth yn gyfreithlon ac yn agored".

Y gosb uchaf

- 6.20 Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymgynghoreion a oedd yn cytuno â'r cynnig dros dro felly'n cytuno â'r gosb uchaf arfaethedig.
- 6.21 Dywedodd Fiona Cunningham (academydd): "mae hefyd yn briodol bod y drosedd yn arwain at gosb gyfatebol i amlosgiad - ni welaf unrhyw reswm pam y dylai'r gosb yn yr achos hwn fod yn fwy neu'n llai difrifol."
- 6.22 Roedd rhai ymgynghoreion yn anghytuno. Dywedodd Dr Imogen Jones (academydd):
- Credaf mai dim ond pan fydd popeth arall wedi methu y dylid defnyddio cyfraith trosedd pan fydd niwed amlwg. Mae'r rhain yn gosbau difrifol, ac ni chredaf fod carcharu'n fuddiol nac yn briodol. Byddai'n well canolbwyntio ar gosbau ariannol, diddymu trwyddedau, ac ati. Byddai fframwaith rheoleiddio wedi'i lunio'n briodol yn hwyluso hyn.
- 6.23 I'r gwrthwyneb, dywedodd Cyngor Dosbarth De Kesteven: "nid ydym yn credu bod maint y dirwyon na'r dedfrydau cyfyngedig o garchar yn ddigon i atal troseddwy'r". Awgrymodd un ymgynghorai y dylid cynyddu'r ddirwy a'r cyfnod yn y carchar.

¹³ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 7.47.

- 6.24 Dywedodd y Fforwm Gwelliant Parhaus ar gyfer Gwasanaethau Profedigaeth yn Neddwyrain Cymru, os ceir person yn euog o un o'r troseddau hyn, y dylid eu "gwahardd rhag defnyddio'r dull hwnnw eto". Roedd un ymgynghorai o'r farn y byddai gwahardd "unrhyw swydd yn y [diwydiant] marwolaeth/angladdau" yn briodol.

Trafodaeth ac argymhelliad

Trosedd sylwadau anwir

- 6.25 Roedd mwyafrif helaeth yr ymgynghoreion yn cytuno â'n cynnig dros dro ar gyfer trosedd newydd o wneud sylwadau anwir i gaffael defnyddio dull angladdol newydd. Roedd yr ymgynghoreion yn cytuno'n fras â'r rhesymeg a roddwyd gennym yn y Papur Ymgynghori dros greu'r drosedd. Lle'r oedd ymgynghoreion wedi darparu sylwadau, y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros gytuno â'r cynnig dros dro oedd cysondeb â'r gyfraith amlogsi bresennol.
- 6.26 Rydym wedi ystyried yr egwyddor o leihau troseddoli: y dylai troseddoli fod yn ddewis olaf (fel y soniodd un ymgynghorai hefyd), a dim ond pan nad yw dewisiadau eraill yn ddigonol i ymateb i niwed a chamweddau'r ymddygiad dan sylw y dylid eu defnyddio.¹⁴ Yn yr achos hwn, rydym o'r farn (yn yr un modd â'r drosedd sy'n gysylltiedig ag amlogsi) y byddai mathau eraill o orfodi yn annigonol a bod trosedd yn angenrheidiol.
- 6.27 Rydym o'r farn y dylid creu'r drosedd arfaethedig dros dro. Felly, rydym yn argymhell y dylai fod yn drosedd mynd ati'n anonest i wneud sylwadau anwir er mwyn sicrhau bod dull angladdol newydd yn cael ei ddefnyddio.

Y gosb uchaf

- 6.28 Rydym o'r farn bod cydraddoldeb â'r gosb uchaf ar gyfer y drosedd sy'n gysylltiedig ag amlogsi yn briodol. Rydym yn argymhell mai'r gosb uchaf ar gyfer y drosedd newydd yw dirwy ddiderfyn a/neu gyfnod o hyd at ddwy flynedd yn y carchar. Nid ydym o'r farn bod unrhyw sail resymegol dros beidio â chynnwys y posibilrwydd o gyfnod yn y carchar, pan ellir carcharu am hyd at ddwy flynedd am y drosedd debyg sy'n gysylltiedig ag amlogsi.
- 6.29 Awgrymodd rhai ymgynghoreion y dylid gwahardd unrhyw un a gafwyd yn euog o'r drosedd rhag defnyddio dulliau angladdol newydd, neu rhag gweithio yn y sector angladdau. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae rhywun sy'n gwneud sylwadau anwir i gaffael defnyddio dull angladdol newydd yn debygol o fod yn rhywun sy'n trefnu defnyddio dull angladdol newydd (er enghraifft, aelod o'r teulu sy'n dweud celwyddau'n fwriadol ar ffurflen gais) ac nid gweithredwr. Ond mae'r pwynt sylfaenol - y gall cyflawni'r math hwn o drosedd fod yn berthnasol i'r cwestiwn a ddylid awdurdodi rhywun i fod yn weithredwr, neu a ddylid parhau i awdurdodi rhywun i fod yn weithredwr - yn bwynt pwysig, ac rydym yn trafod hyn ym Mhenodau 2 a 4.

¹⁴ D Husak, *Overcriminalization: The Limits of the Criminal Law* (2008).

Argymhelliad 13.

- 6.30 Rydym yn argymhell y dylai fod yn drosedd i wneud sylwadau anwir yn anonest er mwyn caffael defnyddio dull angladdol newydd, gyda'r gosb uchaf yn cynnwys:
- (1) gydag euogfarn ddiannod, dirwy ddiderfyn neu garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na'r terfyn cyffredinol mewn llys ynadon (neu'r ddau); a
 - (2) gyda ditiad, dirwy neu ddwy flynedd o garchar (neu'r ddau).

- 6.31 Mae'r drosedd newydd o wneud sylwadau anwir yn anonest i gaffael defnyddio dull angladdol modern wedi'i nodi yng nghymal 7 o'r Bil drafft ar gyfer Lloegr ac yn adran 7 o'r Bil drafft ar gyfer Cymru. Mae'r gosb uchaf am y drosedd wedi'i nodi yng nghymal 7(3) ac adran 7(3).

TROSEDD YN SGIL TORRI RHEOLIADAU AM DDULLIAU ANGLADDOL NEWYDD UNIGOL

Ymgynghoriad

- 6.32 O dan Ddeddf Amlosgi 1902, mae'n drosedd torri rheoliadau a wnaethpwyd o dan y Ddeddf honno (Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008 ar hyn o bryd) neu wneud, caffael neu gymryd rhan mewn amlosgiad yn fwriadol ac eithrio yn unol â darpariaethau Deddf Amlosgi 1902 a Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008.¹⁵ Ar ôl cael euogfarn ddiannod (mewn llys ynadon), mae person sy'n cyflawni'r drosedd hon yn agored i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol (£1,000 ar hyn o bryd).¹⁶
- 6.33 Yn y Papur Ymgynghori, nodwyd y byddai modd cynnwys trosedd debyg yn y ddeddfwriaeth ddrafft ar gyfer dulliau angladdol newydd: cynnal, caffael neu gymryd rhan yn y broses o ddefnyddio dull angladdol newydd ac eithrio yn unol â rheoliadau a wnaethpwyd am y dull angladdol newydd hwnnw.¹⁷
- 6.34 Fodd bynnag, fe wnaethom ddweud hefyd y byddai gwneud hynny'n golygu y byddai'r drosedd hon yn cael ei chreu cyn gwybod pa ddulliau angladdol newydd yr oedd y drosedd yn ymwneud â nhw neu gynnwys y rheoliadau sy'n llywodraethu'r broses o ddefnyddio'r dulliau hynny. Gall rheoliadau yn y dyfodol am ddulliau angladdol newydd fod yn fwy manwl na'r rheoliad sy'n rheoli amlosgi. Efallai na fydd unrhyw ffordd o wahaniaethu ymlaen llaw rhwng achosion o dorri amodau y byddai cosb droseddol yn briodol ar eu cyfer, a'r rhai na fyddai'n briodol ar eu cyfer. Fodd bynnag, byddai rhywfaint o hyblygrwydd o ran y gosb a roddir ar gyfer achosion unigol, cyn belled â'i bod yn unol â'r gosb uchaf ar gyfer y drosedd.

¹⁵ OS 2008 Rhif 2841.

¹⁶ Deddf Llwgwrwbrwyo 1902, adran 8(1).

¹⁷ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 6.55.

- 6.35 Un ffordd o liniaru'r pryderon hyn, yn hytrach na nodi'r drosedd mewn deddfwriaeth sylfaenol, fyddai i'r ddeddfwriaeth gynnwys pŵer i'r gwahanol Lywodraethau greu troseddau mewn is-ddeddfwriaeth am dorri rheoliadau am ddulliau angladdol newydd. Gyda phŵer i greu troseddau, byddai'r Llywodraeth berthnasol yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am gwmpas priodol pob trosedd a'r gosb uchaf gysylltiedig ym mhob achos, yn dibynnu ar ddull a natur y troseddau newydd. Byddai hyn yn caniatáu i'r Llywodraeth berthnasol wahaniaethu rhwng achosion dibwys a phwysig o dorri'r rheoliadau a dim ond troseddoli'r achosion hynny o dorri amodau a oedd yn ddigon difrifol i gyfiawnhau cosb droseddol. Fe wnaethom ddweud y dylai'r weithdrefn gadarnhaol fod yn berthnasol i reoliadau a wneir o dan y pŵer hwn.¹⁸
- 6.36 Fodd bynnag, yn y Papur Ymgynghori, nodwyd bod y defnydd o bwerau i greu troseddau mewn is-ddeddfwriaeth wedi cael ei feirniadu gan Bwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi¹⁹ a'r Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio (DPRRC). Nid yw troseddau sy'n cael eu creu gan is-ddeddfwriaeth yn destun yr un prosesau craffu â'r rhai a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol. Mae'r DPRRC wedi datgan ei fod yn disgwyl i "gyfiawnhad cymhellol" ar gyfer elfennau trosedd gael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth.²⁰
- 6.37 Fe wnaethom ddweud ein bod yn credu y gallai fod cyfiawnhad dros yr achos hwn. Mae'n hanfodol sicrhau bod sancsiynau ar gael i weithredwyr ac eraill sy'n methu glynu wrth ddeddfwriaeth am ddulliau angladdol newydd, a allai arwain at ganlyniadau difrifol. Fodd bynnag, ni allwn wybod yn union beth allai cynnwys rheoliadau yn y dyfodol sy'n ymwneud â dulliau angladdol newydd fod, yn enwedig ar gyfer dulliau nad ydynt ar gael mewn manau eraill ar hyn o bryd. Roeddem o'r farn felly y gallai fod yn briodol rhoi'r pŵer i'r gwahanol Lywodraethau greu troseddau yn yr achos hwn.
- 6.38 Roeddem wedi gofyn am farn ymgynghoreion ynghylch a ddylai'r drosedd o dorri rheoliadau am ddulliau angladdol newydd unigol gael ei nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol neu, fel arall, y dylai'r Llywodraethau perthnasol gael y pŵer i greu troseddau mewn rheoliadau.²¹

Ymatebion i'r ymgynghoriad

- 6.39 Mynegodd rhai ymgynghoreion gefnogaeth i gynnwys y drosedd mewn deddfwriaeth sylfaenol, tra bod eraill o blaid pŵer i greu troseddau.

¹⁸ Rydym yn disgrifio gweithdrefnau amrywiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth ym mharagraffau 4.83 i 4.90 yr Adroddiad hwn.

¹⁹ Gweler Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar y Cyfansoddiad, *The Legislative Process: The Delegation of Powers* (12^{fed} Adroddiad Sesiwn 2017-19, 20 Tachwedd 2018) HL 225 paragraffau 8 a 46 <https://publications.parliament.uk/pa/ld201719/ldselect/ldconst/225/225.pdf>.

²⁰ Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi, *Guidance for Departments* (Rhagfyr 2023) paragraff 12 <https://committees.parliament.uk/publications/42694/documents/263159/default/>.

²¹ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 6.73.

Nodi trosedd (yn sgil torri unrhyw reoliadau yn y dyfodol) mewn deddfwriaeth sylfaenol

- 6.40 Dywedodd rhai ymgynghoreion y byddai'n briodol nodi trosedd mewn deddfwriaeth sylfaenol, oherwydd byddai'n adlewyrchu'r dull a ddefnyddir ar gyfer amlosgi, ac yn rhoi eglurder.
- 6.41 Fodd bynnag, roedd ymgynghoreion hefyd yn cydnabod yr anawsterau, a nodwyd yn ein Papur Ymgynghori, o ran nodi trosedd o dorri rheoliadau mewn deddfwriaeth sylfaenol cyn bod cynnwys rheoliadau yn y dyfodol yn hysbys.
- 6.42 Roedd rhai ymgynghoreion o blaid yr opsiwn hwn oherwydd eu bod yn meddwl y byddai'n cymryd llai o amser. Dywedodd un ymgynghorai: "ar sail y gorffennol, teimlaf y byddai'r Llywodraeth ar ei hôl hi o ran is-ddeddfwriaeth". Credai'r Good Funeral Guide CIC "ac ystyried y pwysau sylweddol ar amser y Llywodraeth o nifer o feysydd eraill, mae'n ymddangos yn bosibl mai opsiwn (1) fyddai'r gorau". Soniodd y Central Co-op am "orfodi ar unwaith".
- 6.43 Dywedodd rhai ymgynghoreion nad yw'r gosb uchaf a awgrymir, sef dirwy o £1,000, yn ymddangos yn ddigon uchel ar gyfer y drosedd. Teimlai Cyngor Bwrdeistref Eastbourne y "dylai euogfarn gynnwys dedfryd o garchar".

Pŵer i greu troseddau mewn is-ddeddfwriaeth

- 6.44 Roedd rhai ymgynghoreion o blaid yr opsiwn o bŵer i greu troseddau oherwydd y byddai'n rhoi hyblygrwydd i'r ddwy Lywodraeth ac yn helpu i ddiogelu'r system reoleiddio at y dyfodol. Byddai hefyd yn galluogi greu is-ddeddfwriaeth ar gyfer troseddau sy'n berthnasol i bob dull angladdol newydd.
- 6.45 Roedd rhai ymgynghoreion o'r farn y byddai'r opsiwn hwn yn arwain at uchafswm cosb uwch na'r hyn sy'n berthnasol i'r drosedd bresennol sy'n gysylltiedig ag amlosgi ac roeddent yn ei gefnogi ar y sail hon.
- 6.46 Mynegodd Fiona Cunningham (academydd) "amheuan sylweddol" am yr opsiwn hwn, gan ddweud bod natur "ymfflamychol a syfrdanol disgwrs cyhoeddus" ynghylch dulliau angladdol newydd:
- gallai sbarduno cosbau gormodol sy'n annog gweithredwyr angladdau i beidio â'u mabwysiadu ac 'eraill' [dulliau angladdol newydd] fel rhai sinistr neu beryglus unigryw o'u cymharu â chladdu ac amlosgi.
- 6.47 Nododd yr FBCA fod "gadael i'r troseddau gael eu cynnwys yn yr is-ddeddfwriaeth yn ddadleuol" ac nad oedd yn cefnogi'r opsiwn hwn. Fodd bynnag, teimlai Cyngor Tref Stroud y "bydd defnyddio'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn sicrhau craffu priodol".

Trafodaeth ac argymhelliad

Nodi trosedd (yn sgil torri unrhyw reoliadau yn y dyfodol) mewn deddfwriaeth sylfaenol

- 6.48 Y dadleuon cryfaf o blaid nodi'r drosedd mewn deddfwriaeth sylfaenol yw ei bod yn rhoi eglurder ac yn osgoi'r materion sy'n gysylltiedig â defnyddio is-ddeddfwriaeth i greu troseddau. Dyma'r dull a ddefnyddir gydag amlosgi, lle mae'r drosedd o gyflawni, caffael neu gymryd rhan mewn amlosgiad ac eithrio yn unol â darpariaethau Deddf

Amlosgi 1902 a rheoliadau a wneir yn unol â hi wedi'i nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol.²²

- 6.49 Dywedodd rhai ymgynghoreion eu bod yn credu y byddai nodi trosedd mewn deddfwriaeth sylfaenol yn golygu bod y troseddau ar waith yn gynt. Fodd bynnag, nid yw hyn yn debygol o fod yn arwyddocaol, o safbwynt ymarferol. Byddai angen pasio'r ddeddfwriaeth sylfaenol cyn i'r rheoliadau cyntaf ynghylch dull angladdol newydd gael eu rhoi ar waith. Mae'n bosibl y caiff y ddeddfwriaeth sylfaenol ei phasio beth amser cyn y gwneir unrhyw is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, dim ond ar ôl i reoliadau gael eu gwneud a fyddai'n galluogi defnyddio un neu fwy o ddulliau unigol y byddai unrhyw droseddau a fyddai'n cael eu creu mewn deddfwriaeth sylfaenol yn berthnasol. Mae hefyd yn debygol mai dim ond ar ôl i reoliadau gael eu gwneud y byddai'r darpariaethau sy'n creu'r drosedd yn cael eu cychwyn. Pe bai pŵer i greu troseddau mewn is-ddeddfwriaeth, rydym yn rhagweld y byddai'r darpariaethau hyn yn cael eu nodi pan wneir rheoliadau am ddulliau unigol. Felly, nid ydym yn credu bod amseru yn rheswm cryf dros fwrw ymlaen â'r opsiwn cyntaf.
- 6.50 Y brif ddadl yn erbyn deddfwriaeth sylfaenol sy'n nodi y byddai unrhyw achos o dorri rheoliadau yn y dyfodol a wneir am ddulliau angladdol newydd unigol yn drosedd yn troseddoli'r broses o dorri rheoliadau bach neu dechnegol. Mae Erlynwyr y Goron yn defnyddio prawf "budd y cyhoedd", lle maent yn ystyried a oes angen erlyn er budd y cyhoedd. Wrth wneud hynny, maent yn cydbwyso ffactorau o blaid ac yn erbyn erlyn fel beusrwydd yr unigolyn a amheuir a'r niwed a achoswyd i'r broses o ffurfio asesiad cyffredinol.²³ Gallai hyn ddiogelu rhag erlyniad am dorri rheoliadau bach neu dechnegol. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon dibynnu ar ddisgresiwn i atal gor-droseddoli. Er bod disgresiwn a'r prawf budd y cyhoedd yn gallu lliniaru gor-droseddoli achlysurol, mae dibynnu'n drwm ar y mesurau diogelu hyn yn golygu nad yw'r drosedd wedi'i chynllunio'n dda. Byddai'n gadael y system yn ddibynnol ar y gobaith na fydd y rhai nad ydynt yn cydymffurfio â mân ofynion rheoliadol yn cael eu hadrodd na'u herlyn, yn hytrach na sicrhau o'r cychwyn cyntaf bod cwmpas y drosedd yn cael ei gyfyngu'n briodol.²⁴ Os yw'r drosedd i'w nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol, rhaid derbyn ei bod yn bosibl y gellid erlyn pob achos o dorri rheoliadau.
- 6.51 Gellid defnyddio canllawiau i ddarparu mesur diogelu pellach. Gellid nodi mân ofynion a gofynion technegol sy'n ymwneud â gweithredu dulliau angladdol newydd mewn canllawiau yn hytrach nag is-ddeddfwriaeth. Drwy wneud hynny, ni fyddai torri gofynion o'r fath yn gallu arwain at atebolrwydd troseddol. Fodd bynnag, byddai hyn yn anfoddfaol gan na fyddai'r rheoliadau rydym yn eu hargymell yn yr Adroddiad hwn yn nodi system gynhwysfawr o reolau ar gyfer gweithredu dulliau angladdol newydd, gan arwain at ddarnio'r gyfraith a lleihau eglurder y fframwaith cyfreithiol. Hefyd, ni fyddai unrhyw ddulliau gorfodi clir ar gyfer torri canllawiau.

²² Deddf Amlosgi 1902, adran 8.

²³ Gwasanaeth Erlyn y Goron, *The Code for Crown Prosecutors* (26 Hydref 2018) paragraffau 4.11 a 4.14 <https://www.cps.gov.uk/publication/code-crown-prosecutors>.

²⁴ Gweler *Moderneiddio Troseddau Cyfathrebu* (2021) Comisiwn y Gyfraith Rhif 399 paragraffau 6.36 a 6.113.

Pŵer i greu troseddau mewn is-ddeddfwriaeth

- 6.52 Fel arall, pe bai gan y Llywodraethau perthnasol y pŵer i greu troseddau mewn is-ddeddfwriaeth, gallent benderfynu pa achosion o dorri rheoliadau ddylai fod yn droseddau ar ôl iddynt wybod pa dulliau angladdol newydd fydd yn cael eu rheoleiddio, a chynnwys y rheoliadau hynny. Byddai hyn yn fuddiol oherwydd byddai'n osgoi'r sefyllfa a ddisgrifir uchod, lle byddai pob achos o dorri rheoliadau yn y dyfodol, na fyddai eu cynnwys yn hysbys ar adeg pasio'r ddeddfwriaeth sylfaenol, yn cael eu troseddoli. Byddai'n caniatáu gwahaniaethu rhwng achosion bach a thechnegol o dorri'r rheoliadau, nad yw eu torri'n ddigon difrifol i gyfiawnhau cosb droseddol, a thoromodau mwy difrifol eraill, lle gellir cyfiawnhau cosb droseddol.
- 6.53 Fel rydym wedi nodi, gall pwerau o'r fath fod yn ddadleuol, oherwydd y lefel is o graffu seneddol ar droseddau sy'n cael eu greu mewn is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae'r DPRRC wedi cydnabod y gellir eu cyfiawnhau mewn rhai achosion.
- 6.54 Yn benodol, mae'r DPRRC wedi derbyn cyn hyn bod amgylchiadau eithriadol ar gyfer greu troseddau mewn deddfwriaeth ddirprwyedig lle mae risg y byddai nodi troseddau mewn deddfwriaeth sylfaenol, sy'n ymwneud â thorri darpariaethau a nodir mewn rheoliadau yn y dyfodol, yn arwain at y canlyniadau anghywir. Gall hyn godi pan nad yw'n bosibl gwybod pwy allai gyflawni trosedd drwy dorri'r rheoliadau hyn neu pan fyddai'n anodd gwybod pa mor ddifrifol yw'r drosedd hon. O ganlyniad, mae risg y bydd nodi'r darpariaethau mewn deddfwriaeth sylfaenol yn arwain at droseddau sy'n ddiffygiol neu'n anghymesur. Fel arall, mae risg y byddai deddfwriaeth sylfaenol sy'n ceisio amlinellu'r darpariaethau rheoleiddio hynny y byddai eu torri yn arwain at drosedd yn aneglur.²⁵
- 6.55 Mae'r DPRRC hefyd wedi egluro y gellir cyfiawnhau pwerau i greu troseddau os ydynt "wedi'u cyfyngu i ddibenion penodol (er enghraifft, methu cydymffurfio â gofynion a osodir gan y rheoliadau)".²⁶
- 6.56 Mae pŵer i greu troseddau am dorri darpariaethau a nodir mewn rheoliadau yn y dyfodol ar gyfer dulliau angladdol newydd yn gymharol gyfyng. Ar ben hynny, mae materion tebyg yn codi ynghylch y posibilrwydd o gosbau troseddol anghymesur ac amhriodol, neu ddiffyg eglurder pe bai troseddau'n cael eu nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol. Ni fyddai'n bosibl gwybod pa achosion o dorri darpariaethau rheoleiddio yn y dyfodol a ddylai arwain at drosedd. Gall hefyd fod yn anodd nodi pwy allai gyflawni'r troseddau hyn.
- 6.57 Byddai unrhyw ddarpariaeth o ddeddfwriaeth sylfaenol yn aneglur pe bai ond yn gofyn am gosbau troseddol am dorri gofynion digon difrifol rheoliadau yn y dyfodol, neu ganiatáu i reoliadau yn y dyfodol nodi'r darpariaethau hynny na fyddent, pe baent yn cael eu torri, yn arwain at drosedd.

²⁵ Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi, y *Bil Sanccsiynau ac Atal Gwyngalchu Arian* (7fed Adroddiad Sesiwn 2017-2019, 17 Tachwedd 2017) HL 38 paragraffau 28-30 <https://publications.parliament.uk/pa/ld201719/ldselect/lddelreg/38/38003.htm>.

²⁶ Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi, *Mesur Ynni: Rhannau 7 – 13* (11eg Adroddiad Sesiwn 2021-22, 13 Hydref 2022) HL 66 paragraff 19 <https://publications.parliament.uk/pa/ld5803/ldselect/lddelreg/66/6603.htm>.

6.58 Ar ben hynny, mae arfer seneddol sydd wedi'i sefydlu o ganiatáu creu troseddau mewn is-ddeddfwriaeth, i gyd-fynd â phwerau i reoleiddio'r broses o gyflawni gweithgareddau a allai fod yn beryglus, er mwyn hyrwyddo budd y cyhoedd neu ddiogelu'r cyhoedd, a rhoi'r pwerau hynny ar waith. Er enghraifft, rhoddwyd pwerau i greu troseddau mewn is-ddeddfwriaeth er mwyn ategu pwerau i reoleiddio a'u rhoi ar waith:

- (1) diogelwch gwasanaethau trafndiaeth awyr;²⁷
- (2) swyddogaethau a roddir i awdurdodau lleol yng nghyswllt gofalu am blant a lletya plant;²⁸
- (3) safonau ar y rheilffyrdd;²⁹
- (4) pysgodfeydd, gyda'r bwriad o atal clefydau (ymhlith pethau eraill);³⁰
- (5) diogelwch triniaethau cosmetig;³¹
- (6) datgomisiynu gweithfeydd storio carbon;³²
- (7) ymatebion i ddigwyddiadau llygredd olew morol.³³

6.59 Yn achos dulliau angladdol newydd, byddai pŵer wedi'i gyfyngu i greu troseddau yng nghyswllt torri'r rheoliadau yn gyson â'r arfer sydd wedi'i sefydlu hwn. Byddai pŵer o'r fath yn sicrhau y byddai eglurder a sicrwydd cyfreithiol mewn rheoliadau ynghylch y toriadau penodol a allai arwain at gosb droseddol.

6.60 Er mwyn helpu i leddfu pryderon bod y Llywodraethau perthnasol yn cael pŵer dirwysr i greu troseddau newydd, dylai'r gosb uchaf am gyflawni troseddau o'r fath gael ei nodi yn y ddeddfwriaeth sylfaenol.

6.61 Ar ben hynny, rydym o'r farn y byddai'n briodol i'r Llywodraethau perthnasol hefyd gael y pŵer i osod sancsiwn sifil, ar ffurf cosb ariannol benodedig, ar gyfer ymddygiad a allai fod yn drosedd. Bydd hyn hefyd yn sicrhau y gellir defnyddio'r pwerau'n hyblyg fel bod y cosbau'n cael eu gosod yn briodol i'r achosion o dorri'r rheolau. Mae argaeledd dull gorfodi amgen, sy'n achosi llai o stigma, yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd sancsiynau troseddol yn cael eu rhoi'n amhriodol.

6.62 Gan bwysu a mesur y dadleuon sy'n cystadlu â'i gilydd, ein barn ni yw - er nad yw'n ateb perffaith - ei bod yn well cael pŵer i greu troseddau o ran torri'r rheoliadau na nodi trosedd yn y Biliau drafft. Er bod yr opsiwn cyntaf yn golygu llai o graffu seneddol na'r olaf, mae'n gyson â'r dull a ddefnyddir mewn fframweithiau rheoleiddio tebyg

²⁷ Deddf Hedfan Sifil 1982, adran 7(2)(b).

²⁸ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, adran 94B.

²⁹ Deddf Trafnidiaeth 2000, adran 247(6).

³⁰ Deddf Pysgodfeydd 2020, adran 39(2).

³¹ Deddf Iechyd a Gofal 2022, Atodlen 19, paragraff 7(1).

³² Deddf Ynni 2023, adran 93(3).

³³ Deddf Ynni 2023, adran 297(7).

eraill fel y nodir ym mharagraff 6.58 uchod. Fel rydym yn ei drafod ym mharagraffau 6.65 i 6.66 isod, gellir manteisio i'r eithaf ar lefel y craffu seneddol o dan yr opsiwn hwn drwy ddefnyddio gweithdrefn gadarnhaol ddrafft/cymeradwyo'r Senedd.

- 6.63 Yn hollbwysig, mae'r opsiwn hwn yn osgoi troseddoli gweithredoedd neu weithredoedd dibwys a gyflawnir gan bobl nad oeddent yn cael eu hystyried gan Senedd y DU neu Senedd Cymru ar adeg deddfu'r drosedd: sefyllfaoedd sydd, fel y nodwn ym mharagraff 6.54 uchod, wedi cael eu cydnabod yn anghymesur ac yn ddiffygiol gan y Pwyllgor Adolygu a Diwygio Rheoleiddio. Ar ben hynny, bydd yr opsiwn hwn yn arwain at fframwaith cyfreithiol cliriach, sy'n nodi'n benodol pa achosion o dorri amodau sy'n gallu arwain at sancsiynau troseddol a thrwy hynny greu sicrwydd cyfreithiol a hyrwyddo rheolaeth y gyfraith. Am y rhesymau hyn, rydym yn argymhell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael y pŵer i greu troseddau newydd mewn is-ddeddfwriaeth o dorri rheoliadau am ddulliau angladdol newydd unigol, ynghyd â phŵer cyfatebol i gyflwyno rheoliadau sy'n rhoi pŵer i osod cosbau sifil (ariannol).
- 6.64 Mae union eiriad yr argymhelliad ychydig yn wahanol i'r hyn a ddefnyddiwyd yn ein cwestiwn ymgynghori i sicrhau bod yr argymhelliad yn adlewyrchu cwmplas y drosedd bresennol sy'n berthnasol yng nghyd-destun amlosgi yn gywir.

Craffu seneddol

- 6.65 Yn y Papur Ymgynghori, fe wnaethom ddweud y dylai'r weithdrefn gadarnhaol fod yn berthnasol i reoliadau a wneir o dan y pŵer hwn.³⁴ Rydym yn argymhell y dylai gweithdrefn gymeradwyo gadarnhaol ddrafft/gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd fod yn berthnasol. Rhaid i'r rheoliadau gael eu gosod ar ffurf drafft gerbron Senedd y DU neu Senedd Cymru a'u cymeradwyo cyn iddynt gael eu gwneud. Bydd hyn yn sicrhau lefel uwch o graffu seneddol ar gyfer creu troseddau newydd. Mae'r argymhelliad hwn wedi'i nodi ym mharagraff 4.105 uchod, sy'n cynnwys y gweithdrefnau a argymhellir ar gyfer gwahanol fathau o reoliadau a wneir o dan bwerau yn y Biliau drafft.
- 6.66 Y tro cyntaf y gwneir rheoliadau ynghylch dull angladdol newydd unigol, byddant yn destun gweithdrefnau ychwanegol, gyda mwy fyth o graffu seneddol. Byddai hyn yn berthnasol i unrhyw reoliadau a wneir am droseddau sydd wedi'u cynnwys yn y rheoliadau cyntaf ar gyfer dull.

Y gosb uchaf

- 6.67 Fel y nodir uchod, rydym o'r farn y dylai'r gosb uchaf am droseddau y gellir eu creu o dan y pŵer gael ei nodi yn y Biliau drafft.
- 6.68 Teimlai rhai ymgynghoreion y byddai'r gosb uchaf o £1,000 yn rhy isel. Dywedodd rhai ymgynghoreion eu bod yn credu y dylid cael pŵer i greu troseddau oherwydd eu bod yn credu y byddai hyn yn arwain at gosb uchaf uwch na'r hyn sy'n berthnasol i'r drosedd bresennol sy'n gysylltiedig ag amlosgi.
- 6.69 Fodd bynnag, ni chawsom unrhyw sylwadau manwl ynghylch pam y dylai cosb uwch na'r gosb sy'n gysylltiedig â'r drosedd sy'n gysylltiedig ag amlosgi fod yn berthnasol.

³⁴ Rydym yn disgrifio gweithdrefnau amrywiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth ym mharagraffau 4.83 i 4.90 yr Adroddiad hwn.

Rydym yn argymhell y dylai'r gosb uchaf fod yr un fath ag ar gyfer y drosedd sy'n gysylltiedig ag amlosgi. Gallai'r niwed posibl a allai ddeillio o droseddau sy'n cael eu creu gan ddefnyddio'r pŵer hwn fod yn debyg iawn i'r niwed a allai ddeillio o'r drosedd sy'n gysylltiedig ag amlosgi, er enghraifft o ran yr effaith ar ffrindiau neu berthnasau. Mae'n bosibl y gallai'r niwed fod yn uwch, er enghraifft, pe bai effaith niweidiol iawn ar yr amgylchedd pe bai dull penodol yn cael ei gyflawni'n amhriodol. Fodd bynnag, heb wybod pa dulliau a allai gael eu rheoleiddio yn y dyfodol, nid yw'n bosibl dod i'r casgliad y byddai'r niwed yn sicr yn uwch. Er ein bod yn ceisio diogelu'r fframwaith ar gyfer rheoleiddio dulliau angladdol newydd at y dyfodol cyn belled ag y bo modd, nid ydym yn credu ei bod yn briodol cynnwys uchafswm cosb uwch ar hap. Byddai'n agored i'r naill Lywodraeth neu'r llall gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol bellach yn y dyfodol pe bai dull yn dod i'r amlwg a fyddai'n golygu cosb uwch am dorri amodau penodol.

Argymhelliad 14.

6.70 Rydym yn argymhell:

- (1) y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael y pŵer i greu troseddau newydd mewn is-ddeddfwriaeth o dorri rheoliadau ynghylch dulliau angladdol newydd unigol; a
- (2) dylai'r gosb uchaf am y troseddau hyn, ar euogfarn ddiannod (mewn llysoedd ynadon), fod yn ddirwy ar lefel 3 ar y raddfa safonol (£1,000 ar hyn o bryd).

6.71 Rydym yn argymhell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael y pŵer i gyflwyno rheoliadau sy'n rhoi pŵer, pan fo ymddygiad yn gyfystyr â throedd, i osod cosb sifil (ar ffurf cosb ariannol benodedig nad yw'n fwy na'r gosb uchaf am y drosedd).

6.72 Mae'r argymhelliad hwn yn cael ei roi ar waith gan gymalau 3(2)(b) a 3(2)(c), ac adrannau 3(2)(b) a 3(2)(c), o'r Biliau drafft.

6.73 Mae cymal 3(2)(b) ac adran 3(2)(b) yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru greu troseddau newydd mewn is-ddeddfwriaeth at ddibenion gorfodi'r rheoliadau ac yn nodi'r gosb uchaf.

6.74 Byddai'r darpariaethau hyn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru i greu trosedd o ddefnyddio dull angladdol modern yn groes i reoliadau ynghylch dulliau angladdol newydd unigol. Yn yr un modd, byddent yn galluogi creu trosedd, er enghraifft, torri amod trwydded (a gyhoeddir yn unol â rheoliadau a wneir o dan gymal 4 neu adran 4) ar gyfer treial.

6.75 Mae cymal 3(2)(c) ac adran 3(2)(c) yn nodi y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau sy'n rhoi pŵer, pan fo ymddygiad yn gyfystyr â throedd, i osod cosb sifil, ar ffurf cosb ariannol benodedig nad yw'n fwy na'r gosb uchaf am y drosedd. Mae Cymal 3(6) a (7), ac adran 3(6) a (7), yn nodi materion a allai, ac y mae'n rhaid, eu cynnwys yn y rheoliadau hyn. Mae cymal 3(8)

o'r Bil ar gyfer Lloegr yn nodi bod symiau a gaiff eu hadennill yng nghyswllt cosbau ariannol penodedig i'w talu i'r Gronfa Gyfunol (y bydd y rhan fwyaf o'r referniw yn cael ei dalu iddi o drethi, dirwyon a chosbau). Gwneir darpariaeth debyg yn adran 3(8) o'r Bil i Gymru o ran Cronfa Gyfunol Cymru.

- 6.76 O dan gymal 11(3) ac adran 11(3) (a chymal 11(11)(a) ac adran 11(11)(a)) bydd gweithdrefn gadarnhaol ddrafft/gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd yn berthnasol i reoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pwerau hyn.

TROSEDD O DDEFNYDDIO DULL ANGLADDOL NEWYDD NAD YW'N CAEL EI REOLEIDDIO

Ymgynghoriad ar drosedd newydd o ddefnyddio dulliau angladdol newydd sydd heb eu rheoleiddio

"Cyflawni" yn unig

- 6.77 Gwnaethom gynnig dros dro y dylai fod yn drosedd caffael, cymryd rhan neu gynnal dull angladdol newydd nad yw'n cael ei reoleiddio.³⁵
- 6.78 Mae adran 8 o Ddeddf Affeithwyr ac Ategwyr 1861 yn nodi y gall rhywun sy'n cynorthwyo, annog, cwmsela neu gaffael (y cyfeirir ato'n gyffredin bellach fel cynorthwyo neu annog) y broses o gyflawni trosedd dditiadwy gael ei roi ar brawf a'i gosbi fel prif droseddwr. Mae adran 44 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 yn nodi y gall rhywun sy'n cynorthwyo, yn annog, yn cwmsela neu'n peri iddo gyflawni trosedd ddiannod gael ei roi ar brawf am y drosedd honno. Mae Rhan 2 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2007 yn troseddoli'r broses o annog neu gynorthwyo rhywun i gyflawni trosedd, heb fod angen i drosedd sylweddol fod wedi digwydd. Pe bai rhywun yn cyflawni'r drosedd newydd o ddefnyddio dull angladdol newydd nad yw'n cael ei reoleiddio, yna (dan Ddeddf 1980) gallai ail berson, a oedd yn helpu neu'n annog cyflawni'r drosedd, gael ei erlyn fel pe bai ef ei hun wedi cyflawni'r drosedd newydd. Gallai rhywun a oedd yn cynorthwyo neu'n annog defnyddio dull angladdol newydd nad yw'n cael ei reoleiddio hefyd gael ei erlyn o dan Ddeddf 2007, p'un ai a oedd y drosedd newydd wedi'i chyflawni ai peidio. Rydym o'r farn y byddai Deddf 1861, Deddf 1980 a Deddf 2007 yn ymdrin â'r holl ymddygiad y byddem am ei ystyried yn drosedd yng nghyswllt "caffael" neu "gymryd rhan". Felly, rydym yn canolbwyntio dim ond ar y drosedd arfaethedig dros dro o gynnal dull angladdol newydd nad yw'n cael ei reoleiddio.

Ymgynghori ar yr elfen sy'n ymwneud â bai

- 6.79 Roeddem yn cynnig dros dro, er mwyn bod yn euog o'r drosedd o ddefnyddio dull angladdol newydd nad yw'n cael ei reoleiddio, bod yn rhaid i'r diffynnydd wybod ei fod yn defnyddio dull angladdol newydd.³⁶ Roeddem hefyd wedi gofyn am farn ymgynghoreion ynghylch a ddylid cael elfen gyfatebol sy'n ymwneud â bai hefyd o ran rheoleiddio, fel bod yn rhaid i'r diffynnydd hefyd wybod nad yw'r dull angladdol newydd yn cael ei reoleiddio neu fod yn ddi-hid ynghylch a yw'r dull angladdol newydd yn cael ei reoleiddio ai peidio.³⁷ Gofynnwyd a oedd yr ymgynghoreion, fel arall, yn

³⁵ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 7.45.

³⁶ Byddai hon yn elfen sy'n ymwneud â bai sy'n cyfateb i elfen "ymddygiad" - gweler paragraff 6.2 uchod.

³⁷ Byddai hon yn elfen sy'n ymwneud â bai sy'n cyfateb i "elfen amgylchiadau" - gweler paragraff 6.2 uchod

credu bod unrhyw resymau a fyddai'n cyfiawnhau peidio â chael elfen sy'n ymwneud â bai ar gyfer y rhan hon o'r drosedd, felly gallai person fod yn euog hyd yn oed os nad ydynt yn gwybod nad yw'r dull angladdol newydd y mae'n ei ddefnyddio yn cael ei reoleiddio ac nad yw'n ddi-hid ynghylch a yw'r dull angladdol newydd yn cael ei reoleiddio ai peidio.³⁸ Fel rydym yn egluro ym mharagraff 6.3 uchod, mae trosedd heb fai yn cael ei alw'n un ag atebolrwydd caeth.

6.80 Fel arfer, bydd gan bob elfen allanol trosedd elfen gyfatebol sy'n ymwneud â bai. Mae penderfynu ar feusrwydd o ran trosedd, felly, fel arfer yn cynnwys ystyried cyflwr meddwl y diffynnydd. Mae rhai eithriadau i hyn, lle gellir ei gyfiawnhau. Nid oeddem yn credu ei bod yn debygol y byddai cyfiawnhad dros hynny yn yr achos hwn, ond fe wnaethom ofyn i ymgynghoreion a oedd unrhyw resymau dros beidio â chynnwys elfen sy'n ymwneud â bai ar gyfer y rhan hon o'r drosedd, fel y gallai rhywun heb unrhyw elfen sy'n ymwneud â bai ynghylch a yw'r dull angladdol newydd y maent yn ei ddefnyddio yn cael ei reoleiddio fod yn feius o hyd.

Ymgynghoriad ar y gosb uchaf

6.81 Y gosb uchaf ar gyfer y drosedd o amlosgi gweddillion dynol ac eithrio yn unol â'r ddeddfwriaeth amlosgi yw dirwy lefel 3 (£1,000 ar hyn o bryd). Yn y Papur Ymgynghori, roeddem yn cynnig dros dro y dylai'r gosb uchaf ar gyfer y drosedd newydd fod yn uwch na hyn.³⁹

6.82 Fe wnaethom ddweud ein bod yn credu y gallai'r niwed posibl a allai ddeillio o'r drosedd hon fod yn fwy. Gyda'r drosedd amlosgi, er bod yr unigolyn wedi mynd yn groes i'r rheoliadau sy'n ymwneud ag amlosgi, mae'n dal i ddefnyddio dull angladdol cydnabyddedig. Gyda'r drosedd newydd, mae'n bosib bod unrhyw ddull newydd a heb ei reoleiddio wedi cael ei ddefnyddio. Gallai'r niwed posibl a allai ddeillio o ddefnyddio dull angladdol heb ei reoleiddio fod yn ddifrifol iawn. Pe bai dull yn dod i'r amlwg a oedd, er enghraifft, yn beryglus i iechyd y cyhoedd neu'r amgylchedd neu a fyddai'n cael effaith niweidiol ar urddas pobl, gallai fod yn briodol gosod cosb fwy difrifol.

6.83 Roeddem hefyd wedi gofyn am farn ymgynghoreion ynghylch a ddylai'r gosb uchaf fod yn gyfnod o garchar.⁴⁰

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Ymatebion i'r ymgynghoriad ar y drosedd a'r elfen sy'n ymwneud â bai

6.84 Roedd mwyafrif helaeth yr ymgynghoreion yn cytuno y dylai fod yn drosedd defnyddio dull angladdol newydd heb ei reoleiddio. Mynegodd rhai ymgynghoreion, er enghraifft yr FBCA, bryderon am arloesi a phwysleisiwyd y byddai darpariaeth o'r fath yn gwneud yr angen am dreialon hyd yn oed yn bwysicach.

6.85 Roedd mwyafrif sylweddol o'r ymgynghoreion yn cytuno, er mwyn bod yn euog o'r drosedd o ddefnyddio dull angladdol newydd heb ei reoleiddio, bod yn rhaid i'r diffynnydd wybod ei fod yn defnyddio dull angladdol newydd.

³⁸ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 7.47.

³⁹ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 7.48.

⁴⁰ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 7.49.

- 6.86 Cafwyd ymatebion cymysg i'r cwestiwn ynghylch a ddylid cael elfen o fai yng nghyswllt rheoleiddio. Mynegodd rhai ymgynghorion gefnogaeth i gynnwys dim elfen sy'n ymwneud â bai, ond heb roi unrhyw reswm pam roedd atebolrwydd caeth yn briodol, er enghraifft dweud yn syml na ddylai diffyg gwybodaeth fod yn esgus. Mynegodd un ymgynghorai gefnogaeth i atebolrwydd aciwt ar y sail "na ddylai neb fwrw ymlaen ag unrhyw ddull angladdol heb ddeall y gyfraith ar faterion o'r fath yn llawn".
- 6.87 Mynegodd rhai ymgynghorion amheuan ynghylch atebolrwydd caeth. Dywedodd y Central Co-op y "gallai hyn gosbi unigolion yn annheg os ydynt yn gweithredu'n ddiwyll neu os nad oes ganddynt fynediad at wybodaeth reoleiddiol glir". Roedd Kindly Earth/Resomation Limited yn teimlo bod angen yr elfen sy'n ymwneud â bai "er enghraifft, i ddiogelu gweithiwr a allai fod yn ddiniwed nad yw'n ymwybodol o statws rheoleiddio dull angladdol newydd y mae ei gyflogwr yn ei weithredu". Dywedodd NAFD na ddylai "atebolrwydd fod yn berthnasol i'r rheini nad ydynt yn gwybod".
- 6.88 Dywedodd Dr Imogen Jones (academydd):
- Ni welaf ddim rheswm arbennig yma dros awgrymu bod dulliau angladdol newydd yn gyfryw fel na ddylai fod elfen sy'n ymwneud â bai. Drwy wneud yr elfen sy'n ymwneud â bai yn un ddi-hid yn hytrach na bwriadol, mae cyfle eang eisoes i ddal y rheini nad ydynt yn poeni am y gyfraith... nid wyf yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth empirig bod defnydd digon eang o ddulliau heb eu rheoleiddio er mwyn cyfiawnhau atebolrwydd caeth.
- 6.89 Dywedodd Fiona Cunningham (academydd) y byddai cynnwys elfen sy'n ymwneud â bai yn "caniatáu i gosbau aros yn deg ac yn gymesur". Nododd hefyd:
- Mae hyn yn ymddangos yn arbennig o arwyddocaol ac ystyried symlrwydd cymharol gweithredu rhai peiriannau [dull angladdol newydd] (nid oes angen yr un gwaith monitro parhaus ar rai elfennau [hydrolysis alcalïaidd] ag sydd gydag amlosgi, er enghraifft), a'r ddibyniaeth ar aelodau staff dan gontract achlysurol mewn rhai rhannau o'r diwydiant angladdau.
- 6.90 Dywedodd Cyngor Tref Stroud fod cynnwys elfen sy'n ymwneud â bai yn "sicrhau cymesuredd wrth orfodi ac yn gwahaniaethu achosion o dorri rheolau'n fwriadol neu'n esgeulus oddi wrth gamgymeriadau diniwed". Dywedodd Cyngor Sir Durham fod yr elfen arfaethedig sy'n ymwneud â bai yn "cydbwysu ataliaeth â thegwch".

Ymatebion i'r ymgynghoriad ar y gosb uchaf yn uwch nag ar gyfer trosedd sy'n gysylltiedig ag amlosgi

Rhesymau dros gytuno

- 6.91 Roedd y rhan fwyaf o'r ymgynghorion yn cytuno â'r cynnig dros dro y dylai'r gosb uchaf fod yn fwy difrifol nag ar gyfer trosedd sy'n gysylltiedig ag amlosgi. Roedd y rheini a oedd yn cytuno â'r cynnig dros dro yn gwneud hynny am y rhesymau canlynol.
- (1) Roedd rhai ymgynghorion yn cytuno â'n hawgrym y gallai'r niwed posibl sy'n deillio o'r drosedd (er enghraifft yng nghyswllt urddas dynol neu ddiogelwch y

cyhoedd) fod yn fwy na'r hyn sy'n deillio o'r drosedd sy'n gysylltiedig ag amlosgi.

- (2) Ni ellir rhagweld yn glir y risgiau (er enghraifft, risgiau amgylcheddol neu risgiau sy'n gysylltiedig ag iechyd) a allai godi o gyflawni dulliau angladdol newydd heb eu rheoleiddio.
- (3) Byddai cosb uwch yn cydnabod pwysigrwydd cydymffurfio â'r system reoleiddio ac yn cynyddu hyder y cyhoedd.

Rhesymau dros anghytuno

6.92 Dywedodd Dr Imogen Jones (academydd):

Nid wyf yn cytuno bod defnyddio dull angladdol newydd yn risg i urddas na niwed fel y cyfryw. Nid yw'r risgiau yn y meysydd hyn yn deillio o ddefnyddio dull newydd, ond yn hytrach yn y manylion manwl am yr hyn y mae'r dull hwnnw'n ei olygu a'r ffordd y caiff ei egluro i'r berthynas agosaf.

6.93 Roedd rhai ymgynghoreion yn anghytuno â'r cynnig dros dro ar y sail y dylid sicrhau cydraddoldeb â'r drosedd sy'n gysylltiedig ag amlosgi.

6.94 Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau Perthynol ac Annibynnol na ddylai'r gosb am ddefnyddio dull angladdol newydd heb ei reoleiddio fod yn uwch nag ar gyfer y drosedd sy'n gysylltiedig ag amlosgi. Dywedodd:

Os rhywbeth, dylai fod yn llai llym ar sail y diffyg gwybodaeth bosibl am ddulliau angladdol newydd o'i gymharu â'r ddeddfwriaeth amlosgi sydd wedi hen ennill ei phlwyf.

Sylwadau ar y gosb uchaf am drosedd sy'n gysylltiedig ag amlosgi

6.95 Dywedodd rhai ymgynghoreion, p'un ai a oeddent yn cytuno y dylai'r gosb uchaf ar gyfer y drosedd newydd fod yn uwch na'r gosb uchaf ar gyfer y drosedd sy'n gysylltiedig ag amlosgi ai peidio, eu bod yn credu bod y gosb uchaf ar gyfer y drosedd sy'n gysylltiedig ag amlosgi yn rhy isel.

Ymatebion i'r ymgynghoriad ar gynnwys carcharu fel rhan o'r gosb uchaf

6.96 Dywedodd rhai ymgynghoreion y byddai carcharu'n briodol oherwydd y byddai'n gweithredu fel rhwystr ac yn adlewyrchu difrifoldeb y drosedd.

6.97 Trafododd rhai ymgynghoreion yr amgylchiadau lle gallai carcharu fod yn briodol. Er enghraifft, roedd rhai ymgynghoreion o'r farn y gellid ei orfodi am dorri amodau dro ar ôl tro neu sawl tro. Dywedodd un ymgynghorai y dylid cynnwys y posibilrwydd o garchar "o bosibl" "os oes mwy nag un drosedd wedi'i chyflawni efallai".

6.98 Teimlai rhai ymgynghoreion na fyddai carcharu'n briodol o dan unrhyw amgylchiadau. Dywedodd Quaker Social Action: "er y byddai hyn yn drosedd ddifrifol, nid ydym yn credu mai carcharu yw'r ffordd iawn o weithredu. Pe bai'r gosb yn uwch, byddem yn fwy cefnogol i ddirwy fwy." Nododd fod y dyfalu ynghylch maint y niwed y gallai'r drosedd ei achosi yn golygu y "byddai'n anodd deddfu'n deg gyda'r lefel hon o ansicrwydd". Holodd Dr Imogen Jones (academydd) beth fyddai'n cyfiawnhau'r

ymyriad hwn y tu hwnt i'r troseddau hynny sydd eisoes yn bodoli o ran iechyd y cyhoedd.

Trafodaeth ac argymhellion

Yr elfen sy'n ymwneud â bai

- 6.99 Roedd mwyafrif helaeth yr ymgynghoreion yn cytuno â'n cynnig dros dro y dylai fod yn drosedd defnyddio dull angladdol newydd heb ei reoleiddio. Roedd rhai ymgynghoreion yn poeni am yr effaith ar arloesi ac yn dweud bod yn rhaid i'r rheini sy'n cynnal treialon gael eu heithrio rhag atebolrwydd. Fel yr eglurwyd ym Mhennod 5, rydym yn argymhell na ddylai'r gwaharddiad ar ddefnyddio dulliau angladdol newydd heb eu rheoleiddio fod yn berthnasol i'r rheini sy'n cynnal treialon awdurdodedig.
- 6.100 Rydym yn argymhell y dylai fod yn drosedd cynnal dull angladdol newydd heb ei reoleiddio (ac eithrio drwy dreial awdurdodedig). Bydd hyn yn egluro'r gyfraith yn well ac yn sicrhau y gellir gorfodi'r gwaharddiad ar ddefnyddio dulliau angladdol newydd heb eu rheoleiddio (a drafodir ym Mhennod 5).
- 6.101 Fel yr esboniwyd yn y Papur Ymgynghori, byddai trosedd fel arfer yn cynnwys elfen sy'n ymwneud â bai sy'n cyfateb i bob "elfen allanol" o'r drosedd.⁴¹ Ar gyfer y drosedd hon, yr elfennau allanol yw bod y diffynnydd yn defnyddio dull angladdol newydd ac na chafodd y dull angladdol newydd ei reoleiddio.
- 6.102 Roedd mwyafrif helaeth yr ymgynghoreion yn cytuno â'n cynnig dros dro, sef, er mwyn bod yn euog o'r drosedd o ddefnyddio dull angladdol newydd heb ei reoleiddio, bod yn rhaid i'r diffynnydd wybod ei fod yn defnyddio dull angladdol newydd. Bydd hyn yn sicrhau na fydd rhywun sy'n gweithredu heb wybod bod y weithred yn rhan o ddull angladdol newydd yn euog o'r drosedd. Yn y Papur Ymgynghori, fe wnaethom nodi enghraifft o berson sy'n cludo cemegau i gyfleuster.
- 6.103 Gofynnwyd i ymgynghoreion am safbwyntiau ar unrhyw resymau a fyddai'n cyfiawnhau peidio â chael elfen sy'n ymwneud â bai ar gyfer yr ail elfen (nad oedd y dull angladdol newydd yn cael ei reoleiddio). Byddai hyn yn golygu, cyn belled â bod person yn gwybod ei fod yn defnyddio dull angladdol newydd, y gallai wedyn fod yn euog o'r drosedd hon beth bynnag fo'i gyflwr meddwl o ran a oedd y dull angladdol newydd yn cael ei reoleiddio ai peidio. Fel arall, fe wnaethom wahodd ymgynghoreion i roi eu barn am elfen o ddiffyg gwybodaeth neu fyrbwylltra, felly mae'n rhaid i berson sy'n defnyddio'r dull angladdol newydd fod wedi bod yn ddi-hid ynghylch a oedd y dull angladdol newydd yn cael ei reoleiddio (neu'n gwybod ei fod yn cael ei reoleiddio) i fod yn euog ai peidio.⁴²
- 6.104 Dywedodd rhai ymgynghoreion na ddylai peidio â gwybod nad yw'r dull angladdol newydd yn cael ei reoleiddio atal rhywun rhag bod yn euog o'r drosedd. Rydym yn cytuno a dyma pam roeddem wedi awgrymu y gallai fod angen elfen o wybodaeth neu fyrbwylltra ar gyfer y rhan hon o'r drosedd. Os nad oedd person yn gwybod nad oedd y dull angladdol newydd yn cael ei reoleiddio am nad oedd wedi gwneud unrhyw

⁴¹ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 7.31.

⁴² Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 7.47.

ymchwil i hyn, a'i fod yn ymwybodol o'r risg na chafodd ei reoleiddio, gallai fod yn euog o'r drosedd o hyd ar y sail ei fod yn fyrbwyll.

6.105 Mynegodd ymgynghoreion bryderon ynghylch atebolrwydd caeth ac fe wnaethant ddweud y byddai'n decach ac yn fwy priodol cynnwys elfen sy'n ymwneud â bai. Rhoddodd rhai ymgynghoreion enghreifftiau o weithwyr neu aelodau staff dan gontract na ddylid troseddoli eu hymddygiad heb dystiolaeth o wybodaeth neu fyrbwylltra.

Casgliad ar yr elfen sy'n ymwneud â bai

6.106 Ychydig iawn o ymgynghoreion a roddodd resymau pam na ddylid cael elfen sy'n ymwneud â bai ynghylch a yw'r dull angladdol newydd yn cael ei reoleiddio ai peidio. Rydym yn cytuno â'r ymgynghoreion o ran atebolrwydd caeth. Rydym o'r farn, heb elfen sy'n ymwneud â bai, bod risg y gallai'r drosedd fod yn berthnasol i'r rheini nad ydynt yn ddigon ar fai.

6.107 Rydym yn argymhell y dylai fod yn drosedd defnyddio dull angladdol newydd heb ei reoleiddio. I fod yn euog o'r drosedd hon, rhaid i'r diffynnydd wybod ei fod yn defnyddio dull angladdol newydd. Rhaid i'r diffynnydd hefyd wybod nad yw'r dull angladdol newydd y mae'n ei ddefnyddio yn cael ei reoleiddio, neu fod yn ddi-hid ynghylch hynny.

Y gosb uchaf

6.108 Roedd rhai ymgynghoreion yn anghytuno â'n hawgrym y gallai'r niwed posibl sy'n deillio o'r drosedd hon fod yn fwy na'r niwed sy'n deillio o'r drosedd sy'n gysylltiedig ag amlosgi. Rydym yn cydnabod y gallai'r niwed o gyflawni'r drosedd sy'n gysylltiedig ag amlosgi yn benodol fod yn uwch na chyflawni'r drosedd newydd yn benodol.

6.109 Fodd bynnag, rydym yn poeni am yr ystod o niwed posibl. Ar ôl pwysu a mesur y dadleuon sy'n anghyson â'i gilydd, am y rhesymau a nodir isod, rydym o'r farn bod y niwed mwyaf a allai ddeillio o'r drosedd newydd yn uwch nag ar gyfer y drosedd sy'n gysylltiedig ag amlosgi. Mae'r gosb uchaf yn dynodi'r gosb uchaf bosibl yn unig; bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ym mhob achos unigol, a bydd cosbau is yn cael eu rhoi pan ystyrir bod hyn yn briodol wrth ddedfrydu.

6.110 O'r ymgynghoreion a oedd yn teimlo y dylai'r gosb uchaf ar gyfer y drosedd hon fod yn uwch na'r gosb uchaf bresennol ar gyfer y drosedd sy'n gysylltiedig ag amlosgi, teimlai rhai y gallai carcharu fod yn briodol oherwydd difrifoldeb posibl y drosedd. Roedd ymgynghoreion eraill yn anghytuno ac yn teimlo nad oedd cyfiawnhad dros y posibilrwydd o roi dedfryd o garchar.

6.111 Ym mharagraffau 6.5 i 6.7 uchod, rydym yn nodi rhai o'r troseddau sy'n ymwneud â chladdu ac amlosgi, neu sydd fel arall yn berthnasol i'r ffordd y mae cyrff pobl sydd wedi marw yn cael eu trin. Mae'n ddefnyddiol ystyried y cosbau ar gyfer rhai o'r rhain, i'n helpu i ddod i gasgliad ynghylch y gosb uchaf briodol ar gyfer y drosedd newydd.

6.112 Fel y nodir ym mharagraff 6.5 uchod, o dan adran 25 o Ddeddf Claddu 1857 mae'n drosedd symud gweddillion dynol o unrhyw fan claddu oni bai y cydymffurfir ag amodau penodol. Byddai'r enghreifftiau gwaethaf o'r drosedd hon yn cynnwys aflonyddu'n niweidiol ar gorff sydd eisoes wedi cael ei roi i orffwys. Byddai hyn, yn amlwg, yn driniaeth anurddasol o weddillion dynol. Y gosb uchaf am y drosedd hon ar

hyn o bryd yw dirwy heb fod yn uwch na lefel 1 ar y raddfa safonol. Yn ein Hadroddiad ar Gladdu ac Amlosgi, roeddem yn argymhell y dylid cynyddu hyn i ddirwy ddiderfyn neu garchar am hyd at y terfyn cyffredinol mewn llys ynadon, neu ddirwy ddiderfyn neu garchar am gyfnod heb fod yn fwy na thair blynedd drwy dditiad.⁴³

6.113 Dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004, gall person sy'n symud, storio neu'n defnyddio corff person ymadawedig heb ganiatâd i'w ddefnyddio at "bwrpas cofrestredig" gael ei garcharu am hyd at dair blynedd (a/neu ddirwy).⁴⁴ Mae'r term "pwrpas cofrestredig" yn cynnwys arddangos yn gyhoeddus, ymchwil a thrawsblannu.⁴⁵ Credwn y gallai'r niwed sy'n deillio o'r drosedd hon fod yn uwch na'r niwed sy'n deillio o'r drosedd newydd. Er enghraifft, mae arddangos corff person ymadawedig yn gyhoeddus yn anarferol iawn a, heb gydsyniad, byddai'n driniaeth anurddasol o weddillion dynol.

6.114 Mae'r troseddau a ddisgrifir uchod yn troseddoli ymddygiad a allai olygu methiant i drin gweddillion dynol ag urddas ac sydd â'r potensial i achosi trallod sylweddol i'r cyhoedd. Rydym o'r farn y gallai'r niwed posibl a allai ddeillio o'r drosedd newydd, mewn achosion eithafol, fod yn debyg i'r niwed a allai ddeillio o'r drosedd o ddatgladdu corff yn anghyfreithlon neu ddefnyddio corff person ymadawedig at ddibenion fel ymchwil neu arddangos yn gyhoeddus heb gydsyniad.

6.115 Efallai y bydd person sy'n euog o'r drosedd newydd wedi cynnal unrhyw ddull gwaredu heb ei reoleiddio, a allai achosi difrod amgylcheddol, perygl i iechyd y cyhoedd, a thrallod eang. Gallai hefyd arwain at drin gweddillion dynol yn ddiurddas. Nid yw troseddau presennol cyfraith gyffredin o sarhau gwedduster cyhoeddus ac atal claddu cyfreithlon a gweddus yn debygol o fod yn ddigon i ymateb i niwed ymddygiad y drosedd hon.⁴⁶

Casgliad ar y gosb uchaf

6.116 Yng ngoleuni hyn, rydym o'r farn bod dirwy ar lefel 3 yn gosb uchaf rhy isel ar gyfer y drosedd newydd. Dylai'r gosb uchaf fod yn uwch na'r gosb ar gyfer y drosedd sy'n gysylltiedig ag amlosgi a dylai fod yn debyg i'r gosb uchaf ar gyfer troseddau presennol a allai hefyd gynnwys ymddygiad sy'n gyfystyr â thrin gweddillion dynol yn ddiurddas.

6.117 Rydym o'r farn mai'r gosb uchaf ar gyfer y drosedd newydd hon yw: os ceir euogfarn ddiannod, dirwy ddiderfyn neu garchar am gyfnod nad yw'n fwy na'r terfyn cyffredinol mewn llys ynadon (neu'r ddau); a, drwy dditiad, dirwy neu dair blynedd o garchar (neu'r ddau).

6.118 Roedd rhai ymgynghoreion o'r farn bod y gosb uchaf ar gyfer y drosedd sy'n gysylltiedig ag amlosgi yn rhy isel. Fodd bynnag, mae adolygu lefel y gosb am y drosedd hon y tu hwnt i gwmpas yr is-brosiect hwn. Ni wnaethom ymgynghori ar hyn

⁴³ Claddu ac Amlosgi (2026) Comisiwn y Gyfraith Rhif 425 paragraff 10.39.

⁴⁴ Deddf Meinweoedd Dynol 2004, adrannau 25(1) a (2).

⁴⁵ Deddf Meinweoedd Dynol 2004, Atodlen 1.

⁴⁶ Bydd prosiect arfaethedig Comisiwn y Gyfraith ar Droseddau yn erbyn Cyrff Marw yn cynnwys ystyried y troseddau cyfraith gyffredin hyn (Comisiwn y Gyfraith, *Offences Against Dead Bodies* (2025) <https://lawcom.gov.uk/project/offences-against-dead-bodies/>).

yn ein his-brosiect ar Gladdu ac Amlosgi ac nid ydym wedi clywed bod y gosb uchaf ar gyfer y drosedd sy'n gysylltiedig ag amlosgi wedi arwain at unrhyw broblemau.

Argymhelliad 15.

6.119 Rydym yn argymell y dylai fod yn drosedd defnyddio dull angladdol newydd nad yw'n cael ei reoleiddio na'i gynnal fel rhan o dreial awdurdodedig. I fod yn euog o'r drosedd hon, rhaid i'r diffynnydd wybod ei fod yn defnyddio dull angladdol newydd a gwybod nad yw'r dull angladdol newydd yn cael ei reoleiddio, neu fod yn ddi-hid ynghylch hynny.

6.120 Rydym yn argymell mai'r gosb uchaf am y trosedd o ddefnyddio dull angladdol newydd heb ei reoleiddio, neu sy'n cael ei gynnal fel rhan o dreial awdurdodedig, yw:

- (1) gydag euogfarn ddiannod, dirwy ddiderfyn neu garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na'r terfyn cyffredinol mewn llys ynadon (neu'r ddau); a
- (2) drwy ddiad, dirwy neu dair blynedd o garchar (neu'r ddau).

6.121 Caiff yr argymhelliad hwn ei weithredu gan gymal 6 o'r Bil drafft ar gyfer Lloegr ac adran 6 o'r Bil drafft ar gyfer Cymru.

6.122 Mae Cymal 6(1) ac adran 6(1) yn nodi'r drosedd o waredu gweddillion dynol perthnasol drwy ddull angladdol modern heb ei reoleiddio lle mae'r person yn gwybod ei fod yn gwneud hynny ac yn gwybod neu'n ddi-hid p'un ai a yw'r dull heb ei reoleiddio ai peidio. Mae dull angladdol modern heb ei reoleiddio, o dan gymal 6(2) ac adran 6(2), yn un nad yw'n cael ei reoleiddio o dan gymal 2 neu adran 2 (y prif bŵer i wneud rheoliadau) neu gymal 4 neu adran 4 (o ran treialon). Mae gweddillion dynol perthnasol yn golygu gweddillion dynol ar wahân i'r llwch sy'n weddill ar ôl amlosgi, neu ddeunydd y mae gweddillion dynol wedi cael eu lleihau iddo drwy ddull angladdol modern.

6.123 Mae Cymal 6(3) ac adran 6(3) o'r Biliau drafft yn nodi'r gosb uchaf ar gyfer y drosedd hon.

Pennod 7: Diwygiadau i ddeddfwriaethau presennol

CYFLWYNIAD

- 7.1 Yn yr Adroddiad hwn rydym yn cyflwyno argymhellion ar gyfer fframwaith, a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol, y gellir ei ddefnyddio i reoleiddio dulliau angladdol newydd unigol yn y dyfodol. Yn y bennod hon, rydym yn egluro sut bydd angen diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol i sicrhau y bydd y system reoleiddio yn gydlynol ac yn rhyngweithio'n briodol â'r gyfraith bresennol a'r systemau rheoleiddio ar gyfer dulliau angladdol sydd wedi ennill eu plwyf.
- 7.2 Rydym yn gwneud argymhellion am ddiwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol lle bydd y rhain yn berthnasol i bob dull angladdol newydd. Mae hyn yn cynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth ar gofrestru marwolaethau ac iechyd y cyhoedd. Ein bwriad wrth gyflwyno'r diwygiadau hyn yw y dylid trin dulliau angladdol newydd sy'n cael eu rheoleiddio yn yr un ffordd â chladdu ac amlosgi, lle bo hynny'n bosibl.
- 7.3 Rydym hefyd yn argymhell y dylai Llywodraethau perthnasol gael pŵer i wneud diwygiadau pellach i ddeddfwriaeth ynghylch claddu ac amlosgi, lle gallai'r rhain fod yn berthnasol i rai dulliau angladdol newydd (ond nid pob un o reidrydd), mewn rheoliadau.
- 7.4 Yn olaf, mae Deddf Amlosgi 1902 yn datgan y bydd rhai treuliau sy'n gysylltiedig ag amlosgi yn cael eu hystyried yn rhan o dreuliau angladdol person ymadawedig. Er mwyn sicrhau y gellid gwneud darpariaeth debyg ar gyfer dulliau angladdol newydd, rydym yn argymhell y dylai'r Llywodraethau perthnasol gael pŵer i nodi bod treuliau sy'n ymwneud â dull angladdol newydd yn cael eu trin fel treuliau angladdol at ddibenion penodol.
- 7.5 Mewn llawer o achosion, bydd angen i'n Biliau drafft (ar gyfer Cymru a Lloegr) gyflwyno diwygiadau i'r un darpariaethau. Rydym wedi drafftio pob Bil fel pe bai'n un o'r cyntaf o'r ddau i gael ei basio. Os caiff un Mesur ei basio, bydd angen newid y drafft ar y llall er mwyn i'r gwelliannau gael eu mynegi'n gywir, i adlewyrchu testun y ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio bryd hynny.

COFRESTRU MARWOLAETH

Cynnig dros dro o ran cofrestru marwolaethau

- 7.6 Ym Mhennod 3 ein Papur Ymgynghori, rydym yn nodi'r gwaharddiadau a'r troseddau sydd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud â chofrestru marwolaethau a allai fod yn berthnasol i ddefnyddio dulliau angladdol newydd. Gwnaethom gynnig dros dro y dylai'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer cofrestru marwolaethau fod yr un fath yn fras ar gyfer dulliau angladdol newydd a reoleiddir â'r rhai ar gyfer claddu ac amlosgi.¹

¹ Gweler paragraffau 3.41 i 3.64 ein Papur Ymgynghori (Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272) am drafodaeth fanwl ar y darpariaethau statudol perthnasol.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

- 7.7 Roedd mwyafrif sylweddol iawn o'r ymgynghoreion yn cytuno â'n cynnig dros dro y dylai'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer cofrestru marwolaethau fod yr un fath yn fras ar gyfer dulliau angladdol newydd cymeradwy, sy'n cael eu rheoleiddio, ag ar gyfer claddu ac amlosgi.
- 7.8 Roedd ymgynghoreion yn cytuno y byddai'r dull hwn yn symlach na chreu gofynion cofrestru cwbl newydd ar gyfer dulliau angladdol newydd. Nododd ymgynghoreion hefyd y byddai cael yr un gofynion cofrestru marwolaethau yn fras yn gwneud y gyfraith yn gliriach i ymarferwyr yn y diwydiant a phobl mewn profedigaeth. Cyfeiriwyd at bwysigrwydd sicrhau bod y gofynion deddfwriaethol ar gyfer dulliau angladdol newydd yr un mor llym â'r rhai sy'n berthnasol i ddulliau angladdol presennol fel rheswm arall o blaid y dull hwn.
- 7.9 Tynnodd rhai ymgynghoreion sylw at fanteision cadw cofnodion da. Gallai cael system gywir o gofnodion helpu i leihau gofid i bobl mewn profedigaeth a gallai gynnal urddas y person ymadawedig. Dywedodd ymgynghoreion wrthym hefyd y byddai cynnal parhad cofnodion yn hanfodol, er enghraifft, at ddibenion cyfreithiol, hanesyddol ac ymchwiliol.

Trafodaeth ac argymhelliad

- 7.10 Mae'n ymddangos yn glir y dylai'r gofynion mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud â chofrestru marwolaethau fod yr un fath yn fras ar gyfer dull angladdol newydd cymeradwy a rheoledig ag ar gyfer claddu ac amlosgi, ac nid oedd ymgynghoreion yn awgrymu fel arall. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i bobl, gweithredwyr ac awdurdodau lleol sydd wedi cael profedigaeth gofrestru. Bydd gofynion gweddol debyg yn helpu i sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw'n gywir ac yn lleihau dryswch neu gamgymeriadau.
- 7.11 Rydym yn argymhell y dylid diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n rheoli'r broses o gofrestru marwolaethau fel bod y gofynion fwy neu lai yr un fath ar gyfer dull angladdol newydd a reoleiddir ag ar gyfer claddu ac amlosgi. Dylai hyn hefyd fod yn berthnasol i ddulliau angladdol newydd sy'n cael eu cynnal fel rhan o dreial wedi'i awdurdodi.
- 7.12 Bydd yn rhaid i'r ddwy Lywodraeth ystyried diwygiadau y gallai fod eu hangen ar gyfer is-ddeddfwriaeth pan fydd dulliau angladdol newydd unigol yn cael eu rheoleiddio. Bydd hyn yn cynnwys ystyried rheoliad 49(2) o Reoliadau Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1987,² sy'n nodi o dan ba amgylchiadau y caiff cofrestrydd roi tystysgrif gwaredu cyn cofrestru "at ddibenion claddu neu amlosgi". Bydd angen ystyried diwygiadau posibl i dystysgrifau a roddir gan y cofrestrydd hefyd.

² OS 1987 Rhif 2088.

Argymhelliad 16.

7.13 Rydym yn argymhell y dylid diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n rheoli'r broses o gofrestru marwolaethau fel bod y gofynion fwy neu lai yr un fath ar gyfer dull angladdol newydd rheoledig, ac ar gyfer dulliau angladdol newydd a gyflawnir mewn treial awdurdodedig, â'r rhai ar gyfer claddu ac amlosgi.

7.14 Mae'r diwygiadau penodol sydd eu hangen i gyflawni hyn wedi'u nodi isod. I gael trafodaeth fanylach ar y ddeddfwriaeth bresennol, edrychwch ar baragraffau 3.41 i 3.64 ein Papur Ymgynghori.³

7.15 Mae cofrestru marwolaethau yn fater a gedwir yn ôl i Senedd y DU. Ym mharagraffau 1.20 i 1.22 rydym yn egluro ar ba sail rydym wedi cynnwys diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1926 a Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953 yn y Bil drafft ar gyfer Cymru.

Diwygiadau i Ddeddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1926

7.16 Mae Adran 1(1) Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1926 yn nodi na cheir "gwaredu corff person ymadawedig" oni bai fod tystysgrif benodol neu orchymyn crwner wedi'i gyflwyno i'r "person sy'n cyflawni'r broses waredu". Y tystysgrifau penodedig yw'r rhai a roddir dan adran 11(2) neu (3) neu adran 24 Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953. Mae torri'r ddarpariaeth hon yn drosedd.

7.17 Yn adran 12 o Ddeddf 1926, diffinnir "gwaredu" fel "gwaredu drwy gladdu, amlosgi neu unrhyw ddull arall ac mae i 'gwaredu' ystyr cyfatebol". Fodd bynnag, hefyd yn adran 12, mae'r diffiniad o "person sy'n gweithredu'r broses waredu" yn Deddf 1926 wedi'i gyfyngu i'r canlynol:

y person sy'n cadw neu y mae ei swyddog yn cadw cofrestr o gladdedigaethau y mae'r broses waredu i'w chofrestru ynddi, ac eithrio yn achos claddedigaeth o dan Ddeddf Diwygio Deddfau Claddu 1880 ym mynwent eglwys neu fynwent plwyf neu ddosbarth eglwysig, dehonglir yr ymadrodd "person sy'n gweithredu'r broses waredu" i gyfeirio at y berthynas, y cyfaill, neu'r cynrychiolydd cyfreithiol sy'n gyfrifol am gladdu'r person ymadawedig.

7.18 Mae cymalau 2(3) a 4(3)(d) i (f), ac adrannau 2(3) a 4(3)(d) i (f), o'r Biliau drafft yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddwy Lywodraeth, wrth reoleiddio dull angladdol modern neu wrth gyflwyno rheoliadau ynghylch treialon, nodi darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gofrestru pob defnydd o ddull angladdol modern a nodi manylion ynghylch sut a chan bwy y mae'n rhaid gwneud a chadw hyn.

7.19 Mae paragraff 1 o Atodlen 1 i bob un o'r Biliau drafft yn diwygio adran 12 o Ddeddf 1926 er mwyn sicrhau, pan fydd dull angladdol modern wedi'i reoleiddio o dan gymal 2 neu adran 2 (y prif bŵer i gyflwyno rheoliadau) neu gymal 4 neu adran 4 (yng nghyswllt treialon), mai'r "person sy'n gyfrifol am y broses waredu" fydd y person a

³ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272.

fydd yn cofrestru'r gwarediad o dan y Ddeddf Dulliau Angladdol Modern. Dyma'r person a nodwyd yn y rheoliadau a gyflwynwyd am ddull angladdol modern unigol, neu dreialon dulliau unigol. Ni fydd y gwaharddiad ar waredu yn adran 1(1) o Ddeddf 1926 yn berthnasol pan ddefnyddir dull angladdol modern wedi'i reoleiddio, neu pan gynhelir treial wedi'i awdurdodi, os rhoddir y dystysgrif berthnasol i'r person sy'n gyfrifol am gofrestru'r broses waredu.

Diwygiadau i Ddeddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953

- 7.20 Mae ein Biliau drafft yn cynnwys diwygiadau i adran 24 o Ddeddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953. Cyhoeddir tystysgrifau gan y cofrestrydd o dan adrannau 24(1) neu (2) ond ni chaniateir eu cyhoeddi o dan yr adran hon mewn achosion pan fo gorchymyn crwner wedi'i roi sy'n awdurdodi proses o waredu'r corff. Mae adran 24(3) o Ddeddf 1953 wedyn yn gorfodi person sy'n cael tystysgrif gan y cofrestrydd o dan adran 24(1) neu 24(2) i'w throsglwyddo i'r person sy'n gweithredu i waredu'r person ymadawedig.
- 7.21 Mae paragraff 2 o Atodlen 1 i bob un o'r Biliau drafft yn diwygio adran 24 o Ddeddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953. Ym mharagraff 2(3) o Atodlen 1 i'r Biliau drafft, ychwanegir diffiniad o "ddull angladdol awdurdodedig" at adran 24(6) o Ddeddf 1953 i gynnwys claddu, amlosgi, dulliau angladdol newydd rheoledig a dulliau angladdol newydd a gyflawnir fel rhan o dreial a ganiateir. Y person sy'n gweithredu'r broses waredu, yn achos dull angladdol newydd wedi'i reoleiddio, fydd y person y mae'r broses waredu i'w chofrestru ganddo yn rhinwedd y Biliau drafft. Cyflwynir y diwygiad hwn er eglurder ac er mwyn adlewyrchu'r ffaith y bydd defnyddio dulliau angladdol newydd nad ydynt yn cael eu rheoleiddio yn cael ei wahardd o dan y ddeddfwriaeth newydd.

IECHYD Y CYHOEDD

- 7.22 Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn cynnwys darpariaethau amrywiol sy'n ymwneud â dulliau angladdol sydd wedi ennill eu plwyf. Rydym yn ystyried isod sut y dylid diwygio'r rhain yng nghyswllt dulliau angladdol newydd.

Adran 45C

- 7.23 O dan adran 45C(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, gellir gwneud rheoliadau "er mwyn atal, diogelu, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i ddiwyddiad neu ymlediad haint neu halogiad".
- 7.24 Mae adran 45C(3)(c) yn nodi y gall rheoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pŵer hwn gynnwys gwneud cyfyngiadau neu ofynion os bydd bygythiad i iechyd y cyhoedd, neu mewn ymateb i fygythiad o'r fath. O dan adran 45C(4)(c), mae hyn yn cynnwys "cyfyngiadau neu ofynion sy'n ymwneud â thrin, cludo, claddu neu amlosgi cyrff marw". O dan adran 45D(1), rhaid i unrhyw gyfyngiad fod yn gymesur.
- 7.25 Dylid diwygio'r ddarpariaeth hon fel y gellir gwneud cyfyngiadau neu ofynion hefyd ynghylch dull angladdol newydd sydd wedi'i reoleiddio o dan y Biliau drafft, neu sy'n cael ei gynnal fel rhan o dreial.

Adran 45H

- 7.26 Mae adran 45H o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn cynnwys pŵer i ynad heddwch wneud gorchymyn ar gyfer mesurau iechyd yng nghyswllt “peth” (yn hytrach nag yng nghyswllt personau neu leoliadau, pŵer sydd wedi'i gynnwys yn adran 45l).
- 7.27 O dan adran 45H(1) a (2)(d), mae hyn yn cynnwys y pŵer i wneud gorchymyn y dylid claddu neu amlosgi corff marw:
- (1) os yw'r corff marw wedi'i heintio neu wedi'i halogi, neu y gallai fod wedi'i heintio neu wedi'i halogi,
 - (2) os yw'r haint neu'r halogiad yn un sy'n achosi, neu a allai achosi, niwed arwyddocaol i iechyd dynol,
 - (3) os oes risg y gallai'r corff marw heintio neu halogi pobl, ac
 - (4) os oes angen gwneud y gorchymyn er mwyn dileu neu leihau'r risg honno.
- 7.28 Dylid diwygio adran 45H fel y gallai ynad heddwch hefyd gyflwyno gorchymyn yn yr amgylchiadau hyn y gellid defnyddio dull angladdol newydd penodol, wedi'i reoleiddio ar y corff marw. Mater i'r ynad heddwch fydd penderfynu a yw'r dull hwnnw'n briodol yn amgylchiadau'r achos unigol. Os yw'r gorchymyn yn nodi, er enghraifft, y gellir defnyddio claddedigaeth, amlosgiad neu ddull angladdol newydd penodol, mater i'r awdurdod lleol fydd penderfynu pa un o'r dulliau hyn i'w dewis.

Adran 46

- 7.29 Mae adran 46(1), (2) a (2A) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn nodi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gladdu neu amlosgi corff unrhyw berson sydd wedi marw neu y canfuwyd ei fod wedi marw yn eu hardal, lle nad oes trefniadau addas eraill wedi'u gwneud. Gelwir angladd o'r fath yn angladd iechyd y cyhoedd.
- 7.30 Dylid diwygio'r darpariaethau hyn fel y bydd gan awdurdodau lleol yr opsiwn i ddefnyddio dull angladdol newydd a reoleiddir yn hytrach na chladdu neu amlosgi. Ni fydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddefnyddio dull angladdol newydd dros gladdu neu amlosgi, ond yn hytrach bydd yn rhoi dewis iddynt.
- 7.31 O dan adran 46(3), ni ddylai awdurdod amlosgi corff o dan adran 46(1) neu (2) os oes ganddo reswm dros gredu y byddai amlosgi'n groes i ddymuniadau'r person ymadawedig. Dylid diwygio'r ddarpariaeth hon fel na ddylai awdurdod lleol ychwaith ddefnyddio dull angladdol newydd ar weddillion person ymadawedig lle mae ganddo reswm dros gredu y byddai'r dull yn groes i ddymuniadau'r person. Bydd hyn yn darparu'r un warchodaeth i ddymuniadau'r unigolyn yn y cyd-destun hwn ag yn achos amlosgi. Yn benodol, os yw crefydd person yn hysbys, a bod y grefydd honno'n gwahardd defnyddio dull angladdol newydd penodol, mae'n bwysig nad yw dull o'r fath yn cael ei ddefnyddio.
- 7.32 Mae adran 46(4) yn nodi nad yw adran 46(1) a 46(2) yn “effeithio ar unrhyw ddeddfiad sy'n rheoleiddio neu'n awdurdodi proses o gladdu, amlosgi neu archwilio anatomeg corff person ymadawedig”. Dylid diwygio'r ddarpariaeth hon fel nad effeithir ar unrhyw

ddeddfiad sy'n rheoleiddio neu'n awdurdodi defnyddio dull angladdol newydd rheoledig ar gorff person ymadawedig.

- 7.33 Byddwn yn ystyried angladdau iechyd y cyhoedd ymhellach yn ein trydydd is-brosiect ar Hawliau a Rhwymedigaethau sy'n Ymwneud ag Angladdau, Dulliau Angladdol a Gweddillion.

Adran 47

- 7.34 Mae adran 47(1)(a) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn datgan bod yr Ysgrifennydd Gwladol:

yn cael gwneud rheoliadau sy'n gosod unrhyw amodau a chyfyngiadau yng nghyswllt dulliau gwaredu cyrff marw ac eithrio drwy gladdu neu amlosgi... a allai ymddangos yn ddymunol er budd iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd.

- 7.35 Rydym yn ystyried isod a yw diddymu neu ddiwygio adran 47(1)(a) yn briodol, yng ngoleuni ein hargymhellion ar gyfer fframwaith i alluogi rheoleiddio dulliau angladdol newydd.
- 7.36 Yn y Papur Ymgynghori, rydym yn nodi'r hanes deddfwriaethol⁴. Mae'n ymddangos mai bwriad gwreiddiol y ddarpariaeth (a ddeilliodd o Ddeddfau blaenorol) oedd galluogi cau bylchau o ran dulliau eraill fel claddu yn y môr, a oedd yn cael eu hystyried yn gyfreithlon ond nad oeddent yn cael eu rheoleiddio. Roeddem yn dyfalu, ers i'r ddarpariaeth gael ei rhoi mewn Deddf sy'n cyflwyno darpariaeth ar gyfer iechyd y cyhoedd, y gallai fod wedi cael ei bwriadu i'w defnyddio dim ond yng nghyswllt rheoli clefydau. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn glir.
- 7.37 Ni wnaethom gynnig dros dro am hyn, er ein bod wedi nodi, wrth wneud ein hargymhellion terfynol, y byddai angen i ni ystyried adran 47(1)(a) ac os yw'n ymddangos ei bod yn ddiangen, y gallai fod yn briodol argymhell diddymu.⁵
- 7.38 Mae adran 47(2) o Ddeddf 1984 yn darparu y bydd y "pŵer i wneud rheoliadau o dan yr adran hon i'w arfer drwy offeryn statudol". Ni nodir unrhyw weithdrefn seneddol yma, nac mewn manau eraill yn y Ddeddf. Felly, ni fyddai'n ofynnol i'r offeryn statudol hwn gael ei osod gerbron y Senedd.
- 7.39 Fel y nodwyd gennym yn y Papur Ymgynghori, mae cwmpas y ddarpariaeth yn gyfyngedig ac ni ellid ei defnyddio i nodi fframwaith cynhwysfawr ar gyfer rheoleiddio dulliau angladdol newydd.⁶ Ar yr wyneb, gellid defnyddio'r ddarpariaeth i osod amodau neu gyfyngiadau (er budd iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd) ar unrhyw ddull nad yw'n gladdu nac yn amlosgi. O'r dulliau hyn, dim ond claddu yn y môr sy'n cael ei rheoleiddio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, fel y nodir yn y Papur Ymgynghori, gall deddfwriaeth cofrestru marwolaeth wahardd defnyddio dulliau ar wahân i gladdu, amlosgi neu gladdu yn y môr. Nid yw'n gwbl glir sut y byddai pŵer

⁴ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraffau 3.13 i 3.18.

⁵ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 3.39.

⁶ Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraff 3.36.

adran 47(1)(a) yn cael ei ddefnyddio, neu sut y gellid ei ddefnyddio, yng nghyswllt dulliau angladdol newydd.

- 7.40 Yn yr Adroddiad hwn, rydym yn argymhell y dylai'r Llywodraethau perthnasol gael y pŵer i reoleiddio dulliau angladdol newydd unigol (gweler paragraff 2.66), ac y dylai fod yn drosedd defnyddio dull heb ei reoleiddio (gweler paragraff 6.119). Bydd gan hyn oblygiadau i'r pŵer yn adran 47(1)(a), fel rydym yn egluro isod.

Dulliau angladdol newydd wedi'u rheoleiddio

- 7.41 Os daw'r Biliau drafft yn gyfraith a bod un o'r Llywodraethau perthnasol am osod amodau neu gyfyngiadau ar ddull rheoledig er budd iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd, byddant yn gallu gwneud hyn drwy gyflwyno rheoliadau o dan y pwerau a nodir yn y ddeddfwriaeth. Byddai'r weithdrefn seneddol ar gyfer hyn yn dibynnu ar bwnc y ddarpariaeth. Er enghraifft, pe bai Llywodraeth y DU (yng nghyswllt Lloegr) am gyflwyno darpariaeth yn newid y diffiniad o ddull angladdol newydd, byddai hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft. Pe bai am wneud darpariaeth i newid y tymheredd y mae'n rhaid ei gyrraedd y tu mewn i lestr ar gyfer dull penodol, byddai hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Pe bai Gweinidogion Cymru am gyflwyno darpariaeth debyg ar gyfer Cymru, byddai'r newid diffiniad yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd a byddai'r newid tymheredd yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd.
- 7.42 Fel y trafodwyd uchod, mae pŵer yn adran 45C o Ddeddf 1984 i'r "Gweinidog priodol" gyflwyno rheoliadau "er mwyn atal, diogelu, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i'r digwyddiad neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru a Lloegr". O dan adran 45C(3)(c) caiff y pŵer hwn osod, neu alluogi gosod, "cyfyngiadau neu ofynion ar bersonau, pethau neu leoliadau neu mewn perthynas â hwy os bydd bygythiad i iechyd y cyhoedd, neu mewn ymateb i fygythiad o'r fath". O dan adran 45C(4)(c), gall hyn gynnwys cyfyngiad neu ofyniad sy'n ymwneud â thrin, cludo, claddu neu amlosgi cyrff marw. O dan adran 45D(1), rhaid i unrhyw gyfyngiad fod yn gymesur. Ym mharagraffau 7.23 i 7.25 uchod, rydym yn trafod ein hargymhelliad y dylid diwygio'r ddarpariaeth hon er mwyn gallu gwneud cyfyngiadau neu ofynion hefyd ynghylch dulliau angladdol newydd sy'n cael eu rheoleiddio.
- 7.43 Bydd y weithdrefn seneddol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 45C naill ai'n negyddol neu'n gadarnhaol/bydd yn cael ei ddiddymu gan y Senedd neu ei gymeradwyo gan y Senedd. Bydd y weithdrefn negyddol/annilysu'r Senedd yn gymwys os yw'r offeryn yn cynnwys datganiad nad yw'n gosod nac yn galluogi gosod "(a) cyfyngiad neu ofyniad arbennig,⁷ neu (b) unrhyw gyfyngiad neu ofyniad arall sy'n cael, neu a fyddai'n cael, effaith sylweddol ar hawliau person". Fel arall, bydd gweithdrefn gadarnhaol ddrafft/gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd yn gymwys⁸, oni bai bod yr offeryn yn cynnwys datganiad bod y person sy'n ei wneud yn credu ei bod

⁷ O dan adran 45C(6), mae cyfyngiad arbennig yn un y gall ynad heddwch ei osod o dan adrannau 45G(2), 45H(2) neu 45I(2).

⁸ Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, adran 45Q.

yn angenrheidiol, am resymau brys, iddo gael ei wneud heb osod drafft, pan fydd y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' yn gymwys.⁹

- 7.44 Os caiff adran 45C ei diwygio yn unol â'n hargymhelliad, gellid cyflwyno'r rhan fwyaf o ddarpariaethau y gellid bod wedi eu gwneud o dan adran 47(1)(a) yng nghyswllt dulliau angladdol newydd wedi'u rheoleiddio o dan yr adran 45C ddiwygiedig. Bydd angen "bygythiad i iechyd y cyhoedd", nad yw'n ofynnol o dan adran 47(1)(a). Fodd bynnag, mae'n ymddangos yn debygol mai dim ond pe bai bygythiad o'r fath y byddai darpariaeth yn cael ei chyflwyno o dan adran 47(1)(a). Un gwahaniaeth arall yw y gall fod angen gweithdrefn gymeradwyo gadarnhaol/gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd ar gyfer rheoliadau o dan adran 45C ac fel arall bydd angen gweithdrefn negyddol/gweithdrefn annilysu'r Senedd, ond nid oes gweithdrefn seneddol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 47.
- 7.45 Mae'n briodol, fel y nodir uchod, unwaith y bydd dull angladdol newydd wedi'i reoleiddio, y dylai'r weithdrefn seneddol ar gyfer rheoliadau a wneir ynghylch claddu, amlosgi neu ddulliau angladdol newydd sy'n cael eu rheoleiddio o dan y pŵer yn adran 45C fod yr un fath.

Dulliau angladdol newydd sydd heb eu rheoleiddio

- 7.46 Cyflwynwyd adran 47(1)(a), ar ei ffurf wreiddiol yn Neddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1926, oherwydd bod y Llywodraeth ar y pryd eisiau'r gallu i gyflwyno rheolau ynghylch dulliau nad oeddent yn cael eu rheoleiddio ond a allai fod yn cael eu defnyddio. Claddu yn y môr oedd yr enghraifft a roddwyd yn ystod hynt y ddeddfwriaeth wreiddiol.¹⁰ Ar hyn o bryd, gallai'r pŵer yn adran 47(1)(a) gael ei ddefnyddio gan y Llywodraethau perthnasol i reoleiddio dull angladdol newydd mewn ffordd gyfyngedig. Gall hyn fod yn angenrheidiol yng nghyd-destun argyfwng iechyd y cyhoedd, neu os oedd clefyd penodol yn golygu bod claddu neu amlosgi yn beryglus i iechyd y cyhoedd. Efallai y bydd angen diwygio deddfwriaeth cofrestru marwolaethau er mwyn galluogi hyn, neu o leiaf i egluro'r sefyllfa.
- 7.47 Fel yn yr Adroddiad hwn, rydym yn argymhell y dylid gwahardd defnyddio dulliau angladdol newydd heb eu rheoleiddio, ni ddylid defnyddio dulliau o'r fath. Pe baent, gellid erlyn y gweithredwr o dan y drosedd newydd.¹¹ Felly, byddai'n ddiangen, ac yn gwbl afresymegol, gosod amod yn datgan y dylid defnyddio dull angladdol newydd heb ei reoleiddio mewn ffordd benodol.
- 7.48 Credwn ei bod yn bosibl y bydd angen i'r ddwy Lywodraeth alluogi defnyddio dull angladdol newydd nad yw'n cael ei reoleiddio fel ymateb i argyfwng iechyd y cyhoedd. Er enghraifft, pe bai clefyd yn dod i'r amlwg ac na ellid claddu a/neu amlosgi cyrff y rheini a oedd wedi marw o'r clefyd hwnnw, efallai y byddai'n cael ei ystyried yn angenrheidiol rheoleiddio dull angladdol newydd fel y gellid ei ddefnyddio fel dewis arall. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, gallai'r Llywodraethau dan sylw osod amodau neu gyfyngiadau ar unrhyw ddull angladdol newydd er budd iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd. Byddai'r fframwaith newydd yn caniatáu iddynt wneud

⁹ Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, adran 45R.

¹⁰ Hansard (HL), 7 Rhagfyr 1926, cyf 65, col 1283-1284.

¹¹ Gweler Argymhelliad 15 yr Adroddiad hwn.

rheoliadau gan ddefnyddio'r pwerau a nodir yn y Biliau drafft. Gan mai'r rhain fyddai'r rheoliadau cyntaf ynghylch dull penodol, byddai'r gofynion ychwanegol a nodir yn Atodlen 2 i bob un o'r Biliau drafft yn berthnasol.

- 7.49 Gan ei bod yn bosibl y gellid defnyddio'r pŵer yn adran 47(1)(a) ar hyn o bryd i reoleiddio dull angladdol newydd nad oedd yn cael ei reoleiddio o'r blaen, er bod hynny mewn ffordd gyfyngedig, rydym o'r farn y byddai'n briodol i'r Llywodraethau perthnasol allu defnyddio gweithdrefn sy'n cymryd llai o amser os ydynt o'r farn bod hynny'n angenrheidiol, am resymau brys, er budd iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch y cyhoedd. Credwn y byddai gweithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'/gweithdrefn gadarnhau'r Senedd yn briodol. Dyma'r weithdrefn a fyddai'n gymwys i reoliadau a wneir o dan adran 45C (ynghylch dulliau angladdol sy'n cael eu rheoleiddio) pan fo'r rheoliadau'n gosod, neu y gallent alluogi gosod, cyfyngiad neu ofyniad a fyddai'n cael effaith sylweddol ar hawliau person (neu gyfyngiad y gellid ei osod gan ynad heddwch), ac y mae angen ei wneud ar frys.
- 7.50 O dan weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'/gweithdrefn gadarnhau'r Senedd, byddai rheoliadau'n cael eu gwneud a'u gosod gerbron Senedd y DU neu Senedd Cymru ond ni fyddent yn parhau'n gyfraith am fwy na 28 diwrnod oni bai eu bod yn cael eu cymeradwyo. Credwn fod hyn yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng brys a'r angen i sicrhau rheolaeth seneddol.
- 7.51 Ym Mhennod 4, rydym yn cyflwyno argymhelliad am y gweithdrefnau seneddol a ddylai fod yn berthnasol i wahanol fathau o reoliadau a wneir o dan y Biliau drafft. Yn y bennod honno, rydym yn argymhell, am y rhesymau a nodir uchod, pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru yn gwneud datganiad ei bod yn angenrheidiol ar frys er budd iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch y cyhoedd, y gellir gwneud unrhyw reoliadau fel arfer gan ddefnyddio gweithdrefn gadarnhaol ddrafft/gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd, gan gynnwys lle mae gofynion ychwanegol ar gyfer rheoliadau tro cyntaf, yn lle hynny gellir eu gwneud gan ddefnyddio gweithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'/ gweithdrefn gadarnhau'r Senedd.

Claddu yn y môr

- 7.52 Fel yr esboniwyd yn ein Papur Ymgynghori, mae testun adran 47 wedi dod, heb ei addasu i raddau helaeth, o Ddeddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1926, drwy Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936.¹² Pan aeth Deddf 1926 drwy'r Senedd, nododd yr Is-iarll Gage (ar ran y Llywodraeth) fod y Bil yn ychwanegu mesurau diogelu i leihau "bylchau... ar gyfer cuddio trosedd". Dywedodd yr Is-iarll Gage:

o ran cael gwared ar gorff drwy ddulliau ar wahân i gladdu neu amlosgi - fel claddu yn y môr ... mae'n ymddangos nad oes unrhyw fesur diogelu ar hyn o bryd lle gellir atal arferion troseddol, gydag unrhyw sicrwydd.¹³

- 7.53 Mae claddu yn y môr bellach yn cael ei reoleiddio drwy Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Mae'r Sefydliad Rheoli Morol yn gweinyddu trwyddedau morol ar gyfer dyfroedd Lloegr ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweinyddu trwyddedau morol ar

¹² Dulliau Angladdol Newydd (2025) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 272 paragraffau 3.13 i 3.18.

¹³ Hansard (HL), 7 Rhagfyr 1926, cyf 65, col 1283-1284.

gyfer dyfroedd Cymru. Mewn argyfwng iechyd y cyhoedd, byddai'n bosibl i'r sefydliadau hyn newid eu dull o gyhoeddi trwyddedau.

- 7.54 Nid ydym yn ymwybodol bod unrhyw fwriad o hyd i bŵer adran 47 fod yn berthnasol i gladdu yn y môr, ac mae'n ymddangos yn annhebygol iawn y byddai diddymu adran 47(1)(a) yn arwain at unrhyw ganlyniadau ymarferol o ran claddu yn y môr. Mae'r cwestiwn a ddylai'r Llywodraethau perthnasol gael y gallu i wneud rheoliadau ynghylch claddu yn y môr mewn argyfwng iechyd cyhoeddus y tu hwnt i gwmpas y prosiect hwn. Gall y gwahanol Lywodraethau ystyried hyn ymhellach os oes angen.

Casgliad

- 7.55 Os bydd ein hargymhellion yn yr adroddiad hwn yn cael eu rhoi ar waith, ni fydd angen y pŵer yn adran 47(1)(a), am y rhesymau a nodir uchod. Rydym yn argymhell y dylid diddymu'r ddarpariaeth hon.

Argymhelliad 17.

- 7.56 Rydym yn argymhell y dylid gwneud diwygiadau i'r adrannau canlynol o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer dulliau angladdol newydd a reoleiddir yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth ar gyfer claddu ac amlosgi: 45C, 45H a 46.
- 7.57 Rydym yn argymhell y dylid diddymu adran 47(1)(a) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984.

- 7.58 Daw'r argymhelliad hwn i rym gan baragraff 5 o Atodlen 1 i'r Biliau drafft.

PLANT SY'N DERBYN GOFAL GAN AWDURDOD LLEOL

Deddf Plant 1989

- 7.59 Mae Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989 yn cynnwys darpariaethau ynghylch cymorth i blant a theuluoedd a ddarperir gan awdurdodau lleol yn Lloegr. Mae paragraff 20 o'r Atodlen honno yn nodi'r camau y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu cymryd, neu y caniateir i awdurdod lleol eu cymryd, pan fydd plentyn sy'n derbyn gofal ganddo yn marw.¹⁴ O dan baragraff 20(1)(c), caiff yr awdurdod lleol, gyda chydysyniad (i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol ei gael) pob person sydd â chyfrifoldeb rhiant¹⁵ dros y plentyn, drefnu i gorff y plentyn gael ei gladdu neu ei amlosgi.
- 7.60 Os bydd plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn marw, dylai'r awdurdod allu trefnu, gyda'r un gofynion cydsynio ag ar gyfer dulliau angladdol eraill, i ddull

¹⁴ Plentyn sy'n derbyn gofal yw plentyn sydd wedi bod yng ngofal awdurdod lleol neu wedi cael llety ganddo am fwy na 24 awr (Deddf Plant 1989, adran 22). Gall hyn fod mewn gofal maeth neu mewn cartref preswyl i blant (ymhlith mathau eraill o lety), a gall y plentyn fod yng ngofal yr awdurdod lleol o dan wahanol seiliau cyfreithiol, fel gorchmynion gofal neu gytundeb gwirfoddol.

¹⁵ Diffinnir "cyfrifoldeb rhiant" yn Neddf Plant 1989, adran 3 fel rhywun sydd â'r holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant plentyn, yn ôl y gyfraith, yng nghyswllt y plentyn a'i eiddo".

angladdol newydd rheoledig gael ei ddefnyddio yn lle claddu neu amlosgi. Bydd hyn yn rhoi dulliau angladdol newydd wedi'u rheoleiddio ar yr un sail â dulliau angladdol sydd wedi ennill eu plwyf. Ni fydd unrhyw orfodaeth ar awdurdodau lleol i ddefnyddio dull angladdol penodol.

- 7.61 Mae paragraff 20(3) yn datgan na cheir defnyddio amlosgi “pan nad yw'n cyd-fynd ag arfer enwad crefyddol y plentyn”. Dylai'r un peth fod yn berthnasol i ddefnyddio dull angladdol newydd wedi'i reoleiddio.
- 7.62 Mae paragraff 20(6) yn datgan nad yw paragraff 20 yn effeithio ar unrhyw ddeddfiad sy'n rheoleiddio neu'n awdurdodi claddu, amlosgi neu archwilio anatomeg corff person ymadawedig. Dylid diwygio hyn fel na fydd unrhyw beth yn y paragraff yn effeithio ar unrhyw ddeddfiad sy'n rheoleiddio neu'n awdurdodi'r broses o ddefnyddio dull angladdol newydd wedi'i reoleiddio ar gorff person ymadawedig.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

- 7.63 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys yr un darpariaethau ar gyfer Cymru ag y mae Deddf Plant 1989 yn eu cynnwys ar gyfer Lloegr. Rydym yn argymhell y dylid gwneud yr un newidiadau. Mae'r rhain wedi'u nodi isod.
- 7.64 Mae adran 125 yn nodi'r camau y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu cymryd, neu y caiff eu cymryd, os bydd plentyn y mae'n gofalu amdano yn marw. O dan adran 125(1)(c), caiff yr awdurdod lleol, gyda chydsyniad (i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol ei gael) pob person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, drefnu i gorff y plentyn gael ei gladdu neu ei amlosgi. Dylid diwygio'r adran hon fel y gall awdurdod lleol drefnu i ddull angladdol newydd a reoleiddir gael ei ddefnyddio, yn lle claddu neu amlosgi. Bydd hyn yn rhoi dulliau angladdol newydd wedi'u rheoleiddio ar yr un sail â dulliau angladdol sydd wedi ennill eu plwyf. Ni fydd unrhyw orfodaeth ar awdurdodau lleol i ddefnyddio dull angladdol penodol.
- 7.65 Mae adran 125(3) yn gwahardd defnyddio amlosgi lle nad yw'n cyd-fynd ag arfer enwad crefyddol y plentyn. Dylai'r un peth fod yn berthnasol i ddefnyddio dull angladdol newydd wedi'i reoleiddio. Ni ddylid defnyddio dull angladdol newydd a reoleiddir os nad yw defnyddio'r dull yn cyd-fynd ag arfer enwad crefyddol y plentyn.
- 7.66 Mae adran 125(6) yn datgan nad yw paragraff 125 yn effeithio ar unrhyw ddeddfiad sy'n rheoleiddio neu'n awdurdodi claddu, amlosgi neu archwilio anatomeg corff person ymadawedig. Dylid diwygio hyn fel nad yw'r adran yn effeithio ar ddeddfiadau sy'n rheoleiddio neu'n awdurdodi defnyddio dull angladdol newydd wedi'i reoleiddio ar gorff person ymadawedig.

Argymhelliad 18.

7.67 Rydym yn argymhell y dylid gwneud diwygiadau i'r canlynol, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer dulliau angladdol newydd a reoleiddir yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth ar gyfer claddu ac amlosgi.

- (1) Paragraff 20 o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989 (yng nghyswllt Lloegr).
- (2) Adran 125 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (yng nghyswllt Cymru).

7.68 Daw'r argymhelliad hwn i rym gan baragraff 6 o Atodlen 1 i'r Biliau drafft.

DARPARU A HWYLUSO SEILWAITH

Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980

7.69 O dan Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddynodi darn o dir yn ardal datblygu trefol.¹⁶ Mae adran 135 yn nodi, at ddibenion adfywio ardal datblygu trefol, y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn sefydlu corfforaeth, a elwir yn gorfforaeth datblygu trefol.

7.70 O dan adran 136A, gall corfforaeth datblygu trefol yn Lloegr ddarparu neu hwyluso'r broses o ddarparu seilwaith at ddibenion adfywio ei ardal. Diffinnir "seilwaith" yn isadran (3)(f) fel un sy'n cynnwys "cyfleusterau amlosgi neu gladdu". Dylid diwygio'r diffiniad hwn hefyd i gynnwys cyfleusterau sy'n defnyddio dulliau angladdol newydd sy'n cael eu rheoleiddio.

Deddf Trefi Newydd 1981

7.71 O dan Ddeddf Trefi Newydd 1981, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud gorchymyn yn dynodi y dylai darn o dir gael ei ddatblygu fel tref newydd gan gorfforaeth a sefydlwyd o dan y Ddeddf hon, os yw hynny'n fanteisiol er lles y genedl.¹⁷ Mae adran 3 yn nodi y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol drwy orchymyn yn sefydlu corfforaeth, a elwir yn gorfforaeth ddatblygu, at ddibenion datblygu pob tref newydd sydd wedi'i dynodi o dan y Ddeddf.

7.72 Amcanion corfforaeth datblygu yw sicrhau gosod allan a datblygu'r dref newydd.¹⁸ At y dibenion hyn, gall corfforaeth datblygu a sefydlwyd at ddibenion tref newydd yn Lloegr ddarparu neu hwyluso'r broses o ddarparu seilwaith.¹⁹

¹⁶ Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980, adran 134.

¹⁷ Deddf Trefi Newydd 1981, adran 1.

¹⁸ Deddf Trefi Newydd 1981, adran 4.

¹⁹ Deddf Trefi Newydd 1981, adran 4A.

7.73 Mae adran 4A(3)(f) yn nodi bod “seilwaith” yn golygu...cyfleusterau amlosgi neu gladdu”. Dylid diwygio’r diffiniad hwn i gynnwys cyfleusterau ar gyfer cyflawni dulliau angladdol newydd wedi’u rheoleiddio.

Deddf Tai ac Adfywio 2008

7.74 Sefydlodd Deddf Tai ac Adfywio 2008 yr Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau (yr HCA), a elwir bellach yn Homes England.²⁰

7.75 Mae Adran 2 o Ddeddf 2008 yn nodi amcanion yr HCA, sy’n cynnwys sicrhau “adfywio neu ddatblygu tir neu seilwaith yn Lloegr” (adran 2(1)(b)) gyda’r bwriad o ddiwallu anghenion pobl sy’n byw yn Lloegr.²¹ O dan adran 7, gall yr HCA ddarparu a hwyluso’r gwaith o ddarparu seilwaith.

7.76 Mae adran 2(3)(f) yn diffinio “seilwaith” fel un sy’n cynnwys “cyfleusterau amlosgi neu gladdu”. Dylai’r diffiniad hwn hefyd gynnwys cyfleusterau sy’n defnyddio dulliau angladdol newydd wedi’u rheoleiddio. Mae hyn yn golygu y gall yr HCA hefyd ddarparu a hwyluso’r broses o ddarparu’r rhain o dan adran 7.

Deddf Lleoliaeth 2011

7.77 O dan Ddeddf Lleoliaeth 2011, gall Maer Llundain ddynodi unrhyw ddarn o dir yn Llundain Fwyaf fel Ardal Ddatblygu Faerol a rhaid iddo roi gwybod i’r Ysgrifennydd Gwladol am y dynodiad²². O dan adran 198 o Ddeddf 2011, pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael gwybod bod Ardal Ddatblygu Faerol wedi cael ei dynodi, rhaid iddo sefydlu drwy orchymyn corfforaeth ar gyfer yr ardal, sy’n Gorfforaeth Datblygu Maerol (MDC). Amcan MDC yw sicrhau adfywiad ei ardal.²³

7.78 Mae adran 205 yn nodi y gall MDC ddarparu a hwyluso’r gwaith o ddarparu seilwaith. Mae adran 205(4)(f) yn nodi bod “seilwaith” yn golygu...cyfleusterau amlosgi neu gladdu”. Dylid diwygio’r diffiniad hwn i gynnwys cyfleusterau ar gyfer cyflawni dulliau angladdol newydd wedi’u rheoleiddio. Bydd hyn yn galluogi Corfforaethau Datblygu Maerol i ddarparu a hwyluso’r broses o ddarparu’r cyfleusterau hyn, yn yr un modd ag ar gyfer cyfleusterau amlosgi neu gladdu.

²⁰ Gov.uk, *Homes and Communities Agency (Sy’n Masnachu fel Homes England)* (2022) https://find-and-update.company-information.service.gov.uk/officers/ftGBO5WUOnE_M-6vnqfMcse_LyM/appointments.

²¹ Mae Deddf Tai ac Adfywio 2008, adran 2(2) yn nodi nad yw Lloegr yn cynnwys Llundain Fwyaf.

²² Deddf Lleoliaeth 2011, adran 197.

²³ Deddf Lleoliaeth 2011, adran 201(1).

Argymhelliad 19.

7.79 Rydym yn argymhell y dylid gwneud diwygiadau i'r Deddfau canlynol, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer dulliau angladdol newydd a reoleiddir yn cydfynd â'r ddarpariaeth ar gyfer claddu ac amlosgi.

- (1) Adran 136A o Ddeddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980.
- (2) Adran 4A o Ddeddf Trefi Newydd 1981.
- (3) Adran 2 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008.
- (4) Adran 205 o Ddeddf Lleoliaeth 2011.

7.80 Daw'r argymhelliad hwn i rym gan baragraff 5 i 8 o Atodlen 1 i'r Bil drafft ar gyfer Lloegr. Nid yw'r darpariaethau y cyfeirir atynt yn yr argymhelliad hwn yn berthnasol i Gymru, felly nid yw'r argymhelliad yn cael ei adlewyrchu yn y Bil drafft i Gymru.

PŴER I DDIWYGIO DEDDFWRIAETH SYLFAENOL

7.81 Rydym wedi disgrifio diwygiadau y dylid eu gwneud i ddeddfwriaeth bresennol yn y Biliau drafft. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen diwygiadau pellach o ran dulliau angladdol newydd unigol, ar ôl iddynt gael eu rheoleiddio.

7.82 Er enghraifft, efallai y bydd angen i'r gwahanol Lywodraethau ystyried diwygiadau i'r ddeddfwriaeth ganlynol.

- (1) Mae adran 25 o Ddeddf Claddu 1857 yn gwahardd datgladdu gweddillion dynol sydd wedi cael eu claddu heb drwydded neu ganiatâd arall. Gall fod yn briodol i weddillion penodol o rai dulliau angladdol newydd fod yn ddarostyngedig i'r gwaharddiad ar ddatgladdu heb ganiatâd. Ar hyn o bryd, mae'r gwaharddiad yn berthnasol i'r llwch sy'n weddill ar ôl amlosgi. Mae'n bosibl y byddai'r Llywodraethau perthnasol yn penderfynu y dylid trin y powdwr sy'n weddill ar ôl hydrolysis alcaliaidd yn yr un ffordd fel bod datgladdu'r gweddillion hyn yn cael ei wahardd. Fodd bynnag, gellir trin y pridd o gompostio dynol mewn ffordd wahanol a gellir penderfynu na ddylai'r gwaharddiad fod yn gymwys.
- (2) Mae adran 32 o Ddeddf Cymalau Mynwentydd 1847 ac adran 1 o Ddeddf Cofrestru Claddedigaethau 1864 yn cynnwys rhwymedigaethau ynghylch cofrestru'r broses o gladdu gweddillion. Efallai y bydd angen diwygio'r darpariaethau hyn i'w gwneud yn glir bod claddu'n cynnwys claddu gweddillion penodol gan ddilyn dull angladdol newydd unigol, ac felly y byddai'r darpariaethau ynghylch cofrestru'r broses o gladdu gweddillion yn berthnasol. Rydym hefyd yn trafod hyn ym mharagraffau 4.29 i 4.35 yr Adroddiad hwn.
- (3) O dan adran 48(1) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, pan fyddai cadw corff marw yn peryglu iechyd unrhyw berson, caiff ynad heddwch gyflwyno gorchymyn bod rhaid claddu'r corff o fewn cyfnod penodedig o amser. O dan adran 48(2) o Ddeddf 1984, bernir bod perthnasau neu gyfeillion person

ymadawedig yn cydymffurfio â'r gorchymyn os ydynt yn peri i'r corff gael ei amlosgi o fewn y cyfnod penodedig, neu ar unwaith. Efallai y bydd angen diwygio'r ddarpariaeth hon fel y bernir bod perthnasau neu gyfeillion person ymadawedig yn cydymffurfio â'r gorchymyn os ydynt yn peri i'r corff ddilyn dull angladdol newydd penodol o fewn y cyfnod penodedig. Nid yw'n briodol diwygio deddfwriaeth sylfaenol yn y Biliau drafft, fel y gellir defnyddio unrhyw dull angladdol newydd yn lle claddu neu amlosgi yn yr amgylchiadau hyn. Bwriad y ddarpariaeth hon yw sicrhau y gellir claddu neu amlosgi'n gyflym os oes angen. Gall rhai dulliau angladdol newydd gymryd misoedd, felly efallai na fydd yn briodol i'r dulliau hyn fod yn opsiwn o dan y ddarpariaeth hon. Mae'r rhain yn benderfyniadau y dylai'r gwahanol Lywodraethau allu eu gwneud wrth reoleiddio dulliau angladdol newydd unigol.

- 7.83 Felly, rydym yn argymhell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael y pŵer i ddiwygio neu ddiddymu deddfwriaeth sy'n dod i rym yng nghyswllt claddu neu amlosgi, fel ei bod hefyd yn berthnasol i ddull angladdol newydd unigol. Bydd hyn yn sicrhau y byddant yn gallu gwneud diwygiadau canlyniadol sy'n benodol i ddulliau unigol a gaiff eu rheoleiddio yn y dyfodol.
- 7.84 Nodwn fod darpariaethau amrywiol mewn deddfwriaeth sylfaenol ynghylch treth sy'n ymwneud â chladdu ac amlosgi.²⁴ Mae treth y tu allan i gwmpas y prosiect. Mater i'r gwahanol Lywodraethau fydd ystyried a oes angen diwygio'r deddfwriaeth treth ac, os felly, sut i wneud hyn.

Argymhelliad 20.

- 7.85 Rydym yn argymhell y dylai'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau am ddulliau angladdol newydd unigol gynnwys pŵer i ddiwygio neu ddiddymu deddfwriaeth sy'n cael effaith yng nghyswllt claddu neu amlosgi, fel ei bod hefyd yn berthnasol i ddull angladdol newydd unigol.

- 7.86 Caiff yr argymhelliad hwn ei roi ar waith gan gymal 10(4) ac adran 10(4) o'r Biliau drafft.

TREULIAU ANGLADD

- 7.87 Mae adran 9 o Ddeddf Amlosgi 1902 yn nodi y bydd taliadau neu ffioedd fel y cânt eu nodi mewn tabl a gymeradwywyd gan Fwrdd Llywodraeth Leol, neu unrhyw dreuliau eraill a ysgwyddwyd yn briodol wrth amlosgi person ymadawedig neu mewn cysylltiad ag ef, yn cael eu hystyried yn rhan o dreuliau angladd y person ymadawedig. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn nodi'r dibenion na'r deddfwriaeth y gellir ystyried treuliau ar eu cyfer yn dreuliau angladd.

²⁴ Mae adrannau 46 i 49 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2009 yn nodi rheolau ar gyfer cyfrifo elw mynwentydd neu amlosgfeydd (ac, yng nghyswllt amlosgfeydd, cynnal rhandiroedd gerddi coffa). Mae darpariaeth debyg yng nghyswllt treth incwm yn adrannau 169 i 172 o Ddeddf Treth Incwm (Masnachu ac Incwm Arall) 2005.

- 7.88 Cyfeirir at gostau angladd mewn gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol (ac is-ddeddfwriaeth). Er enghraifft, mae adran 34 o Ddeddf Gweinyddu Ystadau 1925 yn datgan y gellir talu treuliau angladd o ystâd person ymadawedig. Yn y Cod Dedfrydu,²⁵ mae adran 133 yn nodi bod gorchymyn iawndal sy'n mynnu bod troseddwr yn talu iawndal am anaf personol, colled neu ddifrod sy'n deillio o drosedd, yn talu am gostau angladd. Mae adrannau 136 a 138 yn cyflwyno darpariaethau pellach ynghylch hyn. Nid yw "treuliau angladd" wedi'u diffinio yn y naill Ddeddf na'r llall.
- 7.89 Efallai y bydd y Llywodraethau perthnasol yn dymuno nodi y dylid ystyried bod treuliau penodol sy'n codi yng nghyswllt defnyddio dull angladdol newydd yn rhan o gostau angladdol y person ymadawedig, at ddibenion penodol.²⁶ Nid ydym yn gwybod pa ddulliau angladdol newydd fydd yn cael eu rheoleiddio, felly byddai'n anodd iawn gwybod yn awr pa gostau y dylid eu hystyried yn dreuliau angladd.
- 7.90 Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael y pŵer i ddynodi treuliau penodol sy'n ymwneud â dulliau angladdol newydd sy'n cael eu rheoleiddio fel treuliau angladd, at ddibenion a nodir yn y rheoliadau. Byddant wedyn yn gallu gwneud penderfyniadau am ddulliau unigol, gan eu bod yn cael eu rheoleiddio.

Argymhelliad 21.

- 7.91 Rydym yn argymhell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael y pŵer i nodi bod treuliau sy'n ymwneud â dull angladdol newydd i'w trin fel treuliau angladd at ddibenion penodol.
- 7.92 Caiff yr argymhelliad hwn ei roi ar waith gan gymal 2(2)(i) ac adran 2(2)(i) o'r Biliau drafft.

²⁵ Cyflwynwyd y Cod Dedfrydu gan Ddeddf Dedfrydu 2020.

²⁶ Rydym yn nodi bod adran 172 o Ddeddf Treth Etifeddiant 1984 yn nodi, wrth bennu gwerth ystad person yn union cyn ei farwolaeth, y caniateir ar gyfer costau angladd rhesymol. Fel y soniwyd, mae treth y tu allan i gwmpas y prosiect. Mater i'r gwahanol Lywodraethau fydd penderfynu sut i fynd i'r afael â hyn, os oes angen

Pennod 8: Argymhellion

Argymhelliad 1.

8.1 Rydym yn argymhell y dylai dulliau angladdol newydd gael eu diffinio a'u rheoleiddio ar wahân i'r dulliau angladdol presennol.

Paragraff 2.19

Argymhelliad 2.

8.2 Rydym yn argymhell y dylai'r diffiniad cyfreithiol o ddull angladdol newydd gynnwys:

- (1) proses;
- (2) ac eithrio claddu, amlosgi neu gladdu yn y môr;
- (3) sy'n dadelfennu corff person ymadawedig; a'i
- (4) bwrpas yw cael gwared ar gorff person ymadawedig (ac nid, er enghraifft, at ddibenion cadw cyrff neu ymchwilio iddynt).

Paragraff 2.39

Argymhelliad 3.

8.3 Rydym yn argymhell y dylai deddfwriaeth sylfaenol gael pŵer, y gellir ei arfer gan Weinidogion Cymru (ar gyfer Cymru) neu'r Ysgrifennydd Gwladol (ar gyfer Lloegr), i wneud rheoliadau sy'n cymeradwyo defnyddio dulliau angladdol newydd unigol ac yn nodi sut y dylid eu cyflawni.

Paragraff 2.66

Argymhelliad 4.

8.4 Rydym yn argymell, wrth reoleiddio dulliau angladdol newydd unigol, bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru roi sylw i bwysigrwydd yr egwyddorion canlynol.

- (1) Gwarchod yr amgylchedd.
- (2) Diogelu iechyd y cyhoedd a diogelwch y cyhoedd.
- (3) Trin gweddillion dynol ag urddas.

Paragraff 3.59

Argymhelliad 5.

8.5 Rydym yn argymell, wrth wneud rheoliadau am ddulliau angladdol newydd unigol, bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru wneud y canlynol:

- (1) ei gwneud yn ofynnol cofrestru dull angladdol newydd sy'n cael ei ddefnyddio ar gorff person ymadawedig; a
- (2) nodi sut a phwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r cofrestriad hwn.

Paragraff 4.42

Argymhelliad 6.

8.6 Rydym yn argymell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael y pŵer i fynnu bod gweddillion yn cael eu claddu gan ddilyn dull angladdol newydd unigol.

Paragraff 4.44

Argymhelliad 7.

8.7 Rydym yn argymell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael y pŵer i wneud rheoliadau sy'n mynnu, ar ôl defnyddio dull angladdol newydd penodol, bod lleoliad gweddillion neu ddeunydd sy'n deillio o ddefnyddio dull angladdol newydd yn cael ei gofnodi, p'un ai a yw'r gweddillion neu'r deunydd wedi cael eu claddu ai peidio.

Paragraff 4.46

Argymhelliad 8.

8.8 Rydym yn argymell y dylai'r pŵer i gyflwyno rheoliadau am ddulliau angladdol newydd unigol fod yn ddigon eang i gwmpasu'r materion canlynol:

- (1) cyfleusterau sy'n agor a chau;
- (2) lleoliad cyfleusterau;
- (3) gweithredu a chynnal cyfleusterau;
- (4) elfennau'r broses;
- (5) apwyntiadau;
- (6) dyfeisiau meddygol;
- (7) gweithdrefnau gwneud cais ar ran person ymadawedig;
- (8) amgylchiadau pan na chaniateir defnyddio dull angladdol newydd penodol;
- (9) gweddillion;
- (10) gweddillion ffetysau;
- (11) cyrff heb eu hadnabod;
- (12) hawliau a rhwymedigaethau;
- (13) monitro a gorfodi cydymffurfiaeth; ac
- (14) amgylchiadau pan ganiateir i unrhyw awdurdodiadau gael eu dirymu.

Paragraff 4.70

Argymhelliad 9.

8.9 Rydym yn argymell, wrth wneud rheoliadau am ddulliau angladdol newydd unigol, bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gyflwyno darpariaeth ynghylch arolygu cyfleusterau.

Paragraff 4.81

Argymhelliad 10.

8.10 Rydym yn argymhell y dylai'r gweithdrefnau canlynol fod yn berthnasol i reoliadau a wneir am ddulliau angladdol newydd unigol.

- (1) Fersiwn uwch o weithdrefn gymeradwyo ddrafft / gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd y tro cyntaf y caiff rheoliadau eu gwneud am ddull angladdol newydd penodol.
- (2) Gweithdrefn gadarnhaol ddrafft / gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd ar gyfer darpariaethau sy'n:
 - (a) diwygio'r diffiniad o ddull angladdol newydd penodol sydd wedi cael ei reoleiddio o'r blaen;
 - (b) creu troseddau am dorri darpariaeth yn y rheoliadau;
 - (c) gosod sancsiwn sifil am dorri darpariaeth yn y rheoliadau;
 - (d) cyflwyno darpariaeth ynghylch treialon; neu
 - (e) diwygio deddfwriaeth sylfaenol.
- (3) Gweithdrefn gadarnhaol ddrafft / gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd ar gyfer darpariaethau sy'n:
 - (a) rhoi pwerau archwilio, mynediad, chwilio, atafaelu neu gadw a phwerau cysylltiedig; neu
 - (b) rhoi pŵer i ddefnyddio grym rhesymol neu fynd i mewn i annedd breifat, gydag awdurdod gwarant, ar gyfer monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â'r rheoliadau;

Ile nad oes pwerau o'r fath eisoes yn bodoli wrth reoleiddio dulliau angladdol newydd.
- (4) Gweithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' / gweithdrefn gadarnhau'r Senedd lle mae'r Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru yn gwneud datganiad bod hyn, am resymau brys, yn angenrheidiol er budd iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch y cyhoedd.
- (5) Gweithdrefn negyddol / annilysu'r Senedd ar gyfer pob darpariaeth arall.

Paragraff 4.105

Argymhelliad 11.

8.11 Rydym yn argymell y dylid gwahardd defnyddio dull angladdol newydd nad yw wedi cael ei reoleiddio.

Paragraff 5.11

Argymhelliad 12.

8.12 Rydym yn argymell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru gael y pŵer i wneud rheoliadau sy'n galluogi i dreialon dulliau angladdol newydd gael eu hawdurdodi.

8.13 Pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru yn cyflwyno rheoliadau o dan y pŵer hwn, rydym yn argymell bod yn rhaid i'r rheoliadau:

- (1) ei gwneud yn ofynnol i gorff person gael ei ddefnyddio mewn treial o ddull angladdol newydd dim ond os yw'r person hwnnw wedi cydsynio i hyn cyn ei farwolaeth; a
- (2) nodi dull a ffurf y cydsyniad hwn.

Paragraff 5.60

Argymhelliad 13.

8.14 Rydym yn argymell y dylai fod yn drosedd i wneud sylwadau anwir yn anonest er mwyn caffael defnyddio dull angladdol newydd, gyda'r gosb uchaf yn cynnwys:

- (1) gydag euogfarn ddiannod, dirwy ddiderfyn neu garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na'r terfyn cyffredinol mewn llys ynadon (neu'r ddau); a
- (2) gyda ditiad, dirwy neu ddwy flynedd o garchar (neu'r ddau).

Paragraff 6.30

Argymhelliad 14.

8.15 Rydym yn argymhell:

- (5) Regulations under this section may not authorise a permit to make provision that could be made under section 3(2)(b) or (c) (offences and fixed monetary penalties).

Fetal remains

5 Regulation of methods for disposing of fetal remains

- (1) This section applies where a modern funerary method is regulated under section 2.
- (2) The Welsh Ministers may make regulations in relation to the disposal of fetal remains by the same method.
- (3) Regulations under this section may include any provision that could (or must) be made under section 2 or 3 in relation to the disposal of relevant human remains.
- (4) In this section “fetal remains” includes the remains of an embryo.

Offences

6 Offence of using unregulated modern funerary method

- (1) A person commits an offence if the person disposes of relevant human remains in Wales by an unregulated modern funerary method—
 - (a) knowing that they are carrying out a modern funerary method, and
 - (b) knowing that, or being reckless as to whether, that method is unregulated.
- (2) For the purposes of this section a modern funerary method is “unregulated” if it is not regulated under section 2 or 4.
- (3) A person who commits an offence under this section is liable—
 - (a) on summary conviction, to imprisonment for a term not exceeding the general limit in a magistrates’ court or a fine (or both);
 - (b) on conviction on indictment, to imprisonment for a term not exceeding three years or a fine (or both).

7 Offence of providing false information to procure regulated modern funerary method

- (1) A person commits an offence if the person dishonestly makes a false representation for the purpose of procuring the disposal of relevant human remains in Wales by a modern funerary method to which regulations under section 2 or 4 apply.

- (2) Subsections (2) to (5) of section 2 of the Fraud Act 2006 (fraud by false representation) apply for the purposes of subsection (1).
- (3) A person who commits an offence under this section is liable—
 - (a) on summary conviction, to imprisonment for a term not exceeding the general limit in a magistrates' court or a fine (or both);
 - (b) on conviction on indictment, to imprisonment for a term not exceeding two years or a fine (or both).

General

8 Consequential amendments

Schedule 1 makes consequential amendments to other legislation.

9 Interpretation

- (1) In this Act—
 - “burial” (*“claddu”*) means the interment of human remains in any place (including a chamber), whether above or below the ground;
 - “cremation” (*“amlosgi”*) means the burning of human remains;
 - “human remains” (*“gweddillion dynol”*) includes the remains of a still-born child, within the meaning given by section 41(1) of the Births and Deaths Registration Act 1953;
 - “relevant human remains” (*“gweddillion dynol perthnasol”*) means human remains other than—
 - (a) material to which human remains have been reduced by cremation in accordance with regulations under section 7 of the Cremation Act 1902;
 - (b) material to which human remains have been reduced by the use of a modern funerary method in accordance with regulations under section 2 or 4.
- (2) For the meaning of “funerary method” (*“dull angladdol”*) and “modern funerary method” (*“dull angladdol modern”*), see section 1.

10 Regulation-making powers

- (1) Regulations under this Act may make—
 - (a) consequential, supplementary, incidental, transitional, transitory or saving provision;
 - (b) different provision for different purposes or areas.
- (2) Regulations under this Act may confer a function (including a function involving the exercise of a discretion) on any person specified in or appointed under the regulations.
- (3) Regulations under this Act may provide that the processing of information in accordance with the regulations is not in breach of—
 - (a) any obligation of confidence owed by the person processing the information, or
 - (b) any other restriction on the processing of information (however imposed).

- (4) Regulations under section 2 or 3 may amend or repeal provision contained in an Act of Senedd Cymru, an Assembly Measure or an Act of the Parliament of the United Kingdom, that relates or refers to burial or cremation.
- (5) The provision that may be included in regulations under subsection (4) includes consequential provision amending an Act of Senedd Cymru, an Assembly Measure or an Act of the Parliament of the United Kingdom.
- (6) In this section “processing” has the same meaning as in the Data Protection Act 2018 (see section 3 of that Act).

11 Procedure for regulations

- (1) Regulations under this Act are to be made by Welsh statutory instrument.
- (2) Subject to subsection (5), the first regulations under section 2 in relation to a particular modern funerary method are subject to the procedure set out in Schedule 2.
- (3) Subject to subsection (5), the following are subject to the Senedd approval procedure—
 - (a) regulations under section 2 that change the way a modern funerary method is specified in regulations under that section;
 - (b) regulations under section 3(2) or (3), except where the only provision made by those regulations is provision conferring powers mentioned in section 3(2)(a) or (3) that are already conferred, for other purposes, by existing regulations under section 3;
 - (c) regulations under section 4;
 - (d) regulations under section 5, where they include provision of a kind that could be made under section 3(2) or (3), except where the only such provision confers powers mentioned in section 3(2)(a) or (3) that are already conferred, for other purposes, by existing regulations under section 5;
 - (e) regulations under subsection (4) or (5) of section 10.
- (4) Any other regulations under this Act are subject to the Senedd annulment procedure.
- (5) Regulations referred to in subsection (2) or (3) may be made without complying with that subsection if the instrument containing the regulations contains a declaration that the Welsh Ministers are of the opinion that it is necessary in the interests of public health or safety to make the regulations urgently.
- (6) Regulations made in reliance on subsection (5) are subject to the Senedd confirmation procedure.
- (7) For the purposes of section 37D(3)(a) of the Legislation (Wales) Act 2019 (anaw 4), the period specified in relation to regulations made under subsection (5) is 28 days beginning with the day on which the regulations are made.
- (8) Any provision that may be made by regulations under this Act subject to the Senedd approval procedure or the Senedd annulment procedure may be made by regulations subject to the procedure set out in Schedule 2.

12 Coming into force

This Act comes into force at the end of the period of two months beginning with the day on which it receives Royal Assent.

13 Short title

This Act may be referred to as the Modern Funerary Methods (Wales) Act 2026.

SCHEDULE 1
(introduced by section 8)

CONSEQUENTIAL AMENDMENTS
Births and Deaths Registration Act 1926 (c. 48)

1 In section 12 of the Births and Deaths Registration Act 1926 (definitions), for the definition of “person effecting the disposal” substitute—

“ “person effecting the disposal” —

- (a) in the case of a burial under the Burial Laws Amendment Act 1880 in the churchyard or graveyard of a parish or ecclesiastical district, means the relative, friend, or legal representative having charge of or being responsible for the burial of the deceased person;
- (b) in the case of a disposal by a method regulated under section 2 or 4 of the Modern Funerary Methods (Wales) Act 2026 (asc 00), means the person by whom the disposal is to be registered by virtue of that Act;
- (c) in any other case, means—
 - (i) the person by whom the register of burials in which the disposal is to be registered is kept, or
 - (ii) the person by whose officer that register is kept.”

Births and Deaths Registration Act 1953 (c. 20)

2 (1) Section 24 of the Births and Deaths Registration Act 1953 (certificates as to registration of death) is amended as follows.

(2) In subsection (3), after “disposal” insert “, by an authorised funerary method,”.

(3) For subsection (6) substitute—

“(6) In this section—

“authorised funerary method” means—

- (a) burial,
- (b) cremation, or
- (c) a method regulated under section 2 or 4 of the Modern Funerary Methods (Wales) Act 2026 (asc 00);

“person effecting the disposal” —

- (a) in the case of a burial under the Burial Laws Amendment Act 1880 or section 4 of the Welsh Church (Burial Grounds) Act 1945, in the churchyard or graveyard of a parish or ecclesiastical district, means the relative, friend or legal personal representative having charge of or being responsible for the burial of the deceased person;

- (b) in the case of a disposal by a method regulated under section 2 or 4 of the Modern Funerary Methods (Wales) Act 2026 (asc 00), means the person by whom the disposal is to be registered by virtue of that Act;
- (c) in any other case, means—
 - (i) the person by whom the register in which the disposal is to be recorded is kept, or
 - (ii) the person by whose officer that register is kept.”

Public Health (Control of Disease) Act 1984 (c. 22)

- 3 (1) The Public Health (Control of Disease) Act 1984 is amended as follows.
- (2) In section 45C(4) (restrictions and requirements that may be imposed or enabled), after paragraph (b) insert—
- “(ba) a restriction or requirement relating to the carrying out of any method regulated under section 2 or 4 of the Modern Funerary Methods (Wales) Act (asc 00),”.
- (3) In section 45H(2) (restrictions and requirements that may be imposed), after paragraph (c) insert—
- “(ca) in the case of a dead body in Wales, that the body be disposed of by a method regulated under section 2 of the Modern Funerary Methods (Wales) Act (asc 00);”.
- (4) In section 46 (burial or cremation by local authority)—
- (a) for subsection (1) substitute—
- “(1) Subsection (1A) applies where—
- (a) a person has died or been found dead in the area of a local authority, and
- (b) it appears to the authority that no suitable arrangements for the disposal of the body have been or are being made, otherwise than by the authority.
- (1A) It is the duty of the local authority to cause the body to be disposed of—
- (a) where the person died or was found dead in the area of a local authority in Wales, by—
- (i) burial,
- (ii) cremation, or
- (iii) a method regulated under section 2 of the Modern Funerary Methods (Wales) Act 2026 (asc 00);
- (b) where the person died or was found dead in the area of a local authority in Wales, by—
- (i) burial, or
- (ii) cremation.”

- (b) in subsection (2A)—
 - (i) omit “to be buried or cremated”;
 - (ii) at the end insert “to be disposed of by—
 - (a) burial,
 - (b) cremation, or
 - (c) a method regulated under section 2 of the Modern Funerary Methods (Wales) Act 2026 (asc 00).”;
 - (c) in subsection (3), for “(1)” substitute “(1A)”;
 - (d) after subsection (3) insert—
 - “(3A) An authority must not cause a body to be disposed of under subsection (1A) or (2A) above by a method regulated under section 2 of the Modern Funerary Methods (Wales) Act 2026 (asc 00) where they have reason to believe that method would be contrary to the wishes of the deceased.”;
 - (e) in subsection (4), at the end insert “, or any provision made by or under the Modern Funerary Methods (Wales) Act 2026 (asc 00)”;
 - (f) in subsection (5), for “(1)”, substitute “(1A)”;
 - (g) for the heading substitute “Funerary methods”.
- (5) In section 47(1) (regulations about dead bodies), in paragraph (a), after “disposal” insert “in England”.

Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (anaw 4)

- 4 In section 125 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (death of children being looked after by local authorities in Wales)—
- (a) in subsection (1)(c), for “to be buried or cremated” substitute “to be disposed of by—
 - (i) burial,
 - (ii) cremation, or
 - (iii) a method regulated under section 2 of the Modern Funerary Methods (Wales) Act 2026 (asc 00)”;
 - (b) in subsection (3), after “cremation” insert “or the use of a method regulated under the Modern Funerary Methods (Wales) Act 2026 (asc 00)”;
 - (c) in subsection (6), for “burial, cremation or anatomical examination of” substitute “disposal by any method specified in subsection (1)(c), or the anatomical examination of,”.

SCHEDULE 2
(introduced by section 11(2))

ENHANCED PROCEDURE FOR FIRST REGULATIONS

Prior consultation

- 1 If the Welsh Ministers are proposing to make regulations under section 2 which would be the first regulations under that section in relation to a particular funerary method, the Welsh Ministers must consult such persons as the Welsh Ministers consider appropriate.

Draft regulations

- 2 (1) If, after consultation, the Welsh Ministers consider it appropriate to proceed with the making of the regulations, the Welsh Ministers must lay before Senedd Cymru—
- (a) draft regulations, and
 - (b) a document which explains the regulations.
- (2) The Welsh Ministers may not act under this paragraph before the end of the period of twelve weeks beginning with the day on which the consultation began.

Draft regulations approved

- 3 (1) The Welsh Ministers may make regulations in the terms of the draft regulations laid under paragraph 2 if, after the expiry of the 40-day period, the draft regulations are approved by a resolution of Senedd Cymru.
- (2) But the procedure in paragraph 4 is to apply to the draft regulations instead of the procedure in this paragraph if—
- (a) Senedd Cymru so resolves within the 30-day period, or
 - (b) a committee of Senedd Cymru charged with reporting on the draft regulations so recommends within the 30-day period and Senedd Cymru does not by resolution reject the recommendation within that period.

Scrutiny extended

- 4 (1) The Welsh Ministers must have regard to—
- (a) any representations,
 - (b) any resolution of Senedd Cymru, and
 - (c) any recommendations of a committee of Senedd Cymru charged with reporting on the draft regulations,
- made during the 60-day period with regard to the draft regulations.
- (2) If after the expiry of the 60-day period the draft regulations are approved by a resolution of Senedd Cymru, the Welsh Ministers may make regulations in the terms of the draft regulations.

- (3) If after the expiry of the 60-day period the Welsh Ministers wish to proceed with the draft regulations but with material changes, the Welsh Ministers may lay before Senedd Cymru—
 - (a) revised draft regulations, and
 - (b) a statement giving a summary of the changes proposed.
- (4) If the revised draft regulations are approved by a resolution of Senedd Cymru, the Welsh Ministers may make regulations in the terms of the revised draft regulations.

Interpretation

- 5 (1) For the purposes of this paragraph regulations are made in the terms of draft or revised draft regulations if they contain no material changes to their provisions.
- (2) In this Schedule, references to the “30-day”, “40-day” and “60-day” periods in relation to any draft regulations are to the periods of 30, 40 and 60 days beginning with the day on which the draft regulations were laid before Senedd Cymru.
- (3) For that purpose no account is to be taken of any time during which Senedd Cymru is dissolved or in recess for more than four days.

Bil Dulliau Angladdol Modern (Cymru)

[DRAFFT]

CYNNWYS

Rheoleiddio dulliau angladdol modern

- 1 Yr egwyddorion rheoleiddiol a'r prif gysyniadau allweddol
- 2 Rheoleiddio dulliau angladdol modern
- 3 Rheoliadau gorfodi
- 4 Caniatâd i brofi dulliau angladdol modern

Gweddillion ffetws

- 5 Rheoleiddio dulliau ar gyfer gwaredu gweddillion ffetws

Troseddau

- 6 Trosedd defnyddio dull angladdol modern heb ei reoleiddio
- 7 Trosedd darparu gwybodaeth anwir er mwyn caffael dull angladdol modern wedi ei reoleiddio

Cyffredinol

- 8 Diwygiadau canlyniadol
- 9 Dehongli
- 10 Pwerau i wneud rheoliadau
- 11 Y weithdrefn ar gyfer rheoliadau
- 12 Dod i rym
- 13 Enw byr

Atodlen 1 - Diwygiadau canlyniadol

Atodlen 2 - Gweithdrefn uwch ar gyfer y rheoliadau cyntaf

Bil Dulliau Angladdol Modern (Cymru)

[DRAFFT]

Deddf gan Senedd Cymru i wneud darpariaeth ar gyfer rheoleiddio dulliau angladdol modern yng Nghymru; ac at ddibenion cysylltiedig.

Gan ei fod wedi ei basio gan Senedd Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Fawrhydi, deddfir fel a ganlyn:

Rheoleiddio dulliau angladdol modern

1 Yr egwyddorion rheoleiddiol a'r prif gysyniadau allweddol

(1) Wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i bwysigrwydd—

- (a) trin gweddillion dynol ag urddas,
- (b) diogelu'r amgylchedd, ac
- (c) diogelu iechyd a diogelwch y cyhoedd.

(2) Yn y Ddeddf hon—

ystyr "dull angladdol" ("*funerary method*") yw dull ar gyfer gwaredu gweddillion dynol perthnasol yng Nghymru;

ystyr "dull angladdol modern" ("*modern funerary method*") yw dull angladdol heblaw—

- (a) claddu,
- (b) amlosgi, neu
- (c) dull angladdol sy'n weithgaredd morol trwyddedadwy at ddibenion Rhan 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (gweler adran 66 o'r Ddeddf honno).

2 Rheoleiddio dulliau angladdol modern

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth sy'n rheoleiddio dull angladdol modern penodedig.

(2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon (ymhlith pethau eraill) gynnwys darpariaeth ynghylch—

- (a) modd cyflawni dull angladdol modern;
- (b) ym mha leoedd neu o dan ba amgylchiadau y caniateir cyflawni dull angladdol modern;
- (c) y personau y caniateir iddynt gyflawni dull angladdol modern;
- (d) dylunio, adeiladu neu gynnal a chadw cyfleusterau neu offer i'w defnyddio mewn dull angladdol modern neu mewn cysylltiad â dull angladdol modern;

- (e) awdurdodiadau sy'n ofynnol mewn perthynas â gwaredu gweddillion dynol perthnasol drwy ddull angladdol modern (gan gynnwys dogfennau neu brosesau ymgeisio sy'n ymwneud â'r awdurdodiadau hynny);
 - (f) yr hyn sydd i'w wneud â'r canlynol—
 - (i) unrhyw ddeunydd y mae gweddillion dynol perthnasol wedi eu lleihau iddo drwy ddull angladdol modern;
 - (ii) unrhyw beth arall sy'n deillio o ddull angladdol modern;
 - (g) gofynion cofrestru mewn perthynas â'r hyn a wneir o dan baragraff (f);
 - (h) codi ffioedd mewn perthynas ag arfer swyddogaethau a roddir gan y rheoliadau;
 - (i) y dibenion y mae treuliau sy'n ymwneud â dull angladdol modern i'w trin fel treuliau angladd mewn perthynas â hwy;
 - (j) cadw cofnodion;
 - (k) darparu gwybodaeth i bersonau a bennir yn y rheoliadau neu i'r cyhoedd.
- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru arfer y pwerau o dan yr adran hon i sicrhau bod yna ddarpariaeth, mewn perthynas â phob dull angladdol modern penodedig—
- (a) sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob gwarediad ar weddillion dynol perthnasol drwy'r dull gael ei gofrestru,
 - (b) ynghylch sut y mae'r cofrestriad hwnnw i'w gyflawni a chan bwy, ac
 - (c) ynghylch sut y mae'r gofrestr i'w chadw a chan bwy.

3 Rheoliadau gorfodi

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth at ddibenion monitro a gorfodi cydymffurfiaeth â rheoliadau o dan adran 2.
- (2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon (ymhlith pethau eraill) gynnwys darpariaeth—
 - (a) sy'n rhoi—
 - (i) pwerau archwilio;
 - (ii) pwerau i fynd i mewn, chwilio, ymafael neu gadw;
 - (iii) pwerau i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu neu i eitemau gael eu dangos;
 - (iv) pwerau i'w gwneud yn ofynnol i unigolyn fod yn bresennol mewn lle ac ateb cwestiynau;
 - (v) pwerau i ddatgymalu cyfleusterau neu offer neu i gymryd samplau o sylweddau;
 - (b) sy'n creu troseddau y mae modd eu cosbi ar euogfarn ddiannod drwy ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol;
 - (c) sy'n rhoi pŵer i osod cosb ariannol benodedig ar berson, pan ddangosir y tu hwnt i amheuaeth resymol fod y person wedi cymryd rhan mewn ymddygiad sy'n gyfystyr â throedd o dan y rheoliadau.
- (3) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon roi pwerau i wneud y canlynol, ond dim ond ar awdurdod gwarant a ddyroddir gan ynad heddwch—

- (a) defnyddio grym rhesymol;
 - (b) mynd i mewn i annedd breifat.
- (4) Rhaid i Weinidogion Cymru arfer y pwerau o dan yr adran hon i sicrhau bod yna, mewn perthynas â phob dull angladdol modern a reoleiddir o dan adran 2—
- (a) darpariaeth ynghylch archwilio cyfleusterau gan berson a benodir gan neu o dan reoliadau o dan yr adran hon, a
 - (b) unrhyw ddarpariaeth arall at ddibenion monitro a gorfodi cydymffurfiaeth y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol.
- (5) Mae is-adrannau (6) a (7) yn gymwys pan fo rheoliadau o dan yr adran hon yn rhoi pŵer i osod cosb ariannol benodedig.
- (6) Caiff y rheoliadau gynnwys darpariaeth—
- (a) ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth osod cosb;
 - (b) ynghylch swm cosb, na chaniateir iddi fod yn fwy na'r uchafswm y gellid ei osod ar euogfarn ddiannod;
 - (c) ar gyfer gosod llogau neu gosbau ychwanegol am dalu'n hwyr;
 - (d) sy'n rhoi hawliau i apelio yn erbyn cosb;
 - (e) ynghylch gorfodi cosb.
- (7) Rhaid i'r rheoliadau ddarparu—
- (a) na chaniateir gosod cosb o dan y rheoliadau ar berson mewn perthynas ag ymddygiad sy'n gyfystyr â throedd—
 - (i) os oes achos wedi ei ddwyn yn erbyn y person am y drosedd honno mewn perthynas â'r ymddygiad hwnnw a bod yr achos yn parhau, neu
 - (ii) os yw'r person wedi ei ddyfarnu'n euog o'r drosedd honno mewn perthynas â'r ymddygiad hwnnw, a
 - (b) na chaniateir dwyn achos yn erbyn person mewn perthynas ag ymddygiad sy'n gyfystyr â throedd os yw'r person wedi cael cosb o dan y rheoliadau mewn perthynas â'r ymddygiad hwnnw.
- (8) Mae symiau a adenillir mewn perthynas â chosbau ariannol penodedig o dan reoliadau o dan yr adran hon i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru.

4 Caniatâd i brofi dulliau angladdol modern

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ganiatáu i berson gyflawni dull angladdol modern am gyfnod cyfyngedig, gyda golwg ar benderfynu a ddylai'r dull hwnnw gael ei reoleiddio o dan adran 2.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru arfer y pŵer hwnnw i sicrhau mai dim ond yn unol â'r canlynol y caniateir cyflawni'r dull—
- (a) telerau hawlen ysgrifenedig a roddwyd i'r person gan Weinidogion Cymru, a
 - (b) y rheoliadau.
- (3) Rhaid i reoliadau o dan yr adran hon—

- (a) ei gwneud yn ofynnol i hawlen bennu—
 - (i) y dull y mae'n ymwneud ag ef;
 - (ii) y person y mae'n cael ei rhoi iddo;
 - (iii) y cyfnod pryd y mae'n cael effaith;
 - (b) darparu mai dim ond pan fo'r person dan sylw wedi rhoi ei gydsyniad cyn marw i waredu ei weddillion drwy'r dull hwnnw y caniateir i weddillion dynol gael eu gwaredu drwy ddull;
 - (c) gwneud darpariaeth ynghylch y modd a'r ffurf y mae'r cydsyniad hwnnw i'w roi;
 - (d) ei gwneud yn ofynnol i bob gwarediad ar weddillion dynol perthnasol drwy ddull a ganiateir gael ei gofrestru;
 - (e) gwneud darpariaeth ynghylch sut y mae'r cofrestriad hwnnw i'w gyflawni a chan bwy;
 - (f) gwneud darpariaeth ynghylch sut y mae'r gofrestr i'w chadw a chan bwy.
- (4) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon wneud unrhyw ddarpariaeth y gellid ei gwneud mewn rheoliadau o dan adran 2 neu 3, yn ddarostyngedig i is-adran (5), neu ei gwneud yn ofynnol i delerau hawlen wneud hynny neu awdurdodi telerau hawlen i wneud hynny.
- (5) Ni chaniateir i reoliadau o dan yr adran hon awdurdodi hawlen i wneud darpariaeth y gellid ei gwneud o dan adran 3(2)(b) neu (c) (troseddau a chosbau ariannol penodedig).

Gweddillion ffetws

- 5 Rheoleiddio dulliau ar gyfer gwaredu gweddillion ffetws
- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo dull angladdol modern wedi ei reoleiddio o dan adran 2.
 - (2) Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â gwaredu gweddillion ffetws drwy'r un dull.
 - (3) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon gynnwys unrhyw ddarpariaeth y gellid (neu y mae'n rhaid) ei gwneud o dan adran 2 neu 3 mewn perthynas â gwaredu gweddillion dynol perthnasol.
 - (4) Yn yr adran hon mae "gweddillion ffetws" yn cynnwys gweddillion embryo.

Troseddau

- 6 Trosedd defnyddio dull angladdol modern heb ei reoleiddio
- (1) Mae person yn cyflawni trosedd os bydd yn gwaredu gweddillion dynol perthnasol yng Nghymru drwy ddull angladdol modern heb ei reoleiddio—
 - (a) gan wybod ei fod yn cyflawni dull angladdol modern, a
 - (b) gan wybod bod y dull hwnnw heb ei reoleiddio, neu gan fod yn ddi-hid a yw'r dull hwnnw heb ei reoleiddio.
 - (2) At ddibenion yr adran hon mae dull angladdol modern "heb ei reoleiddio" os nad yw wedi ei reoleiddio o dan adran 2 neu 4.
 - (3) Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan yr adran hon yn agored—

- (a) ar euogfarn ddiannod, i garchar am gyfnod heb fod yn hwy na'r terfyn cyffredinol mewn llys ynadon neu ddirwy (neu'r ddau);
- (b) ar euogfarn ar dditiad, i garchar am gyfnod heb fod yn hwy na thair blynedd neu ddirwy (neu'r ddau).

7 Trosedd darparu gwybodaeth anwir er mwyn caffael dull angladdol modern wedi ei reoleiddio

- (1) Mae person yn cyflawni trosedd os bydd yn gwneud sylwadau anwir yn anonest er mwyn caffael gwarediad gweddillion dynol perthnasol yng Nghymru drwy ddull angladdol modern y mae rheoliadau o dan adran 2 neu 4 yn gymwys iddo.
- (2) Mae is-adrannau (2) i (5) o adran 2 o Ddeddf Twyll 2006 (twyll drwy sylwadau anwir) yn gymwys at ddibenion is-adran (1).
- (3) Mae person sy'n cyflawni trosedd o dan yr adran hon yn agored—
 - (a) ar euogfarn ddiannod, i garchar am gyfnod heb fod yn hwy na'r terfyn cyffredinol mewn llys ynadon neu ddirwy (neu'r ddau);
 - (b) ar euogfarn ar dditiad, i garchar am gyfnod heb fod yn hwy na dwy flynedd neu ddirwy (neu'r ddau).

Cyffredinol

8 Diwygiadau canlyniadol

Mae Atodlen 1 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall.

9 Dehongli

(1) Yn y Ddeddf hon—

ystyr "amlosgi" ("*cremation*") yw llosgi gweddillion dynol;

ystyr "claddu" ("*burial*") yw daearu gweddillion dynol mewn unrhyw le (gan gynnwys siambr), boed uwchben y ddaear neu o dani;

mae "gweddillion dynol" ("*human remains*") yn cynnwys gweddillion plentyn marw-anedig, o fewn yr ystyr a roddir i "still-born child" gan adran 41(1) o Ddeddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953;

ystyr "gweddillion dynol perthnasol" ("*relevant human remains*") yw gweddillion dynol heblaw—

- (a) deunydd y mae gweddillion dynol wedi eu lleihau iddo drwy amlosgi yn unol â rheoliadau o dan adran 7 o Ddeddf Amlosgi 1902;
- (b) deunydd y mae gweddillion dynol wedi eu lleihau iddo drwy ddefnyddio dull angladdol modern yn unol â rheoliadau o dan adran 2 neu 4.

(2) I gael ystyr "dull angladdol" ("*funerary method*") a "dull angladdol modern" ("*modern funerary method*"), gweler adran 1.

10 Pwerau i wneud rheoliadau

(1) Caiff rheoliadau o dan y Ddeddf hon wneud—

- (a) darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed;
 - (b) darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer ardaloedd gwahanol.
- (2) Caiff rheoliadau o dan y Ddeddf hon roi swyddogaeth (gan gynnwys swyddogaeth sy'n ymwneud ag arfer disgrisiwn) i unrhyw berson a bennir yn y rheoliadau neu a benodir o dan y rheoliadau.
- (3) Caiff rheoliadau o dan y Ddeddf hon ddarparu nad yw prosesu gwybodaeth yn unol â'r rheoliadau yn torri'r canlynol—
- (a) unrhyw rwymedigaeth gyfrinachedd sydd ar y person sy'n prosesu'r wybodaeth, neu
 - (b) unrhyw gyfyngiad arall ar brosesu gwybodaeth (sut bynnag y caiff ei osod).
- (4) Caiff rheoliadau o dan adran 2 neu 3 ddiwygio neu ddiddymu darpariaeth a gynhwysir mewn Deddf gan Senedd Cymru, Mesur Cynulliad neu Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig, sy'n ymwneud â chladdu neu amlosgi neu sy'n cyfeirio atynt.
- (5) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei chynnwys mewn rheoliadau o dan is-adran (4) yn cynnwys darpariaeth ganlyniadol sy'n diwygio Deddf gan Senedd Cymru, Mesur Cynulliad neu Ddeddf gan Senedd y Deyrnas Unedig.
- (6) Yn yr adran hon mae i "prosesu" yr un ystyr ag sydd i "processing" yn Neddf Diogelu Data 2018 (gweler adran 3 o'r Ddeddf honno).

11 Y weithdrefn ar gyfer rheoliadau

- (1) Mae rheoliadau o dan y Ddeddf hon i'w gwneud drwy offeryn statudol Cymreig.
- (2) Yn ddarostyngedig i is-adran (5), mae'r rheoliadau cyntaf o dan adran 2 mewn perthynas â dull angladdol modern penodol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn a nodir yn Atodlen 2.
- (3) Yn ddarostyngedig i is-adran (5), mae'r canlynol yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd—
- (a) rheoliadau o dan adran 2 sy'n newid y ffordd y pennir dull angladdol modern mewn rheoliadau o dan yr adran honno;
 - (b) rheoliadau o dan adran 3(2) neu (3), ac eithrio pan fo'r unig ddarpariaeth a wneir gan y rheoliadau hynny yn ddarpariaeth sy'n rhoi pwerau a grybwyllir yn adran 3(2)(a) neu (3) sydd eisoes wedi eu rhoi, at ddibenion eraill, gan reoliadau presennol o dan adran 5;
 - (c) rheoliadau o dan adran 4;
 - (d) rheoliadau o dan adran 5, pan fônt yn cynnwys darpariaeth o fath y gellid ei wneud o dan adran 3(2) neu (3), ac eithrio pan fo'r unig ddarpariaeth o'r fath yn rhoi pwerau a grybwyllir yn adran 3(2)(a) neu (3) sydd eisoes wedi eu rhoi, at ddibenion eraill, gan reoliadau presennol o dan adran 5;
 - (e) rheoliadau o dan is-adran (4) neu (5) o adran 10.
- (4) Mae unrhyw reoliadau eraill o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd.

- (5) Caniateir i reoliadau y cyfeirir atynt yn is-adran (2) neu (3) gael eu gwneud heb gydymffurfio â'r is-adran honno os yw'r offeryn sy'n cynnwys y rheoliadau yn cynnwys datganiad bod Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud y rheoliadau ar frys er budd iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd.
- (6) Mae rheoliadau a wneir drwy ddibynnu ar is-adran (5) yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhau'r Senedd.
- (7) At ddibenion adran 37D(3)(a) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4), y cyfnod a bennir mewn perthynas â rheoliadau a wneir o dan is-adran (5) yw 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y gwneir y rheoliadau.
- (8) Caniateir i unrhyw ddarpariaeth y caniateir ei gwneud drwy reoliadau o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd neu weithdrefn annilysu'r Senedd gael ei gwneud drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn a nodir yn Atodlen 2.

12 Dod i rym

Daw'r Ddeddf hon i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'n cael y Cydsyniad Brenhinol.

13 Enw byr

Caniateir cyfeirio at y Ddeddf hon fel Deddf Dulliau Angladdol Modern (Cymru) 2026.

ATODLEN 1

(a gyflwynir gan adran 8)

DIWYGIADAU CANLYNIADOL

Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1926 (p. 48)

1 Yn adran 12 o Ddeddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1926 (diffiniadau), yn lle'r diffiniad o "person effecting the disposal" rhodder—

" "person effecting the disposal" —

- (a) in the case of a burial under the Burial Laws Amendment Act 1880 in the churchyard or graveyard of a parish or ecclesiastical district, means the relative, friend, or legal representative having charge of or being responsible for the burial of the deceased person;
- (b) in the case of a disposal by a method regulated under section 2 or 4 of the Modern Funerary Methods (Wales) Act 2026 (asc 00), means the person by whom the disposal is to be registered by virtue of that Act;
- (c) in any other case, means—
 - (i) the person by whom the register of burials in which the disposal is to be registered is kept, or
 - (ii) the person by whose officer that register is kept."

Deddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953 (p. 20)

2 (1) Mae adran 24 o Ddeddf Cofrestru Genedigaethau a Marwolaethau 1953 (tystysgrifau ynghylch cofrestru marwolaeth) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (3), ar ôl "disposal" mewnosoder ", by an authorised funerary method,".

(3) Yn lle is-adran (6) rhodder—

"(6) In this section—

"authorised funerary method" means—

- (a) burial,
- (b) cremation, or
- (c) a method regulated under section 2 or 4 of the Modern Funerary Methods (Wales) Act 2026 (asc 00);

"person effecting the disposal" —

- (a) in the case of a burial under the Burial Laws Amendment Act 1880 or section 4 of the Welsh Church (Burial Grounds) Act 1945, in the churchyard or graveyard of a parish or ecclesiastical district, means the relative, friend or legal personal representative having charge of or being responsible for the burial of the deceased person;

- (b) in the case of a disposal by a method regulated under section 2 or 4 of the Modern Funerary Methods (Wales) Act 2026 (asc 00), means the person by whom the disposal is to be registered by virtue of that Act;
- (c) in any other case, means—
 - (i) the person by whom the register in which the disposal is to be recorded is kept, or
 - (ii) the person by whose officer that register is kept.”

Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22)

- 3 (1) Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn adran 45C(4) (cyfyngiadau a gofynion y caniateir eu gosod neu eu galluogi), ar ôl paragraff (b) mewnosoder—
- “(ba) a restriction or requirement relating to the carrying out of any method regulated under section 2 or 4 of the Modern Funerary Methods (Wales) Act (asc 00),”.
- (3) Yn adran 45H(2) (cyfyngiadau a gofynion y caniateir eu gosod), ar ôl paragraff (c) mewnosoder—
- “(ca) in the case of a dead body in Wales, that the body be disposed of by a method regulated under section 2 of the Modern Funerary Methods (Wales) Act (asc 00);”.
- (4) Yn adran 46 (claddu neu amlosgi gan awdurdod lleol)—
- (a) yn lle is-adran (1) rhodder—
- “(1) Subsection (1A) applies where—
- (a) a person has died or been found dead in the area of a local authority, and
- (b) it appears to the authority that no suitable arrangements for the disposal of the body have been or are being made, otherwise than by the authority.
- (1A) It is the duty of the local authority to cause the body to be disposed of—
- (a) where the person died or was found dead in the area of a local authority in Wales, by—
- (i) burial,
- (ii) cremation, or
- (iii) a method regulated under section 2 of the Modern Funerary Methods (Wales) Act 2026 (asc 00);
- (b) where the person died or was found dead in the area of a local authority in Wales, by—
- (i) burial, or
- (ii) cremation.”

- (b) yn is-adran (2A)—
 - (i) hepgorer “to be buried or cremated”;
 - (ii) ar y diwedd mewnosoder “to be disposed of by—
 - (a) burial,
 - (b) cremation, or
 - (c) a method regulated under section 2 of the Modern Funerary Methods (Wales) Act 2026 (asc 00).”;
 - (c) yn is-adran (3), yn lle “(1)” rhodder “(1A)”;
 - (d) ar ôl is-adran (3) mewnosoder—
 - “(3A) An authority must not cause a body to be disposed of under subsection (1A) or (2A) above by a method regulated under section 2 of the Modern Funerary Methods (Wales) Act 2026 (asc 00) where they have reason to believe that method would be contrary to the wishes of the deceased.”;
 - (e) yn is-adran (4), ar y diwedd mewnosoder “, or any provision made by or under the Modern Funerary Methods (Wales) Act 2026 (asc 00)”;
 - (f) yn is-adran (5), yn lle “(1)”, rhodder “(1A)”;
 - (g) yn lle’r pennawd rhodder “Funerary methods”.
- (5) Yn adran 47(1) (rheoliadau ynghylch cyrff marw), ym mharagraff (a), ar ôl “disposal” mewnosoder “in England”.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4)

- 4 Yn adran 125 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (marwolaeth plant sy’n derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru)—
- (a) yn is-adran (1)(c), yn lle “gael ei gladdu neu ei amlosgi” rhodder “gael ei waredu drwy—
 - (i) ei gladdu,
 - (ii) ei amlosgi, neu
 - (iii) dull a reoleiddir o dan adran 2 o Ddeddf Dulliau Angladdol Modern (Cymru) 2026 (asc 00)”;
 - (b) yn is-adran (3), ar ôl “amlosgi” mewnosoder “neu ddefnyddio dull a reoleiddir o dan Ddeddf Dulliau Angladdol Modern (Cymru) 2026 (asc 00)”;
 - (c) yn is-adran (6), yn lle “claddu, amlosgi neu gynnal archwiliad anatomegol o gorff y person ymadawedig” rhodder “gwaredu corff y person ymadawedig drwy unrhyw ddull a bennir yn is-adran (1)(c), neu drwy gynnal archwiliad anatomegol ohono”.

ATODLEN 2
(a gyflwynir gan adran 11(2))

GWEITHDREFN UWCH AR GYFER Y RHEOLIADAU CYNTAF

Ymgynghori ymlaen llaw

- 1 Os yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud rheoliadau o dan adran 2 sef y rheoliadau cyntaf o dan yr adran honno mewn perthynas â dull angladdol penodol, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

Rheoliadau drafft

- 2 (1) Os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl ymgynghori, yn ystyried ei bod yn briodol bwrw ymlaen â gwneud y rheoliadau, rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron Senedd Cymru—
- (a) rheoliadau drafft, a
 - (b) dogfen sy'n esbonio'r rheoliadau.
- (2) Ni chaiff Gweinidogion Cymru weithredu o dan y paragraff hwn cyn diwedd y cyfnod o ddeuddeg wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y dechreuodd yr ymgynghoriad.

Cymeradwyo rheoliadau drafft

- 3 (1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau gan ddilyn ffurf y rheoliadau drafft a osodwyd o dan baragraff 2 os yw'r rheoliadau drafft, ar ôl i'r cyfnod o 40 o ddiwrnodau ddod i ben, wedi eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.
- (2) Ond mae'r weithdrefn ym mharagraff 4 i fod yn gymwys i'r rheoliadau drafft yn hytrach na'r weithdrefn yn y paragraff hwn—
- (a) os yw Senedd Cymru yn penderfynu felly o fewn y cyfnod o 30 o ddiwrnodau, neu
 - (b) os yw pwyllgor yn Senedd Cymru a chanddo'r gorchwyl o adrodd ar y rheoliadau drafft yn argymhell felly o fewn y cyfnod o 30 o ddiwrnodau ac nad yw Senedd Cymru drwy benderfyniad yn gwrthod yr argymhelliad o fewn y cyfnod hwnnw.

Ymestyn gwaith craffu

- 4 (1) Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw—
- (a) i unrhyw sylwadau,
 - (b) i unrhyw benderfyniad gan Senedd Cymru, ac
 - (c) i unrhyw argymhellion gan bwyllgor yn Senedd Cymru a chanddo'r gorchwyl o adrodd ar y rheoliadau drafft,
- a wneir yn ystod y cyfnod o 60 o ddiwrnodau mewn cysylltiad â'r rheoliadau drafft.
- (2) Os yw'r rheoliadau drafft wedi eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru ar ôl i'r cyfnod o 60 o ddiwrnodau ddod i ben, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau gan ddilyn ffurf y rheoliadau drafft.

- (3) Os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl i'r cyfnod o 60 o ddiwrnodau ddod i ben, yn dymuno bwrw ymlaen â'r rheoliadau drafft ond gyda newidiadau o sylwedd, caiff Gweinidogion Cymru osod gerbron Senedd Cymru—
 - (a) rheoliadau drafft diwygiedig, a
 - (b) datganiad sy'n rhoi crynodeb o'r newidiadau a gynigir.
- (4) Os yw'r rheoliadau drafft diwygiedig wedi eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau gan ddilyn ffurf y rheoliadau drafft diwygiedig.

Dehongli

- 5 (1) At ddibenion y paragraff hwn mae rheoliadau wedi eu gwneud gan ddilyn ffurf y rheoliadau drafft neu'r rheoliadau drafft diwygiedig os nad ydynt yn cynnwys newidiadau o sylwedd i'w darpariaethau.
- (2) Yn yr Atodlen hon, mae cyfeiriadau at y cyfnodau "30 o ddiwrnodau", "40 o ddiwrnodau" a "60 o ddiwrnodau" mewn perthynas ag unrhyw rheoliadau drafft yn gyfeiriadau at y cyfnodau o 30, 40 a 60 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y gosodwyd y rheoliadau drafft gerbron Senedd Cymru.
- (3) At y diben hwnnw nid oes unrhyw ystyriaeth i gael ei rhoi i unrhyw adeg pan fydd Senedd Cymru wedi ei diddymu neu ar doriad am fwy na 4 diwrnod.

E03607884

978-1-5286-6498-1